Cynnig i gau Ysgol Blaenau

Dogfen Ymgynghori



sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council

Cynnwys

1. Cyflwyniad 4
2. Cefndir 4
3. Yr Ysgol sy'n Destun y Cynnig 8
4. Y Cynnig – Cau Ysgol Blaenau 50
5. Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion 64
6. Yr ysgol/ysgolion y mae'r cynnig yn debygol o effeithio arni/arnynt 71
7. Yr effaith ar ansawdd a safonau mewn addysg 77
8. Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP) 85
9. Cyllid 87
10. Tir ac Adeiladau 94
11. Teithio a Chludiant 95
12. Trefniadau Derbyn 99
13. Y Broses Ymgynghori 102
Atodiad A – Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned 109
Atodiad B – Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg 118
Atodiad C – Asesiad Effaith Integredig 135
Atodiad D – Ffurflen Ymateb 171

Geirfa o Fyrfoddau

ACEHI – Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is

AD – Adnoddau Dynol

ADY – Anghenion Dysgu Ychwanegol

ALl – Awdurdod Lleol

CADY – Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol

CCUHP – Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

CDLl – Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig

CDU – Cynllun Datblygu Unigol

CGCB – Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau

CRhAF – Cymdeithas Rhieni, Athrawon a Ffrindiau

CSCA – Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg

CYBLD – Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion

eFSM – Prydau Ysgol Am Ddim

AEI – Asesiad Effaith Integredig

LIC – Llywodraeth Cymru

MALIC – Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

APP – Asesiad Perfformiad Panel

RhMA – Rhaglen Moderneiddio Addysg

RhYLl – Rheolaeth Ysgolion yn Lleol

SYG – Swyddfa Ystadegau Gwladol

TGCh – Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

UPFSM – Prydau Ysgol am Ddim i Holl Blant Ysgolion Cynradd

1. Cyflwyniad

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn amlinellu cynnig yr Awdurdod Lleol i newid y ddarpariaeth addysg gynradd yn wardiau Pen-y-groes a Llandybïe. Mae'r cynnig yn cynnwys cau Ysgol Blaenau o 31 Rhagfyr 2027, a'r disgwyl yw y bydd y disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Gymraeg Pen-y-groes neu Ysgol Llandybïe o 1 Ionawr 2028.

Yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (2026), mae'r ddogfen hon yn rhoi gwybodaeth glir a chynhwysfawr i randdeiliaid, gan gynnwys rhieni, gofalwyr, staff, llywodraethwyr ac aelodau o'r gymuned leol, er mwyn gallu ystyried y cynnig yn wybodus. Mae'n amlinellu sefyllfa bresennol Ysgol Blaenau, y rhesymau pam ystyrir bod angen newid, yr opsiynau a archwiliwyd (gan gynnwys dewisiadau amgen yn hytrach na chau), ac effeithiau addysgol, ariannol a chymunedol disgwyliedig yr opsiwn a ffefrir.

Mae'r cynnig wedi'i ddatblygu yn dilyn adolygiad manwl ar sail tystiolaeth o gynaliadwyedd Ysgol Blaenau yn y tymor hir. Mae'r adolygiad hwn wedi nodi nifer o heriau mawr, gan gynnwys nifer disgyblion sy'n gyson isel ac yn gostwng, lefel uchel o leoedd gwag, a diffyg sylweddol a chynyddol o ran y gyllideb. Yn unol â gofynion y Cod, mae'r Awdurdod wedi ystyried y ffactorau hyn ochr yn ochr â'r angen i sicrhau defnydd effeithlon o adnoddau, argaeledd lleoedd ysgol digonol ac addas, a'r potensial i gynnal neu wella safonau addysgol a deilliannau dysgwyr.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gyfle i'r holl randdeiliaid fod yn rhan ystyrlon o'r broses o wneud penderfyniadau. Gwahoddir ymgyngoreion i rannu eu barn, gofyn cwestiynau, a chynnig opsiynau amgen. Mae'r ymgynghoriad wedi'i ddylunio mewn modd sy'n sicrhau bod gwybodaeth ddigonol yn cael ei darparu, bod digon o amser yn cael ei ganiatáu ar gyfer ymatebion, a bod yr holl sylwadau ddaw i law yn cael eu hystyried yn gydwybodol cyn gwneud unrhyw benderfyniad, yn unol â'r canllawiau yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026). Cyn penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig ai peidio, bydd yr Awdurdod yn ystyried yr holl adborth sy'n dod i law yn ystod y cyfnod ymgynghori.

Bydd y cyfnod ymgynghori yn cael ei gynnal rhwng 10 Tachwedd a 22 Rhagfyr 2026. Ni fydd unrhyw ymatebion sy'n dod i law ar ôl y dyddiad cau yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses ymgynghori hon.

2. Cefndir

Mae cyfrifoldeb cyfreithiol ar yr Awdurdod Lleol i adolygu nifer a math yr ysgolion sydd ganddo ac a yw'n llwyddo i wneud y defnydd gorau o adnoddau a chyfleusterau er mwyn cyflawni ei ddyheadau addysgol ar gyfer holl blant Sir Gaerfyrddin.

Cafodd Strategaeth Rhaglen Moderneiddio Addysg Cyngor Sir Caerfyrddin ei chymeradwyo gan Gabinet y Cyngor ar 18 Tachwedd 2024, a'i diben yw cyflawni dyheadau'r Awdurdod Lleol o ran moderneiddio ac ad-drefnu ysgolion. Fe'i hategir gan set o **amcanion strategol** ac **egwyddorion addysg gynradd.** Pedwar o'r amcanion yw:

- Datblygu rhwydwaith o ysgolion sy'n effeithiol yn addysgol ac sy'n defnyddio adnoddau'n effeithlon ac yn gynaliadwy yn y tymor hir;
- Datblygu seilwaith ym mhob ysgol sy'n eu galluogi i ddarparu addysg yn yr 21ain ganrif, gan hwyluso'r gwaith o wireddu'r amcanion craidd ar gyfer codi safonau addysgol a chynnal perfformiad o safon uchel;
- Darparu dull strategol o ran buddsoddiadau cyfalaf, ac integreiddio hynny â rhaglen i resymoli'r ddarpariaeth ledled y rhwydwaith ysgolion er mwyn cyflenwi'r galw yn effeithiol;
- Gwella effeithlonrwydd a dichonoldeb addysgol y sector ysgolion drwy leihau nifer y lleoedd gwag hyd at lefel resymol, a hwyluso, lle bo hynny'n ymarferol, y dewisiadau a fynega'r rhieni gan ymateb yn effeithiol i newidiadau demograffig.

Mae'r amcanion strategol yn cyd-fynd â set o **Egwyddorion Addysg Gynradd** sy'n nodau uchelgeisiol ar gyfer rhwydwaith ysgolion cynradd yr Awdurdod. Yr egwyddorion yw:

- Anelu at gael arweinyddiaeth gynaliadwy, gydag arweinwyr sy'n rhydd i arwain a rheoli, heb unrhyw ymrwymiad addysgu parhaol amser llawn.
- Anelu at sefyllfa lle na fydd mwy na 2 grŵp blwyddyn ym mhob dosbarth addysgu.
- Ymdrechu i gynnal nifer disgyblion sy'n ddigonol i gefnogi'r trefniadau strwythurol uchod.
- Bod yn ddichonol yn ariannol o dan fframwaith ariannu Rheoli Ysgolion yn Lleol a gweithredu yn y tymor hir heb ddiffyg cyllidebol.
- Cael mynediad at gyfleusterau addysgu awyr agored addas i wella dysgu a chefnogi llesiant corfforol ar draws yr ysgol.
- Bod yn gwbl gynhwysol ac yn hygyrch i bawb.
- Cael cyfleusterau modern sy'n cefnogi dysgu digidol.
- Creu amgylchedd dysgu o safon uchel sy'n cefnogi llesiant yr holl ddysgwyr ac sy'n gwella eu cynnydd a'u cyflawniadau ar draws ystod eang o sgiliau a meysydd cwricwlwm.

Yn unol â'r egwyddorion a'r amcanion strategol hyn, gall pob ysgol yn Sir Gaerfyrddin gael ei gwerthuso yn erbyn cyfres o feini prawf seiliedig ar dystiolaeth, sy'n caniatáu gwneud asesiad o hyfywedd gweithredol yr ysgol, a gwneud penderfyniadau ar sail angen buddsoddi cymharol pob ysgol. Mae hyn yn galluogi'r Awdurdod i bennu rhaglen yn wrthrychol ar gyfer yr adolygiad strategol o'r rhwydwaith ysgolion a buddsoddi mewn moderneiddio'r ystâd ysgolion mewn modd sy'n dryloyw ac yn amlwg yn deg.

Mae safle o fewn continwwm hyfywedd yn cael ei neilltuo i bob un o ysgolion yr Awdurdod, er mwyn cadarnhau'r prognosis ar gyfer yr ysgol honno. Mae'r crynodeb o'r asesiad hyfywedd yn sail ar gyfer nodi prosiectau moderneiddio a chynigion rhesymoli o fewn y rhaglen gyffredinol.

Defnyddir y **meini prawf hyfywedd** i asesu hyfywedd ysgol neu grŵp o ysgolion mewn ardal benodol, ac i benderfynu a fyddem am gynnal adolygiad o hyfywedd yr ysgol. Mae cyd-destun pob ysgol yn wahanol a gallai ysgol unigol brofi heriau gan unrhyw un o'r meini prawf hyfywedd, neu gyfuniad ohonynt.
Y meini prawf hyfywedd yw:

- Ansawdd a safonau mewn addysg
- Arweinyddiaeth
- Nifer y disgyblion, tueddiadau a rhagolygon
- Lleoedd gwag
- Hyfywedd ariannol
- Cyflwr ac addasrwydd adeiladau'r ysgol
- Cyfleoedd cyllido/adfywio cydweithredol

Rhaid i benderfyniadau a wneir gan y Cyngor o fewn Strategaeth y Rhaglen Moderneiddio Addysg ymateb i dirwedd addysg sy'n newid. Mae awdurdodau lleol ledled Cymru yn wynebu pwysau ariannol cynyddol, ynghyd â chyfraddau genedigaethau gostyngol, gostyngiad yn nifer y disgyblion, cynnydd mewn lleoedd ysgol gwag, heriau recriwtio, a chostau adeiladu a chynnal a chadw cynyddol. Mae gostyngiad yn nifer y disgyblion ar y gofrestr yn duedd allweddol sy'n wynebu'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yng Nghymru, a rhagwela ffigurau Llywodraeth Cymru ostyngiad o 15% yn nifer y disgyblion erbyn 2041. Mae'r sefyllfa hyd yn oed yn fwy difrifol yn y sector cynradd ar hyn o bryd, ac yn Ionawr 2026 roedd mwy na 1000 yn llai o ddysgwyr cynradd oedran statudol yn Sir Gaerfyrddin nag yn 2021. Mae'n ofynnol i bob ysgol feddu ar gapasiti disgyblion sydd wedi'i gyfrifo'n ffurfiol, ac yn Ionawr 2026 roedd mwy na 3,500 o leoedd gwag ar draws y 94 o ysgolion cynradd sydd yn y sir. Mae hyn gyfystyr â thros 20 y cant o gyfanswm capasiti disgyblion cynradd ysgolion Sir Gaerfyrddin.

Mae gan hyn oblygiadau ar gynaliadwyedd ariannol y rhwydwaith ysgolion, gan fod cyllidebau ysgolion yn gysylltiedig yn uniongyrchol â niferoedd disgyblion, a hynny o ran cyfanswm y cyllid a gaiff Sir Gaerfyrddin gan Lywodraeth Cymru, ac o ran sut caiff y cyllid hwn ei ddirprwyo wedyn gan yr Awdurdod Lleol i ysgolion unigol drwy'r fformiwla gyllido.

Mae rhwydwaith ysgolion y Sir wedi wynebu pwysau ariannol cynyddol ers 2024. Mae mwy a mwy o ysgolion mewn diffyg ariannol eisoes, gan fod nifer y lleoedd gwag ar draws yr ystad ysgolion wedi cynyddu. Mae llai o ddisgyblion mewn ysgolion, a'r cynnydd mewn lleoedd gwag wedi lleihau hyfywedd ariannol llawer mwy o ysgolion. Gall pwysau ariannol mewn ysgolion gael effaith sylweddol ar eu gallu i ddarparu addysg o safon i blant. Yn naturiol, mae effaith hyn yn amlycach mewn

ysgolion lle mae niferoedd y disgyblion yn llai neu'n gostwng. Yn Ionawr 2024 roedd gan 18 o ysgolion Sir Gaerfyrddin 50 neu lai o ddisgyblion. Erbyn Ionawr 2026 roedd y rhif hwn wedi cynyddu i 22 o ysgolion.

Y gyllideb o £158.9m ar gyfer ysgolion yw'r mwyaf o blith holl wasanaethau'r Cyngor. Ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2025-26, roedd y gyllideb hon mewn diffyg o £9.5m. Mae'r straen ariannol cynyddol sydd ar ysgolion yn peri risg sylweddol i allu'r Cyngor i ddarparu ei holl wasanaethau eraill i drigolion y sir. O ganlyniad, mae'r Cabinet wedi cytuno bod cynnydd tuag at foderneiddio a rhesymoli ysgolion y sir yn hanfodol, os yw cyllidebau ysgolion yn mynd i aros yn fforddiadwy. Mae angen lleihau nifer y safleoedd ysgol er mwyn gwneud hyn, yn ogystal ag arbedion eraill. Cymeradwyodd y Cabinet adroddiad strategaeth y gyllideb refeniw yn ei gyfarfod ar 17 Chwefror 2025. Fe'i cymeradwywyd wedyn gan y Cyngor llawn ar 26 Chwefror 2025.

Yn ogystal â hyn, mae'r naratif rheoleiddio dros y blynyddoedd diwethaf wedi bod yn fwyfwy clir. Y neges gyson yn arolygiad Estyn (2023), ymweliad Estynedig Arolygwyr Arweiniol Awdurdodau Lleol Estyn (Mehefin 2025) a'r Asesiad Perfformiad gan Banel (2025) yw bod gan Sir Gaerfyrddin strategaeth moderneiddio ysgolion gredadwy, ond bod y gwaith o'i gweithredu wedi bod yn rhy araf o ystyried y pwysau demograffig ac ariannol mae'r system addysg yn ei wynebu. Mae Estyn wedi dod i'r casgliad ddwywaith fod oedi wedi atal yr awdurdod rhag cyflawni ei gynlluniau ad-drefnu i'r graddau sydd ei angen. Mae Estyn hefyd wedi gwneud cysylltiad penodol rhwng ad-drefnu ysgolion a lleoedd gwag, diffygion cynyddol ysgolion, a risgiau ariannol i'r Cyngor. Bu i'r Asesiad Perfformiad gan Banel atgyfnerthu'r angen am newid trawsnewidiol amserol mewn ymateb i ddirywiad demograffig a phwysau ariannol. Gyda'i gilydd mae rheoleiddwyr o'r farn nad absenoldeb strategaeth yw'r risg fwyaf mwyach, ond arafwch wrth ei chyflawni.

Mae'n bwysig felly i ystyried y cynnig a gyflwynir yn y Ddogfen Ymgynghori hon yn y cyd-destun ehangach a amlinellir uchod.

2.1 Trafodaethau Llunio (Cam 0)

Yn dilyn trafodaeth lunio a gynhaliwyd ar 16 Medi 2025 gyda'r Pennaeth, y Corff Llywodraethu a'r Aelod Lleol ar gyfer Ysgol Blaenau ynglŷn â sefyllfa bresennol yr ysgol, cafodd ymateb manwl a chynigion yr ysgol eu cyflwyno gan yr ysgol i'w hystyried. Nod y cynigion hyn oedd cefnogi cynaliadwyedd hirdymor Ysgol Blaenau ac maent wedi'u hymgorffori fel opsiynau 2 i 8 yn y tabl opsiynau amgen.

Cynhaliwyd cyfarfod trafodaeth lunio pellach ar 14 Mai 2026 gyda'r Pennaeth, Cadeirydd y Llywodraethwyr a'r Dirprwy Gadeirydd i esbonio'r broses ymgynghori statudol a'i goblygiadau, cyn bod unrhyw benderfyniad ffurfiol yn cael ei wneud ar y cynnig i gau Ysgol Blaenau.

Roedd adborth yr ysgol yn cynnwys y wybodaeth ganlynol ynglŷn â'r ysgol:

- Mae llywodraethwyr yn gwerthfawrogi tryloywder a deialog gynnar.
- Pryderon: nifer isel y disgyblion, effaith cau'r Cylch, gofyn i'r ysgol ymestyn yr ystod oedran i 3-11.

- Cynigion yr ysgol: ymestyn yr ystod oedran, datblygu darpariaeth ADY, sefydlu Darpariaeth Anogaeth.
- Ymgysylltu cymunedol: lansio grŵp babis/plant bach; tipyn o ddiddordeb gan deuluoedd.
- Amcanestyniad o nifer y disgyblion: 29 oedd y disgwyl ym Medi 2026; enw da y tu hwnt i'r dalgylch.
- Cyllid: cydnabod y diffyg; nid yw'r model ariannu yn adlewyrchu gwerth ysgol fach.
- Arweinyddiaeth: ffafrio pennaeth oedd yn addysgu; adroddiad Estyn cadarnhaol yn 2024.
- Cyflwr yr adeilad: boddhaol ar y cyfan; angen atgyweirio'r to; gwelliannau dysgu yn yr awyr agored yn mynd rhagddynt.
- Cyfleoedd prydlesu: diddordeb ar gyfer gofal plant; bwriad i ddatblygu hwb cymunedol.
- Darpariaeth blynyddoedd cynnar: yr ysgol am edrych ar bartneriaethau ac opsiynau gofal plant dwyieithog.
- Y llywodraethwyr wedi ymroi i gydweithio â'r ALl; ailedrych ar gynigion Cynllun Busnes 2019.

3. Yr Ysgol sy'n Destun y Cynnig

Mae Ysgol Blaenau yn ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion 4-11 oed, sydd wedi ei lleoli ym mhentref Blaenau ger Rhydaman. Sefydlwyd yr ysgol yn 1911, ac mae'n gwasanaethu cymunedau Blaenau a Chae'r-bryn. Dangosodd data diweddaraf Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) 2026 fod 28 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd.

Llun o Ysgol Blaenau	**Map Lleoliad Ysgol Blaenau**
	

Cafodd Ysgol Blaenau ei nodi ar gyfer adolygiad yn dilyn Asesiad Hyfywedd o bob Ysgol Gynradd. Aseswyd yr ysgol yn erbyn y Meini Prawf Hyfywedd a nodir yn Strategaeth y Rhaglen Moderneiddio Addysg sydd wedi'i diweddaru, fel y'i cymeradwywyd gan y Cabinet ar 18 Tachwedd 2024.

Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026) yn diffinio ysgol wledig gan ddefnyddio dosbarthiad gwledig-trefol y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS). O dan y diffiniad hwn nid ystyrir ysgol yn wledig oni bai ei bod wedi'i lleoli mewn anheddiad a ddynodwyd yn bentref, neu mewn pentrefan neu ardal wasgaredig, naill ai mewn cyd-destun anghysbell neu lai poblog. Yn ogystal, dywed y Cod mai dim ond ysgolion a nodwyd drwy'r dynodiad hwn ac a gynhwyswyd ar y rhestr swyddogol o ysgolion gwledig yn Atodiad F (o'r Cod) sy'n cael eu trin fel rhai gwledig at ddibenion y Cod.

Nid yw Ysgol Blaenau yn bodloni'r meini prawf hyn, gan nad yw'n cael ei dosbarthu o fewn y categorïau anheddiad gwledig diffiniedig hyn nac wedi'i chynnwys ar y rhestr swyddogol o ysgolion gwledig dynodedig. Felly, yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026), nid yw'n cael ei hystyried yn ysgol wledig, ac nid yw'r darpariaethau penodol sy'n berthnasol i ysgolion gwledig, megis y rhagdybiaeth yn erbyn cau, yn berthnasol.

3.1 Gwybodaeth am yr Ysgol – Ysgol Blaenau

		Ysgol Blaenau
Lleoliad yr Ysgol		Blaenau, Rhydaman, SA18 3BQ
Ystod Oedran		4-11
Categori'r Ysgol (Cymunedol, Gwirfoddol a Gynorthwyir, Gwirfoddol a Reolir)		Cymunedol
Categori laith		3 – Cyfrwng Cymraeg
Nifer y disgyblion ar y gofrestr (CYBLD 2026)	**Oedran Meithrin**	3
	Derbyn – B.6	25
	Cyfanswm	**28**
Nifer y disgyblion ar y gofrestr yn flaenorol (gan gynnwys Meithrin) (CYBLD)	**Ionawr 2025**	39
	Ionawr 2024	38
	Ionawr 2023	43
	Chwefror 2022	41
Amcanestyniadau o Nifer y Disgyblion (ac eithrio Meithrin) (2026)	**Ionawr 2027**	26
	Ionawr 2028	20
	Ionawr 2029	20
	Ionawr 2030	17
	Ionawr 2031	18
Capasiti Meithrin 25/26		11

Capasiti Derbyn-B6 25/26	87
Cyfanswm Capasiti 25/26	98
% y lleoedd gwag yn CYBLD 2026	71%
Capasiti Meithrin 26/27	12
Capasiti Derbyn-B6 26/27	87
Cyfanswm Capasiti 26/27	99
Cyfran o'r gyllideb fesul disgybl (2025/26)	£5,843
Cyllideb Ysgol (2025/2026)	£227,868
Sefyllfa'r gyllideb ar ddiwedd 2025/26	Diffyg o £287,857
Cyfran o'r gyllideb fesul disgybl (2026/27)	£6,503
Cyllideb Ysgol (2026/27)	£182,070
Sefyllfa'r gyllideb ar ddiwedd 2026/27	Diffyg o £362,566
Canlyniad Arolygiad Estyn	Nid mewn categori gweithgarwch dilynol Ysgol Gynradd Blaenau - Estyn
Categori Cyflwr Adeilad (2024)	B
Addasrwydd Adeiladau'r Ysgol (2024)	B

(CYBLD) - Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion

Graddau Categori Cyflwr Adeilad		**Addasrwydd**	
Gradd A	Fel newydd	Gradd A	Cyfleusterau da sy'n addas ar gyfer addysgu, dysgu a llesiant yn yr ysgol.
Gradd B	Yn weithredol ddiogel, ac yn dangos mân ddirywiad yn unig	Gradd B	Boddhaol, yn perfformio fel y bwriadwyd, ond nid yw'n cefnogi darparu'r cwricwlwm mewn rhai meysydd.
Gradd C	Gweithredol ond angen gwaith atgyweirio neu amnewid mawr yn y tymor byr i'r tymor canolig.	Gradd C	Gwael, mae dulliau addysgu yn rhwystro/cael effaith andwyol ar drefniadaeth yr ysgol.
Gradd D	Anweithredol neu risg ddifrifol o fethiant mawr	Gradd D	Gwael, mae'r adeiladau'n rhwystro gallu'r staff i ddarparu'r cwricwlwm yn ddifrifol.

3.2 Trefniadau Cyfredol – Y Status Quo yn Ysgol Blaenau

Mae Ysgol Blaenau yn ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Cymraeg sydd wedi ei lleoli ym mhentref Blaenau. Mae'r ysgol yn darparu addysg i ddisgyblion rhwng 4 ac 11 oed.

Dangosodd data diweddaraf y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgybl (CYBLD) (2026) fod 28 o ddisgyblion ar y gofrestr, 3 disgybl o dan oedran ysgol statudol (Meithrin) a 25 o oedran ysgol statudol (derbyn ac uwch).

O blith y 28 o ddisgyblion ar y gofrestr yn CYBLD 2026, roedd 4 o'r disgyblion yn dod o ddalgylch Ysgol Blaenau tra bod y 24 disgybl arall yn dod o'r tu allan i ddalgylch Ysgol Blaenau. Yn ogystal, roedd 41 o ddisgyblion a oedd yn byw yn nalgylch Ysgol Blaenau yn mynychu ysgolion eraill.

Capasiti'r ysgol ar gyfer blwyddyn academaidd 2025-2026 oedd 98 lle.
Capasiti'r ysgol ar gyfer blwyddyn academaidd 2026-2027 yw 99 lle.

Mae'r ysgol yn cael ei harwain gan bennaeth sydd â 0.8 o gyfrifoldeb addysgu.

Mae gan yr ysgol ddau ddosbarth. Un dosbarth o ddisgyblion Meithrin i Flwyddyn 2 ac ail ddosbarth o Flynyddoedd 3–6 (Blwyddyn academaidd 2025-26).

Mae'r ysgol yn wynebu sawl her y mae angen mynd i'r afael â nhw, ochr yn ochr â ffactorau demograffig ehangach y mae'n rhaid eu hystyried, er mwyn sicrhau bod yr Awdurdod Lleol yn gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd ei ddarpariaeth ysgolion cynradd, gan gynnwys:

Niferoedd isel o ddisgyblion sy'n gostwng

Dengys data CYBLD Ysgol Blaenau ostyngiad clir yn nifer y disgyblion dros y pum mlynedd diwethaf, o 41 o ddisgyblion yn 2022 i 28 yn 2026 (gostyngiad o tua 32%). Er bod amrywiadau bach, mae'r duedd gyffredinol am i lawr, a cheir gostyngiad nodedig yn y flwyddyn ddiwethaf a niferoedd isel yn gyson ar draws sawl grŵp blwyddyn, sy'n dangos sefyllfa barhaus lle mae nifer y disgyblion yn isel ac yn gostwng. Mae'r garfan gymharol fawr o 9 disgybl sydd ym Mlwyddyn 5 ar hyn o bryd yn debygol o gael effaith bellach ar y sefyllfa hon, gan arwain o bosibl at ostyngiad sylweddol arall ym mhoblogaeth gyffredinol yr ysgol yn y dyfodol agos, fel y dangosir yn y tabl canlynol.

Blwyddyn CYBLD	Meithrin Amser Llawn	Derbyn	1	2	3	4	5	6	Cyfanswm
2026	3	1	2	2	6	3	9	2	28
2025	1	2	4	7	5	9	4	7	39
2024	1	4	6	4	9	4	7	3	38
2023	3	6	3	10	4	6	3	8	43
2022	5	3	10	2	5	2	8	6	41

Data Dalgylchoedd

Mae data CYBLD 2026 yn dangos mai nifer fach o ddisgyblion o ddalgylch Ysgol Blaenau sy'n mynychu'r ysgol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion sy'n byw yn nalgylch Ysgol Blaenau yn mynychu ysgolion eraill.

Cyfanswm Nifer y Disgyblion (CYBLD 2026)	**Disgyblion sy'n byw yn y dalgylch sy'n mynychu'r ysgol hon**	**Disgyblion sy'n byw y tu allan i'r dalgylch sy'n mynychu'r ysgol hon**	**Disgyblion sy'n byw yn y dalgylch sy'n mynychu ysgolion eraill**
28	4	24	41*
*Betws, Bro Banw, Cae'r Felin, Cross Hands, Gorslas, Llandeilo, Llandybïe, Llanedi, Myrddin, Pen-y-groes, Ysgol Gymraeg Rhydaman, Saron, Tŷ-croes, Y Bedol			

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod bod rhieni'n gallu mynegi ffafriaeth dros ysgolion y tu allan i'w dalgylch, a bod llawer o deuluoedd wedi dewis gwneud hynny. Fodd bynnag, rhaid i'r Awdurdod hefyd ystyried cynaliadwyedd y ddarpariaeth ysgolion a'r defnydd effeithlon o adnoddau ar draws yr ystad ysgolion gyfan wrth adolygu'r ddarpariaeth addysg.

Nifer Uchel o Leoedd Gwag

Mae cael nifer isel o ddisgyblion hefyd yn effeithio ar leoedd gwag yr ysgol.

Mae lefel uchel o leoedd gwag wedi bod yn Ysgol Blaenau dros y pum mlynedd diwethaf, fel y dangosir yn y tabl isod:

	CYBLD Hanesyddol				**CYBLD 2026**
	2022	**2023**	**2024**	**2025**	
Cyfanswm Capasiti	99	99	99	99	98
Cyfanswm Cyfrif Pennau	41	43	38	39	28
Lleoedd gwag	58	56	61	60	70
% y lleoedd gwag (wedi'i thalgrynnu i'r 1% agosaf)	59%	57%	62%	61%	71%

Fel sy'n cael ei nodi yn adran 1.21 y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026) Adnoddau addysg a goblygiadau ariannol eraill:

Os oes mwy na 10% o leoedd gwag mewn ardal yn gyffredinol, dylai awdurdodau lleol adolygu eu darpariaeth a dylent ystyried pa un ai i wneud cynigion i'w gwaredu

os bydd hyn yn gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y ddarpariaeth. Diffinnir lefel sylweddol o ddarpariaeth dros ben fel 25% neu fwy o gapasiti ysgol (fel y'i diffinnir yng Nghylchlythyr 21/2011) ac o leiaf 30 o leoedd gwag.

Mae'r data'n dangos lefelau o leoedd gwag sy'n gyson uchel, gan gynyddu o rhwng 56 a 61 o leoedd (57% i 62%) yn y blynyddoedd cynt i 70 o leoedd (71%) yn 2026. Mae'r cynnydd sydyn hwn yn dangos sut mae'r sefyllfa wedi gwaethygu yn y flwyddyn ddiwethaf. Mae lefel y ddarpariaeth dros ben yn sylweddol uwch na'r trothwy a nodir yn adran 1.21 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026), sef 25% neu fwy ac o leiaf 30 o leoedd nad ydynt yn cael eu defnyddio. Mae hyn yn dangos na ddefnyddir cyfran sylweddol o gapasiti'r ysgol, sy'n golygu nad yw adnoddau yn cael eu defnyddio'n effeithlon a'u bod ynghlwm wrth gynnal lleoedd dros ben.

Amcanestyniadau o Nifer y Disgyblion a Chapasiti Lleoedd Gwag a Ragwelir

Mae amcanestyniadau disgyblion, ar sail data CYBLD 2026, yn dangos bod disgwyl i nifer y disgyblion yn Ysgol Blaenau barhau'n isel a gostwng ymhellach dros amser. Rhagwelir y bydd cyfanswm y disgyblion yn gostwng o 28 yn 2026 i oddeutu 20-21 erbyn 2030-2031.

Mae hyn yn dangos y bydd lleoedd gwag yn aros yn uchel iawn, gyda disgwyliad iddynt godi eto. Rhagwelir y bydd lleoedd gwag yn codi o 70 lle (71%) yn 2026 i hyd at 78 lle (80%) ymhen rhai blynyddoedd. At ei gilydd golyga hyn mae'r tebygolrwydd yw y bydd y rhan fwyaf o leoedd yr ysgol yn aros heb eu llenwi, gan amlygu'r pryderon parhaus am gynaliadwyedd a defnydd effeithlon o adnoddau, fel y dangosir yn y tabl isod:

Blwyddyn	Ionawr 2026	Ionawr 2027	Ionawr 2028	Ionawr 2029	Ionawr 2030	Ionawr 2031
Amcanestyniadau o nifer y disgyblion (gan gynnwys disgyblion oedran Meithrin)	28	29	23	23	20	21
Cyfanswm Capasiti	98	99	99	99	99	99
Lleoedd gwag	70	70	76	76	79	78
% y lleoedd gwag (wedi'i thalgrynnu i'r 1% agosaf)	71%	71%	77%	77%	80%	79%

Mae'r fethodoleg o ran amcanestyniadau o nifer y disgyblion yn defnyddio cyfartaledd treigl o ddisgyblion 5, 6, 7 ac 8 oed ar gyfer ysgolion cynradd. Felly, mae unrhyw newidiadau sydyn ym mhoblogaeth y disgyblion yn cymryd tua phedair blynedd cyn i'r anghysondebau hyn gael eu normaleiddio a bydd dewis rhieni yn penderfynu sut mae'r niferoedd gwirioneddol yn newid flwyddyn ar ôl blwyddyn. Bydd amrywiadau rhifiadol bach, boed yn gadarnhaol neu'n negyddol yn cael mwy o effaith gyfrannol mewn ysgolion gyda niferoedd isel o ddisgyblion.

Data Genedigaethau

Yn ogystal â data CYBLD ac amcanestyniadau disgyblion, dadansoddwyd data genedigaethau lleol i asesu'r galw posibl yn y dyfodol am leoedd ysgol gynradd yn nalgylch Ysgol Blaenau.

Mae data genedigaethau diweddar ar gyfer y dalgylch yn dangos cysondeb o ran nifer isel o enedigaethau byw. Awgryma'r duedd hon mai go brin y gwelir twf yn nifer y plant fydd yn dechrau addysg statudol yn yr ardal leol.

Mae'r tabl isod yn cymharu data genedigaethau ar lefel cod post yn nalgylch Ysgol Blaenau â nifer y disgyblion ar y gofrestr yn y Derbyn, fel y cofnodwyd hynny yn CYBLD, ar gyfer y blynyddoedd academaidd cyfatebol.

Tabl Data Genedigaethau

Disgyblion a anwyd mewn cod post dalgylch yn erbyn disgyblion ar y gofrestr yn PLASC yn y dderbynfa ar gyfer y flwyddyn academaidd berthnasol								
Blaenau	**Blwyddyn Geni**	**2020**	**2021**	**2022**	**2023**	**2024**	**2025**	**2026**
	Blywddyn Derbyn	**2024**	**2025**	**2026**	**2027**	**2028**	**2029**	**2030**
	Genedigaethau	3	3	2	3	9	9	6
	CYBLD	4	2	1	-	-	-	-

O ganlyniad, nid oes dim tystiolaeth yn y data genedigaethau sydd ar gael i awgrymu bydd adferiad yn nifer y disgyblion yn Ysgol Blaenau. Mae'r cyd-destun demograffig hwn yn cefnogi'r amcanestyniadau disgyblion a nodir yn y ddogfen hon, sy'n rhagweld niferoedd disgyblion isel parhaus a chynnydd yn y lleoedd gwag dros y pum mlynedd nesaf.

Materion ynghylch Cyllideb yr Ysgol

Gan fod nifer y disgyblion yn isel ac yn gostwng, mae hynny wedi cael effaith sylweddol ar ei sefyllfa ariannol ac wedi arwain at gynnydd yn y diffyg cyllidebol o flwyddyn i flwyddyn. Mae'r diffyg wedi cynyddu'n gyson o £126,662 yn 2021/22 i £287,857 yn 2025/26 a diffyg rhagamcanedig o £362,566 erbyn diwedd y flwyddyn 2026/27. Mae hyn yn dangos pa mor heriol yw cynnal lefelau staffio a chostau gweithredu pan fo incwm, i raddau helaeth, yn dibynnu ar nifer y disgyblion, sydd wedi parhau i ostwng. At ei gilydd, dengys y data fod niferoedd disgyblion isel yn cyfrannu'n uniongyrchol at sefyllfa ariannol nad oes modd ei chynnal, tra bo'r diffyg yn dal i fynd yn fwy.

Mae pob ysgol yn cael ei chyllido'n unol â fformiwla gyllido'r Cyngor Sir. O dan Reoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010, mae'n rhaid i Gyllideb Ysgolion Unigol gael ei dyrannu ymhlith ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod ar ffurf rhannu cyllideb, gan ddefnyddio fformiwla gyllido a bennir yn lleol. Mae'n ofynnol yn ôl y rheoliadau fod 70% o'r cyllid yn cael ei ddosbarthu ar sail niferoedd disgyblion.

Mae'r tablau isod yn dangos sefyllfa ariannol hanesyddol a phresennol yr ysgol a'r hyn a ragwelir.

Balans diwedd blwyddyn	**£**
2021/22	Diffyg o £126,662
2022/23	Diffyg o £152,696
2023/24	Diffyg o £190,479
2024/25	Diffyg o £241,335
2025/26	Diffyg o £287,857

2026/27

Swm cyllid yr ysgol	£182,070
Nifer y disgyblion (cyllid yn seiliedig ar CYBLD Ionawr **2026**)	28
Cyllid fesul disgybl	£6,503
Cyllid prif ffrwd cyfartalog (ysgol gynradd) fesul disgybl	£5,969
Diffyg yn y gyllideb a ragwelir hyd at ddiwedd 2026/2027	Diffyg o £362,566

Ar hyn o bryd mae'r ysgol yn rhagweld diffyg yn y gyllideb o £362,566 ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2026/2027.

Cyfran o'r gyllideb fesul disgybl

Yn seiliedig ar Ddatganiad Cyllideb Addysg Adran 52 y Cyngor ar gyfer 2026-27, cyfran cyllideb yr ysgol fesul disgybl yn ystod 2026-27 yw £6,503.

Oherwydd nifer isel y disgyblion, yn ystod 2026-27 bydd yr ysgol yn derbyn Tâl Atodol Ysgol Fach o £10k a Thâl Atodol Lleoedd Gwag o £20k.

Mae'r tâl atodol o ran nifer y disgyblion yn seiliedig ar fformiwla sy'n nodi gwahanol feintiau ysgolion lle mae nifer y disgyblion yn eu rhoi dan anfantais o gymharu ag ysgolion eraill. Mae'r tâl atodol yn darparu canran deg o gyllid ar draws y costau allweddol a nodwyd.

Ansawdd a Safonau mewn Addysg

Cafodd Ysgol Blaenau ei harolygu ddiwethaf gan Estyn ym mis Ionawr 2024 ac yn unol â Deddf Addysg 2005, roedd Prif Arolygydd Ei Fawrhydi o'r farn, er gwaetha'r cryfderau o ran arweinyddiaeth, fod diffyg sylweddol yng nghyllideb ariannol yr ysgol ers llawer blwyddyn, a bod y Llywodraethwyr heb fynd i'r afael â'r diffyg yn ddigon effeithiol. Roedd yr argymhellion a nodwyd fel a ganlyn:

A1 Cytuno a gweithredu ar gynllun adfer i ymateb yn fwriadus i'r diffyg yng nghyllideb ariannol yr ysgol
A2 Ehangu cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm
A3 Cryfhau medrau llafaredd disgyblion
A4 Gwella'r ddarpariaeth er mwyn cefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol

Er bod yr Awdurdod Lleol yn cydnabod y nodweddion cadarnhaol a nodwyd yn ystod arolygiad diweddaraf Estyn yn yr ysgol, ac yn cydnabod nad oedd yr ysgol wedi'i rhoi mewn categori gweithgarwch dilynol Estyn, mae'r cynnig wedi'i ddatblygu mewn ymateb i bryderon ynghylch cynaliadwyedd hirdymor y ddarpariaeth yn hytrach nag unrhyw fethiant uniongyrchol o ran safonau addysgol.

Heriau gyda darpariaeth addysgol oherwydd nifer o grwpiau blwyddyn yn yr un dosbarth

Mae niferoedd isel y disgyblion yn yr ysgol yn effeithio ar drefniadaeth dosbarthiadau. Ar hyn o bryd mae disgyblion yn cael eu haddysgu mewn dau ddosbarth oedran cymysg, mae disgyblion Meithrin i Flwyddyn 2 yn cael eu haddysgu mewn un dosbarth a Blynyddoedd 3 - 6 yn cael eu haddysgu mewn dosbarth arall.

Mae cyflwyno'r cwricwlwm a sicrhau bod y disgyblion i gyd yn cael eu herio'n briodol yn fwy cymhleth o dipyn pan fo ystafelloedd dosbarth yn cynnwys sawl grŵp blwyddyn. Mae diwallu anghenion dysgu amrywiol disgyblion ar draws ystod oedran eang yn gofyn am wahaniaethu helaeth a chynllunio gofalus, ac mae heriau parhaus i athrawon.

Mae cynllunio gwersi ar gyfer dosbarthiadau oedran cymysg fel arfer yn fwy heriol oherwydd yr angen i ddiwallu ystod ehangach o anghenion dysgu. Yn ogystal, gall cyfyngiadau ar staffio leihau'r cyfleoedd i rannu a chydweithio o ran Cynllunio, Paratoi ac Asesu, gan gynyddu'r gofynion sydd ar staff addysgu. Gall fod goblygiadau cymdeithasol ac emosiynol hefyd, wrth i ddisgyblion iau o bosibl deimlo'n llai blaenllaw yn y grŵp, a disgyblion hŷn deimlo wedi'u cyfyngu neu dan bwysau o achos bod mwy o gyfrifoldeb arnynt. Felly mae monitro parhaus a hyrwyddo diwylliant cynhwysol yn y dosbarth yn hanfodol.

Mae Egwyddorion Addysg Gynradd Sir Gaerfyrddin sydd wedi'u cynnwys yn Strategaeth y Rhaglen Moderneiddio Addysg a gymeradwywyd gan y Cabinet ar 18

Tachwedd 2024 yn nodi bod yr Awdurdod Lleol yn anelu at gael dim mwy na 2 grŵp blwyddyn fesul dosbarth addysgu.

Mae'r Awdurdod Lleol hefyd wedi ystyried goblygiadau'r ffactorau hyn ar ansawdd a chynaliadwyedd darpariaeth addysgol. Edrychir yn fanylach ar y materion hyn yn Adran 7.

Arweinyddiaeth

Dyhead yr Awdurdod Lleol ar gyfer arweinyddiaeth ysgol yw cael arweinyddiaeth gynaliadwy gydag arweinwyr sy'n meddu ar gymwysterau addas sy'n rhydd i arwain a rheoli'r ysgol, lle na fydd gan yr un pennaeth ymrwymiad addysgu parhaol.

Mae Ysgol Blaenau yn cael ei harwain gan bennaeth sydd â chyfrifoldeb addysgu o 0.8. Yng nghyd-destun ysgol fach sydd â chyfyngiadau staffio, mae hyn yn cyfyngu'n fawr ar gapasiti'r arweinyddiaeth, gan fod llai o amser i gynllunio'n strategol, hunanwerthuso a gwella'r ysgol. Nid ystyrir bod y model hwn yn gynaliadwy yn y tymor hwy, ac mae'n cyfyngu ar allu'r ysgol i fynd i'r afael â heriau parhaus yn effeithiol a chynnal safonau uchel.

Cyflwr ac Addasrwydd yr Adeilad

Sgôr gyfredol Ysgol Blaenau o ran addasrwydd yw Gradd B sy'n cael ei diffinio fel "Boddhaol, yn perfformio fel y bwriadwyd, ond nad yw'n cefnogi'r gwaith o gyflawni'r cwricwlwm yn effeithiol mewn rhai meysydd”.

Mae sgôr gyfredol Ysgol Blaenau o ran cyflwr yn dangos bod yr ysgol, ar y cyfan, mewn cyflwr boddhaol (Gradd B), ond mae'n glir bod angen gwaith cynnal a chadw a buddsoddiad parhaus. Mae'r rhan fwyaf o elfennau'r adeilad mewn cyflwr rhesymol, er bod rhai yn dirywio. Mae angen gwneud cryn dipyn o waith hanfodol yn y flwyddyn i dair blynedd nesaf, gan gynnwys atgyweiriadau i doeau, ffenestri, drysau, gorffeniadau mewnol, draenio, ac ardaloedd allanol, yn ogystal â gwaith lle mae dŵr yn dod i mewn a lle mae diffygion strwythurol.

3.3 Cryfderau a gwendidau cadw'r Status Quo:

Mae'r tabl canlynol yn cynnwys asesiad o gryfderau a gwendidau cadw'r status quo, gan gynnwys unrhyw fygythiadau a chyfleoedd posibl sy'n gysylltiedig â'r opsiwn hwn. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o sut y gall yr opsiwn hwn effeithio ar ansawdd a safonau addysg yr ysgol, effeithio ar y gymuned leol ac effeithio ar drefniadau teithio.

Cryfderau	**Gwendidau**
Byddai'n cadw'r ddarpariaeth addysg yn ardal Blaenau.	Nifer isel y disgyblion yn parhau.
Dim newid i ddisgyblion a staff, parhad heb unrhyw darfu ar y trefniadau	Nid yw amcanestyniadau yn rhagweld newid sylweddol yn niferoedd

presennol.	disgyblion dros y pum mlynedd nesaf ac yn dangos y bydd nifer y disgyblion yn parhau i fod yn isel.
Ni fydd angen Proses Statudol.	Disgwylir i'r nifer fawr o leoedd gwag barhau dros y pum mlynedd nesaf.
Ni fyddai effaith ar y gymuned leol, a byddai'r ysgol yn parhau i gadw ei hunaniaeth benodol a'i rôl unigryw yn yr ardal.	Ni fydd pwysau ar y gyllideb yn cael sylw gan y bydd rhwymedigaethau a materion sy'n effeithio ar y gyllideb yn parhau i achosi problemau.
Dim newid i'r ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.	Mae'r ysgol yn gweithredu â diffyg sylweddol ac anghynaladwy yn y gyllideb, sy'n parhau i gynyddu o flwyddyn i flwyddyn.
	Nid oes dim tystiolaeth yn y data genedigaethau sydd ar gael i awgrymu bydd adferiad yn nifer y disgyblion yn Ysgol Blaenau.
Cyfleoedd	**Bygythiadau**
Cyfle i gynnwys y gymuned leol mewn gweithgareddau codi arian a chyfleoedd gwirfoddoli, gan helpu i wella gweithrediadau'r ysgol a lleihau pwysau ariannol.	Bydd yr ysgol yn parhau i wynebu heriau sy'n effeithio ar ei chynaliadwyedd yn y dyfodol.
	Nid yw'r ddarpariaeth bresennol yn cyd-fynd â dyheadau Egwyddorion Addysg Gynradd Sir Gaerfyrddin.

Yr effaith debygol ar ansawdd a safonau mewn addysg

Os cedwir y trefniadau presennol yn Ysgol Blaenau, mae'r Awdurdod Lleol o'r farn bod risg o bwysau parhaus a chynyddol ar ansawdd a chynaliadwyedd y ddarpariaeth addysgol dros amser.

Ar hyn o bryd mae nifer y disgyblion yn Ysgol Blaenau yn isel iawn, ac o'r herwydd mae'n rhaid addysgu'r disgyblon mewn dau ddosbarth o oedran cymysg sy'n rhychwantu hyd at bedwar grŵp blwyddyn. Er bod y staff yn gweithio'n galed i ddiwallu anghenion dysgwyr, mae heriau parhaus yn perthyn i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru yn effeithiol o fewn y strwythur hwn. Mae diwallu anghenion dysgu disgyblion ar draws ystod eang o oedran a gallu yn gofyn am gynllunio helaeth, ac yn gallu cyfyngu ar gyfleoedd i herio pawb yn gyson ac mewn ffordd sy'n briodol i'w hoedran.

Mae niferoedd disgyblion isel hefyd yn cyfyngu ar gyfleoedd i ddisgyblion ddysgu, cydweithio a chymdeithasu â chyfoedion o'r un oedran. Gall hyn

gyfyngu ar ddysgu mewn grwpiau, gweithgareddau tîm, digwyddiadau ysgol gyfan, a chyfleoedd arweinyddiaeth, sy'n bwysig ar gyfer datblygu hyder, gwydnwch a llesiant.

Yn ogystal, mae diffyg sylweddol a chynyddol yr ysgol o ran ei chyllideb yn creu ansicrwydd ac yn cyfyngu ar y gallu i fuddsoddi yn y dyfodol mewn staff, adnoddau a datblygiad y cwricwlwm. Mae perygl y bydd y pwysau ariannol hwn yn effeithio ar allu'r ysgol i gynnal gwelliant, ymateb i argymhellion Estyn, a darparu ystod eang o brofiadau dysgu yn y tymor hir.

Mae'r Awdurdod Lleol hefyd yn nodi bod y model arweinyddiaeth presennol, lle mae gan y pennaeth ymrwymiad addysgu sylweddol, yn rhoi straen ychwanegol ar y gallu i arwain yr ysgol. Gall hyn gyfyngu ar yr amser sydd ar gael ar gyfer arweinyddiaeth strategol, hunanwerthuso, a chynllunio er mwyn gwella'r ysgol. Mae hyn oll yn hollbwysig i gynnal safonau uchel.

Er i'r safonau presennol gael eu barnu'n rhai derbyniol, ac er nad yw'r ysgol mewn categori gweithgarwch dilynol Estyn, mae'r Awdurdod Lleol o'r gred nad yw cadw'r status quo yn debygol o arwain at welliant, a gallai arwain at ddirywiad graddol mewn ansawdd a safonau addysgol os bydd nifer y disgyblion yn aros yn isel a'r pwysau ariannol yn parhau.

Yr effaith debygol ar y gymuned

Ni ddisgwylir unrhyw effaith ar y gymuned gan y byddai'r status quo yn parhau a byddai'r ddarpariaeth addysg yn cael ei chadw.

Yr effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio

Ni ddisgwylir unrhyw effaith ar drefniadau teithio gan y byddai'r status quo yn parhau.

3.4 Pam ystyrir bod angen newid

Yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026), mae ystod o opsiynau amgen wedi cael eu hystyried a'u hasesu. Yn Adran 4.6 ceir manylion yr opsiynau hyn a'r rhesymau pam nad ydynt yn cael eu hystyried yn rhai a allai fynd i'r afael â'r heriau allweddol sy'n wynebu'r ysgol.

O ystyried y ffactorau a amlinellir uchod, mae'r Awdurdod Lleol o'r farn bod angen newid i sicrhau parhad darpariaeth addysg o ansawdd uchel i blant lleol. Nid yw Ysgol Blaenau ar ei ffurf bresennol yn cael ei hystyried yn gynaliadwy, ac mae heriau parhaus yno o ran cyflwyno addysg o'r safon ofynnol. Mae hyn yn hynod amlwg yng nghyd-destun y gostyngiad yn nifer y disgyblion, nifer uchel y lleoedd gwag, pwysau ariannol cynyddol, a'r angen parhaus am wneud gwaith cynnal a chadw ar yr adeilad a buddsoddi ynddo.

Hefyd mae'r Awdurdod Lleol wedi ystyried effaith unrhyw newid ar safonau addysgol, llesiant dysgwyr, cynaliadwyedd cymunedol, addysg cyfrwng Cymraeg, ac amcanion Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin. Mae'r asesiadau hyn wedi'u nodi mewn mannau eraill yn y ddogfen hon, gan gynnwys Adrannau 7 ac 8 ac atodiadau A a B.

Byddai'r newidiadau arfaethedig yn galluogi cyfeirio adnoddau i ysgolion sydd mewn sefyllfa well i ddarparu deilliannau addysgol cryf, cwricwlwm ehangach, trefniadau arweinyddiaeth mwy gwydn, ac amgylchedd dysgu cynaliadwy ar gyfer ein dysgwyr a dysgwyr y dyfodol. Byddai'r cynnig hefyd yn mynd i'r afael â'r lleoedd gwag niferus yn yr ysgol ac yn cefnogi defnydd mwy effeithlon ac effeithiol o arian cyhoeddus.

Ar ôl ystyried nifer y disgyblion, lleoedd gwag, cynaliadwyedd ariannol, safonau addysgol, effeithiau cymunedol, y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, nifer y lleoedd ysgol amgen addas oedd ar gael, a'r asesiad o'r dewisiadau amgen rhesymol, mae'r Awdurdod Lleol o'r farn bod cynnal y trefniadau presennol yn annhebygol o roi bod i ateb cynaliadwy yn y tymor hir. Felly mae'r Awdurdod o'r farn y dylid yn awr ymgynghori â rhanddeiliaid ar y cynnig, fel y gellir ystyried yr holl sylwadau'n llawn cyn dod i unrhyw benderfyniad terfynol.

3.5 Asesu Opsiynau Amgen

Yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2026, cafodd yr holl opsiynau amgen rhesymol eu hystyried yng nghyd-destun yr heriau allweddol sy'n wynebu'r ysgol, ac aseswyd eu heffaith debygol ar:

- Safonau addysgol a deilliannau dysgwyr;
- Cynaliadwyedd ariannol;
- Effaith ar y gymuned;
- Trefniadau teithio gan ddysgwyr;
- Capasiti'r ysgol a'r lleoedd gwag;
- Cyflwr ac addasrwydd yr adeilad.

Ceisiai'r asesiad benderfynu a allai unrhyw un o'r opsiynau amgen roi bod i ateb cynaliadwy yn y tymor hir i'r heriau a nodwyd. Er bod nifer o opsiynau yn cynnig rhai manteision posibl, naill ai'n unigol neu ar y cyd, barnwyd na allai'r un ohonynt fynd i'r afael yn ddigonol â'r cyfuniad o faterion addysgol ac ariannol a wynebai'r ysgol, ynghyd â'r materion trefniadaeth ac ystad.

Felly rhoddwyd sylw manwl i ystod o opsiynau amgen. Mae'r rhesymau dros ddiystyru neu ffafrio pob opsiwn wedi'u crynhoi yn y tabl isod.

I gefnogi'r broses arfarnu, cafodd dadansoddiad o Gryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau (SWOT) ei gynnal ar gyfer pob opsiwn. Roedd hyn yn galluogi'r Awdurdod Lleol i ystyried y rhinweddau, y risgiau a'r deilliannau posibl oedd yn gysylltiedig â phob opsiwn amgen, ac i nodi'r opsiwn mwyaf tebygol o sicrhau darpariaeth addysgol gynaliadwy o safon uchel i'n dysgwyr presennol a dysgwyr y dyfodol.

Opsiwn Amgen 1 – Status Quo – dim newid i Ysgol Blaenau	
Cryfderau	**Gwendidau**
Byddai'n cadw'r ddarpariaeth addysg yn ardal Blaenau.	Nifer isel y disgyblion yn parhau.
Dim newid i ddisgyblion a staff, parhad heb unrhyw darfu ar y trefniadau presennol.	Nid yw amcanestyniadau yn rhagweld newid sylweddol yn niferoedd disgyblion dros y pum mlynedd nesaf ac yn dangos y bydd nifer y disgyblion yn parhau i fod yn isel.
Ni fydd angen Proses Statudol.	Disgwylir i'r nifer fawr o leoedd gwag barhau dros y pum mlynedd nesaf.
Ni fyddai effaith ar y gymuned leol, a byddai'r ysgol yn parhau i gadw ei hunaniaeth benodol a'i rôl unigryw yn yr ardal.	Ni fydd pwysau ar y gyllideb yn cael sylw gan y bydd rhwymedigaethau a materion sy'n effeithio ar y gyllideb yn parhau i achosi problemau.
Dim newid i'r ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.	Dim arbedion refeniw.
	Mae'r ysgol yn gweithredu â diffyg sylweddol ac anghynaladwy yn y gyllideb, sy'n parhau i gynyddu o flwyddyn i flwyddyn.
Cyfleoedd	**Bygythiadau**
Cyfle i gynnwys y gymuned leol mewn gweithgareddau codi arian a chyfleoedd gwirfoddoli, gan helpu i wella gweithrediadau'r ysgol a lleihau pwysau ariannol.	Bydd yr ysgol yn parhau i wynebu heriau sy'n effeithio ar ei chynaliadwyedd yn y dyfodol.
	Nid yw'r ddarpariaeth bresennol yn cyd-fynd â dyheadau Egwyddorion Addysg Gynradd Sir Gaerfyrddin.
Yr effaith debygol ar ansawdd a safonau mewn addysg Os cedwir y trefniadau presennol yn Ysgol Blaenau, mae'r Awdurdod Lleol o'r farn fod yr heriau sy'n ymwneud ag ansawdd, ehangder a chynaliadwyedd hirdymor y ddarpariaeth addysgol yn debygol o barhau. Er bod yr ysgol ar hyn o bryd yn darparu addysg o safon dderbyniol a heb gael ei rhoi mewn categori gweithgarwch dilynol Estyn yn dilyn ei harolygiad diweddaraf, parhau mae'r sefyllfa o niferoedd isel iawn o ddisgyblion, llawer o leoedd gwag, a phwysau ariannol cynyddol.	

Ar hyn o bryd mae gan Ysgol Blaenau ddau ddosbarth oedran cymysg sy'n rhychwantu hyd at bedwar grŵp blwyddyn. Er bod y staff yn gweithio'n galed i ddiwallu anghenion dysgwyr ar draws ystod eang o oedran a gallu, mae angen gwahaniaethu helaeth a chynllunio cymhleth i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru yn effeithiol o fewn y strwythur hwn. Gall hyn ei gwneud hi'n fwy heriol darparu profiadau dysgu sy'n cyd-fynd yn gyson ag oedran, cyfnod datblygu ac anghenion cynnydd disgyblion, o gymharu ag ysgolion lle mae disgyblion yn cael eu haddysgu yn bennaf mewn grwpiau blwyddyn unigol.

Mae nifer isel o ddisgyblion hefyd yn cyfyngu ar gyfleoedd i ddisgyblion ddysgu, cydweithio a chymdeithasu â chyfoedion o oedran tebyg. Gall cyfleoedd i ddysgu mewn grwpiau ac arwain, ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau tîm, perfformiadau a rhai profiadau allgyrsiol fod yn brinnach mewn ysgolion bach iawn nag mewn ysgolion mwy. Yn aml mae ysgolion mwy yn gallu darparu ystod ehangach o gyfleoedd cyfoethogi'r cwricwlwm a phrofiadau cymdeithasol ehangach, a all gefnogi hyder, llesiant a datblygiad personol disgyblion.

Mae'r Awdurdod Lleol hefyd yn nodi bod cyfrifoldebau arwain yn cael eu cyflawni mewn strwythur staffio bach iawn. Mae gan y pennaeth ymrwymiad addysgu sylweddol ochr yn ochr â chyfrifoldeb dros arweinyddiaeth strategol a dyletswyddau statudol eraill. Er bod yr ysgol yn parhau i gyflawni ei chyfrifoldebau, mae'r strwythur hwn yn golygu bod llai o gyfle ar gyfer arweinyddiaeth wasgaredig, datblygu'r cwricwlwm, hunanwerthuso, dysgu proffesiynol a gwaith gwella'r ysgol nag sydd fel arfer mewn ysgolion mwy lle mae timau staffio ac arwain ehangach.

Yn ogystal, mae'r ysgol yn gweithredu â diffyg sylweddol a chynyddol o ran ei chyllideb. Gall pwysau ariannol parhaus gyfyngu ar allu'r ysgol i fuddsoddi mewn staff, adnoddau, datblygiad y cwricwlwm a chyfleoedd dysgu ehangach yn y dyfodol.

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y nodweddion cadarnhaol a nodwyd yn ystod arolygiad diweddaraf Estyn, ac ymrwymiad arweinwyr a staff i gefnogi dysgu a llesiant disgyblion. Fodd bynnag, ni fyddai cadw'r trefniadau presennol yn mynd i'r afael â'r heriau sylfaenol sy'n gysylltiedig â nifer isel y disgyblion, trefniadaeth dosbarthiadau oedran cymysg, capasiti cyfyngedig o ran yr arweinyddiaeth, nifer fawr o leoedd gwag, a chynaliadwyedd ariannol. Ni fyddai ychwaith yn darparu i ddisgyblion gyfleoedd cwricwlwm ehangach, grwpiau cyfoedion mwy, arbenigedd staff ehangach, na chapasiti cynyddol o ran arweinyddiaeth, fel sydd i'w cael fel arfer mewn ysgolion mwy.

O ganlyniad, mae'r Awdurdod Lleol o'r farn bod cynnal y status quo yn annhebygol o arwain at welliant sylweddol yn y ddarpariaeth addysgol neu gryfhau cynaliadwyedd hirdymor yr ysgol.

Yr effaith debygol ar y gymuned Ni ddisgwylir unrhyw effaith ar y gymuned gan y byddai'r status quo yn parhau a byddai'r ddarpariaeth addysg yn cael ei chadw.
Yr effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio Ni ddisgwylir unrhyw effaith ar drefniadau teithio gan y byddai'r sefyllfa bresennol yn parhau.
Rhesymau dros ddiystyru'r opsiwn hwn
• Niferoedd disgyblion isel yn barhaus - Mae nifer disgyblion yr ysgol yn gyson isel ac yn gostwng, sy'n effeithio ar gynaliadwyedd. • Lleoedd gwag uchel - Mae'r lleoedd gwag yn dal i fod yn eithriadol o uchel, a rhagwelir byddant yn codi ymhell dros y trothwyon a bennwyd gan Lywodraeth Cymru at ddibenion adolygu. • Diffyg sylweddol a chynyddol yn y gyllideb - Mae gan yr ysgol ddiffyg o £287,857 erbyn diwedd 2025/26, a diffyg a ragwelir o £362,566 erbyn diwedd y flwyddyn 2026/27,sy'n anghynaladwy. • Nid yw'n cyd-fynd ag amcanion strategol - nid yw'r ddarpariaeth bresennol yn bodloni Egwyddorion Addysg Gynradd Sir Gaerfyrddin na nodau'r Rhaglen Moderneiddio Addysg, sy'n ceisio lleihau dosbarthiadau oedran cymysg a sicrhau arweinyddiaeth gynaliadwy.

Opsiwn Amgen 2 – Ffedereiddio Ysgol Blaenau ag ysgol gyfagos	
Cryfderau	**Gwendidau**
Mae ffedereiddio yn galluogi'r ysgolion i rannu adnoddau, sy'n cynnwys staff a chyfleusterau, gan greu cyfleoedd i leihau costau a gwella effeithlonrwydd gweithredol.	Ni fyddai ffedereiddio yn datrys y broblem sylfaenol o niferoedd disgyblion sy'n gyson isel ac yn gostwng yn Ysgol Blaenau. Nid yw'r amcanestyniadau yn dangos cynnydd sylweddol dros y pum mlynedd nesaf, sy'n golygu y byddai'r ysgol yn parhau i weithredu â dosbarthiadau oedran cymysg bach iawn.
Mae'r ysgol yn aros yn yr ardal heb unrhyw effaith ar y gymuned.	Nid yw ffedereiddio yn helpu â diffyg cyllidebol sylweddol a chynyddol yr ysgol o £287,857 erbyn diwedd 2025/26 a diffyg a ragwelir o £362,566 erbyn diwedd y flwyddyn 2026/27.
	Hyd yn oed dan drefniant ffederasiwn, byddai lefel lleoedd gwag Ysgol Blaenau dal yn uchel eithriadol, 71% yn CYBLD 2026. Mae hyn yn uwch na throthwyon Llywodraeth Cymru ar gyfer

	cynnal adolygiad, ac yn golygu bod y trefniant yn aneffeithlon.
Cyfleoedd	**Bygythiadau**
Gallai ffedereiddio greu cyfleoedd ar gyfer cynllunio cwricwlwm ar y cyd, rhannu datblygiad proffesiynol, a chyfnewid arferion gorau rhwng ysgolion, gan wella ansawdd yr addysgu a deilliannau dysgwyr.	Nid yw ffedereiddio yn datrys diffyg sylweddol a chynyddol yr ysgol o ran ei chyllideb. Gallai'r pwysau ariannol parhaus hwn fygwth cynaliadwyedd y ddwy ysgol dan sylw.
Gallai rhannu strwythurau llywodraethu gryfhau capasiti arweinyddiaeth, lleihau'r llwyth gwaith i benaethiaid unigol, a bod yn fodd o fentora a chynllunio olyniaeth.	Hyd yn oed dan drefniant ffederasiwn, byddai nifer y disgyblion dal yn isel iawn yn Ysgol Blaenau a byddai'r lleoedd gwag dal yn uchel. Byddai hyn yn tanseilio effeithiolrwydd y trefniant.
Gallai cyfuno adnoddau fel staff arbenigol, cyfleusterau, a deunyddiau alluogi defnydd mwy effeithlon o gyllid a mynediad at wasanaethau na allai ysgol fach eu fforddio fel arall o bosibl.	Gallai rheoli ffederasiwn ar ddau safle gynyddu'r baich gweinyddol, cymhlethu cyfrifoldebau arwain, a chreu heriau o ran cysoni polisïau ac arferion.
Gallai ffedereiddio hwyluso gweithgareddau allgyrsiol, chwaraeon, a diwylliannol ar y cyd, gan gynnig i ddisgyblion ystod ehangach o brofiadau a chyfleoedd i gymdeithasu.	Efallai na fydd ffedereiddio yn arwain at welliannau sylweddol mewn deilliannau addysgol, gan y byddai'r dosbarthiadau oedran cymysg a'r cyfyngiadau o ran mynediad i gwricwlwm eang yn parhau.
	Petai nifer y disgyblion yn dal i ostwng er gwaetha'r ffedereiddio, mae'n bosibl mai cau fyddai tynged yr ysgol o hyd yn y dyfodol, gan achosi rhagor o darfu ar ddisgyblion, staff a'r gymuned.

Yr effaith debygol ar ansawdd a safonau mewn addysg

Pe bai Ysgol Blaenau yn ffedereiddio ag ysgol gyfagos, mae'r Awdurdod Lleol o'r farn mai prin fyddai'r effaith ar ansawdd a safonau mewn addysg, ac annhebygol fyddai gwelliant parhaus. Er y gellid gweld rhai manteision o ran trefniadaeth ac arweinyddiaeth yn sgil ffedereiddio, ni fyddai'n mynd i'r afael â'r ffactorau allweddol sy'n effeithio ar hyn o bryd ar ddarpariaeth addysgol yr ysgol a'i chynaliadwyedd yn y tymor hir.

Gall ffedereiddio greu cyfleoedd ar gyfer rhannu arweinyddiaeth, cydweithio, cynllunio cwricwlwm ar y cyd, a dysgu proffesiynol ar draws ysgolion. Gallai'r trefniadau hyn roi i staff ragor o gyfleoedd i fanteisio ar arbenigedd proffesiynol, i

rannu ymarfer effeithiol, ac i gael cefnogaeth ychwanegol trwy strwythur arweinyddiaeth ehangach.

Fodd bynnag, ni fyddai ffedereiddio yn datrys yr her sylfaenol sydd yn Ysgol Blaenau, sef nifer disgyblion sy'n gyson isel. Byddai'r disgyblion yn dal i gael eu haddysgu mewn dosbarthiadau oedran cymysg sy'n rhychwantu sawl grŵp blwyddyn, a byddai staff dal yn gorfod cynllunio ar gyfer ystod eang o oedrannau, galluoedd a chamau cynnydd o fewn strwythur staffio cyfyngedig. O ganlyniad, byddai'r cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â chynllunio'r cwricwlwm, ei gyflwyno a gwneud cynnydd yn aros yr un peth i bob pwrpas.

Er y gall rhannu arweinyddiaeth gynyddu'r capasiti strategol ar draws ffederasiwn, ni fyddai unrhyw newid o bwys ym mhrofiadau dysgu'r disgyblion yn Ysgol Blaenau o ddydd i ddydd. Prin o hyd fyddai'r cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu, cydweithio a chymdeithasu â grwpiau mwy o oedran tebyg. Yn yr un modd, byddai'r amrywiaeth o gyfleoedd cwricwlaidd, allgyrsiol a chymdeithasol i'r disgyblion yn llai na'r hyn sydd ar gael fel arfer mewn ysgolion mwy.

Byddai ffedereiddio hefyd yn annhebygol o fynd i'r afael â'r diffyg sylweddol a chynyddol yng nghyllideb yr ysgol. Er y posibilrwydd o wneud rhai arbedion effeithlonrwydd trwy drefniadau rhannu arweinyddiaeth, parhau fyddai'r pwysau ariannol sylfaenol sy'n gysylltiedig â chynnal ysgol lle mae nifer y disgyblon yn isel a'r lleoedd gwag yn uchel. Gallai hyn barhau i gyfyngu ar allu'r ysgol i fuddsoddi mewn staff, adnoddau, datblygu'r cwricwlwm a chyfleoedd dysgu ehangach.

Mae'r Awdurdod Lleol hefyd yn nodi na fyddai'r ffederasiwn yn ei hanfod yn newid strwythur staffio'r ysgol. O ganlyniad, byddai'r cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â rhedeg ysgol fach iawn yno o hyd, gan gynnwys cyfyngiadau o ran arweinyddiaeth wasgaredig, datblygiad cwricwlwm, cyfrifoldebau arbenigol a gwaith gwella ysgol. Er y gall cymorth fod ar gael trwy drefniant ffederasiwn, parhau fyddai'r heriau gweithredol sy'n gysylltiedig â phoblogaeth fach o ddisgyblion a niferoedd cyfyngedig o staff.

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y nodweddion cadarnhaol a nodwyd yn ystod arolygiad diweddaraf Estyn, ac ymrwymiad arweinwyr a staff i gefnogi dysgu a llesiant disgyblion. Fodd bynnag, ni fyddai ffedereiddio ynddo'i hun yn taclo'r heriau sylfaenol sy'n gysylltiedig â nifer y disgyblion, trefniadaeth dosbarthiadau, cynaliadwyedd ariannol a'r cyfleoedd addysgol ehangach i ddysgwyr. O ganlyniad, er y gallai ffedereiddio gynnig rhai manteision ar lefel arweinyddiaeth a threfniadaeth, mae'r Awdurdod Lleol o'r farn na fyddai'n debygol o ddarparu'r manteision addysgol sylweddol na'r cynaliadwyedd hirdymor sydd eu hangen i weld gwelliannau parhaus mewn ansawdd a safonau.

Yr effaith debygol ar y gymuned

Byddai ffedereiddio yn caniatáu i Ysgol Blaenau aros ar agor yn y pentref, gan

osgoi colli cyfleuster ysgol yn lleol. Byddai hyn yn helpu i sicrhau bod yr ysgol yn ganolfan i'r gymuned yn y dyfodol ac i gynnal presenoldeb addysg yn lleol.

Byddai cadw adeilad ysgol yn Blaenau yn hwb i hunaniaeth a pharhad y gymuned. Byddai gan ddisgyblion, rhieni, a gofalwyr ysgol yn y pentref o hyd, a byddai hynny'n osgoi tarfu ar arferion dyddiol ac yn cynnal cysylltiadau lleol rhwng teuluoedd.

Gallai gwasanaethau ysgol fel clybiau brecwast, darpariaeth ar ôl ysgol a defnydd cymunedol anffurfiol barhau efallai o dan fodel ffederasiwn. Byddai hyn yn helpu i gadw rhywfaint o'r buddion cymdeithasol ac ymarferol y mae'r gymuned leol yn elwa arnynt ar hyn o bryd o achos yr ysgol.

Er y byddai'r ysgol yn aros ar agor, mae'n annhebygol y byddai ffederasiwn yn cynyddu'n sylweddol nifer y disgyblion neu lefelau gweithgarwch yn yr ysgol. O ganlyniad, mae'n ddigon posibl mai prin o hyd fyddai buddion cymunedol ehangach amgylchedd ysgol mwy o faint a mwy bywiog, ac mai parhau fyddai'r pryderon am hyfywedd yn y tymor hir.

Gall ffedereiddio greu rhywfaint o ansicrwydd o fewn y gymuned ynghylch dyfodol yr ysgol yn y tymor hir. Os na ddatrysir problemau sylfaenol fel nifer isel y disgyblion a phwysau ariannol, efallai y bydd pryderon y gallai'r ysgol gau o hyd maes o law, gan arwain at gyfnod hir o ansicrwydd i deuluoedd a phentrefwyr.

Dan fodel ffederasiwn, byddai arweinyddiaeth strategol a llywodraethu yn debygol o gael eu rhannu ar draws ysgolion. Gallai hyn arwain at lai o reolaeth yn lleol, a gallai rhai aelodau o'r gymuned ystyried hyn yn gyfystyr â gwanhau hunaniaeth annibynnol yr ysgol neu'r gallu i wneud penderfyniadau yn lleol.

Yr effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio

O dan opsiwn ffedereiddio, byddai Ysgol Blaenau yn aros ar ei safle presennol, ac felly ni fyddai unrhyw newid i drefniadau teithio disgyblion, a byddai disgyblion yn parhau i fynychu'r ysgol yn y pentref.

Byddai'r disgyblion sy'n cerdded i Ysgol Blaenau ar hyn o bryd yn gallu cerdded i'r ysgol o hyd, gan gadw at y patrymau teithio llesol presennol a chefnogi iechyd, llesiant ac annibyniaeth y disgyblion.

Rhesymau dros ddiystyru'r opsiwn hwn

- Nid yw'n mynd i'r afael â'r heriau o ran nifer isel o ddisgyblion, nifer uchel o leoedd gwag a diffyg sylweddol yn y gyllideb.
- Nid oes unrhyw ysgolion lleol yn agos sy'n addas i'w ffedereiddio ag Ysgol Blaenau.
- Mae'r pwysau ariannol yn parhau yn sgil y diffyg sylweddol yn y gyllideb.
- Byddai'r opsiwn hwn yn cynnig buddion cyfyngedig o ran addysg, a byddai'r dosbarthiadau oedran cymysg yn parhau, yn groes i ddyheadau Sir

Gaerfyrddin.

Opsiwn Amgen 3 - Newid ystod oedran Ysgol Blaenau i 3-11	
Cryfderau	**Gwendidau**
Potensial i ddenu rhagor o ddisgyblion i'r ysgol.	I weithredu'r opsiwn hwn byddai angen buddsoddi'n sylweddol mewn staffio, cyfleusterau a hyfforddiant er mwyn darparu ar gyfer dysgwyr iau, yn ogystal â chydymffurfio â safonau rheoleiddiol ar gyfer darpariaeth blynyddoedd cynnar.
Byddai addysg o 3-11 yn cynnig dysgu di-dor i ddisgyblion.	Byddai ymestyn yr ystod oedran yn golygu proses statudol ffurfiol a chymhleth, a fyddai'n cymryd amser i'w gweithredu.
Gallai darpariaeth blynyddoedd cynnar gryfhau cysylltiadau â theuluoedd lleol a'r gymuned ehangach, gan greu cyfleoedd ar gyfer partneriaethau a chydweithio.	Nid yw data genedigaethau a CYBLD yn dangos digon o alw am ddarpariaeth blynyddoedd cynnar yn nalgylch Ysgol Blaenau i wneud yr opsiwn hwn yn hyfyw.
Byddai plant sy'n dechrau yn 3 oed ar eu hennill gan y byddai pontio i addysg statudol yn fwy hwylus, gan leihau aflonyddwch a chefnogi deilliannau dysgu cynnar.	Mae sawl ysgol gyfagos eisoes yn cynnig darpariaeth ar gyfer plant tair oed, sy'n golygu ei bod yn llai tebygol y byddai'r newid hwn yn denu digon o ddisgyblion ychwanegol i ddatrys problemau hyfywedd yr ysgol.
	Hyd yn oed o ymestyn yr ystod oedran, byddai'r ysgol yn dal i wynebu sefyllfa lle mae nifer y disgyblion yn gyson isel, nifer y lleoedd gwag yn uchel, a diffyg sylweddol yn cael ei ragweld yn y gyllideb, sy'n golygu y byddai'r ansicrwydd ynghylch cynaliadwyedd hirdymor yn parhau.
Cyfleoedd	**Bygythiadau**
Gallai cyflwyno darpariaeth blynyddoedd cynnar feithrin perthnasoedd cryfach â theuluoedd lleol, ac annog y gymuned i fod yn fwy blaenllaw yng ngweithgareddau'r ysgol.	Gallai gorfod buddsoddi'n sylweddol mewn staffio a chyfleusterau, a'r rheidrwydd i gydymffurfio â rheoliadau blynyddoedd cynnar, roi rhagor o straen ariannol ar yr Awdurdod Lleol a'r ysgol.
Gallai'r ysgol ymchwilio i bartneriaethau gyda darparwyr gofal plant a gwasanaethau blynyddoedd cynnar	Nid yw data genedigaethau a CYBLD yn dangos galw digonol am ddarpariaeth blynyddoedd cynnar yn y

dwyieithog, gan greu ymagwedd fwy integredig at addysg gynnar.	dalgylch, sy'n golygu na fyddai'r buddsoddiad ychwanegol o reidrwydd yn arwain at unrhyw gynnydd o werth yn nifer y disgyblion.
Gall darpariaeth blynyddoedd cynnar ddenu teuluoedd sy'n gwerthfawrogi parhad addysg o 3 i 11 oed; rhywbeth a allai wella'r niferoedd ar y gofrestr dros amser.	Mae sawl ysgol gyfagos eisoes yn cynnig darpariaeth ar gyfer plant tair oed, a allai gyfyngu ar effeithiolrwydd yr opsiwn hwn o ran denu disgyblion newydd.
	Hyd yn oed o ymestyn yr ystod oedran, byddai'r ysgol yn dal i wynebu sefyllfa lle mae nifer y disgyblion yn gyson isel, nifer y lleoedd gwag yn uchel, a diffyg sylweddol yn cael ei ragweld yn y gyllideb, gan arwain at ansicrwydd o ran bod yn gynaliadwy yn y dyfodol.

Yr effaith debygol ar ansawdd a safonau mewn addysg

Pe bai ystod oedran Ysgol Blaenau yn cael ei ymestyn i gynnwys disgyblion 3-11 oed, mae'r Awdurdod Lleol o'r farn mai prin ac ansicr fyddai'r effaith ar ansawdd a safonau mewn addysg, ac na fyddai hynny'n debygol o fynd i'r afael â'r heriau sylfaenol mae'r ysgol yn eu hwynebu.

Gallai plant iau elwa'n addysgol o achos ymestyn yr ystod oedran. Gallai plant fod ar eu hennill yn sgil gwell parhad yn eu profiad addysgol, datblygu perthynas â staff a chyfoedion yn gynt, a phontio i addysg statudol yn fwy hwylus. Gallai ymgysylltu'n gynnar mewn amgylchedd cyfrwng Cymraeg hefyd gefnogi datblygiad iaith, sgiliau cymdeithasol a pharodrwydd ar gyfer yr ysgol.

Fodd bynnag, nid yw'r data genedigaethau sydd ar gael, amcanestyniadau disgyblion a phatrymau presennol dewis rhieni yn dangos y byddai ymestyn yr ystod oedran yn arwain at gynnydd sylweddol yn nifer y disgyblion. O ganlyniad, byddai'r ysgol yn debygol o barhau i weithredu gyda charfannau bach iawn a dosbarthiadau oedran cymysg sy'n rhychwantu sawl grŵp blwyddyn. Felly byddai'r heriau cyfredol sy'n gysylltiedig â chynllunio'r cwricwlwm, cynnydd a chyflwyno profiadau dysgu priodol i'r oedran yn aros yr un peth i bob pwrpas.

Er y byddai cyflwyno darpariaeth oedran meithrin yn gwella'r cynnig sydd ar gael i blant iau, ni fyddai, yn ei hanfod, yn newid profiadau addysgol y rhan fwyaf o'r disgyblion yn yr ysgol. Prin o hyd fyddai'r cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu a chymdeithasu â grwpiau mwy o oedran tebyg, a byddai'r ysgol yn parhau i weithredu o fewn y cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â phoblogaeth fach iawn o ddisgyblion.

Hefyd byddai angen staff ychwanegol i ymestyn yr ystod oedran. O ystyried

strwythur staffio presennol yr ysgol, lle mae cyfrifoldebau arwain eisoes yn cael eu cyflawni o fewn tîm bach iawn, byddai hyn yn gosod gofynion ychwanegol ar yr arweinyddiaeth a'r gallu i weithredu.

Yn ogystal, ni fyddai ymestyn yr ystod oedran yn mynd i'r afael â'r diffyg sylweddol a chynyddol sydd yng nghyllideb yr ysgol. Heb gynnydd sylweddol yn nifer y disgyblion, byddai'r pwysau ariannol sy'n gysylltiedig â chynnal y ddarpariaeth yn parhau. Gallai hyn barhau i gyfyngu ar allu'r ysgol i fuddsoddi mewn staff, adnoddau, dysgu proffesiynol a chyfleoedd addysgu ehangach

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y nodweddion cadarnhaol a nodwyd yn ystod arolygiad diweddaraf Estyn, ac ymrwymiad arweinwyr a staff i gefnogi dysgu a llesiant disgyblion. Fodd bynnag, ni fyddai ymestyn yr ystod oedran ynddo'i hun yn taclo'r heriau sylfaenol sy'n gysylltiedig â nifer isel y disgyblion, dosbarthiadau oedran cymysg, capasiti arwain cyfyngedig, llawer o leoedd gwag, a chynaliadwyedd ariannol yn y tymor hir. O ganlyniad, er y gallai'r cynnig roi rai manteision i ddysgwyr iau, mae'r Awdurdod Lleol o'r farn na fyddai'n debygol o ddarparu gwelliannau sylweddol yn y ddarpariaeth addysg neu sicrhau cynaliadwyedd hirdymor yr ysgol.

Yr effaith debygol ar y gymuned

Byddai ymestyn yr ystod oedran yn caniatáu i Ysgol Blaenau aros ar agor yn y pentref, gan gadw presenoldeb addysg yn lleol. Byddai hyn yn helpu i sicrhau bod yr ysgol yn ganolfan yn y gymuned yn y dyfodol ac i osgoi colli cyfleuster ysgol.

Gallai darparu addysg o 3 oed fod yn fwy hwylus i rai teuluoedd lleol, gan leihau'r angen i deithio i leoliadau blynyddoedd cynnar eraill. Gallai hyn gryfhau ymgysylltiad cynnar ag addysg a chefnogi teuluoedd sy'n gwerthfawrogi parhad yn y ddarpariaeth, o'r blynyddoedd cynnar i addysg gynradd.

Er y gallai darpariaeth blynyddoedd cynnar gynyddu rhywfaint ar y gweithgarwch yn yr ysgol, mae'r data genedigaethau sydd ar gael yn awgrymu bod y galw yn annhebygol o fod yn ddigonol i gynyddu nifer y disgyblion yn sylweddol. O ganlyniad, o gymharu â'r trefniadau presennol, mae'n annhebygol y bydd unrhyw newid o bwys yn lefel y gweithgarwch dyddiol a'r ymgysylltu â'r gymuned ehangach.

Gallai gwasanaethau ysgol fel clybiau brecwast, darpariaeth ar ôl ysgol a defnydd cymunedol anffurfiol barhau o dan yr opsiwn hwn, gan gadw rhai o'r buddion ymarferol y mae teuluoedd y pentref yn elwa arnynt ar hyn o bryd.

Gan fod ymestyn yr ystod oedran yn annhebygol o fynd i'r afael â'r heriau sylfaenol o niferoedd disgyblion isel a chynaliadwyedd ariannol, mae'n bosibl mai parhau fydd ansicrwydd y gymuned am ddyfodol hirdymor yr ysgol. Gallai'r pryderon am y posibilrwydd o gau yn y dyfodol barhau, a allai effeithio ar hyder y gymuned dros amser.

Byddai'r disgyblion yn parhau i fynychu'r ysgol yn y pentref, a fyddai'n golygu dim

newidiadau sylweddol i'r trefniadau teithio ar gyfer teuluoedd presennol. Gallai plant iau sy'n cael mynediad at ddarpariaeth ar y safle hefyd elwa ar lai o deithio o gymharu â mynychu lleoliadau blynyddoedd cynnar eraill.
Yr effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio O dan yr opsiwn hwn, byddai Ysgol Blaenau yn parhau ar agor ar ei safle presennol. Gan hynny, ni fyddai unrhyw newid i drefniadau teithio'r disgyblion o oedran ysgol statudol, a fyddai'n parhau i fynychu'r ysgol yn y pentref.
Rhesymau dros ddiystyru'r opsiwn hwn
• Angen proses statudol i'w weithredu. • Mae'n annhebygol o gael effaith sylweddol ar nifer isel y disgyblion yn yr ysgol. • Galw annigonol - Nid yw data genedigaethau a CYBLD yn dangos digon o alw am ddarpariaeth blynyddoedd cynnar yn nalgylch Ysgol Blaenau i wneud yr opsiwn hwn yn hyfyw. • Cystadleuaeth gan ysgolion lleol eraill - Mae sawl ysgol gyfagos eisoes yn cynnig darpariaeth ar gyfer plant tair oed, sy'n golygu ei bod yn llai tebygol y byddai'r newid hwn yn denu digon o ddisgyblion ychwanegol i ddatrys problemau hyfywedd yr ysgol. • Nid yw'r opsiwn hwn yn mynd i'r afael â'r heriau mae'r ysgol yn eu hwynebu - Hyd yn oed o ymestyn yr ystod oedran, byddai'r ysgol yn dal i wynebu sefyllfa lle mae nifer y disgyblion yn gyson isel, nifer y lleoedd gwag yn uchel, a diffyg sylweddol yn cael ei ragweld yn y gyllideb, sy'n golygu y byddai'r ansicrwydd ynghylch cynaliadwyedd hirdymor yn parhau.

Opsiwn Amgen 4 – Datblygu darpariaeth ADY ac Uned Anogaeth	
Cryfderau	**Gwendidau**
Gallai'r opsiwn hwn ddarparu cymorth wedi'i dargedu i ddisgyblion ag anghenion penodol, gan wella cynhwysiant a llesiant.	I wireddu'r opsiwn hwn yn effeithiol byddai angen cyllid sylweddol ar gyfer staff arbenigol, hyfforddiant wedi'i dargedu, ac adnoddau ychwanegol.
Byddai'r opsiwn hwn yn caniatáu i deuluoedd gael mynediad at wasanaethau arbenigol yn lleol, gan leihau teithio a chynnal cysylltiadau cymunedol.	Gallai recriwtio a chadw staff sy'n meddu ar y sgiliau a'r cymwysterau angenrheidiol ar gyfer darpariaeth ADY ac anogaeth fod yn heriol ac yn gostus.
Gallai cynnig darpariaeth arbenigol ddenu disgyblion o ardal ehangach, ac, o bosibl, gynyddu'r nifer ar y gofrestr a lleihau'r lleoedd gwag.	Hyd yn oed o gael darpariaeth ADY ac anogaeth, byddai'r ysgol yn dal i wynebu sefyllfa lle mae nifer y disgyblion yn gyson isel, nifer y lleoedd gwag yn uchel, a diffyg sylweddol yn

	cael ei ragweld yn y gyllideb, sy'n golygu y byddai'r ansicrwydd ynghylch cynaliadwyedd hirdymor yn parhau.
Gallai cyflwyno darpariaeth arbenigol greu cyfleoedd datblygiad proffesiynol i staff, gan wella arbenigedd a chapasiti o fewn yr ysgol.	Wrth weithredu darpariaeth arbenigol, rhaid yw cyrraedd safonau rheoleiddio llym a bodloni gofynion diogelu, sy'n ychwanegu cymhlethdod a baich gweinyddol.
Cyfleoedd	**Bygythiadau**
Gallai cyflwyno darpariaeth ADY ac anogaeth olygu bod yr ysgol yn ganolfan arbenigol, gan ddenu disgyblion o ardal ehangach a chynyddu'r nifer ar y gofrestr efallai.	Er mwyn gweithredu'r ddarpariaeth ADY ac anogaeth arbenigol, mae angen buddsoddi'n helaeth mewn staff, hyfforddiant ac adnoddau. Os na fydd nifer y disgyblion yn cynyddu fel y disgwyl, gwastraff fyddai'r gwariant o bosibl, a gallai roi rhagor o straen ariannol ar yr Awdurdod Lleol.
Gallai datblygu darpariaeth arbenigol greu cyfleoedd i staff ennill arbenigedd mewn ADY a strategaethau anogaeth, gan wella'r capasiti addysgu cyffredinol.	Gallai anhawster denu a chadw staff arbenigol cymwys addas danseilio effeithiolrwydd y ddarpariaeth ac arwain at ansefydlogrwydd gweithredol.
Byddai gwell darpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cefnogi addysg gynhwysol ac yn gwella deilliannau llesiant, yn unol â blaenoriaethau cenedlaethol.	Mae cyrraedd safonau cydymffurfio llym ar gyfer darpariaeth arbenigol yn ychwanegu baich gweinyddol a risg o beidio â chydymffurfio, a allai arwain at niwed i enw da neu gamau gorfodi.
Gallai gwasanaethau arbenigol feithrin cysylltiadau cryfach â theuluoedd ac asiantaethau allanol, gan greu ymagwedd gydweithredol at gefnogi dysgwyr agored i niwed.	Mae ysgolion cyfagos eisoes yn cynnig darpariaeth ADY arbenigol, felly efallai na fydd yr opsiwn hwn yn denu digon o ddisgyblion ychwanegol i gyfiawnhau'r buddsoddiad, gan greu aneffeithlonrwydd a chystadleuaeth am adnoddau.
Yr effaith debygol ar ansawdd a safonau mewn addysg Pe bai Ysgol Blaenau yn datblygu darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol arbenigol ac yn sefydlu Uned Anogaeth, mae'r Awdurdod Lleol o'r farn y gallai'r opsiwn hwn fod o fudd i grŵp penodol o ddysgwyr, ond byddai'n annhebygol o gyflawni gwelliannau sylweddol neu barhaus yn ansawdd a safonau yr addysg yn gyffredinol ar draws yr ysgol.	

Gallai cyflwyno darpariaeth ADY ac anogaeth arbenigol wella'r cymorth a gaiff disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ac anghenion llesiant. Gallai ymyriadau wedi'u targedu, dulliau arbenigol a gwell cymorth bugeiliol wella ymgysylltiad, llesiant a deilliannau i'r dysgwyr fydd yn cael mynediad i'r ddarpariaeth. Gallai'r opsiwn hwn hefyd ddarparu cyfleoedd i staff ddatblygu sgiliau arbenigol wrth gefnogi dysgwyr agored i niwed

Fodd bynnag, er y gallai darpariaeth arbenigol fod o fudd i nifer cymharol fach o ddisgyblion, ni fyddai'n mynd i'r afael â'r heriau addysgol ehangach sy'n wynebu'r ysgol. Byddai nifer y disgyblion yn Ysgol Blaenau dal yn isel iawn, a byddai angen dosbarthiadau oedran cymysg sy'n rhychwantu sawl blwyddyn o hyd. Felly parhau fyddai'r heriau sy'n gysylltiedig â chynllunio'r cwricwlwm, cynnydd a darparu profiadau dysgu priodol i'r oedran i ystod eang o ddysgwyr.

Hefyd, gan fod poblogaeth y disgyblion yn yr ysgol yn fach, prin o hyd fyddai'r cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu, cydweithio a chymdeithasu â grwpiau mwy o oedran tebyg. Byddai cyfleoedd i ddysgu mewn grwpiau ac arwain, ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau tîm ac ystod eang o brofiadau allgyrsiol dal yn brinnach na'r rheiny sydd fel arfer ar gael mewn ysgolion mwy.

Er mwyn datblygu'r ddarpariaeth ADY ac anogaeth arbenigol, byddai angen rhagor o staff, hyfforddiant arbenigol, adnoddau a chapasiti arweinyddiaeth. O ystyried strwythur staffio presennol yr ysgol a'r sefyllfa ariannol, byddai hyn yn gosod gofynion ychwanegol ar yr arweinwyr a'r staff. Er y gallai darpariaeth arbenigol gryfhau'r cymorth i ddysgwyr unigol, mae risg y gallai cyfrifoldebau gweithredu a rheoli ychwanegol leihau'r capasiti ar gyfer gwelliant ysgol ehangach, datblygu'r cwricwlwm ac arweinyddiaeth strategol.

Yn ogystal, ni fyddai cyflwyno darpariaeth arbenigol yn mynd i'r afael â'r diffyg sylweddol a chynyddol yng nghyllideb yr ysgol, nac yn lleihau'r lleoedd gwag yn sylweddol. Heb gynnydd sylweddol yn nifer y disgyblion, byddai'r heriau ariannol sylfaenol sy'n effeithio ar gynaliadwyedd hirdymor yr ysgol yn parhau. Felly gallai pwysau ariannol parhaus barhau i gyfyngu ar fuddsoddi mewn staff, adnoddau, dysgu proffesiynol a chyfleoedd addysgol ehangach.

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y nodweddion cadarnhaol a nodwyd yn ystod arolygiad diweddaraf Estyn, ac ymrwymiad arweinwyr a staff i gefnogi dysgu a llesiant disgyblion. Fodd bynnag, ni fyddai datblygu darpariaeth ADY ac anogaeth ynddo'i hun yn taclo'r heriau sylfaenol sy'n gysylltiedig â nifer isel y disgyblion, dosbarthiadau oedran cymysg, capasiti arweinyddiaeth cyfyngedig, llawer o leoedd gwag a chynaliadwyedd ariannol. O ganlyniad, er y gallai'r opsiwn hwn arwain at rai manteision wedi'u targedu i grwpiau bach o ddysgwyr, mae'r Awdurdod Lleol o'r farn na fyddai'n debygol o sicrhau gwelliannau sylweddol yn y ddarpariaeth addysg gyffredinol neu gynaliadwyedd hirdymor yr ysgol.

Yr effaith debygol ar y gymuned

Byddai datblygu darpariaeth ADY ac Uned Anogaeth yn caniatáu i Ysgol Blaenau aros ar agor yn y pentref, yn cadw presenoldeb addysg yn lleol, ac yn osgoi colli cyfleuster cymunedol gwerthfawr. Byddai hyn yn cefnogi rôl barhaus yr ysgol fel canolfan i'r gymuned.

Gallai cyflwyno darpariaeth ADY ac anogaeth arbenigol fod o fudd i deuluoedd yn yr ardal leol a'r ardal ehangach sydd angen cymorth o lefel uwch yn agos i gartref. Gallai hyn leihau pellteroedd teithio i rai teuluoedd a chryfhau'r canfyddiad o'r ysgol fel adnodd arbenigol.

Er bod darpariaeth arbenigol yn gallu arwain at rywfaint yn rhagor o weithgarwch, mae'n annhebygol o arwain at gynnydd sylweddol yn niferoedd cyffredinol y disgyblion. O ganlyniad, mae'n debygol mai prin fydd yr effaith ehangach ar weithgarwch cymunedol dyddiol, defnydd ac ymgysylltiad, gan aros yn debyg i'r lefelau presennol.

Gallai gwasanaethau ysgol fel clybiau brecwast, darpariaeth ar ôl ysgol a defnydd cymunedol anffurfiol barhau o dan yr opsiwn hwn. Byddai hyn yn helpu i gadw rhywfaint o'r buddion cymdeithasol ac ymarferol y mae teuluoedd y pentref yn elwa arnynt ar hyn o bryd o achos yr ysgol.

Gan nad yw'r opsiwn hwn yn mynd i'r afael â nifer isel y disgyblion na sefyllfa ariannol yr ysgol, mae'n bosibl mai parhau fydd yr ansicrwydd yn y gymuned ynghylch dyfodol yr ysgol yn y tymor hir. Gallai hyn effeithio ar hyder y gymuned a pharodrwydd i gyfrannu at gynllunio ar gyfer y tymor hir neu fuddsoddiad sy'n gysylltiedig â'r ysgol.

Yr effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio

O dan yr opsiwn hwn, byddai Ysgol Blaenau yn parhau ar agor ar ei safle presennol. Gan hynny, ni fyddai unrhyw newid i drefniadau teithio'r disgyblion sy'n mynychu'r ysgol ar hyn o bryd, a fyddai'n parhau i gael eu haddysg yn y pentref.

Rhesymau dros ddiystyru'r opsiwn hwn

- Byddai angen buddsoddiad sylweddol mewn staff arbenigol, hyfforddiant wedi'i dargedu, ac adnoddau ychwanegol, ac nid yw hynny'n ymarferol yn ariannol o ystyried y diffyg cyfredol ac amcanol yng nghyllideb yr ysgol.
- Byddai recriwtio a chadw staff sy'n meddu ar y cymwysterau addas ar gyfer darpariaeth ADY ac anogaeth yn heriol ac yn gostus, ac yn ychwanegu risg weithredol.
- Hyd yn oed o gael darpariaeth ADY ac anogaeth, byddai'r ysgol yn dal i wynebu sefyllfa lle mae nifer y disgyblion yn gyson isel, nifer y lleoedd gwag yn uchel, a diffyg sylweddol yn cael ei ragweld yn y gyllideb, sy'n golygu y byddai'r ansicrwydd ynghylch cynaliadwyedd hirdymor yn parhau.
- Wrth weithredu darpariaeth arbenigol, rhaid yw cyrraedd safonau

rheoleiddio llym a bodloni gofynion diogelu, sy'n creu cymhlethdod a baich gweinyddol.
- Mae ysgolion cyfagos eisoes yn cynnig darpariaeth ADY arbenigol, felly mae'n annhebygol y bydd yr opsiwn hwn yn denu digon o ddisgyblion ychwanegol i gyfiawnhau'r buddsoddiad, gan arwain at aneffeithlonrwydd a dyblygu gwasanaethau.

Opsiwn Amgen 5 – Lleihau Nifer y Staff Ymhellach	
Cryfderau	**Gwendidau**
Yr arbedion cost posibl: Gallai lleihau nifer y staff leihau'r costau cyflog a'r costau cyflogaeth cysylltiedig, gan godi rhywfaint o'r pwysau ariannol yn y tymor byr.	Anymarferol oherwydd bod cyn lleied o staff: Mae'r ysgol eisoes yn gweithredu gyda thîm bach iawn (dau athro, un cynorthwyydd addysgu, a gofalwr), felly nid yw lleihad pellach yn ymarferol heb beri risg i weithrediadau sylfaenol.
Lleihau'r diffyg: Mae'r opsiwn hwn yn targedu'n uniongyrchol y diffyg sylweddol a chynyddol yng nghyllideb yr ysgol, gyda golwg ar leihau gwariant.	Effaith negyddol ar ddarpariaeth addysgol: Byddai lleihau nifer y staff ymhellach yn debygol o arwain at ddosbarthiadau oedran cymysg mwy o faint a llai o gymorth unigol, gan effeithio'n negyddol ar ansawdd yr addysgu a deilliannau disgyblion.
	Rhagor o lwyth gwaith a straen: Byddai'r staff fyddai'n weddill yn wynebu llwythi gwaith anghynaladwy, a allai effeithio ar forâl, cadw staff, a'r gallu i gyflwyno'r cwricwlwm yn effeithiol.
	Hyd yn oed o leihau nifer y staff, byddai'r ysgol yn dal i wynebu sefyllfa lle mae nifer y disgyblion yn gyson isel, nifer y lleoedd gwag yn uchel, a diffyg sylweddol yn cael ei ragweld yn y gyllideb, sy'n golygu y byddai'r broblem o gynaliadwyedd hirdymor yn parhau.
Cyfleoedd	**Bygythiadau**
Llai o bwysau ariannol yn y tymor byr: Gallai lleihau nifer y staff leddfu dros dro y pwysau cyllidebol sydd ar yr ysgol trwy ostwng y costau cyflog a'r costau cyflogaeth.	Effaith ddifrifol ar ddarpariaeth addysgol: Byddai lleihau nifer y staff ymhellach yn debygol o arwain at ddosbarthiadau oedran cymysg mwy o faint a llai o gymorth unigol, gan effeithio'n negyddol ar ansawdd yr addysgu a deilliannau disgyblion.

Gellid ailgyfeirio'r arbedion sy'n deillio o leihau nifer y staff i feysydd hanfodol fel deunyddiau dysgu neu gynnal a chadw adeiladau. Fodd bynnag, fel sydd wedi'i nodi yn y ddogfen, mae'r ysgol eisoes yn gweithredu â strwythur staffio bach iawn, sy'n golygu bod lleihad pellach yn anymarferol ac yn debygol o niweidio'r ddarpariaeth addysgol.	Gallai hyn arwain at forâl isel, a throsiant uwch, gan ei gwneud hi'n anodd cadw sefydlogrwydd a chynnal safonau.
	Gyda llai o staff, gallai'r ysgol ei chael yn anodd bodloni gofynion statudol a chyflawni hyd a lled y Cwricwlwm i Gymru yn llawn mewn modd effeithiol.
	Hyd yn oed o leihau nifer y staff, byddai'r ysgol yn dal i wynebu sefyllfa lle mae nifer y disgyblion yn gyson isel, nifer y lleoedd gwag yn uchel, a diffyg sylweddol yn cael ei ragweld yn y gyllideb, sy'n golygu y gallai cau'r ysgol yn y pen draw fod yn anochel o hyd.
	Canfyddiad cymunedol negyddol: Gallai lleihau nifer y staff niweidio enw da'r ysgol a'r berthynas â rhieni, gan gyflymu'r dirywiad yn nifer y disgyblion o bosibl.

Yr effaith debygol ar ansawdd a safonau mewn addysg

Pe bai nifer y staff yn cael ei leihau ymhellach yn Ysgol Blaenau, mae'r Awdurdod Lleol o'r farn y byddai'r opsiwn hwn yn debygol o gael effaith negyddol ar ansawdd a safonau'r addysg.

Mae strwythur staffio Ysgol Blaenau eisoes yn fach iawn, sef dau athro, a staff cymorth cyfyngedig. O ganlyniad, go brin y gellir lleihau staffio ymhellach heb fod hynny'n effeithio ar allu'r ysgol i gyflawni ei chyfrifoldebau gweithredol, addysgol a statudol.

Byddai unrhyw leihad pellach yn nifer y staff yn rhoi pwysau ychwanegol ar drefniadau addysgu a chymorth. Byddai'n rhaid i staff ddiwallu anghenion dysgwyr ar draws ystod gynyddol eang o oedrannau, galluoedd ac anghenion dysgu â llai o gapasiti ar gyfer addysgu, ymyrraeth a chymorth. Byddai hyn yn ei gwneud hi'n fwy heriol darparu lefelau priodol o her, cymorth a gwahaniaethu i bob dysgwr.

Byddai gan yr ysgol hefyd lai o gapasiti i ddarparu'r ystod llawn o brofiadau dysgu a ddisgwylir yn y Cwricwlwm i Gymru. Wrth i'r capasiti staffio leihau, gall y cyfleoedd o ran cyfoethogi'r cwricwlwm, ymyrraeth wedi'i dargedu, cydweithio proffesiynol a phrofiadau dysgu ehangach fynd yn fwy prin.

Byddai lleihau nifer y staff ymhellach yn debygol o gynyddu'r pwysau ar y staff sy'n weddill o ran llwyth gwaith. Gan fod strwythur staffio'r ysgol mor fach, mae arweinyddiaeth, addysgu, asesu, cyfrifoldebau ADY a gwaith gwella'r ysgol eisoes wedi'u rhannu rhwng nifer fach o unigolion. Byddai unrhyw leihad pellach yn lleihau cadernid trefniadaethol ac yn gosod gofynion ychwanegol ar staff, gan effeithio o bosibl ar y capasiti ar gyfer arweinyddiaeth strategol, datblygu'r cwricwlwm, dysgu proffesiynol a hunanwerthuso.

Noda'r Awdurdod Lleol y gallai lleihau staffio ymhellach effeithio ar allu'r ysgol i ddarparu cymorth unigol i ddysgwyr, yn enwedig y rhai sydd angen darpariaeth ddysgu ychwanegol, cymorth llesiant neu ymyrraeth wedi'i dargedu. Gan fod nifer y staff yn fach eisoes, gallai lleihad pellach ei gwneud hi'n anoddach cynnal y lefelau presennol o gymorth wrth gyflawni dyletswyddau statudol a disgwyliadau.

Er y gall lleihau nifer y staff greu rhywfaint o arbedion ariannol yn y tymor byr, ni fyddai'n mynd i'r afael â'r ffactorau sylfaenol sy'n effeithio ar gynaliadwyedd hirdymor yr ysgol, gan gynnwys niferoedd disgyblion isel, lleoedd gwag uchel a diffyg sylweddol a chynyddol yng nghyllideb yr ysgol. Felly, mae'r Awdurdod Lleol o'r farn y byddai unrhyw fudd ariannol yn fach ac yn annhebygol o fod yn drech na'r effaith bosibl ar ddarpariaeth addysgol.

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y nodweddion cadarnhaol a nodwyd yn ystod arolygiad diweddaraf Estyn, ac ymrwymiad arweinwyr a staff i gefnogi dysgu a llesiant disgyblion. Fodd bynnag, o ystyried strwythur staffio presennol yr ysgol, go brin y gellir lleihau nifer y staff ymhellach heb fod hynny'n effeithio ar allu'r ysgol i ddarparu addysg a chyflawni ei chyfrifoldebau statudol.

O ganlyniad, mae'r Awdurdod Lleol o'r farn y byddai'r opsiwn hwn yn annhebygol o gefnogi gwelliannau mewn ansawdd a safonau ac na fyddai'n darparu ateb cynaliadwy i'r heriau sy'n wynebu'r ysgol.

Yr effaith debygol ar y gymuned

Byddai lleihad pellach yn nifer y staff yn debygol o gyfyngu ar allu'r ysgol i gefnogi gweithgareddau a gwasanaethau cymunedol, megis clybiau brecwast, darpariaeth ar ôl ysgol a defnydd anffurfiol o'r ysgol gan y gymuned. Mae'r gweithgareddau hyn yn aml yn dibynnu ar argaeledd staff, a gallai llai o staff arwain at gwtogi'r rhain neu eu tynnu'n ôl yn llwyr.

Gallai lleihau nifer y staff gael ei weld gan y gymuned fel arwydd o ddirywiad yn hyfywedd a sefydlogrwydd yr ysgol. Gallai hyn leihau hyder ymhlith rhieni a

thrigolion yn nyfodol hirdymor Ysgol Blaenau a bod yn ddigon i atal teuluoedd rhag dewis yr ysgol, gan gyflymu'r dirywiad yn nifer y disgyblion.

Wrth i gapasiti'r staff gael ei ymestyn ymhellach, gallai cyfleoedd i ymgysylltu â rhieni, gofalwyr a'r gymuned ehangach fynd yn brinnach. Gallai hyn effeithio ar gyfathrebu, cyfraniad rhieni at fywyd yr ysgol, a rôl yr ysgol fel canolfan i gysylltu pobl yn y pentref.

Gallai lleihau nifer y staff ymhellach effeithio ar forâl y gymuned, yn enwedig lle mae cysylltiadau wedi bod gan aelodau o'r staff yn y pentref ers tro byd. Gallai colli staff cyfarwydd wanhau'r berthynas rhwng teuluoedd a'r ysgol a lleihau parhad i'r gymuned.

Er bod modd ystyried lleihau nifer y staff fel ymgais i fynd i'r afael â phwysau ariannol, byddai'r budd i'r gymuned yn fach iawn mewn gwirionedd. Byddai'r ysgol dal ar agor, ond ni fyddai'n gallu cyfrannu'n gadarnhaol i'r un graddau at fywyd y gymuned, na bod yn ganolfan ar gyfer gweithgareddau lleol.

Gan nad yw'r opsiwn hwn yn datrys problemau sylfaenol megis niferoedd disgyblion isel a chynaliadwyedd ariannol yn y tymor hir, mae'n bosibl mai parhau fydd ansicrwydd y gymuned am ddyfodol yr ysgol. Gallai lleihau nifer y staff yn barhaus atgyfnerthu'r pryderon am y posibilrwydd o gau yn y dyfodol, gan arwain at gyfnod hir o boeni i deuluoedd a thrigolion.

Yr effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio

O dan yr opsiwn hwn, byddai Ysgol Blaenau yn parhau ar agor ar ei safle presennol. Gan hynny, ni fyddai unrhyw newid i drefniadau teithio'r disgyblion sy'n mynychu'r ysgol ar hyn o bryd, a fyddai'n parhau i gael eu haddysg yn y pentref.

Rhesymau dros ddiystyru'r opsiwn hwn

- Mae'r ysgol eisoes yn gweithredu gyda strwythur staffio bach iawn, ac ni fyddai cwtogi pellach yn ymarferol heb beri risg i weithrediadau sylfaenol.
- Byddai lleihau nifer y staff yn cael effaith negyddol ar y ddarpariaeth addysgol, gan arwain at ddosbarthiadau oedran cymysg mwy o faint a llai o gymorth unigol, a fyddai'n cael effaith niweidiol ar ansawdd yr addysgu a deilliannau disgyblion.
- Hyd yn oed o leihau nifer y staff, byddai'r ysgol yn dal i wynebu sefyllfa lle mae nifer y disgyblion yn gyson isel, nifer y lleoedd gwag yn uchel, a diffyg sylweddol yn cael ei ragweld yn y gyllideb, sy'n golygu y byddai'r broblem o gynaliadwyedd hirdymor yn parhau.
- Gallai'r cynnydd mewn llwyth gwaith a straen yn achos y staff fyddai'n weddill effeithio ar forâl, cadw staff, a'r gallu i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru yn llawn mewn modd effeithiol.
- Nid yw'r opsiwn hwn yn cyd-fynd ag Egwyddorion Addysg Gynradd Sir Gaerfyrddin, sy'n ceisio lleihau dosbarthiadau oedran cymysg a chynnal darpariaeth o safon.

Opsiwn Amgen 6 – Ystyried manteision ansoddol Ysgol Blaenau	
Cryfderau	**Gwendidau**
Mae gan Ysgol Blaenau enw da a chysylltiadau cryf â'r gymuned leol, sy'n meithrin amgylchedd cefnogol i ddisgyblion a theuluoedd.	Er cydnabod manteision ansoddol fel ethos cymunedol ac enw da, nid yw'r ffactorau hyn yn datrys y problemau sylfaenol o nifer disgyblion sy'n gyson isel, nifer uchel o leoedd gwag, a diffyg sylweddol yn y gyllideb a ragwelir.
Cafodd yr ysgol arolygiad cadarnhaol yn 2024, a dynnodd sylw at gryfderau yn ansawdd yr addysgu a'r arweinyddiaeth, er gwaethaf heriau ariannol.	Hyd yn oed o ystyried manteision ansoddol, nid yw ymgysylltiad cymunedol neu enw da yn ddigon ar ei ben ei hun i liniaru diffyg cynyddol yr ysgol.
	Nid yw'r opsiwn hwn yn cyd-fynd ag Egwyddorion Addysg Gynradd Sir Gaerfyrddin, sy'n ceisio lleihau dosbarthiadau oedran cymysg a sicrhau bod strwythurau arweinyddiaeth yn gynaliadwy.
	Nid yw manteision ansoddol yn gwarantu cynnydd yn y nifer ar y gofrestr, sy'n golygu y byddai'r lleoedd gwag a'r aneffeithlonrwydd yn parhau.
Cyfleoedd	**Bygythiadau**
Gellid defnyddio cysylltiadau cryf yr ysgol â'r gymuned leol i ddatblygu partneriaethau, ymgyrchoedd codi arian, a chefnogaeth gan wirfoddolwyr er mwyn gwella adnoddau a gweithgareddau.	Hyd yn oed o ystyried manteision ansoddol, byddai'r ysgol yn dal i wynebu sefyllfa lle mae nifer y disgyblion yn isel, nifer y lleoedd gwag yn uchel, a diffyg sylweddol yn cael ei ragweld yn y gyllideb, sy'n golygu y gallai cau'r ysgol yn y pen draw fod yn anochel o hyd.
	Rhagwelir y bydd y gyllideb diffyg yn £362,566 erbyn diwedd 2026/27, ac nid yw ymgysylltiad cymunedol neu enw da yn ddigon ar ei ben ei hun i'w liniaru.
	Nid yw'r opsiwn hwn yn llwyddo i gyflawni Egwyddorion Addysg Gynradd Sir Gaerfyrddin, sy'n ceisio lleihau dosbarthiadau oedran cymysg a sicrhau

	bod strwythurau arweinyddiaeth yn gynaliadwy.
	Os na fydd cynnydd sylweddol yn nifer y disgyblion, mae'n bosibl mai cau fydd tynged yr ysgol o hyd maes o law, gan achosi rhagor o darfu ar ddisgyblion, staff a'r gymuned.

Yr effaith debygol ar ansawdd a safonau mewn addysg

Pe bai'r Awdurdod Lleol yn rhoi mwy o bwyslais ar fanteision ansoddol Ysgol Blaenau megis ei ethos cymunedol, enw da a dyfarniadau diweddar Estyn, mae'r effaith gyffredinol ar ansawdd a safonau mewn addysg yn debygol o fod yn fach ac yn annigonol i sicrhau gwelliant hirdymor.

Mae gan Ysgol Blaenau gryfderau, gan gynnwys perthnasoedd cryf o fewn cymuned yr ysgol, ethos gofalgar, ac agweddau cadarnhaol a nodwyd yn arolygiad diweddaraf Estyn. Mae'r ffactorau hyn yn cyfrannu at amgylchedd dysgu cefnogol a gallant wella llesiant ac ymgysylltiad disgyblion.

Fodd bynnag, er cydnabod ffactorau ansoddol, nid ydynt yn mynd i'r afael â'r heriau strwythurol sylfaenol sy'n wynebu'r ysgol. O gael nifer disgyblion sy'n gyson isel, rhaid wrth ddefnydd parhaus o ddosbarthiadau cymysg sy'n rhychwantu sawl grŵp blwyddyn, ac mae heriau parhaus yn perthyn i hyn o ran cyflwyno'n gyson addysgu a dysgu sydd o safon ac sy'n briodol i'r oedran ar draws y cwricwlwm.

Mae bychander yr ysgol yn cyfyngu ar y cyfleoedd i ddarparu'r Cwricwlwm i Gymru yn llawn, gan gynnwys gweithgareddau cyfoethogi ehangach ac arbenigedd pwnc. Mae'r cyfyngiadau hyn yn cyfyngu ar brofiadau dysgu disgyblion ac ar gyfleoedd i ddysgu a gwneud cynnydd ar y cyd â chyfoedion.

Mae'r diffyg sylweddol a chynyddol yng nghyllideb yr ysgol yn parhau i roi pwysau ar staffio, adnoddau a chapasiti arweinyddiaeth. Heb fynd i'r afael â chynaliadwyedd ariannol, perir risg i allu'r ysgol i gynnal neu wella safonau dros amser, waeth beth fo'r cryfderau ansoddol presennol.

Er bod perthnasoedd ac ethos cryf yn fuddiol, maent yn dibynnu'n helaeth ar nifer fach o unigolion. Mae hyn yn creu sefyllfa fregus ac yn cyfyngu ar allu'r ysgol i gynnal gwelliant, i gynllunio'n strategol neu i ymateb yn effeithiol i heriau yn y dyfodol.

Yr effaith debygol ar y gymuned

Byddai rhoi rhagor o bwyslais ar fanteision ansoddol Ysgol Blaenau yn caniatáu i'r ysgol aros ar agor yn y pentref, gan gadw presenoldeb addysg yn lleol a chadw rôl yr ysgol fel canolfan ar gyfer bywyd cymunedol.

Mae gan Ysgol Blaenau gysylltiadau cryf â'i chymuned leol ac mae ei hethos

gofalgar a'i pherthnasoedd agos â theuluoedd yn cael eu gwerthfawrogi. Byddai parhad yr ysgol yn helpu i gynnal y perthnasoedd hyn a chefnogi cydlyniant cymunedol, yn enwedig i deuluoedd â chysylltiad dros gyfnod hir â'r ysgol.

Gallai gwasanaethau ysgol fel clybiau brecwast, darpariaeth ar ôl ysgol a defnydd cymunedol anffurfiol barhau, gan gadw rhai o'r buddion cymdeithasol ac ymarferol mae'r ysgol yn eu rhoi i'r gymuned leol ar hyn o bryd.

Er bod cadw'r ysgol yn cynnig sicrwydd tymor byr, nid yw'r opsiwn hwn yn mynd i'r afael â heriau sylfaenol fel nifer isel y disgyblion a chynaliadwyedd ariannol. O ganlyniad, mae'n debygol mai bach fydd y buddion cymunedol o hyd, ac efallai na fydd lefelau gweithgarwch o fewn yr ysgol a'r pentref yn cynyddu rhyw lawer.

Gall dibynnu yn bennaf ar fanteision ansoddol ymestyn y cyfnod o ansicrwydd i'r gymuned. Os na ddatrysir problemau sylfaenol, bosib iawn mai parhau fydd pryderon teuluoedd a thrigolion am hyfywedd hirdymor yr ysgol a'r posibilrwydd mai cau fydd ei hanes yn y dyfodol, gan hwyhau'r ansicrwydd.

Gall ansicrwydd parhaus am ddyfodol yr ysgol effeithio ar hyder y gymuned ac ar wneud penderfyniadau, er enghraifft, dylanwadu ar benderfyniad teuluoedd i aros yn yr ardal neu beidio neu ddewis yr ysgol ar gyfer eu plant. Gallai hyn gyfyngu ar yr effaith gadarnhaol ar y gymuned yn y tymor hir.

Yr effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio

O dan yr opsiwn hwn, byddai Ysgol Blaenau yn parhau ar agor ar ei safle presennol. Gan hynny, ni fyddai unrhyw newid i drefniadau teithio'r disgyblion sy'n mynychu'r ysgol ar hyn o bryd, a fyddai'n parhau i gael eu haddysg yn y pentref.

Rhesymau dros ddiystyru'r opsiwn hwn

- Er cydnabod manteision ansoddol fel ethos cymunedol ac enw da, nid yw'r ffactorau hyn yn datrys y problemau sylfaenol o nifer disgyblion sy'n gyson isel, nifer uchel o leoedd gwag, a diffyg sylweddol yn y gyllideb a ragwelir.
- Nid yw ymgysylltiad cymunedol neu enw da yn ddigon ar ei ben ei hun i liniaru diffyg cynyddol yr ysgol.
- Nid yw manteision ansoddol yn gwarantu cynnydd yn nifer y disgyblion, sy'n golygu y byddai'r lleoedd gwag a'r aneffeithlonrwydd yn parhau.
- Nid yw'r opsiwn hwn yn bodloni Egwyddorion Addysg Gynradd Sir Gaerfyrddin, sy'n ceisio lleihau dosbarthiadau oedran cymysg a sicrhau bod strwythurau arweinyddiaeth yn gynaliadwy.
- Hyd yn oed petai'n cael ei weithredu, mae'n bosibl mai cau fyddai tynged yr ysgol o hyd maes o law, gan achosi rhagor o darfu ar ddisgyblion, staff a'r gymuned.

Opsiwn Amgen 7 – Cyflwyno Cylch Meithrin	
Cryfderau	**Gwendidau**
Gallai cyflwyno Cylch Meithrin gryfhau trochi yn y Gymraeg a bodloni amcanion Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg.	Roedd Cylch Meithrin yn arfer bod yn yr ysgol ond ni welwyd unrhyw welliant o bwys yn nifer y disgyblion yn sgil hynny, sy'n awgrymu bod yr opsiwn hwn yn annhebygol o arwain at newid sylweddol.
Gallai cynnig darpariaeth blynyddoedd cynnar annog rhieni i ddewis Ysgol Blaenau er mwyn cael parhad o'r meithrin i addysg gynradd.	Mae sawl ysgol leol eisoes yn cynnig darpariaeth blynyddoedd cynnar, sy'n golygu ei bod yn llai tebygol y byddai cyflwyno Cylch Meithrin yn denu digon o ddisgyblion ychwanegol i ddatrys y problemau hyfywedd.
Gallai Cylch Meithrin feithrin cysylltiadau cryfach â theuluoedd lleol a grwpiau cymunedol, gan wella rôl yr ysgol fel canolfan ar gyfer yr iaith Gymraeg a'r diwylliant.	Hyd yn oed o gael Cylch Meithrin, byddai'r ysgol yn dal i wynebu sefyllfa lle mae nifer y disgyblion yn gyson isel, nifer y lleoedd gwag yn uchel, a diffyg sylweddol yn cael ei ragweld yn y gyllideb.
	Er mwyn gweithredu a chynnal Cylch Meithrin, byddai angen staff, byddai angen cydymffurfio â rheoliadau blynyddoedd cynnar, a byddai costau gweithredol parhaus, gan ychwanegu cymhlethdod a phwysau ariannol.
Cyfleoedd	**Bygythiadau**
Gallai sefydlu Cylch Meithrin feithrin cysylltiadau cryfach â theuluoedd lleol a grwpiau cymunedol, gan wella rôl yr ysgol fel canolfan ar gyfer yr iaith Gymraeg a'r diwylliant.	Er mwyn gweithredu a chynnal Cylch Meithrin, byddai angen staff ychwanegol, byddai angen cydymffurfio â rheoliadau blynyddoedd cynnar, a byddai costau gweithredol parhaus, gan ychwanegu cymhlethdod a phwysau ariannol.
	Hyd yn oed o gael Cylch Meithrin, byddai'r ysgol yn dal i wynebu sefyllfa lle mae nifer y disgyblion yn gyson isel, nifer y lleoedd gwag yn uchel, a diffyg sylweddol yn cael ei ragweld yn y gyllideb, sy'n golygu na fyddai'r broblem o ran cynaliadwyedd hirdymor yn cael ei datrys.

	Mae sawl ysgol leol eisoes yn cynnig darpariaeth blynyddoedd cynnar, sy'n golygu ei bod yn llai tebygol y byddai cyflwyno Cylch Meithrin yn denu digon o ddisgyblion ychwanegol i wneud gwahaniaeth arwyddocaol.
	Os na fydd cynnydd sylweddol yn nifer y disgyblion, gellid ystyried y fenter hon yn ddefnydd aneffeithiol o adnoddau, gan danseilio hyder yn yr ysgol a strategaeth yr Awdurdod Lleol.

Yr effaith debygol ar ansawdd a safonau mewn addysg

Gallai cyflwyno Cylch Meithrin yn Ysgol Blaenau gynnig rhai manteision addysgol wedi'u targedu, yn enwedig mewn perthynas â datblygiad iaith cynnar, trochi yn y Gymraeg a pharodrwydd plant iau ar gyfer yr ysgol. Gall mynediad at ddarpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg gefnogi sgiliau cyfathrebu plant, eu datblygiad cymdeithasol, a'r cam o bontio i addysg statudol. Gall hefyd hyrwyddo parhad i'r plant hynny sydd wedyn yn symud ymlaen i'r dosbarth derbyn yn yr ysgol.

Fodd bynnag, mae'r Awdurdod Lleol o'r farn mai prin fyddai'r effaith gyffredinol ar ansawdd a safonau mewn addysg, ac mai'r tebygolrwydd yw na fyddai'r opsiwn hwn yn mynd i'r afael â heriau sylfaenol yr ysgol. Mae'n bwysig nodi bod Cylch Meithrin wedi bod ar safle'r ysgol tan yn gymharol ddiweddar. Er gwaethaf y ddarpariaeth hon, ni wnaeth arwain at gynnydd mesuradwy na pharhaus yn nifer y disgyblion a fyddai wedi bod yn ddigonol i wella hyfywedd hirdymor yr ysgol. O ganlyniad, prin yw'r dystiolaeth i awgrymu y byddai ailgyflwyno Cylch Meithrin yn cynyddu'n sylweddol y nifer ar y gofrestr neu'n newid y patrymau presennol o ran dewis rhieni.

Mae'r data genedigaethau a'r amcanestyniadau disgyblion sydd ar gael hefyd yn dangos mai bach yw'r potensial ar gyfer twf sylweddol yn nifer y disgyblion yn y dalgylch. O ganlyniad, byddai'r ysgol yn debygol o barhau i weithredu â charfannau bach iawn a dosbarthiadau oedran cymysg sy'n rhychwantu sawl grŵp blwyddyn. Er bod staff yn gweithio'n effeithiol i gefnogi dysgwyr o fewn y strwythur hwn, byddai'r heriau sy'n gysylltiedig â chynllunio'r cwricwlwm, cynnydd a darparu profiadau dysgu priodol i'r oedran i ystod oedran eang yn parhau.

Ni fyddai cyflwyno Cylch Meithrin yn newid, yn ei hanfod, y profiadau addysgol ar gyfer y rhan fwyaf o'r disgyblion sydd eisoes yn mynychu'r ysgol. Prin o hyd fyddai'r cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu, cydweithio a chymdeithasu â grwpiau mwy o oedran tebyg, ac, yn yr un modd, gyfleoedd sy'n gysylltiedig â phoblogaeth fwy o ddisgyblion, megis profiadau dysgu grŵp ehangach, gweithgareddau tîm a rhai

cyfleoedd allgyrsiol.

I sefydlu a chynnal Cylch Meithrin, byddai angen hefyd oruchwyliaeth barhaus o'r arweinyddiaeth, cydymffurfiaeth â gofynion rheoleiddiol, a rheolaeth weithredol. O ystyried strwythur staffio bach yr ysgol ac ymrwymiad addysgu sylweddol y pennaeth, gallai hyn osod gofynion ychwanegol ar y capasiti arweinyddiaeth a'r adnoddau.

Yn ogystal, ni fyddai'r opsiwn hwn yn mynd i'r afael â'r diffyg sylweddol a chynyddol yng nghyllideb yr ysgol, lefel uchel y lleoedd gwag na'r heriau cynaliadwyedd ehangach. Heb gynnydd sylweddol yn nifer y disgyblion, parhau fyddai'r pwysau ariannol, a gallai hynny barhau i gyfyngu ar allu'r ysgol i fuddsoddi mewn staff, adnoddau, datblygu'r cwricwlwm a dysgu proffesiynol.

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y gwerth addysgol y gall darpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg ei roi, ac yn cydnabod y manteision posibl i nifer fach o ddysgwyr iau. Fodd bynnag, o gofio bod Cylch Meithrin wedi bodoli ar y safle o'r blaen heb greu cynnydd digonol yn nifer y disgyblion, mae'r Awdurdod Lleol o'r farn na fyddai ailgyflwyno'r ddarpariaeth hon yn debygol o roi bod i welliannau sylweddol yn y ddarpariaeth addysg gyffredinol, na sicrhau cynaliadwyedd hirdymor yr ysgol. I raddau helaeth, ni fyddai unrhyw newid o ran yr heriau sylfaenol sy'n gysylltiedig â nifer isel y disgyblion, dosbarthiadau oedran cymysg, llawer o leoedd gwag, capasiti cyfyngedig o ran yr arweinyddiaeth, a chynaliadwyedd ariannol.

Yr effaith debygol ar y gymuned

Gallai cyflwyno Cylch Meithrin yn Ysgol Blaenau ddarparu rhai manteision cymunedol yn y tymor byr, yn enwedig ar gyfer teuluoedd a phlant iau. Gallai rhieni a gofalwyr weld y ddarpariaeth blynyddoedd cynnar leol fel rhywbeth cadarnhaol, sy'n fwy hwylus, sy'n lleihau teithio i leoliadau eraill, ac sy'n cefnogi ymgysylltiad cynnar ag addysg cyfrwng Cymraeg yn y pentref. Gallai hyn helpu i gynnal rôl yr ysgol fel canolfan gymunedol ac i atgyfnerthu'r cysylltiadau rhwng yr ysgol a theuluoedd lleol yn y blynyddoedd cynnar.

Gallai Cylch Meithrin hefyd gynnig cyfleoedd i gryfhau cydlyniant cymunedol, yn enwedig os yw'n hybu mwy o ddefnydd o safle'r ysgol gan deuluoedd lleol ac yn cefnogi rhwydweithio anffurfiol rhwng rhieni plant cyn-ysgol. Mewn egwyddor, gallai hyn helpu i gadw rhywfaint o weithgarwch dyddiol o fewn adeilad yr ysgol a sicrhau bod lle amlwg o hyd gan yr ysgol ym mywyd y pentref.

Fodd bynnag, mae'r Awdurdod Lleol o'r farn mai prin fyddai'r effaith gyffredinol ar y gymuned. Mae tystiolaeth yn y ddogfen ymgynghori yn dangos bod Cylch Meithrin wedi bod yn Ysgol Blaenau o'r blaen, a hynny heb arwain at gynnydd parhaus yn nifer y disgyblion na gwelliant hirdymor yn hyfywedd yr ysgol. O ganlyniad, nid oes tystiolaeth glir y byddai ailgyflwyno'r ddarpariaeth hon yn arwain at newid sylweddol neu barhaol yn y graddau y mae'r gymuned yn ymgysylltu â'r ysgol, nac

yn y tueddiadau i ddewis mynd â disgyblion tu allan i'r dalgylch i gael eu haddysg.

Yr effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio

O dan yr opsiwn hwn, byddai Ysgol Blaenau yn parhau ar agor ar ei safle presennol. Gan hynny, ni fyddai unrhyw newid i drefniadau teithio'r disgyblion sy'n mynychu'r ysgol ar hyn o bryd, a fyddai'n parhau i gael eu haddysg yn y pentref.

Rhesymau dros ddiystyru'r opsiwn hwn

- Roedd Cylch Meithrin yn arfer bod yn Ysgol Blaenau ond ni welwyd unrhyw effaith o bwys o ran cynyddu nifer y disgyblion yn sgil hynny, sy'n dangos bod yr opsiwn hwn yn annhebygol o arwain at welliant sylweddol.
- Nid yw data genedigaethau a CYBLD yn dangos digon o alw am ddarpariaeth blynyddoedd cynnar yn nalgylch Ysgol Blaenau i wneud yr opsiwn hwn yn hyfyw.
- Mae sawl ysgol leol eisoes yn cynnig darpariaeth blynyddoedd cynnar, sy'n golygu ei bod yn llai tebygol y byddai cyflwyno Cylch Meithrin yn denu digon o ddisgyblion ychwanegol i ddatrys y problemau hyfywedd.
- Hyd yn oed o gael Cylch Meithrin, byddai'r ysgol yn dal i wynebu sefyllfa lle mae nifer y disgyblion yn gyson isel, nifer y lleoedd gwag yn uchel, a diffyg sylweddol yn cael ei ragweld yn y gyllideb.
- Er mwyn gweithredu a chynnal Cylch Meithrin, byddai angen staff, byddai angen cydymffurfio â rheoliadau blynyddoedd cynnar, a byddai costau gweithredol parhaus, gan ychwanegu cymhlethdod a phwysau ariannol.

Opsiwn Amgen 8 – Prydlesu lle at ddefnydd cymunedol / gofal plant	
Cryfderau	**Gwendidau**
Gallai prydlesu lle ddarparu ffrwd refeniw ychwanegol i helpu i dalu rhai o'r costau gweithredu.	Fodd bynnag ni fyddai prydlesu lle yn mynd i'r afael â heriau sylfaenol yr ysgol megis nifer isel y disgyblion, nifer fawr o leoedd gwag, a diffyg sylweddol yn cael ei ragweld yn y gyllideb.
Gallai'r opsiwn hwn gryfhau cysylltiadau â'r gymuned leol trwy greu canolfan amlbwrpas ar gyfer gofal plant a gweithgareddau eraill.	Byddai gweithredu'r opsiwn hwn yn gofyn am gyflwyno mesurau diogelu trylwyr, cydymffurfio â safonau rheoleiddio, a monitro yn barhaus i sicrhau diogelwch a llesiant plant a staff.
Hyd yn oed os bydd nifer y disgyblion yn aros yn isel, gallai adeilad yr ysgol barhau i fod yn adnodd gwerthfawr i	Byddai rheoli prydlesi a sicrhau cydymffurfiaeth yn golygu cryn amser, cryn gost, a chryn ymdrech weinyddol i'r

deuluoedd a grwpiau lleol.	ysgol a'r Awdurdod Lleol.
	Er bod creu incwm yn bosibl, ni fyddai'n ddigon i fynd i'r afael â hyfywedd hirdymor yr ysgol neu i ddileu'r diffyg sylweddol yn y gyllideb.
Cyfleoedd	**Bygythiadau**
Gallai prydlesu lle greu ffrwd refeniw i helpu i dalu rhai o'r costau gweithredu a lleihau'r baich ariannol sydd ar yr ysgol.	Er mwyn prydlesu lle ar gyfer gofal plant neu ddefnydd cymunedol, mae gofyn cael mesurau diogelu llym a chydymffurfio â safonau rheoleiddio. Gallai methu â bodloni'r rhain arwain at niwed i enw da neu gamau gorfodi.
Gallai'r opsiwn hwn drawsnewid yr ysgol yn ganolfan amlbwrpas, gan feithrin perthnasoedd cryfach â theuluoedd lleol a grwpiau cymunedol.	Byddai rheoli prydlesi, monitro cydymffurfiaeth, a sicrhau diogelwch yn golygu cryn amser, cryn gost a chryn ymdrech weinyddol, gan ychwanegu hyd yn oed rhagor o bwysau at sefyllfa sydd eisoes yn anghynaladwy.
Gallai prydlesu lle ar gyfer gofal plant dwyieithog neu bartneriaethau â darparwyr blynyddoedd cynnar gyd-fynd â strategaethau'r iaith Gymraeg ac addysg.	Mae'n annhebygol y byddai'r incwm fyddai'n dod i law drwy brydlesu yn ddigon i fynd i'r afael â hyfywedd hirdymor yr ysgol neu i ddileu'r diffyg sylweddol yn y gyllideb.
Gallai esgor ar gyfleoedd i weithio mewn partneriaeth â sefydliadau, elusennau, neu fusnesau lleol er mwyn darparu gwasanaethau a gweithgareddau sydd o fudd i'r gymuned ehangach.	Efallai fod gwasanaethau cymunedol neu ofal plant eisoes yn bodoli'n lleol, sy'n golygu y gallai'r opsiwn hwn ddyblygu'r ddarpariaeth a methu â denu digon o ddefnyddwyr i gyfiawnhau'r buddsoddiad.

Yr effaith debygol ar ansawdd a safonau mewn addysg

Mae prydlesu lle yn adeilad Ysgol Blaenau at ddefnydd cymunedol neu ddarpariaeth gofal plant yn annhebygol o gael effaith gadarnhaol uniongyrchol ar ansawdd a safonau yr addysg i ddisgyblion yr ysgol. Er y gallai rhagor o ddefnydd o'r safle yn gymunedol neu'n fasnachol ddarparu rhywfaint o incwm ariannol, nid yw'r opsiwn hwn yn mynd i'r afael â'r heriau addysgol craidd sy'n wynebu'r ysgol ar hyn o bryd, gan gynnwys nifer disgyblion sy'n gyson isel, nifer uchel o leoedd gwag, trefniadau addysgu oedran cymysg ac ansefydlogrwydd ariannol yn y tymor hir.

O safbwynt addysgol, nid yw prydlesu lle yn cynyddu nifer y disgyblion, nac yn gwella trefniadaeth dosbarthiadau na chapasiti staffio. Gan y byddai nifer y disgyblion yn aros yn isel iawn, byddai'r ysgol yn parhau i weithredu â dosbarthiadau cymysg sy'n rhychwantu sawl grŵp blwyddyn. Mae sefyllfa o'r fath

yn parhau i fod yn heriol wrth gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru yn effeithiol, gan fod angen gwahaniaethu helaeth a chynllunio cymhleth, ac mae'n cyfyngu ar gyfleoedd i ddarparu her a chynnydd i'r holl ddysgwyr mewn modd cyson sy'n briodol i'r oedran.

Nid oes tystiolaeth glir y byddai prydlesu lle ar gyfer gofal plant neu wasanaethau cymunedol yn arwain at ragor o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol. Er y gall agosrwydd at ddarpariaeth blynyddoedd cynnar gefnogi pontio mewn rhai amgylchiadau, nid yw profiad Ysgol Blaenau a lleoliadau tebyg yn dangos bod darpariaeth a rennir neu ddarpariaeth sy'n rhannu'r un safle yn ddigon ar ei ben ei hun i arwain at gynnydd parhaus yn nifer y disgyblion oedran ysgol statudol. O ganlyniad, ni fyddai unrhyw newid i'r ffactorau strwythurol sy'n effeithio ar ansawdd addysgol.

Byddai prydlesu lle hefyd yn rhoi cyfrifoldebau gweithredol a diogelu ychwanegol ar arweinwyr yr ysgol. Er mwyn rheoli defnyddwyr allanol y safle, mae angen cael trefniadau diogelu cadarn, monitro a chydymffurfio â safonau rheoleiddio. Yng nghyd-destun ysgol fach iawn sydd â nifer fach o staff a phennaeth sydd ag ymrwymiad addysgu sylweddol, gallai'r cyfrifoldebau ychwanegol hyn leihau ymhellach gapasiti'r arweinyddiaeth ar gyfer blaenoriaethau craidd fel addysgu a dysgu, hunanwerthuso, dysgu proffesiynol a chynllunio er mwyn gwella'r ysgol.

Mae yna hefyd risg y gallai rhannu defnydd o le cyfyngedig roi pwysau ar amgylcheddau addysgu, yn enwedig mewn ysgol fach lle mae'r adeilad eisoes yn cyfateb yn agos iawn i'r angen. Gallai unrhyw leihad yn y lle sydd ar gael i addysgu neu gyfarfod, neu ragor o gyfyngiadau i'r amserlen o achos rhannu defnydd, effeithio'n negyddol ar brofiadau dysgu, yn enwedig i ddisgyblion sydd angen cymorth ychwanegol neu drefniadau dysgu hyblyg.

Er y gallai unrhyw incwm cymedrol a grëir trwy brydlesu lle helpu i brynu mân adnoddau, mae'n annhebygol o wrthbwyso'r diffyg sylweddol a chynyddol yng nghyllideb yr ysgol neu o alluogi buddsoddiad o bwys mewn staffio, cyfoethogi'r cwricwlwm neu ddysgu proffesiynol. O ganlyniad, ni fyddai'r opsiwn hwn yn cefnogi gwelliant parhaus yn ansawdd yr addysgu na deilliannau dysgwyr dros amser.

Yr effaith debygol ar y gymuned

Gallai prydlesu lle yn adeilad Ysgol Blaenau at ddefnydd cymunedol neu ddarpariaeth gofal plant ddarparu rhai manteision yn y tymor byr i'r gymuned leol. Gall defnydd ychwanegol o'r safle helpu i gynnal gweithgarwch yn yr adeilad, darparu mynediad cyfleus i ofal plant neu wasanaethau cymunedol, a chefnogi rhai teuluoedd lleol sy'n gwerthfawrogi cael gwasanaethau yn y pentref. Yn yr ystyr hwn, gallai'r opsiwn gyfrannu i ryw raddau at gadw safle'r ysgol fel ased cymunedol yn y tymor byr.

Gallai cyflwyno darpariaeth gymunedol neu ofal plant hefyd greu cyfleoedd i gryfhau cysylltiadau rhwng yr ysgol a grwpiau neu sefydliadau lleol, gan annog mwy o ddefnydd o'r adeilad y tu allan i'r diwrnod ysgol. Gallai hyn helpu i sicrhau

bod lle amlwg gan y safle o hyd ym mywyd y pentref, a chynnig manteision ymarferol fel llai o deithio i deuluoedd i ofal plant neu weithgareddau lleol.

Fodd bynnag, mae'r Awdurdod Lleol o'r farn mai prin fyddai'r effaith gyffredinol ar y gymuned. Er y gallai prydlesu lle gynyddu'r defnydd o'r adeilad, ni fyddai'n mynd i'r afael â'r rhesymau sylfaenol dros y diffyg hyder sydd gan y gymuned yn yr ysgol, gan gynnwys niferoedd disgyblion sy'n gyson isel, nifer fawr o leoedd gwag ac ansicrwydd hirdymor ynghylch dyfodol yr ysgol. O ganlyniad, mae'r opsiwn hwn yn annhebygol o newid tueddiadau ehangach mewn dewis rhieni neu o gynyddu'n sylweddol ymgysylltiad y gymuned â'r ysgol ei hun.

Hefyd, ar gyfer trefniadau prydlesu byddai angen rheoli, goruchwylio a chydymffurfio o ran diogelu yn barhaus, a allai roi gofynion ychwanegol ar arweinyddiaeth yr ysgol a'r Awdurdod Lleol. Mewn ysgol fach iawn â nifer fach o staff, mae perygl y gallai'r cyfrifoldebau gweinyddol a gweithredol sy'n gysylltiedig â rheoli darpariaeth ar brydles fod yn drech na'r buddion cymunedol, yn enwedig os yw'r adnoddau dan wasgfa.

Yr effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio

O dan yr opsiwn hwn, byddai Ysgol Blaenau yn parhau ar agor ar ei safle presennol. Gan hynny, ni fyddai unrhyw newid i drefniadau teithio'r disgyblion sy'n mynychu'r ysgol ar hyn o bryd, a fyddai'n parhau i gael eu haddysg yn y pentref.

Rhesymau dros ddiystyru'r opsiwn hwn

- Ni fyddai prydlesu lle yn mynd i'r afael â heriau sylfaenol yr ysgol sef nifer isel o ddisgyblion, nifer uchel o leoedd gwag a rhagweld diffyg sylweddol yn y gyllideb.
- Byddai gweithredu'r opsiwn hwn yn gofyn am gyflwyno mesurau diogelu trylwyr, cydymffurfio â safonau rheoleiddio, a monitro parhaus, gan ychwanegu cymhlethdod a chost.
- Byddai rheoli prydlesi a sicrhau cydymffurfiaeth yn golygu cryn amser, cryn gost, a chryn ymdrech weinyddol i'r ysgol a'r Awdurdod Lleol
- Er bod creu incwm yn bosibl, ni fyddai'n ddigon i fynd i'r afael â hyfywedd hirdymor yr ysgol neu i ddileu'r diffyg sylweddol yn y gyllideb.
- Efallai fod gwasanaethau cymunedol neu ofal plant eisoes yn bodoli'n lleol, sy'n golygu y gallai'r opsiwn hwn ddyblygu'r ddarpariaeth a methu â denu digon o ddefnyddwyr i gyfiawnhau'r buddsoddiad.

Opsiynau amgen yn lle cau megis sefydlu ysgolion â mwy nag un safle

Mae ystod o opsiynau ynglŷn â dyfodol Ysgol Blaenau wedi'u hystyried yn ofalus ac fe'u hamlinellir yn y ddogfen ymgynghori hon. Mae pob opsiwn wedi'i asesu, gyda

chrynodeb o'r dadansoddiad Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau (SWOT) a rhesymau dros ffafrio neu beidio yr opsiynau sydd wedi'u cynnwys.

Mae nifer y disgyblion yn Ysgol Blaenau yn isel ar hyn o bryd a rhagwelir y bydd y nifer yn gostwng rhagor yn y blynyddoedd i ddod. Mae lefel uchel o leoedd gwag wedi bod gan yr ysgol, gyda lleoedd gwag yn cyfrif am 71% o'r capasiti yn CYBLD 2026, gan godi i tua 79, 80% erbyn 2031 yn seiliedig ar amcanestyniadau.

Yn ogystal, mae yna leoedd gwag eisoes yn yr ysgolion cyfagos yn yr ardal ehangach. Mae hyn yn dangos bod digon o ddarpariaeth yn lleol i ddarparu ar gyfer y galw presennol a'r galw yn y dyfodol, heb fod angen cadw safle Ysgol Blaenau fel rhan o drefniant lle mae mwy nag un safle.

Mae sefydlu ysgol â mwy nag un safle, lle byddai Ysgol Blaenau yn gweithredu ochr yn ochr ag ysgol arall ar wahanol safleoedd, wedi cael ei ystyried. Fodd bynnag, byddai'r trefniant hwn yn cyflwyno cymhlethdod ychwanegol o ran arweinyddiaeth, staffio, cyflawni'r cwricwlwm, a rheoli o ddydd i ddydd. O ystyried nifer fach iawn y disgyblion yn Ysgol Blaenau, ni fyddai trefniant o'r fath yn effeithlon nac yn gynaliadwy yn ariannol.

Yn ogystal, ni fyddai model mwy nag un safle yn mynd i'r afael â'r heriau sylfaenol sy'n wynebu'r ysgol:

- niferoedd disgyblion sy'n gyson isel ac yn gostwng;
- lefelau uchel iawn o leoedd gwag;
- diffyg sylweddol a chynyddol yn y gyllideb, a
- chyfyngiadau sy'n gysylltiedig â meintiau carfan bach ac addysgu oedran cymysg.

Yn ogystal, ni fyddai creu ysgol aml-safle yn darparu'r manteision addysgol sy'n gysylltiedig ag ysgolion mwy o faint sy'n fwy cynaliadwy, megis mynediad at addysgu grŵp blwyddyn unigol, cwricwlwm ehangach, cyfleoedd allgyrsiol gwell, a mwy o gapasiti staffio.

Am y rhesymau hyn, nid yw'r Awdurdod Lleol yn ystyried bod sefydlu ysgol â mwy nag un safle yn opsiwn amgen addas neu hyfyw i'r cynnig. Byddai'r opsiwn hwn yn annhebygol o gyflawni gwelliannau addysgol, gweithredol neu ariannol ac ni fyddai'n ddefnydd effeithiol o adnoddau cyhoeddus.

Ysgol	**Ysgol Blaenau**	**Ysgol Gymraeg Pen-y-groes**	**Ysgol Llandybïe**	**Cyfanswm**
Capasiti 25/26	98	226	250	574
Nifer ar y gofrestr CYBLD 2026	28	158	209	395
Nifer y lleoedd gwag	70	68	41	179
% y lleoedd gwag	71.4%	30.1%	16.4%	31.2%

Dewisiadau eraill yn lle cau'r ysgol megis y posibiliad o wneud defnydd llawnach o'r adeiladau presennol fel adnodd cymunedol neu addysgol

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod gwerth posibl adeiladau ysgol fel asedau cymunedol neu addysgol ac yn cefnogi'r egwyddor o ddefnyddio cyfleusterau o'r fath lle bo hynny'n briodol. Yn unol â Pholisi Gwaredu Asedau Diangen Ysgolion yr Awdurdod Lleol, yn dilyn proses statudol ac wedi i benderfyniad gael ei wneud ynghylch cau, ystyrir pob opsiwn rhesymol ar gyfer defnyddio safle ysgol yn y dyfodol.

Fodd bynnag, mae sylw manwl wedi'i roi i'r posibilrwydd o wneud defnydd llawnach o adeilad Ysgol Blaenau fel adnodd cymunedol neu addysgol, ac nid yw'n cael ei ystyried yn opsiwn amgen hyfyw i'r cau. Er y gallai fod peth potensial i gynyddu defnydd cymunedol, ni fyddai hyn yn mynd i'r afael â'r heriau sylfaenol sy'n wynebu'r ysgol, gan gynnwys niferoedd disgyblion sy'n gyson isel ac yn gostwng, nifer fawr o leoedd gwag, a diffyg sylweddol a chynyddol o ran y gyllideb. Ni fyddai rhagor o ddefnydd cymunedol ynddo'i hun yn creu digon o alw neu incwm i wrthbwyso'r materion strwythurol hyn neu sicrhau cynaliadwyedd hirdymor yr ysgol fel darpariaeth addysgol.

Yn unol â Pholisi Gwaredu'r Awdurdod, byddai'n rhaid cael angen a nodwyd yn glir ar gyfer defnydd cymunedol, ochr yn ochr â chynllun busnes cadarn a chynaliadwy sy'n dangos hyfywedd o ran cyfalaf a refeniw parhaus. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw dystiolaeth o gynnig hyfyw a fyddai'n bodloni'r gofynion hyn neu'n cyfiawnhau'r costau gweithredol a chynnal a chadw parhaus sy'n gysylltiedig â chadw'r adeilad. Yn ogystal, mae'r ardal leol eisoes yn cael ei gwasanaethu gan gyfleusterau cymunedol presennol, gan gynnwys Neuadd Bentref Cae'r-bryn, sy'n lleihau'r tebygolrwydd o alw heb ei ddiwallu am ddarpariaeth ychwanegol.

Mae'r Awdurdod Lleol hefyd wedi ystyried a ellid defnyddio'r safle at bwrpas arall fel rhan o ganolfan gymunedol ehangach neu ar gyfer gwasanaethau wedi'u cyd-leoli. Fodd bynnag, nid oes unrhyw fodel realistig neu gynaliadwy wedi'i nodi a fyddai'n mynd i'r afael yn ddigonol â'r heriau addysgol ac ariannol craidd, neu'n darparu budd sy'n ddigonol i fod yn drech na chost cynnal a chadw'r safle.

Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, cydymffurfir yn llawn â Pholisi Gwaredu Asedau Diangen Ysgolion yr Awdurdod wrth ystyried y defnydd o safle Ysgol Blaenau yn y dyfodol. Bydd hyn yn cynnwys:

- asesu yn gyntaf a oes unrhyw angen corfforaethol mewnol am yr adeilad;
- gwahodd mynegiannau o ddiddordeb gan grwpiau a sefydliadau cymunedol o fewn terfynau diffiniedig;
- gofyn am gyflwyno achos busnes manwl lle cynigir defnydd cymunedol; ac
- ystyried gwerthu ar y farchnad agored os na chaiff defnydd amgen hyfyw ei nodi.

Ar y cyfan, er bod y potensial ar gyfer defnydd cymunedol wedi'i ystyried yn unol â pholisi sefydledig, nid yw'n darparu opsiwn amgen cynaliadwy nac effeithiol yn lle cau, ac ni fyddai'n bodloni amcanion addysgol neu ariannol yr Awdurdod Lleol yn y tymor hir.

Os caiff y cynnig ei gymeradwyo, bydd yr Awdurdod yn ystyried ffyrdd eraill o ddefnyddio safle'r ysgol yn y dyfodol, yn unol â'i weithdrefnau Rheoli Asedau ac Eiddo Diangen. Bydd yr Awdurdod yn ymchwilio i gyfleoedd i'w ddefnyddio at ddibenion cymunedol, addysgol, sector gwirfoddol neu fasnachol lle bo'n briodol. Bydd sefydliadau cymunedol a rhanddeiliaid lleol yn cael cyfle i fynegi diddordeb yn y defnydd o'r safle yn y dyfodol.

Casgliad yr Arfarniad Opsiynau Amgen

Ar ôl ystyried yr holl opsiynau amgen rhesymol yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026), gan gynnwys cadw'r status quo, ffedereiddio, ymestyn yr ystod oedran, darpariaeth ADY arbenigol, ailstrwythuro staff, mentrau dan arweiniad y gymuned a modelau trefniadaethol eraill, mae'r Awdurdod Lleol wedi dod i'r casgliad nad yw'r un ohonynt yn mynd i'r afael yn ddigonol â'r cyfuniad o heriau sy'n wynebu Ysgol Blaenau. Mae'r heriau hyn yn cynnwys nifer y disgyblion yn gostwng, lefelau uchel o leoedd gwag, cynaliadwyedd ariannol, capasiti arweinyddiaeth a hyfywedd y ddarpariaeth addysgol yn y tymor hir.

Er bod rhai opsiynau amgen yn cynnig rhywfaint o fuddion, ni fyddai'r un ohonynt yn darparu ateb cynaliadwy i'r problemau hyn. Felly, mae'r Awdurdod Lleol o'r farn mai cau Ysgol Blaenau a throsglwyddo'r disgyblion i ysgolion amgen yw'r opsiwn mwyaf priodol a chynaliadwy a all fynd i'r afael â'r heriau addysgol, trefniadaethol, ariannol ac o ran cynaliadwyedd a nodwyd, a hynny drwy ddarparu mynediad i grwpiau cyfoedion mwy, cyfleoedd addysgol ehangach, gwasanaethau cymorth gwell a darpariaeth hirdymor fwy gwydn i'r dysgwyr.

4. Y Cynnig – Cau Ysgol Blaenau

Mae'r Awdurdod Lleol yn ymgynghori ar y cynnig i gau Ysgol Blaenau ar 31 Rhagfyr 2027, gyda disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Gymraeg Penygroes neu Ysgol Llandybie o 1 Ionawr 2028.

Nid yw'r dyddiad gweithredu arfaethedig yn benderfyniad terfynol ac mae yn fater i'w ymgynghori arno. Wrth i'r Pwyllgor Craffu a'r Cabinet ystyried y cynnig, gofynnodd aelodau am ystyriaeth a fyddai, pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, yn cael ei weithredu ar ddiwedd blwyddyn academaidd 2027/28 gan y gallai hyn fod yn fwy priodol.

Felly, mae'r Awdurdod Lleol yn croesawu barn ynghylch a ddylai'r gweithrediad ddigwydd ar 31 Rhagfyr 2027, ar ddiwedd blwyddyn academaidd 2027/28, neu ar ddyddiad priodol arall. Wrth ddod i unrhyw benderfyniad

terfynol, bydd yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad ac ystyriaethau perthnasol, gan gynnwys buddiannau dysgwyr, parhad addysgol a chynaliadwyedd darpariaeth addysgol, yn cael eu hystyried.

Nid oes penderfyniad terfynol wedi'i wneud naill ai ar y cynnig i roi'r gorau i'r ysgol nac, os yw'r cynnig yn mynd rhagddo, ar y dyddiad gweithredu priodol.

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod rôl bwysig Ysgol Blaenau yn y gymuned ac mae wedi cynnal Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned i lywio'r cynnig. Mae'r canfyddiadau wedi'u crynhoi yn y ddogfen hon ac wedi'u nodi'n llawn yn Atodiad A.

Mae Ysgol Gymraeg Pen-y-groes yn ysgol gynradd gymunedol i ddisgyblion 4-11 oed ac mae yng nghategori iaith 3 (cyfrwng Cymraeg). Fe'i lleolir ym mhentref Pen-y-groes, ger Llanelli, yn Sir Gaerfyrddin, SA14 7NT, ac mae'n gwasanaethu'r gymuned leol a'r ardal gyfagos. Mae Ysgol Gymraeg Pen-y-groes yn cynnig yr un categori iaith ag Ysgol Blaenau.

Mae Ysgol Llandybïe yn ysgol gynradd gymunedol drosiannol (T3) 3-11 ym Mharc y Llan, Llandybïe, Rhydaman, SA18 3JB. Er bod y cynnig yn nodi trosglwyddo disgyblion i ysgol categori iaith drosiannol, bydd dewis rhieni yn caniatáu i'r disgyblion fynychu'r ffrwd Gymraeg yn yr ysgol amgen. Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn cynnal proses statudol ar wahân mewn perthynas â chynnig i ddiwygio'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Llandybïe. Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai'r ysgol yn pontio blwyddyn ar ôl blwyddyn i ddod yn ysgol Prif Iaith-Cymraeg (Categori 3) drwyddi, gan gyrraedd ei gweithredu'n llawn erbyn mis Medi 2034.

Er mai Ysgol Gymraeg Pen-y-groes ac Ysgol Llandybïe sydd wedi'u nodi fel yr ysgolion sy'n derbyn a ffefrir yn y cynnig hwn, fel y nodwyd cynt, mae'n bwysig pwysleisio bod rhieni'n cadw'r hawl i fynegi eu dewis ar gyfer unrhyw ysgol y maent yn dymuno i'w plentyn ei mynychu, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i ysgolion mewn dalgylchoedd cyfagos fel Ysgol Gymraeg Rhydaman, Ysgol Saron, Ysgol Parcyrhun ac Ysgol Bro Banw. Bwriad cynnwys ysgol a ffefrir yn y ddogfen hon yw cefnogi cynllunio mewn perthynas â chapasiti, cludiant a pharhad addysg, ond nid yw'n cyfyngu ar ddewis rhieni. Bydd penderfyniadau terfynol ar leoliadau ysgolion yn cael eu gwneud yn unol â pholisi derbyn yr awdurdod lleol a dewis y rhieni, yn amodol ar fod lleoedd ar gael yn yr ysgol a ddewiswyd. Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod ac yn parchu hawl rhieni i ddewis ysgol amgen.

4.1 Rhesymau dros y cynnig

Mae'r Awdurdod Lleol yn bwriadu cau Ysgol Blaenau a darparu ar gyfer y disgyblion yn Ysgol Gymraeg Pen-y-groes neu Ysgol Llandybïe. Nodir y rhesymau dros y cynnig isod:

Manteision Addysgol i'r Disgyblion

- Mae poblogaeth disgyblion Ysgol Gymraeg Pen-y-groes ac Ysgol Llandybïe yn fwy, sy'n caniatáu i ddosbarthiadau gael eu trefnu mewn grwpiau blwyddyn unigol, gan alluogi paru athrawon mewn modd sy'n cyfateb yn well i gyfnodau datblygiad disgyblion. Mae hynny'n cefnogi cynnydd cyson a lefelau her priodol i ddysgwyr.
- Gwelliant o ran cyflwyno'r cwricwlwm - Gan fod tîm staff ehangach a rhagor o gapasiti, mae Ysgol Gymraeg Pen-y-groes ac Ysgol Llandybïe mewn sefyllfa well i gyflawni hyd a lled y Cwricwlwm i Gymru yn llawn. Byddai'r disgyblion yn elwa ar ystod ehangach o brofiadau dysgu a dulliau addysgu, sy'n anoddach i'w cynnal mewn ysgolion bach iawn lle mae nifer fach o staff.
- Gwell cyfleoedd cymdeithasol a dysgu ar y cyd - Mae grwpiau cyfoedion mwy yn darparu rhagor o gyfleoedd i ddisgyblion ddysgu, cydweithio a chymdeithasu ag eraill o oedran tebyg, sy'n eu helpu i fagu hyder, ennill sgiliau cyfathrebu a meithrin perthnasoedd cadarnhaol.
- Ystod ehangach o gyfleoedd allgyrsiol - Mae'r ysgolion amgen yn gallu cynnig ystod ehangach o weithgareddau allgyrsiol, megis chwaraeon tîm, clybiau, perfformiadau a gweithgareddau cyfoethogi. Mae'r cyfleoedd hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol at lesiant disgyblion, y modd maent yn ymgysylltu, a'u datblygiad personol.
- Gwell mynediad at gymorth ac adnoddau arbenigol - Mae amgylchedd ysgol mwy yn galluogi mynediad at ystod ehangach o arbenigedd staff, adnoddau a gwasanaethau cymorth, sy'n cynnwys cymorth i ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Mae hyn yn helpu i sicrhau bod anghenion disgyblion yn cael eu nodi a'u cefnogi'n effeithiol.
- Arweinyddiaeth gynaliadwy a chapasiti staff - Mae Ysgol Gymraeg Pen-y-groes ac Ysgol Llandybïe yn elwa ar strwythur arweinyddiaeth parhaol lle mae'r capasiti arweinyddiaeth yn fwy, gan ganiatáu rhagor o amser i ganolbwyntio ar wella ysgolion, ansawdd yr addysgu, datblygiad staff a deilliannau dysgwyr.

Buddion Strategol a Gweithredol

- Defnydd mwy cynaliadwy o'r ddarpariaeth addysgol - Mae'r cynnig yn cefnogi datblygu rhwydwaith ysgolion mwy cynaliadwy trwy atgyfnerthu'r ddarpariaeth mewn ysgol sydd â nifer disgyblion a chapasiti staffio digonol, ac sy'n hyfyw yn yr hirdymor.
- Lleihau lleoedd gwag - Byddai cau Ysgol Blaenau yn cael gwared ar nifer sylweddol o leoedd gwag yn yr ardal, gan helpu'r Awdurdod Lleol i leihau capasiti dros ben ac i gysoni'r ddarpariaeth â'r galw, yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion.
- Gwell effeithlonrwydd wrth ddyrannu adnoddau - Gellir ailgyfeirio'n fwy effeithiol yr adnoddau sydd eu hangen ar hyn o bryd i gynnal ysgol fach iawn sydd â chostau sefydlog uchel, gan wella gwerth am arian a chefnogi ysgolion sydd mewn sefyllfa well i gyflawni deilliannau addysgol cyson.
- Cynaliadwyedd ariannol - Byddai'r cynnig yn mynd i'r afael â'r diffyg parhaus a chynyddol yng nghyllideb Ysgol Blaenau, gan leihau'r risg ariannol i'r

Awdurdod Lleol a chefnogi sefyllfa ariannol sy'n fwy sefydlog a chynaliadwy ar draws y system ysgolion.

- Cyd-fynd ag amcanion cynllunio strategol - Mae'r cynnig yn cyd-fynd â'r Rhaglen Moderneiddio Addysg ac amcanion strategol yr Awdurdod Lleol, sef creu rhwydwaith ysgolion effeithlon a gwydn sydd wedi'i gynllunio'n dda ac sy'n gallu addasu i ddemograffeg sy'n newid.

Manteision Ariannol

- Byddai sylw'n cael ei roi i'r diffyg yng nghyllideb Ysgol Blaenau - ar hyn o bryd mae gan Ysgol Blaenau ddiffyg sylweddol a chynyddol yn y gyllideb, nad yw'n gynaliadwy yn y tymor canolig i'r tymor hir. Byddai cau'r ysgol yn atal y diffyg hwn rhag parhau i dyfu ac yn lleihau'r risg ariannol gysylltiedig i'r Awdurdod Lleol.
- Byddai'r cynnig, pe bai'n cael ei weithredu, yn arwain at arbedion refeniw parhaus i'r Awdurdod Lleol.
- Mae'r cynnig yn creu cyfle posibl i sicrhau derbyniad cyfalaf drwy werthu'r safle.

4.2 Manteision ac Anfanteision y cynnig

Manteision disgwyliedig y cynnig a'r anfanteision o'u cymharu â'r sefyllfa bresennol:

Manteision	Anfanteision
Byddai'n mynd i'r afael â'r heriau presennol sy'n wynebu Ysgol Blaenau e.e. nifer isel o ddisgyblion, nifer uchel o leoedd gwag a diffyg cynyddol yn y gyllideb.	Gallai'r cynnig gael effaith yn y tymor byr ar lesiant disgyblion a staff, oherwydd yr ansicrwydd a'r angen i addasu i amgylcheddau newydd, er y gallai manteision ddod yn y tymor hwy o achos rhagor o gyfleoedd mewn ysgol fwy.
Byddai'n lleihau nifer y lleoedd gwag yn yr ardal.	Byddai'r effaith ar gymuned Blaenau yn arwain at golli ased cymunedol, gan leihau cyfleoedd i gymdeithasu'n lleol, a gallai effeithio ar pa mor gynaliadwy a deniadol yw'r pentref i deuluoedd. Efallai y byddai effeithiau economaidd posibl hefyd, gan gynnwys llai o alw am wasanaethau a busnesau lleol, ac effaith bosibl ar brisiau tai a pha mor ddymunol yw'r ardal i fyw ynddi.
Byddai o bosibl yn cynyddu nifer y disgyblion yn Ysgol Gymraeg Pen-y-groes ac Ysgol Llandybïe pe bai disgyblion yn dewis mynychu'r ysgolion hyn.	Colli'r ddarpariaeth addysg ym mhentref Blaenau, gan arwain at waredu cyfleuster ysgol lleol a lleihau mynediad at addysg yn yr ardal.

Ceir strwythurau staffio mwy gwydn mewn ysgolion mwy, gan leihau'r ddibyniaeth ar ddosbarthiadau oedran cymysg.	Goblygiadau staffio i staff presennol Ysgol Blaenau a'r posibilrwydd o ddileu swyddi.
Ni fyddai'n rhaid i'r Awdurdod Lleol gynnal Ysgol Blaenau mwyach.	Mwy o amser teithio i'r disgyblion sy'n mynychu Ysgol Blaenau ar hyn o bryd fel eu hysgol agosaf.
Potensial ar gyfer derbyniad cyfalaf a fyddai'n cael ei ailfuddsoddi yn y Rhaglen Moderneiddio Addysg.	Posibilrwydd y bydd tarfu ar y disgyblion neu fyddant yn poeni wrth bontio i ysgolion newydd.
Rhagor o gyfleoedd dysgu a chyfleoedd cymdeithasol i ddisgyblion pe byddent yn dewis mynychu'r ysgolion amgen, gyda charfan fwy o ddisgyblion.	Perygl y bydd llai o ymgysylltiad â rhieni oherwydd y cynnydd yn y pellter o'r ysgol.
Bydd disgyblion yn parhau i gael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr ysgol amgen, a bydd rhagor o gyfleoedd i ddefnyddio a datblygu'r iaith o fewn grŵp cyfoedion ehangach, gan gefnogi'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a Cymraeg 2050.	Ansicrwydd ynglŷn â'r defnydd o Ysgol Blaenau yn y dyfodol.
Rhagor o gyfleoedd i ryngweithio â chyfoedion a datblygu'n gymdeithasol gyda charfannau disgyblion mwy o faint.	Cynnydd posibl mewn traffig ac effaith ar yr amgylchedd oherwydd teithio ychwanegol.
Gwell mynediad at gyfleusterau arbenigol, adnoddau a chwricwlwm ehangach mewn ysgolion amgen.	
Cefnogi cynaliadwyedd hirdymor y ddarpariaeth addysg yn yr ardal.	
Galluogi defnyddio cyllid a staff yn fwy effeithlon ar draws y system ysgolion ehangach	
Lleihau'r rhwymedigaethau cynnal a chadw yn y dyfodol sy'n gysylltiedig ag adeilad sy'n heneiddio.	
Arbedion refeniw blynyddol.	

4.3 Rheoli Risg

Mae'r risgiau disgwyliedig sy'n gysylltiedig â'r cynnig hwn, a'r ffactorau rheoli, wedi'u rhestru yn y tabl isod:

	Risg	Rheoli Risg
1.	Ansicrwydd i staff a disgyblion ar ddyfodol Ysgol Blaenau tra bod y	Sicrhau bod staff a rhieni yn cael eu hysbysu am benderfyniadau allweddol

	broses Trefniadaeth Ysgolion yn mynd rhagddi.	yn ystod y broses. Cyfathrebu'n glir, rheolaidd a thryloyw yn ystod pob cam o'r broses.
2.	Methu â chael cymeradwyaeth statudol i weithredu'r cynnig.	Sicrhau cydymffurfiaeth lawn â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026) gan gynnwys tystiolaeth gadarn, rhesymeg glir ac ymgynghoriadau ac asesiadau effaith trylwyr.
3.	Pellteroedd teithio hwy i rai disgyblion, gan godi pryderon am amser teithio, diogelwch a chost.	Adolygu'r trefniadau cludiant yn unol â pholisi cludiant ysgol yr Awdurdod Lleol. Darparu cludiant am ddim i ddisgyblion cymwys, asesu amseroedd a llwybrau teithio, a gweithredu mesurau diogelwch priodol. Cyfathrebu'r trefniadau'n glir i rieni a monitro unrhyw broblemau ar ôl eu rhoi ar waith.
4.	Ansicrwydd staff ynghylch cyflogaeth yn y dyfodol a'r risg o ddileu swyddi.	Ymgysylltu â staff ac undebau llafur yn gynnar. Glynu at y polisïau a'r gweithdrefnau Adnoddau Dynol, gan gynnwys prosesau ymgynghori ffurfiol. Darparu cyfleoedd adleoli, arweiniad gyrfa a chymorth llesiant fel bod yr effaith ar y staff cyn lleied ag sy'n bosibl.
5.	Effaith negyddol bosibl ar gydlyniant cymunedol a hunaniaeth leol oherwydd y cynnig i gau'r ysgol.	Edrych ar gyfleoedd i gadw defnydd cymunedol o gyfleusterau'r ysgol lle bo hynny'n bosibl.
6.	Effaith ar lesiant disgyblion yn ystod y cyfnod pontio.	Datblygu cynllun pontio cynhwysfawr sy'n cynnwys ymweliadau ag ysgolion amgen, cyfleoedd i gwrdd â staff a chyfoedion, a gweithgareddau ar y cyd. Darparu cymorth wedi'i dargedu i ddisgyblion sy'n agored i niwed a'r rhai sydd ag ADY, a sicrhau monitro bugeiliol parhaus cyn, yn ystod ac ar ôl y trosglwyddo.
7.	Pwysau ar gapasiti'r ysgolion sy'n derbyn.	Cynnal modelu amcanestyniadau disgyblion manwl ac asesiadau capasiti. Gweithio'n agos gyda'r ysgolion sy'n derbyn i gynllunio staffio, adnoddau ac adeiladau. Lle bo angen, defnyddio strwythurau dros dro neu addasu'r ddarpariaeth i sicrhau bod capasiti digonol.
8.	Effaith hirdymor ar gymuned	Ystyried y defnydd o'r safle ysgol yn

	Blaenau.	unol â pholisi asedau diangen yr Awdurdod Lleol. Ymgysylltu â grwpiau cymunedol a phartneriaid i ymchwilio i opsiynau amgen cynaliadwy a pharhau i adolygu a diweddaru'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned wrth i'r cynigion fynd rhagddynt.

4.4 Asesiad o'r cynnig i gau Ysgol Blaenau

Mae'r Awdurdod Lleol wedi ystyried argaeledd ac addasrwydd lleoedd mewn ysgolion amgen ac mae'n fodlon bod digon o leoedd i ddarparu ar gyfer dysgwyr. Darperir rhagor o wybodaeth yn Adrannau 5 a 6.

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r cryfderau, y gwendidau, y cyfleoedd a'r bygythiadau sy'n gysylltiedig â'r cynnig i gau Ysgol Blaenau a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Gymraeg Pen-y-groes neu Ysgol Llandybïe:

Cau Ysgol Blaenau a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Gymraeg Pen-y-groes neu Ysgol Llandybïe	
Cryfderau	**Gwendidau**
Mae'r opsiwn hwn yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â'r problemau o ran nifer isel o ddisgyblion, nifer uchel o leoedd gwag a diffyg sylweddol yn y gyllideb yn Ysgol Blaenau.	Mae cau'r ysgol yn mynd â chyfleuster addysgol o'r pentref, a allai effeithio'n negyddol ar y gymuned leol.
Mae cau Ysgol Blaenau ac atgyfnerthu'r ddarpariaeth yn Ysgol Gymraeg Pen-y-groes ac Ysgol Llandybïe yn lleihau'r lleoedd gwag ac yn gwaredu'r pwysau ariannol sy'n gysylltiedig â chynnal ysgol fach.	Mae rôl gan yr ysgol ym mywyd y gymuned, a gallai ei chau leihau'r cyfleoedd ar gyfer cynnal gweithgareddau a chymdeithasu'n lleol. Gallai'r staff presennol wynebu heriau yn sgil adleoli neu ddileu swyddi posibl, er gwaethaf pob ymdrech i osgoi hynny.
Byddai disgyblion yn elwa ar grwpiau cyfoedion mwy, dosbarthiadau un oedran, a mynediad at gwricwlwm ehangach a gweithgareddau allgyrsiol.	Bydd/efallai y bydd angen cludiant i Ysgol Gymraeg Pen-y-groes ac Ysgol Llandybïe ar ddisgyblion sy'n cerdded i Ysgol Blaenau ar hyn o bryd. Bydd hyn yn cynyddu'r amser teithio ac yn lleihau'r cyfleoedd ar gyfer teithio llesol.
Mae gan Ysgol Gymraeg Pen-y-groes ac Ysgol Llandybïe strwythur arweinyddiaeth parhaol a rhagor o gapasiti o ran staff, sy'n gwella safonau a llesiant.	

Mae'r opsiwn hwn yn cyd-fynd â dyheadau Sir Gaerfyrddin i gael arweinyddiaeth gynaliadwy, defnydd effeithlon o adnoddau, a gwell darpariaeth addysgol.	
Gallai'r arbedion refeniw blynyddol a derbyniadau cyfalaf posibl drwy werthu safle Blaenau gael eu hail-fuddsoddi yn y Rhaglen Moderneiddio Addysg.	
Bydd disgyblion sy'n dewis symud i Ysgol Gymraeg Pen-y-groes yn cael mynediad i ysgol categori iaith 3 (cyfrwng Cymraeg).	
Cyfleoedd	**Bygythiadau**
Bydd gan ddisgyblion fynediad at grwpiau cyfoedion mwy, dosbarthiadau un oedran, a chwricwlwm ehangach, a all wella profiadau dysgu a deilliannau.	Gallai cau'r ysgol arwain at wrthwynebiad cryf gan gymuned Blaenau, gan fod yr ysgol yn rhan ganolog o'r bywyd lleol.
Mae symud i ysgol fwy yn cynnig rhagor o gyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn chwaraeon, cerddoriaeth a gweithgareddau cymdeithasol, gan wella llesiant ac ymgysylltiad.	Gallai'r disgyblion a'r staff deimlo dan straen ac yn ansicr, a allai effeithio ar forâl a deilliannau dysgu yn y tymor byr.
Mae gan Ysgol Gymraeg Pen-y-groes ac Ysgol Llandybïe strwythur arweinyddiaeth parhaol a rhagor o gapasiti o ran staff, sy'n cefnogi gwell safonau a rheolaeth gynaliadwy.	Gallai pellteroedd teithio hwy i ddisgyblion sy'n cerdded i'r ysgol ar hyn o bryd leihau cyfleoedd ar gyfer teithio llesol a chynyddu'r ddibyniaeth ar gludiant.
Mae'r opsiwn hwn yn cefnogi nodau Rhaglen Moderneiddio Addysg Sir Gaerfyrddin o ran effeithlonrwydd, cynaliadwyedd a darpariaeth o safon uchel.	
Mae gan ysgolion mwy o faint ragor o staff ac adnoddau i ddiwallu anghenion ADY a llesiant yn effeithiol, gan sicrhau addysg gynhwysol.	
Yr effaith debygol ar ansawdd a safonau mewn addysg Gan fod poblogaeth disgyblion Ysgol Gymraeg Pen-y-groes ac Ysgol Llandybïe yn fwy, gellir trefnu dosbarthiadau mewn grwpiau blwyddyn unigol, sy'n caniatáu i'r addysgu a'r dysgu gyfateb yn well i gyfnodau datblygiad disgyblion. Mae hyn yn cefnogi cynnydd mwy cyson, llwybrau cynnydd cliriach a lefelau her priodol, sy'n	

anoddach i'w cyflawni mewn ysgolion bach iawn lle mae dosbarthiadau cymysg.

Fel ysgolion mwy, mae gan Ysgol Gymraeg Pen-y-groes ac Ysgol Llandybïe fwy o gapasiti o ran staffio ac arbenigedd, gan eu rhoi mewn sefyllfa gryfach i gyflawni hyd a lled y Cwricwlwm i Gymru yn llawn. Byddai disgyblion yn elwa ar gael mynediad at ystod ehangach o bynciau, dulliau dysgu a chyfleoedd cyfoethogi, a fyddai'n sicrhau cwricwlwm cytbwys a diddorol ar draws pob maes dysgu a phob profiad.

Mae grwpiau cyfoedion mwy o faint yn rhoi rhagor o gyfleoedd i ddisgyblion ddysgu, cydweithio a chymdeithasu ag eraill o oedran tebyg. Mae hyn yn cefnogi datblygiad sgiliau cyfathrebu, hyder a llesiant emosiynol, ac yn galluogi gwaith grŵp mwy effeithiol, gweithgareddau tîm a chyfleoedd arwain i ddisgyblion.

Mae gan y ddwy ysgol amgen fynediad at ystod ehangach o adnoddau, cymorth arbenigol ac arbenigedd staffio, sy'n golygu y ceir trefniadau mwy cadarn o ran adnabod disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a rhoi cymorth iddynt. Mae hyn yn debygol o wella cynhwysiant a sicrhau bod anghenion disgyblion yn cael eu diwallu'n effeithiol ac yn gyson.

Mae gan y ddwy ysgol amgen strwythur arweinyddiaeth parhaol gyda mwy o gapasiti rheoli, gan alluogi arweinwyr i ganolbwyntio ar gynllunio strategol, hunanwerthuso a gwelliant parhaus. Mae hyn yn cefnogi datblygu'n barhaus yr ansawdd addysgu, dysgu proffesiynol y staff a deilliannau dysgwyr, gan gyfrannu'n gadarnhaol at safonau dros amser.

Er cydnabod y gallai fod rhywfaint o darfu yn y tymor byr ar ddisgyblion yn ystod y cyfnod pontio, byddai trefniadau trosglwyddo, cymorth bugeiliol a chydweithio priodol rhwng yr ysgolion er mwyn sicrhau cyn lleied ag sy'n bosibl o darfu. Yn y tymor hwy, disgwylir i'r cynnig gefnogi gwell profiadau addysgol, llesiant dysgwyr a chynnal safonau, gyda'r disgyblion yn elwa ar amgylchedd dysgu sefydlog ag adnoddau da.

Yr effaith debygol ar y gymuned

Byddai cau Ysgol Blaenau yn golygu bod y pentref yn colli cyfleuster pwysig. Yn aml mae ysgolion yn ganolfan i fywyd cymunedol, ac yn lleoliad ar gyfer digwyddiadau, gweithgareddau a rhyngweithio anffurfiol. Felly gallai ei chau leihau'r cyfleoedd ar gyfer ymgysylltiad a chydlyniant cymunedol.

Mae gan Ysgol Blaenau rôl yn hunaniaeth cymuned Blaenau. Gellir ystyried y cau arfaethedig fel colli treftadaeth leol, ac fe allai effeithio ar forâl y gymuned, yn enwedig ymhlith trigolion sydd wedi bod yn byw yno ers tro byd a theuluoedd sydd â chysylltiadau cryf â'r ysgol.

Ar hyn o bryd mae'r ysgol yn cael ei defnyddio ar gyfer gweithgareddau megis clwb brecwast, darpariaeth ar ôl ysgol a defnydd cymunedol anffurfiol. Pe bai'r ysgol yn cau, ni fyddai'r gwasanaethau hyn ar gael yn y pentref mwyach, ac o

bosibl byddai angen i deuluoedd deithio i gymunedau cyfagos i gael darpariaeth gyfatebol.

Gallai parhau i gymryd rhan mewn gweithgareddau a digwyddiadau yn yr ysgol fod yn anos i rieni a gofalwyr pan ddarperir addysg y tu allan i'r pentref. Efallai y bydd hyn yn lleihau'r cyfleoedd i deuluoedd sy'n cwrdd ar hyn o bryd drwy'r ysgol gymdeithasu'n anffurfiol.

Gallai arferion teithio rhai teuluoedd newid, gan na fydd disgyblion yn gallu cerdded i ysgol leol mwyach. Er y byddai trefniadau cludiant yn cael eu rhoi ar waith lle bo disgyblion yn gymwys, efallai y bydd dirywiad canfyddedig o ran hygyrchedd i addysg yn y gymuned agos.

Gallai cau Ysgol Blaenau fod yn gyfle i ystyried defnyddio adeilad yr ysgol at ddibenion eraill, fel cyfleusterau cymunedol neu wasanaethau lleol eraill, yn unol â pholisi asedau diangen yr Awdurdod. Gallai unrhyw ddefnydd o'r adeilad yn y dyfodol helpu i liniaru rhai o'r effeithiau cymunedol tymor hir, yn dibynnu ar y canlyniadau o ran ymgysylltu a dichonoldeb.

Yr effaith debygol ar drefniadau teithio

Byddai'n rhaid i ddisgyblion sy'n trosglwyddo o Ysgol Blaenau i Ysgol Gymraeg Pen-y-groes ac Ysgol Llandybïe deithio'n bellach i'r ysgol. Mae Ysgol Gymraeg Pen-y-groes tua 1.8 milltir o Ysgol Blaenau ac mae Ysgol Llandybïe tua 1.7 milltir o Ysgol Blaenau, sy'n golygu na fyddai disgyblion sy'n byw o fewn pellter cerdded i Ysgol Blaenau ar hyn o bryd yn gallu cerdded i'r ysgol mwyach.

Gallai arferion teithio dyddiol rhai teuluoedd newid, gan gynnwys amseroedd cychwyn cynharach a theithiau hirach o ran amser. Er bod disgwyl i'r amseroedd teithio i Ysgol Gymraeg Pen-y-groes ac Ysgol Llandybïe fod yn gymharol fyr, tua phum munud mewn cerbyd, gallai'r newid hwn olygu o hyd fod disgyblion a rhieni yn gorfod addasu.

Darperir cludiant am ddim yn unol â pholisi trafnidiaeth Cyngor Sir Caerfyrddin.

Rhesymau dros gael hwn fel yr opsiwn a ffefrir

- Mae nifer y disgyblion yn Ysgol Blaenau yn gyson isel ac yn gostwng, gan arwain at leoedd gwag uchel iawn (71% erbyn Ionawr 2026) a diffyg cyllidebol a ragwelir sylweddol o £362,566 erbyn diwedd 2026/27. Ni ellir datrys y problemau hyn trwy fân addasiadau neu opsiynau amgen.
- Nid yw'r amcanestyniadau disgyblion yn dangos cynnydd sylweddol yn y niferoedd dros y pum mlynedd nesaf, sy'n golygu nad oes modd sicrhau hyfywedd yr ysgol.
- Mae atgyfnerthu'r ddarpariaeth yn Ysgol Gymraeg Pen-y-groes neu Ysgol Llandybïe yn lleihau'r lleoedd gwag ac yn gwaredu'r pwysau ariannol sy'n gysylltiedig â chynnal ysgol fach sydd â chostau uchel fesul disgybl.
- Bydd disgyblion yn elwa ar grwpiau cyfoedion mwy, dosbarthiadau un

oedran, a mynediad at gwricwlwm ehangach a gweithgareddau allgyrsiol, gan wella safonau a llesiant.
- Mae gan y ddwy ysgol amgen strwythur arweinyddiaeth parhaol a mwy o gapasiti staff, sy'n cyd-fynd ag uchelgais Sir Gaerfyrddin am arweinyddiaeth gynaliadwy a gwell darpariaeth
- Mae'r opsiwn hwn yn bodloni nodau'r Rhaglen Moderneiddio Addysg sef creu rhwydwaith ysgolion effeithlon a chynaliadwy, a gwella safonau addysgol.

Mae'r tabl isod yn crynhoi sut y bydd yr heriau allweddol sy'n wynebu Ysgol Blaenau yn cael sylw pe bai'r opsiwn a ffefrir yn mynd rhagddo.

Yr Her Allweddol	Opsiwn a Ffefrir – Sut roedd yn mynd i'r afael â'r her allweddol
Niferoedd isel o ddisgyblion sy'n gostwng Mae ffigyrau CYBLD 2026 yn dangos bod 28 o ddisgyblion yn mynychu'r ysgol ar hyn o bryd	Mae gan Ysgol Blaenau niferoedd disgyblion sy'n gyson isel, a dim ond 28 o ddisgyblion yn CYBLD 2026, ac nid yw'r amcanestyniadau yn dangos cynnydd sylweddol dros y pum mlynedd nesaf. Mae hyn yn effeithio ar gynaliadwyedd a darpariaeth addysgol. Mae Ysgol Gymraeg Pen-y-groes ac Ysgol Llandybïe yn helpu i fynd i'r afael â her niferoedd isel o ddisgyblion sy'n gostwng yn Ysgol Blaenau drwy gynnig amgylchedd ysgol mwy o faint a mwy cynaliadwy, sydd â'r gallu i dyfu. Bydd disgyblion sy'n trosglwyddo i Ysgol Gymraeg Pen-y-groes neu Ysgol Llandybïe yn ymuno â grŵp cyfoedion mwy, sy'n golygu gwell cydweithio, rhyngweithio cymdeithasol, a mynediad at weithgareddau allgyrsiol fel chwaraeon a chlybiau. Mae hyn yn helpu i liniaru'r ynysu sy'n digwydd yn aml mewn ysgolion bach iawn.
Nifer uchel o leoedd gwag Ar hyn o bryd mae 70 o leoedd gwag yn yr ysgol sy'n cyfateb i 71% o'r capasiti lleoedd gwag.	Ar hyn o bryd capasiti lleoedd gwag Ysgol Blaenau yw 71% sy'n llawer uwch na throthwyon Llywodraeth Cymru ar gyfer cynnal adolygiad. Drwy drosglwyddo disgyblion i Ysgol Gymraeg Pen-y-groes neu Ysgol Llandybïe, gwaredir y lleoedd gwag hyn, a defnyddir adnoddau'n fwy effeithiol. Drwy drosglwyddo disgyblion o Ysgol Blaenau i Ysgol Gymraeg Pen-y-groes neu Ysgol Llandybïe, bydd yn helpu i

	leihau lleoedd gwag yn gyffredinol yn nalgylch Blaenau, a hynny'n unol â gofyniad y Cod Trefniadaeth Ysgolion i adolygu a gwaredu capasiti sydd dros ben lle bo hynny'n bosibl.
Rhagweld diffyg sylweddol yn y gyllideb yn Ysgol Blaenau Gan fod nifer y disgyblion yn isel ac yn gostwng, mae hynny wedi cael effaith sylweddol ar ei sefyllfa ariannol ac wedi arwain at gynnydd yn y diffyg cyllidebol o flwyddyn i flwyddyn. Mae'r diffyg wedi cynyddu'n gyson o £126,662 yn 2021/22 i £287,857 yn 2025/26 a diffyg rhagamcanedig o £362,566 yn 2026/27.	Ar hyn o bryd mae Ysgol Blaenau yn derbyn Tâl Atodol Ysgol Fach o £10k a Thâl Atodol Lleoedd Gwag o £20k. Mae cau'r ysgol yn gwaredu'r gost ychwanegol hon i'r Awdurdod Lleol. Mae Ysgol Gymraeg Pen-y-groes ac Ysgol Llandybïe yn ysgolion mwy o faint â chapasiti i dyfu. Mae hyn yn caniatáu i gostau sefydlog (arweinyddiaeth, adeiladau, adnoddau) gael eu gwasgaru ar draws mwy o ddisgyblion, gan leihau'r gost fesul disgybl a gwella effeithlonrwydd o gymharu â chynnal ysgol fach iawn. Bydd cau Ysgol Blaenau yn cryfhau sefyllfa ariannol yr ysgol sy'n derbyn yn hytrach na pharhau i gefnogi lleoliad anghynaladwy.
Dosbarthiadau oedran cymysg Ar hyn o bryd mae Ysgol Blaenau yn gweithredu â dau ddosbarth oedran cymysg (Meithrin-Blwyddyn 2 a Blynyddoedd 3-6).	Yn wahanol i Ysgol Blaenau, sydd ar hyn o bryd yn gweithredu â dau ddosbarth oedran cymysg (Meithrin-Blwyddyn 2 a Blynyddoedd 3-6), mae gan Ysgol Gymraeg Pen-y-groes ac Ysgol Llandybïe lawer mwy o ddisgyblion a digon o staff i drefnu disgyblion mewn grwpiau blwyddyn unigol. Mae hyn yn sicrhau bod gwersi wedi'u teilwra i gyfnodau datblygiad penodol ac i ofynion y cwricwlwm. Uchelgais Rhaglen Moderneiddio Addysg Sir Gaerfyrddin yw peidio â chael mwy na dau grŵp blwyddyn fesul dosbarth. Mae maint ac adnoddau Ysgol Gymraeg Pen-y-groes ac Ysgol Llandybïe yn golygu bod modd gwneud hyn, gan leihau'r cymhlethdod a'r llwyth gwaith sy'n gysylltiedig ag addysgu sawl grŵp oedran mewn un dosbarth.
Model arweinyddiaeth anghynaladwy Mae Ysgol Blaenau yn cael ei harwain gan bennaeth sydd â chyfrifoldeb addysgu o 0.8. Oherwydd maint bach yr ysgol a'i strwythur staffio cyfyngedig,	Mae gan Ysgol Gymraeg Pen-y-groes ac Ysgol Llandybïe benaethiaid penodol nad yw eu hymrwymiad dysgu yn fawr, yn wahanol i Ysgol Blaenau lle mae'r pennaeth yn dysgu 0.8 o'r amserlen.

mae'r capasiti arweinyddiaeth yn fach.	Mae hyn yn sicrhau cyfeiriad strategol cryf a rheolaeth ysgol effeithiol. Gan fod ganddynt ragor o ddisgyblion a staff, gall Ysgol Gymraeg Pen-y-groes ac Ysgol Llandybïe weithredu rolau arweinyddiaeth wasgaredig (e.e., dirprwy pennaeth, arweinwyr cwricwlwm), gan leihau'r ddibyniaeth ar un unigolyn a chefnogi llywodraethu cynaliadwy. Mae ysgolion mwy o faint fel Ysgol Gymraeg Pen-y-groes ac Ysgol Llandybïe yn cynnig rhagor o gyfleoedd i staff gydweithio, mentora a chynllunio olyniaeth, sy'n cryfhau'r gallu i arwain ac yn sicrhau parhad.
Mynediad cyfyngedig i'r cwricwlwm ac i gyfleoedd allgyrsiol Mae Ysgol Blaenau yn wynebu heriau oherwydd ei bod mor fach, gan gynnwys cwricwlwm cyfyng, llai o gyfleoedd ar gyfer addysgu a chymorth arbenigol, darpariaeth allgyrsiol gyfyngedig, a grwpiau cyfoedion llai.	Gan fod ganddynt ragor o ddisgyblion a staff, gall y ddwy ysgol amgen gynnig ystod ehangach o bynciau a phrofiadau dysgu. Mae hyn yn cynnwys gweithredu'n fwy cyson â'r Cwricwlwm i Gymru, gan sicrhau bod disgyblion yn cael amrywiaeth lawn o gyfleoedd dysgu; rhywbeth sy'n anodd ei gyflawni mewn ysgol fach iawn sydd ag ond dau athro. Mae gan y ddwy ysgol amgen fwy o athrawon a staff cymorth, sy'n caniatáu arbenigedd pwnc a gwahaniaethu mwy effeithiol. Mae hyn yn gwella ansawdd yr addysgu ac yn cefnogi disgyblion ag anghenion amrywiol, gan gynnwys y rhai sydd angen cymorth dysgu ychwanegol. Bydd gan y disgyblion fynediad at ystod ehangach o gyfleoedd allgyrsiol, megis chwaraeon tîm, côr, a chystadlaethau, sy'n aml yn brin mewn ysgolion bach iawn. Mae'r gweithgareddau hyn yn hyrwyddo llesiant, datblygiad cymdeithasol, ac ymgysylltu y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth. Mae symud i amgylchedd ysgol mwy o faint yn golygu y bydd disgyblion yn ymuno â grwpiau cyfoedion mwy, gan eu galluogi i gael mwy o gyfleoedd dysgu a chymdeithasol ar y cyd. Mae hyn yn helpu i liniaru'r ynysu a brofir yn aml mewn dosbarthiadau oedran

	cymysg bach.

4.5 Sut y gellid helpu rhieni a dysgwyr i ymgysylltu â'r ysgolion amgen ac unrhyw gyfleusterau a gynigir ganddynt

Pe bai'r cynnig i gau Ysgol Blaenau yn mynd rhagddo, bydd yr Awdurdod Lleol yn sicrhau bod trefniadau priodol sydd wedi'u cynllunio'n dda ar waith i gefnogi rhieni a disgyblion i fanteisio'n effeithiol ar yr ysgolion amgen a'r cyfleusterau ehangach gallant eu cynnig. Bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy gydweithrediad agos rhwng yr Awdurdod Lleol, ysgolion sy'n derbyn, a theuluoedd i nodi anghenion unigol ac ymateb iddynt, gan sicrhau trosglwyddo didrafferth a llwyddiannus.

Bydd rhaglen bontio strwythuredig ar waith, a fydd yn cynnwys cyfleoedd i ddisgyblion a'u teuluoedd ymweld â'r ysgolion sy'n derbyn, cwrdd â staff addysgu a chymorth, a chyfarwyddo ag amgylchedd, arferion a chyfleusterau'r ysgol. Gellir trefnu gweithgareddau ar y cyd a digwyddiadau pontio i helpu disgyblion i feithrin perthynas â'u cyfoedion newydd ac i fagu hyder cyn symud. Bydd yr ysgolion sy'n derbyn hefyd yn darparu gwybodaeth glir am y cwricwlwm, gwasanaethau cymorth, cyfleoedd allgyrsiol a chyfleusterau ehangach sydd ar gael.

Bydd cyfathrebu parhaus â rhieni a gofalwyr yn brif flaenoriaeth trwy gydol y broses. Lle bo angen, darperir cymorth wedi'i dargedu i deuluoedd y gallai fod angen cymorth ychwanegol arnynt i ymgysylltu â'r ysgol newydd.

Bydd sylw arbennig yn cael ei roi i gefnogi dysgwyr sy'n agored i niwed, gan gynnwys rhai ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, drwy drefniadau pontio pwrpasol a gwell cymorth bugeiliol. Bydd ysgolion yn parhau i weithio'n agos gyda rhieni, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol perthnasol i sicrhau parhad cymorth ac i hwyluso cyfranogiad llawn at fywyd ysgol.

Bydd rhieni sy'n dymuno i'w plant fynychu ysgol amgen heblaw'r rhai a nodwyd yn y cynnig yn gallu mynegi eu dewis yn unol â pholisi derbyn yr Awdurdod Lleol. Bydd yr Awdurdod Lleol yn cefnogi rhieni drwy'r broses hon, gan sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u hopsiynau ac unrhyw oblygiadau.

Ar y cyfan, mae'r trefniadau hyn wedi'u cynllunio nid yn unig i gefnogi trosglwyddo hwylus, ond hefyd i sicrhau bod disgyblion a'u teuluoedd yn gallu ymgysylltu'n llawn, ac elwa ar, y cyfleoedd addysgol ehangach, y cyfleusterau, a'r cymorth sydd ar gael yn yr ysgolion sy'n derbyn.

5. Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion

Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor Sir ystyried y pwyntiau canlynol mewn perthynas â'r angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion:

5.1 A fydd gan ddarpariaeth ysgol amgen ddigon o gapasiti ac a fydd yn darparu adeiladau ac ystafelloedd o ansawdd cystal, man lleiaf, ar gyfer niferoedd disgyblion presennol yr ysgol a'r niferoedd a ragwelir

Yr opsiwn a ffefrir, os caiff ei gymeradwyo, yw i'r disgyblion drosglwyddo i Ysgol Gymraeg Pen-y-groes neu Ysgol Llandybïe o 1 Ionawr 2028.

Cyfanswm capasiti Ysgol Gymraeg Pen-y-groes ar gyfer blwyddyn academaidd 26/27 yw 226 gyda nifer derbyn o 28.

Cyfanswm capasiti Ysgol Llandybïe ar gyfer blwyddyn academaidd 26/27 yw 250 gyda nifer derbyn o 29.

Nodyn pwysig

Mae nifer y disgyblion, y capasiti, y lleoedd gweigion a'r ystadegau cysylltiedig a gyflwynir yn y ddogfen hon yn seiliedig ar ddata PLASC cyhoeddedig Llywodraeth Cymru, gan mai hwn yw'r ffynhonnell wybodaeth swyddogol a chyson a ddefnyddir ar draws cynigion trefniadaeth ysgolion.

Fodd bynnag, dylid nodi bod Ysgol Llandybïe yn darparu lle i Gylch Meithrin mewn un o'i hystafelloedd dosbarth. O ganlyniad, mae capasiti defnyddiadwy presennol yr ysgol yn is na'r capasiti PLASC a gyhoeddwyd.

Pe bai'r holl ddisgyblion presennol ar y gofrestr yn Ysgol Blaenau yn trosglwyddo i Ysgol Llandybïe, byddai nifer y disgyblion yn yr ysgol fel a ganlyn, yn seiliedig ar niferoedd disgyblion CYBLD 2026 yn y ddwy ysgol amgen.

CYBLD 2026	Meithrin Rhan-amser	Meithrin Amser Llawn	Derbyn	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4	Blwyddyn 5	Blwyddyn 6	Cyfanswm
Ysgol Llandybïe	27	6	26	29	20	26	22	25	28	209
Ysgol Blaenau	-	3	1	2	2	6	3	9	2	28
Cyfanswm	27	9	27	31	22	32	25	34	30	237

CYBLD 2026	Meithrin Rhan-amser	Meithrin Amser Llawn	Derbyn	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4	Blwyddyn 5	Blwyddyn 6	Cyfanswm

Ysgol Gymraeg Pen-y-groes	-	3	22	20	24	19	23	20	27	158
Ysgol Blaenau	-	3	1	2	2	6	3	9	2	28
Cyfanswm	-	6	23	22	26	25	26	29	29	186

Mae'r wybodaeth yn dangos, pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, a bod pob un o'r disgyblion presennol yn dewis trosglwyddo o Ysgol Blaenau i Ysgol Llandybïe neu o Ysgol Blaenau i Ysgol Gymraeg Pen-y-groes, y byddai nifer derbyn rhai grwpiau blwyddyn yn yr ysgolion derbyn yn cael ei ragori.

Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, mae'n bosibl y byddai angen i'r ysgolion amgen a enwir adolygu eu strwythurau dosbarth er mwyn darparu ar gyfer rhai neu bob un o ddisgyblion Ysgol Blaenau.

Mae'r tabl isod yn dangos niferoedd cyfunol y disgyblion yn Ysgol Blaenau ac Ysgol Llandybïe ac yn Ysgol Blaenau ac Ysgol Gymraeg Pen-y-groes ym mis Ionawr 2026 a 2027 yn seiliedig ar amcanestyniadau CYBLD 2026.

CYBLD 2026 Amcanestyniadau	**CYBLD 2026**	**Amcanestyniad 2027***	**Amcanestyniad 2028***	**Amcanestyniad 2029***	**Amcanestyniad 2030***	**Amcanestyniad 2031***
Ysgol Llandybïe	209	205	205	208	208	213
Ysgol Blaenau	28	29	23	23	20	21
Cyfanswm	237	234	228	231	228	234

*gan gynnwys disgyblion meithrin

CYBLD 2026 Amcanestyniadau	**CYBLD 2026**	**Amcanestyniad 2027***	**Amcanestyniad 2028***	**Amcanestyniad 2029***	**Amcanestyniad 2030***	**Amcanestyniad 2031***
Ysgol Gymraeg Pen-y-groes	158	153	154	153	155	153
Ysgol Blaenau	28	29	23	23	20	21
Cyfanswm	186	182	177	176	175	174

*gan gynnwys disgyblion meithrin

Caiff y wybodaeth ei rhannu ymhellach fesul grŵp blwyddyn:

Amcanestyniadau CYBLD 2026		Meithrin	Derbyn	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4	Blwyddyn 5	Blwyddyn 6	Cyfanswm
Llandybïe	**2027**	33	26	24	29	20	26	22	25	**205**
Blaenau	**2027**	3	1	3	2	2	6	3	9	**29**
Cyfanswm		**36**	**27**	**27**	**31**	**22**	**32**	**25**	**34**	**234**
Llandybïe	**2028**	33	26	25	24	29	20	26	22	**205**
Blaenau	**2028**	3	1	3	3	2	2	6	3	**23**
Cyfanswm		**36**	**27**	**28**	**27**	**31**	**22**	**32**	**25**	**228**

Amcanestyniadau CYBLD 2026		Meithrin	Derbyn	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4	Blwyddyn 5	Blwyddyn 6	Cyfanswm
Pen-y-groes	**2027**	3	22	22	20	24	19	23	20	**153**
Blaenau	**2027**	3	1	3	2	2	6	3	9	**29**
Cyfanswm		**6**	**23**	**25**	**22**	**26**	**25**	**26**	**29**	**182**
Pen-y-groes	**2028**	3	22	21	22	20	24	19	23	**154**
Blaenau	**2028**	3	1	3	3	2	2	6	3	**23**
Cyfanswm		**6**	**23**	**24**	**25**	**22**	**26**	**25**	**26**	**177**

Wrth ystyried y rhagolygon o nifer y disgyblion wedi'u dadansoddi yn ôl grŵp blwyddyn, cydnabyddir, pe bai pob un neu'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn dewis symud i'r ysgolion derbyn arfaethedig, y gallai nifer y disgyblion dros dro fod yn uwch na nifer derbyn/capasiti presennol yr ysgolion. Pe bai hyn yn digwydd, byddai'r Awdurdod Lleol yn prosesu unrhyw geisiadau yn unol â'i Bolisi Derbyn i Ysgolion a Chod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru.

Yn ogystal, gan nad yw capasiti cyhoeddedig Ysgol Llandybïe yn ystyried y gostyngiad yn y gofod dosbarth a ddefnyddir gan y Cylch Meithrin, cydnabyddir y gallai'r ysgol wynebu heriau o ran capasiti pe bai pob un neu'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn dewis trosglwyddo i Ysgol Llandybïe. Byddai'r Awdurdod Lleol yn gweithio'n agos gyda'r ysgol dderbyn a'r corff llywodraethu i sicrhau ei bod yn gallu darparu lle i bob disgybl sy'n dymuno trosglwyddo.

Er bod ysgol amgen benodol yn cael ei chynnig fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, mae teuluoedd yn cadw'r hawl i fynegi dewis ar gyfer unrhyw ysgol. Gall rhieni ddewis ysgol wahanol ar gyfer eu plentyn, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i ysgolion mewn dalgylchoedd cyfagos.

Tai Cymdeithasol – Nifer y Disgyblion

Y Dalgylch	Nifer yr unedau cvmdeithasol arfaethedig	Deiliadaeth 2+
Blaenau	0	0
Pen-y-groes	90	58
Llandybïe	45	37
Cyfanswm	135	95

Dylid nodi nad yw'r ffigurau hyn o reidrwydd yn golygu y bydd nifer cyfatebol o deuluoedd newydd neu blant oedran ysgol yn symud i'r ardal o ganlyniad i'r datblygiadau tai arfaethedig. Gan y byddant yn cael eu darparu'n bennaf fel tai fforddiadwy i bobl leol, mae cyfran sylweddol o ddeiliaid y dyfodol yn debygol o fod yn byw yn y dalgylch ehangach eisoes.

Bydd yr holl dai yn cael eu dyrannu'n unol â Pholisi Gosod Lleol y Cyngor, sy'n blaenoriaethu ymgeiswyr y mae ganddynt gysylltiad lleol. Gall hyn gynnwys unigolion sy'n byw yn yr ardal ar hyn o bryd, sydd â chysylltiadau teuluol agos yn y gymuned, neu sy'n cael eu cyflogi'n lleol.
At ddibenion modelu nifer disgyblion, mae'r Awdurdod Lleol wedi seilio ei asesiad ar y 95 o unedau deiliadaeth 2+ arfaethedig yn hytrach na'r cyfanswm o 135 o unedau tai cymdeithasol arfaethedig. Mae'r dull hwn yn adlewyrchu'r ffaith bod anheddau mwy o faint yn fwy tebygol o ddarparu ar gyfer aelwydydd â phlant dibynnol, tra bod eiddo 1 ystafell wely yn gyffredinol yn llai tebygol o greu galw ychwanegol am leoedd ysgol.

O ganlyniad, er bod y datblygiadau'n cynnwys cyfanswm o 135 o unedau tai cymdeithasol arfaethedig, ystyrir bod y defnydd o'r 95 eiddo deiliadaeth 2+ yn rhoi sail fwy realistig ar gyfer amcangyfrif yr effaith bosibl ar nifer y disgyblion yn y dyfodol.

Serch hynny, ni fydd proffil a tharddiad trigolion y dyfodol yn hysbys nes bod y broses ddyrannu yn cael ei chynnal, a fyddai fel arfer yn digwydd ychydig fisoedd yn unig cyn cwblhau'r datblygiadau.

Tai Cymdeithasol - Nifer y disgyblion

Nifer y datblygiadau	Nifer blynyddoedd cynnar	Nifer oedran ysgol
95 (Deiliadaeth 2+)	4	38

Yn seiliedig ar y data tai sydd ar gael, nid oes unrhyw ddatblygiadau tai arfaethedig ar hyn o bryd yn nalgylch Ysgol Blaenau. Er bod cyfanswm o 135 o unedau tai cymdeithasol yn yr arfaeth yn nalgylchoedd cyfagos Pen-y-groes a Llandybïe, dim ond 95 o'r rhain sydd â dwy ystafell wely neu fwy ac sydd felly wedi'u defnyddio ar gyfer cyfrifo nifer disgyblion, gan mai'r mathau hyn o anheddau sydd fwyaf tebygol o

ddarparu ar gyfer teuluoedd â phlant. Gan ddefnyddio'r fethodoleg hon, amcangyfrifir mai nifer y plant blynyddoedd cynnar fydd tua 4 a 38 o ddisgyblion oedran ysgol.

Hefyd, oherwydd natur fforddiadwy y datblygiadau a'r modd y cymhwysir Polisi Gosod Lleol y Cyngor, mae cyfran o ddeiliaid y dyfodol yn debygol o fod yn byw yn yr ardal ehangach eisoes. O ganlyniad, ni ddisgwylir i'r datblygiadau achosi cynnydd sylweddol yn y galw am leoedd ysgol yn nalgylch Ysgol Blaenau. Nid yw'r dystiolaeth sydd ar gael yn dangos y bydd y datblygiadau tai arfaethedig yn ddigonol i newid, yn ei hanfod, y tueddiadau poblogaeth disgyblion sy'n cael eu rhagweld mewn rhannau eraill o'r ddogfen hon.

Datblygu Tai
Cynllun Datblygu Lleol / Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig (Ebrill 2026)

Mae'r Awdurdod Lleol wedi adolygu'r wybodaeth a ddarparwyd gan Adran Gynllunio'r Cyngor mewn perthynas â datblygiadau preswyl yn ardal ehangach Blaenau, Pen-y-groes a Llandybïe. Mae'r data'n cynnwys safleoedd a ddyrannwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig, safleoedd a gynigiwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig, a safleoedd sydd â chaniatâd cynllunio ar hyn o bryd. Mae'r wybodaeth yn adlewyrchu safleoedd oedd dal heb eu datblygu ym mis Ebrill 2026.

Nid oes unrhyw ddatblygiadau tai wedi'u nodi ar hyn o bryd yn nalgylch Ysgol Blaenau. Fodd bynnag, mae nifer o ddatblygiadau tai wedi'u cynnig mewn dalgylchoedd cyfagos, yn enwedig ym Mhen-y-groes. Mae'r safle mwyaf yn hen Waith Brics Emlyn, Pen-y-groes, lle mae tua 250 o anheddau i'w hadeiladu o hyd, a disgwylir i'r datblygiad barhau dros nifer o flynyddoedd. Ymhlith y safleoedd mwy o faint eraill mae tir ger Pant y Blodau, Pen-y-groes (79 o anheddau ar ôl), Capel, Heol Norton, Pen-y-groes (7 annedd), tir y tu ôl i 108-114 Heol Waterloo, Pen-y-groes (6 annedd), Temple Bar Inn, Carmel (5 annedd) a thir ger Tŷ Newydd, Carmel (5 annedd). Mae nifer o ddatblygiadau preswyl llai hefyd wedi cael eu cynnig ym Mhen-y-groes a Llandybïe. Rhagwelir y bydd y rhan fwyaf o'r datblygiadau sydd yn yr arfaeth yn cael eu codi rhwng 2028 a 2032.

Er bod potensial gan y datblygiadau hyn i gyfrannu at dwf y boblogaeth yn yr ardal ehangach yn y dyfodol, nid oes unrhyw dystiolaeth ar hyn o bryd y byddant yn arwain at gynnydd sylweddol yn nifer y disgyblion sy'n byw yn nalgylch Ysgol Blaenau. Yn ogystal mae cyflymder y gwaith datblygu, y cyfraddau deiliadaeth a chyfansoddiad aelwydydd preswylwyr y dyfodol yn parhau i fod yn ansicr, a bydd amodau'r farchnad a'r galw am dai yn y dyfodol yn dylanwadu ar y pethau hyn.

O ganlyniad, er bod twf tai wedi cael ei ystyried yn rhan o'r asesiad o alw yn y dyfodol am leoedd ysgol, nid yw'r dystiolaeth sydd ar gael yn dangos bod datblygiadau preswyl arfaethedig yn debygol o newid, yn ei hanfod, y tueddiadau poblogaeth disgyblion amcanol sy'n cael eu nodi mewn rhannau eraill o'r ddogfen hon. Felly, mae'r Awdurdod Lleol o'r farn nad yw'r twf tai sydd wedi'i gynllunio yn darparu digon o dystiolaeth i awgrymu cynnydd sylweddol yn nifer y disgyblion yn Ysgol Blaenau yn y dyfodol.

5.2 A fydd y cynigion yn gwella mynediad i ddisgyblion anabl yn unol â'r gofynion o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

Mae'r Awdurdod Lleol wedi ystyried yn ofalus ei ddyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i sicrhau nad yw disgyblion anabl dan anfantais a bod addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud i alluogi mynediad cyfartal i addysg.

Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai'r disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Gymraeg Pen-y-groes neu Ysgol Llandybïe, sydd ill dwy yn meddu ar Gynlluniau Hygyrchedd ac mewn sefyllfa well yn ariannol i gefnogi ystod eang o anghenion dysgwyr. Mae'r ysgolion hyn ar eu hennill oherwydd cyfleusterau mwy modern, rhagor o le, a gwell capasiti staffio. At ei gilydd mae'r pethau hyn yn darparu amgylchedd mwy hyblyg i ddiwallu anghenion disgyblion anabl a chefnogi ymarfer cynhwysol.

Pan gaiff anghenion unigol eu nodi, bydd yr Awdurdod Lleol yn sicrhau bod yr holl addasiadau rhesymol angenrheidiol yn cael eu gwneud mewn modd amserol. Gallai'r rhain gynnwys addasiadau i'r amgylchedd ffisegol, darparu offer arbenigol, neu addasiadau i ddulliau addysgu a threfniadau cymorth. Bydd y mesurau hyn yn cael eu gweithredu yn unol â phrosesau Cyngor Sir Caerfyrddin ar gyfer ad-drefnu ysgolion a chynhwysiant.

Yn ogystal, mae amgylcheddau ysgol mwy o faint yn rhoi gwell cyfleoedd i ddarparu addysg gynhwysol trwy fynediad at wasanaethau cymorth arbenigol, ymyriadau wedi'u targedu a darpariaeth wahaniaethol. Disgwylir i hyn wella hygyrchedd a chyfranogiad i ddisgyblion anabl, yn yr ystafell ddosbarth ac mewn gweithgareddau ysgol ehangach.

Ar y cyfan mae'r Awdurdod Lleol o'r farn y bydd y cynnig yn cynnal, a bod ganddo'r potensial i wella, mynediad ar gyfer disgyblon anabl, gan sicrhau cydymffurfiaeth â Deddf Cydraddoldeb 2010 a chefnogi amgylcheddau dysgu cynhwysol a hygyrch i bawb.

5.3 A yw'r ddarpariaeth ysgol amgen yn ddigonol i ateb y galw presennol a'r galw a ragwelir am ysgolion o'r un iaith ac (os yn berthnasol) cymeriad crefyddol dynodedig.

Mae'r Awdurdod Lleol wedi asesu'n ofalus y gallu sydd gan y ddarpariaeth amgen i sicrhau ei bod yn ddigonol i ateb y galw presennol a'r galw a ragwelir, gan gynnwys yr angen i gynnal mynediad at ddarpariaeth o'r un categori iaith.

Ar y cyfan mae'r Awdurdod Lleol yn fodlon, o roi'r trefniadau hyn ar waith, y bydd digon o leoedd ysgol ar gael i ateb y galw presennol a'r galw yn y dyfodol, gan gadw ar yr un pryd fynediad at lwybrau cyfrwng Cymraeg ac iaith Gymraeg.

Mae gan Ysgol Gymraeg Pen-y-groes, sy'n ysgol cyfrwng Cymraeg Categori 3, ddigon o gapasiti i ddarparu ar gyfer disgyblion o Ysgol Blaenau, o ran niferoedd

presennol a'r galw a ragwelir yn y dyfodol. Mae hyn yn sicrhau bod dysgwyr yn gallu parhau â'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gefnogi parhad y ddarpariaeth a chyd-fynd â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr Awdurdod Lleol.

Bydd Ysgol Llandybïe, ysgol drosiannol T3 sy'n gweithio tuag at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, hefyd yn gallu darparu ar gyfer disgyblion o Ysgol Blaenau. Fodd bynnag, ar sail y niferoedd cyfredol a'r rhai a ragwelir, o ystyried nad yw capasiti cyhoeddedig Ysgol Llandybïe yn ystyried y gofod dosbarth llai a ddefnyddir ar gyfer y Cylch Meithrin, cydnabyddir y gallai'r ysgol wynebu heriau capasiti os bydd pob disgybl, neu'r mwyafrif ohonynt, yn dewis trosglwyddo i Ysgol Llandybïe. Byddai'r Awdurdod Lleol yn gweithio'n agos gyda'r ysgol sy'n derbyn a'r corff llywodraethu i sicrhau ei fod yn gallu darparu ar gyfer pob disgybl sy'n dymuno trosglwyddo.

5.4 Cynigion Ad-drefnu Ysgolion Eraill

Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn cynnal proses statudol ar wahân mewn perthynas â chynnig i ddiwygio'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Llandybïe. Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai'r ysgol yn pontio blwyddyn ar ôl blwyddyn i ddod yn ysgol Prif Iaith-Cymraeg (Categori 3) drwyddi, gan gyrraedd ei gweithredu'n llawn erbyn mis Medi 2034. Mae'r Cyngor wedi ystyried a yw'r cynnig ar gyfer Ysgol Llandybïe a'r cynnig sy'n ymwneud ag Ysgol Blaenau yn gyfystyr â chynigion cysylltiedig o dan God Trefniadaeth Ysgolion 2026.

Barn y Cyngor yw na fyddai gweithredu nac anghweithredu'r cynnig ar gyfer Ysgol Llandybïe yn atal nac yn tanseilio gweithrediad effeithiol y cynnig sy'n ymwneud ag Ysgol Blaenau. Yn unol â hynny, ni ystyrir bod y cynigion yn gynigion cysylltiedig at ddibenion y Cod

6. Yr ysgol/ysgolion y mae'r cynnig yn debygol o effeithio arni/arnynt

Yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026) nodir isod yr ysgolion cyfagos y gellid ystyried yn rhesymol y gallai disgyblion fod yn dymuno trosglwyddo iddynt, ynghyd â manylion yr ysgol amgen arfaethedig.

Enw'r Ysgol	**Ysgol Llandybïe**	**Ysgol Bro Banw**	**Ysgol Gymraeg Rhydaman**	**Ysgol Parcyrhun**	**Ysgol Gymraeg Pen-y-groes**	**Ysgol Saron**	**Ysgol Gorslas**
Lleoliad yr Ysgol	Parc y Llan, Llandybïe, Rhydaman SA18 3JB	Adran Babanod Ffordd Walter Rhydaman SA18 2NF Adran Iau Stryd Fawr Rhydaman SA18 2NS	Lôn yr Ysgol Rhydaman SA18 2NS	Ffordd Villiers, Rhydaman, SA18 3HB	Heol Waterloo, Pen-y-groes, SA14 7NT	Saron, Rhydaman, SA18 3LH	Heol yr Eglwys, Gors-las, Llanelli, SA14 7NF
Ystod Oedran	3-11	4-11	4-11	3-11	4-11	4-11	4-11
Categori'r Ysgol (Cymunedol, Gwirfoddol a Gynorthwyir, Gwirfoddol a Reolir)	Cymunedol	Cymunedol	Cymunedol	Cymunedol	Cymunedol	Cymunedol	Cymunedol
Categori Iaith	TR (T3) – Trosiannol (gweithio tuag at fod yn ysgol cyfrwng	3.1 3=Cyfrwng Cymraeg 1=Cyfrwng Saesneg (14	3 – Cyfrwng Cymraeg	3,2 – Cyfrwng Cymraeg, Dwy Iaith	3 – Cyfrwng Cymraeg	3 – Cyfrwng Cymraeg	3 – Cyfrwng Cymraeg

Enw'r Ysgol		Ysgol Llandybïe	Ysgol Bro Banw	Ysgol Gymraeg Rhydaman	Ysgol Parcyrhun	Ysgol Gymraeg Pen-y-groes	Ysgol Saron	Ysgol Gorslas
		Cymraeg)	dosbarth)					
Nifer y disgyblion ar y gofrestr (CYBLD 2026)	**Meithrin**	33	17	11	8	3	10	10
	Derbyn – B.6	176	358	266	177	155	202	197
	Cyfanswm	**209**	**375*** (cyn-ddisgyblion Uned ADY)	**277**	**185**	**158**	**212**	**207**
Nifer y disgyblion ar y gofrestr yn flaenorol (gan gynnwys Meithrin) (CYBLD)	**Ionawr 2025**	201	384	288	196	166	220	205
	Ionawr 2024	193	389	288	200	167	234	200
	Ionawr 2023	209	428	287	201	167	236	178
	Chwefror 2022	222	428	292	194	178	243	154
Amcanestyniadau o Nifer y Disgyblion (ac eithrio Meithrin) **(2026)**	**Ionawr 2027**	172	402	267	175	150	201	198
	Ionawr 2028	172	385	265	174	151	198	206
	Ionawr 2029	175	371	271	163	150	203	218

Enw'r Ysgol		Ysgol Llandybïe	Ysgol Bro Banw	Ysgol Gymraeg Rhydaman	Ysgol Parcyrhun	Ysgol Gymraeg Pen-y-groes	Ysgol Saron	Ysgol Gorslas
	Ionawr 2030	175	371	269	161	152	204	219
	Ionawr 2031	180	371	268	158	150	204	217
Capasiti Meithrin 25/26		41	25	16	24	30	33	25
Capasiti Derbyn-B6 25/26		209	450	258	195	196	210	210
Cyfanswm Capasiti 25/26		250	475	274	219	226	243	235
Capasiti Meithrin 26/27		41	25	33	24	30	33	25
Capasiti Derbyn-B6 26/27		209	421	258	195	196	210	210
Cyfanswm Capasiti 26/27		250	446	291	219	226	243	235
Cyfran o'r gyllideb fesul disgybl (2025/26)		£5,281	£8,110	£4,566	£6,039	£4,862	£4,783	£5,109
Cyllideb Ysgol (2025/26)		£1,029,826	£3,584,546	£1,315,129	£1,207,741	£807,146	£1,052,214	£1,047,311
Cyfran o'r gyllideb fesul disgybl (2026/27)		£5,741	£8,773	£5,139	£6,654	£5,248	£5,239	£5,412
Cyllideb Ysgol (2026/27)		£1,128,172	£3,755,019	£1,423,545	£1,237,558	£829,246	£1,110,697	£1,120,374
Canlyniad Arolygiad Estyn		Nid mewn categori gweithgarwch dilynol	Nid mewn categori gweithgarwc	Nid mewn categori gweithgarwch	Nid mewn categori gweithgarwch	Nid mewn categori gweithgarwch	Nid mewn categori gweithgarwch	Nid mewn categori gweithgarwch

Enw'r Ysgol	Ysgol Llandybïe	Ysgol Bro Banw	Ysgol Gymraeg Rhydaman	Ysgol Parcyrhun	Ysgol Gymraeg Pen-y-groes	Ysgol Saron	Ysgol Gorslas
	Ysgol Gynradd Gymunedol Llandybïe - Estyn	h dilynol Ysgol Bro Banw - Estyn	dilynol Ysgol Gymraeg Rhydaman - Estyn	dilynol Ysgol Gynradd Parcyrhun - Estyn	dilynol Ysgol Gynradd Gymunedol - Estyn	dilynol Ysgol Gynradd Saron - Estyn	dilynol Ysgol Gorslas - Estyn
Categori Cyflwr Adeilad (2024)	C	B	B	B	B	B	A
Addasrwydd Adeiladau'r Ysgol (2024)	A	A	B	B	B	B	A

6.1 Effaith y cynnig ar ysgolion y mae'r cynnig yn debygol o effeithio arnynt

Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, disgwylir y bydd yr effaith fwyaf ar Ysgol Gymraeg Pen-y-groes ac Ysgol Llandybïe fel yr ysgolion amgen a enwir i Ysgol Blaenau. Yr effaith fyddai rhagor o ddisgyblion yn mynychu'r ysgol.

Fodd bynnag, golyga dewis rhieni fod yr hawl gan rieni i fynegi pa ysgol yr hoffent i'w plentyn fynd iddi. Nid yw mynegi ysgol a ffefrir yn rhoi sicrwydd y caiff plentyn le yn yr ysgol honno. Efallai y bydd rhai rhieni disgyblion Ysgol Blaenau yn dymuno dewis ysgol arall yn lle Ysgol Llandybïe. Felly, mae'n bosibl y gellid effeithio ar ysgolion cyfagos i Ysgol Blaenau e.e. Ysgol Bro Banw, Ysgol Gymraeg Rhydaman, Ysgol Parcyrhun, neu Ysgol Saron, a hyd yn oed ymhellach i ffwrdd yn dibynnu ar amgylchiadau unigryw rhieni/disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r cynnydd disgwyliedig yn nifer y disgyblion yn yr ysgolion y mae hyn yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt yn cael ei ystyried yn negyddol, gan fod gan yr holl ysgolion cyfagos y gallai fod yn rhesymol ystyried y byddai disgyblion am drosglwyddo iddynt leoedd gwag ar hyn o bryd.

Er bod Ysgol Gymraeg Pen-y-groes ac Ysgol Llandybïe wedi'u nodi fel yr ysgolion sy'n derbyn a ffefrir yn y cynnig hwn, mae'n bwysig pwysleisio bod rhieni'n cadw'r hawl i fynegi eu dewis ar gyfer unrhyw ysgol y maent yn dymuno i'w plentyn ei mynychu, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i ysgolion mewn dalgylchoedd cyfagos fel Ysgol Gymraeg Rhydaman, Ysgol Saron, Ysgol Parcyrhun ac Ysgol Bro Banw. Bwriad cynnwys ysgol a ffefrir yn y ddogfen hon yw cefnogi cynllunio mewn perthynas â chapasiti, cludiant a pharhad addysg, ond nid yw'n cyfyngu ar ddewis rhieni. Bydd penderfyniadau terfynol ar leoliadau ysgolion yn cael eu gwneud yn unol â pholisi derbyn yr awdurdod lleol a dewis y rhieni, yn amodol ar fod lleoedd ar gael yn yr ysgol a ddewiswyd. Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod ac yn parchu hawl rhieni i ddewis ysgol arall.

6.2 Effaith y cynnig ar y staff

Colli rôl yr ysgol fel ased cymunedol yw'r effaith fwyaf a ddisgwylir ar gymuned Blaenau. Er mai sefydliad addysgol yw Ysgol Blaenau yn bennaf, mae'n cyfrannu at hunaniaeth a gwead cymdeithasol y gymuned ac mae llawer o'r trigolion yn ei gwerthfawrogi fel cyfleuster lleol pwysig. Byddai ei chau yn arwain at golli presenoldeb ysgol yn y pentref a gallai leihau cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio ac ymgysylltu â'r gymuned.

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod bod ysgolion yn aml yn chwarae rhan bwysig wrth gefnogi cydlyniant cymunedol, hunaniaeth leol a chynaliadwyedd cymunedau gwledig a lled-wledig. O ganlyniad, o bosibl byddai rhai trigolion yn ystyried colli ysgol leol yn ddirywiad yn seilwaith cymdeithasol yr ardal, a allai effeithio ar pa mor atyniadol yw'r gymuned i rai teuluoedd. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned hefyd yn cydnabod y gallai colli presenoldeb ysgol yn y pentref gael effaith andwyol gyfyngedig ar ganfyddiadau o fywiogrwydd a chynaliadwyedd hirdymor y gymuned leol.

Ar hyn o bryd mae'r ysgol yn gwasanaethu nifer gymharol fach o ddisgyblion sydd o'r tu mewn i'w dalgylch. Dengys CYBLD 2026, o blith y 45 disgybl sy'n byw yn nalgylch Ysgol Blaenau, mai dim ond 4 sy'n mynychu Ysgol Blaenau, tra bo 41 yn mynychu ysgolion eraill. Mae hyn yn dangos bod y rhan fwyaf o'r teuluoedd sy'n byw yn y dalgylch eisoes yn dewis i'w plant gael eu haddysg tu allan i'r pentref. Mae'r Awdurdod Lleol o'r farn bod hwn yn ffactor pwysig wrth asesu effaith debygol y cynnig ar y gymuned ehangach.

Byddai'r cynnig yn arwain at ddisgyblion yn trosglwyddo i ysgolion amgen yn yr ardal leol, yn fwyaf penodol Ysgol Gymraeg Pen-y-groes ac Ysgol Llandybïe, sydd ill dwy yn eithaf agos i Blaenau. Byddai mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg dal ar gael drwy Ysgol Gymraeg Pen-y-groes a thrwy ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill yn yr ardal ehangach. O ganlyniad, byddai darpariaeth addysgol yn dal i fod yn hygyrch i deuluoedd lleol a byddai cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau addysgol, chwaraeon a chymunedol yn parhau mewn cymunedau cyfagos.

Mae'r Awdurdod Lleol hefyd wedi ystyried cyd-destun demograffig ehangach yr ardal. Yn ôl dadansoddiad o amcanestyniadau disgyblion, data genedigaethau a gwybodaeth datblygu tai, prin yw'r dystiolaeth sy'n dangos y bydd twf sylweddol yn y dyfodol yn nalgylch Ysgol Blaenau. Er bod bwriad i godi tai cymdeithasol mewn dalgylchoedd cyfagos, ar hyn o bryd nid oes datblygiadau tai wedi'u nodi yn nalgylch Ysgol Blaenau ei hun. Yn ogystal, mae'r niferoedd disgyblion fyddai'n deillio o'r datblygiadau cyfagos yn gymharol fach, ac nid oes disgwyl iddynt newid i raddau helaeth y galw am leoedd ysgol yn y dyfodol. Er y cydnabyddir y gallai cau'r ysgol ddylanwadu ar ba mor atyniadol yw'r ardal i rai teuluoedd â phlant ifanc, nid yw'r dystiolaeth sydd ar gael yn awgrymu y byddai'r cynnig yn arwain at ostyngiad sylweddol yn lefelau'r boblogaeth nac at golli nifer sylweddol o deuluoedd o'r gymuned.

Cydnabyddir y gallai cau'r ysgol arwain at gyfnod dros dro pan fydd yr adeilad yn wag. Gallai hyn achosi pryderon ynghylch y defnydd o'r safle yn y dyfodol a'r effaith bosibl ar yr amgylchedd lleol. Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai'r Awdurdod Lleol yn ystyried dyfodol y safle yn unol â'i Bolisi Gwaredu Asedau Diangen Ysgolion, gan gynnwys ymchwilio i gyfleoedd ar gyfer defnydd cymunedol, addysgol, gwirfoddol neu fasnachol lle bo hynny'n briodol. Byddai sefydliadau cymunedol a rhanddeiliaid lleol yn cael cyfle i fynegi diddordeb yn y defnydd o'r safle yn y dyfodol. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned hefyd yn dod i'r casgliad nad oes tystiolaeth i ddangos y byddai'r cynnig yn cael effaith niweidiol sylweddol ar yr economi leol ehangach, er na ellir diystyru'n llwyr rai effeithiau anuniongyrchol lleol sy'n gysylltiedig â cholli'r ysgol.

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yn nodi mai colli cyfleuster addysgol lleol ac ased cymunedol fyddai effaith fwyaf arwyddocaol y cynnig ar y gymuned. Er cydnabod yr effeithiau hyn, rhaid eu hystyried ochr yn ochr â'r heriau hirdymor sy'n wynebu'r ysgol, gan gynnwys nifer disgyblion sy'n gostwng, llawer o leoedd gwag, pwysau ar gynaliadwyedd ariannol, a'r angen i sicrhau mynediad at ddarpariaeth addysgol o safon i ddysgwyr presennol a rhai'r dyfodol.

Ar y cyfan, mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y byddai'r cynnig yn cael effaith gymdeithasol, ddiwylliannol ac emosiynol ar gymuned Blaenau, ac yn cydnabod y byddai colli'r ysgol yn golled drom i rai trigolion. Mae'r Awdurdod hefyd yn cydnabod y gallai'r cynnig gael effaith gyfyngedig ar ba mor atyniadol a bywiog y canfyddir y gymuned. Fodd bynnag, wedi ystyried canfyddiadau'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned, gan gynnwys argaeledd darpariaeth cyfrwng Cymraeg addas amgen, parhad y cyfleoedd cymunedol mewn cymunedau cyfagos, ac absenoldeb tystiolaeth o effaith andwyol sylweddol ar yr economi leol ehangach neu lefelau'r boblogaeth leol, mae'r Awdurdod o'r farn mai'r cynnig yw'r opsiwn mwyaf cynaliadwy yn y tymor hir ar gyfer sicrhau darpariaeth addysgol o safon uchel i ddysgwyr.

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned wedi'i gynnwys yn Atodiad A a bydd yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru drwy gydol y broses ymgynghori a'r broses statudol i adlewyrchu unrhyw adborth gan randdeiliaid.

7. Yr effaith ar ansawdd a safonau mewn addysg

Mae'r canlynol yn ystyried yr effaith ar ansawdd a safonau mewn addysg pe bai disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Gymraeg Pen-y-groes neu Ysgol Llandybïe, fodd bynnag, cydnabyddir y gallai rhai disgyblion ddewis trosglwyddo i ysgolion eraill.

Ym marn yr Awdurdod Lleol, pe bai'r cynnig hwn yn mynd rhagddo, byddai Ysgol Gymraeg Pen-y-groes neu Ysgol Llandybïe yn darparu addysg i ddisgyblion sydd o ansawdd cyfatebol o leiaf neu'n well na'r hyn a ddarperir yn Ysgol Blaenau, felly ni ragwelir y byddai gweithredu'r opsiwn hwn yn cael unrhyw effaith negyddol ar safonau a chynnydd yn gyffredinol.

Blaenoriaethau cyfredol yr ysgol / argymhellion Estyn:

Cafodd Ysgol Blaenau ei harolygu ddiwethaf gan Estyn yn Ionawr 2024 ac nid yw mewn categori gweithgarwch dilynol.
Argymhellion Estyn:

A1 Cytuno a gweithredu ar gynllun adfer i ymateb yn fwriadus i'r diffyg yng nghyllideb ariannol yr ysgol
A2 Ehangu cyfleoedd i'r disgyblion ddefnyddio eu sgiliau rhifedd ar draws y cwricwlwm
A3 Cryfhau medrau llafaredd disgyblion
A4 Gwella'r ddarpariaeth er mwyn cefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol

Canfyddiadau Estyn ar gyfer yr Ysgolion sy'n Derbyn

Mae Estyn yn disgrifio Ysgol Gymraeg Pen-y-groes fel "cymuned hynod o gyfeillgar a gofalgar" sydd â "natur gynhwysol ac ethos hynod ofalgar". Mae Estyn hefyd yn nodi bod staff yn sefydlu perthynas waith arbennig gyda'r disgyblion ac yn ymateb yn dda i anghenion unigol.

Mae Estyn yn disgrifio Ysgol Llandybïe fel "cymuned cynhwysol a chroesawgar" ac yn nodi bod yr ysgol yn sicrhau cyfleoedd cyfartal i'r holl ddisgyblion. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at y berthynas ofalgar rhwng staff a disgyblion, a'r cymorth llesiant effeithiol.

7.1 Effaith debygol ar addysgu a dysgu

Byddai disgyblion yn cael eu trosglwyddo o Ysgol Blaenau i Ysgol Llandybïe neu Ysgol Gymraeg Pen-y-groes, sydd ill dwy â charfannau llawer mwy o ddisgyblion. O fewn y lleoliadau hyn, byddai bron pob disgybl yn cael ei addysgu mewn dosbarthiadau grwpiau blwyddyn, a fyddai'n debygol o ddarparu gwell mynediad at ystod ehangach o adnoddau, cyfleusterau ac arbenigedd addysgu. Byddai hyn yn cefnogi cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru yn fwy effeithiol.

Mae'n debygol y bydd effaith gadarnhaol ar safonau'r disgyblion ac ar ddatblygiad eu sgiliau. Disgwylir i addysgu disgyblion mewn dosbarthiadau grŵp blwyddyn unigol neu ystod lai o grwpiau blwyddyn gryfhau cyfleoedd dysgu ar y cyd, cefnogi cynnydd cliriach, a sbarduno gwelliannau pellach mewn cynnydd a chyrhaeddiad.

Byddai disgyblion hefyd yn debygol o elwa ar gael ystod ehangach o gyfleoedd allgyrsiol. Byddai niferoedd disgyblion uwch yn galluogi mwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau fel chwaraeon tîm, côr, a chystadlaethau, gan gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant, hyder a datblygiad personol disgyblion.

Nodir yn adroddiad arolygiad Ysgol Llandybïe fod y rhan fwyaf o'r disgyblion, wrth iddynt fynd drwy'r ysgol, yn gwneud cynnydd da, gan gynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae disgyblion yn defnyddio dysgu blaenorol yn effeithiol ac yn cymhwyso gwybodaeth newydd yn llwyddiannus mewn profiadau a chyd-destunau newydd.

Yn Ysgol Gymraeg Pen-y-groes, mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd cadarn iawn ac yn datblygu annibyniaeth ac aeddfedrwydd yn eu dysgu. Mae lefelau ymgysylltu disgyblion yn gryf ac maent yn llwyddo i ganolbwyntio dros gyfnodau estynedig. Mae bron pob disgybl o gartrefi nad ydynt yn siarad Cymraeg yn datblygu sgiliau cyfathrebu Cymraeg da, ac mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau.

Mae Ysgol Llandybïe yn darparu addysg ddwyieithog, a'r Gymraeg yw prif iaith ddysgu ac addysgu yr ysgol ac iaith ei bywyd a'i gwaith bob dydd. Byddai'r disgyblion yn parhau i elwa ar amgylchedd sy'n eu trochi yn y Gymraeg ac sy'n hyrwyddo datblygiad sgiliau Cymraeg, dwyieithrwydd a hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg ar draws ystod o gyd-destunau addysgol a chymdeithasol.

Mae Ysgol Gymraeg Pen-y-groes yn ysgol cyfrwng Cymraeg, a'r Gymraeg yw'r iaith ddysgu ac addysgu swyddogol. Mae'r ddarpariaeth ieithyddol hon yn agos iawn i'r hyn a geir yn Ysgol Blaenau. Cymraeg yw'r unig iaith ddysgu ac addysgu yn y Dysgu Sylfaen. Yng Nghyfnod Allweddol 2 (7-11 oed), cyflwynir Saesneg ochr yn ochr â'r Gymraeg, ac addysgir y disgyblion yn ddwyieithog. Y Gymraeg yw prif iaith bywyd a

gwaith yr ysgol, gan sicrhau parhad trochi ieithyddol, gyda'r Saesneg yn cael ei chyflwyno'n raddol i gefnogi datblygiad dwyieithrwydd disgyblion.

Barn yr Awdurdod Lleol, ac mae canfyddiadau arolygiad diweddar Estyn ar gyfer y ddwy ysgol sy'n derbyn yn ei hategu, yw y byddai Ysgol Llandybïe ac Ysgol Gymraeg Pen-y-groes yn darparu addysg o ansawdd cyfatebol o leiaf, a gwell mewn sawl agwedd, o gymharu â'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd yn Ysgol Blaenau. Fodd bynnag, ni ragwelir y byddai gweithredu'r cynnig hwn, pe bai'n cael ei gymeradwyo, yn cael effaith negyddol ar safonau neu gynnydd y disgyblion yn gyffredinol.

Effaith ar gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru

Mae'r Awdurdod Lleol o'r farn bod Ysgol Gymraeg Pen-y-groes ac Ysgol Llandybïe mewn sefyllfa well i gyflwyno'r Cwricwlwm llawn i Gymru drwy strwythurau staffio ehangach, mwy o gapasiti i arwain y cwricwlwm, arbenigedd ehangach a rhagor o gyfleoedd i wneud cynnydd ar draws Meysydd Dysgu a Phrofiad. Mae carfanau mwy o ddisgyblion hefyd yn darparu mwy o gyfleoedd ar gyfer gweithgareddau dysgu ar y cyd a chyfoethogi sy'n cefnogi cyflawni pedwar diben y Cwricwlwm i Gymru.

7.2 Yr effaith debygol ar ofal, cymorth ac arweiniad

Ar hyn o bryd mae Ysgol Blaenau yn elwa ar gymuned ysgol agos a pherthnasoedd cryf rhwng disgyblion a staff. Er ei bod yn bosibl y bydd rhai disgyblion yn gweld eisiau agweddau ar yr amgylchedd hwn i ddechrau, bydd y trefniadau pontio yn ceisio cefnogi disgyblion drwy gydol y broses.

Gallai'r cynnig gael effaith yn y tymor byr ar lesiant ambell ddisgybl wrth iddynt addasu i amgylchedd ysgol newydd. Fodd bynnag, gyda threfniadau pontio priodol a chymorth bugeiliol, disgwylir mai dros dro fydd unrhyw effeithiau.

Yn y tymor hwy, mae'r disgyblion yn debygol o fod ar eu hennill o fod yn rhan o gymuned ysgol fwy. Byddai poblogaeth ddisgyblion fwy yn rhoi rhagor o gyfleoedd i feithrin perthnasoedd, cymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp a rhyngweithio ag amrywiaeth eang o gyfoedion o'r un oedran a cham datblygiad.

Byddai disgyblion sy'n trosglwyddo i naill ai Ysgol Llandybïe neu Ysgol Gymraeg Pen-y-groes hefyd yn elwa ar gael mynediad at dimau staff mwy a mwy o oedolion i gefnogi eu dysgu, eu llesiant a'u datblygiad personol. Mae'r strwythurau staffio mwy o fewn y ddwy ysgol yn darparu mwy o gapasiti i gefnogi cynnydd academaidd, llesiant ac anghenion dysgu ychwanegol disgyblion, yn ogystal â mynediad at ystod ehangach o arbenigedd a chymorth arbenigol lle bo angen.

Mae tystiolaeth o'r arolygiad yn dangos bod y ddwy ysgol yn darparu amgylcheddau dysgu diogel, cefnogol a chynhwysol. Yn Ysgol Llandybïe, mae'r disgyblion yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, yn ymddwyn yn arbennig o dda, ac yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu. Maent yn gweithio ar y cyd, yn dangos gwydnwch wrth wynebu heriau, ac yn meddu ar ddealltwriaeth dda o sut i gadw eu hunain ac eraill yn ddiogel.

Yn yr un modd, yn Ysgol Gymraeg Pen-y-groes mae disgyblion yn dangos safonau llesiant rhagorol ac agweddau cadarnhaol iawn at ddysgu. Maent yn ddysgwyr brwdfrydig sy'n gweithio'n effeithiol gyda'u cyfoedion, yn dangos parch at eraill, ac yn arddangos sgiliau dysgu annibynnol cryf. Mae diwylliant gofal, cwrteisi a pharch o'r ddwy ochr yn cyfrannu'n sylweddol at ethos tawel a chefnogol yr ysgol.

Ar y cyfan, er y byddai gofyn i'r disgyblion addasu i'r lleoliad newydd, mae Ysgol Llandybïe ac Ysgol Gymraeg Pen-y-groes yn darparu amgylcheddau dysgu diogel, cefnogol a chynhwysol. Byddai disgyblion yn elwa ar fynediad at grwpiau cyfoedion mwy, cyfleoedd cymdeithasol ehangach, a thimau staff mwy sydd â mwy o gapasiti i gefnogi dysgu a llesiant. O ganlyniad, mae'n rhesymol dod i'r casgliad bod y cynnig yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar lesiant disgyblion a phrofiad dysgwyr yn y tymor canolig i'r tymor hir.

7.3 Yr effaith debygol ar arwain a gwella

Mae'r cynnig yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar gapasiti arweinyddiaeth a gwella ysgolion. Ar hyn o bryd mae Ysgol Blaenau yn gweithredu o fewn strwythur staffio bach iawn sy'n cynnwys dau athro, ac mae un ohonynt yn cyflawni rolau pennaeth a Chydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol, gyda chefnogaeth un cynorthwyydd addysgu. Mae gan y pennaeth ymrwymiad addysgu sylweddol hefyd, ac mae'n addysgu am bedwar diwrnod yr wythnos. Er bod yr ysgol yn parhau i gyflawni ei chyfrifoldebau mewn modd priodol, mae'r strwythur hwn yn cyfyngu ar y gallu i arwain yn strategol, hunanwerthuso, datblygu'r cwricwlwm, cynllunio gwelliant a dysgu'n broffesiynol.

Os caiff ei gymeradwyo, byddai'r disgyblion yn trosglwyddo i ysgolion sydd â strwythurau arweinyddiaeth sefydledig a pharhaol, gan ddarparu rhagor o gapasiti i arwain a chynnal gwelliant. Mae Ysgol Llandybïe ac Ysgol Gymraeg Pen-y-groes yn cael eu harwain gan benaethiaid profiadol, gyda chefnogaeth timau arweinyddiaeth a chyrff llywodraethu sy'n darparu cyfeiriad a goruchwyliaeth strategol effeithiol.

Yn ôl adroddiad Estyn, mae'r ddwy ysgol yn hyrwyddo disgwyliadau mawr, cyfeiriad strategol clir a diwylliant cryf o welliant parhaus. Defnyddir trefniadau hunanwerthuso a monitro cadarn i nodi blaenoriaethau a llywio cynllunio gwelliant, tra bo dysgu proffesiynol effeithiol a gweithio ar y cyd yn cefnogi gwelliannau parhaus mewn addysgu, dysgu a deilliannau disgyblion.

Mae'r strwythurau staffio mwy o fewn y ddwy ysgol yn darparu mwy o wydnwch trefniadaethol a chapasiti arweinyddiaeth na'r hyn sydd ar gael mewn ysgol fach iawn. Gellir dosbarthu cyfrifoldebau arweinyddiaeth yn fwy effeithiol, gan leihau dibyniaeth ar nifer fach o unigolion a darparu mwy o gapasiti i gefnogi gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru, diwygio ADY, dysgu proffesiynol a blaenoriaethau cenedlaethol eraill.

Ni ddisgwylir i'r cynnig effeithio'n negyddol ar gyflawni blaenoriaethau gwella cenedlaethol neu leol. Yn hytrach, mae'n debygol o gryfhau'r gallu i wella ysgolion trwy well arweinyddiaeth, arbenigedd proffesiynol ehangach a mwy o gyfleoedd i staff gydweithio a datblygu.

Yn ogystal, byddai'r cynnig yn cyfrannu at gynnydd yn nifer y disgyblion yn Ysgol Llandybïe ac Ysgol Gymraeg Pen-y-groes, gan gefnogi'r defnydd effeithlon o adnoddau a helpu i gynnal cynaliadwyedd hirdymor y ddwy ysgol.

Ar y cyfan, mae'r cynnig yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar arweinyddiaeth a gwelliant trwy gynyddu capasiti arweinyddiaeth, cryfhau prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant, a gwella gallu'r ysgolion i wella mewn modd cynaliadwy a sicrhau deilliannau i ddysgwyr.

7.4 Effaith y cynnig ar grwpiau agored i niwed, gan gynnwys dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Nid oes disgwyl i'r cynnig gael effaith negyddol ar grwpiau agored i niwed o ddysgwyr, gan gynnwys y rhai o gefndiroedd difreintiedig a disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Er bod Ysgol Blaenau ar hyn o bryd yn cefnogi nifer o ddysgwyr ag anghenion ychwanegol sydd wedi'u nodi, mae gan Ysgol Llandybïe ac Ysgol Gymraeg Pen-y-groes systemau sefydledig ar gyfer nodi, cefnogi a monitro disgyblion ar draws ystod eang o anghenion dysgu, llesiant a datblygu.

Mae'r ddwy ysgol sy'n derbyn yn elwa ar strwythurau staffio mwy, gan gynnwys timau addysgu, cymorth a llesiant ehangach. Mae'r gallu cynyddol hwn yn rhoi mwy o hyblygrwydd i ddarparu ymyriadau wedi'u targedu, rhaglenni cymorth wedi'u personoli a darpariaeth llesiant ymatebol, gan helpu i sicrhau bod anghenion unigol dysgwyr yn cael eu nodi a'u cefnogi'n effeithiol.

Mae'r capasiti arweinyddiaeth ehangach a'r ystod o arbenigedd proffesiynol sydd ar gael yn yr ysgolion sy'n derbyn yn debygol o gryfhau'r trefniadau ar gyfer cefnogi dysgwyr sy'n agored i niwed. Mae hyn yn cynnwys cydlynu ac adolygu Cynlluniau Datblygu Unigol, monitro cynnydd a llesiant disgyblion, a gweithio ar y cyd â theuluoedd ac asiantaethau allanol. Byddai dysgwyr yn parhau i gael mynediad at wasanaethau cymorth yr awdurdod lleol ac at weithwyr proffesiynol arbenigol lle bo angen.

Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai'r holl wybodaeth berthnasol sy'n ymwneud â dysgu, llesiant ac anghenion dysgu ychwanegol disgyblion yn cael ei throsglwyddo i'r ysgolion sy'n derbyn. Byddai trefniadau cymorth presennol, Cynlluniau Datblygu Unigol ac argymhellion arbenigol yn cael eu cynnal i sicrhau parhad y ddarpariaeth ac i darfu cyn lleied ag sy'n bosibl ar ddysgwyr unigol.

Byddai'r pontio'n cael ei gynllunio'n drylwyr i gefnogi disgyblion sy'n agored i niwed a'u teuluoedd. Byddai hyn yn cynnwys rhannu gwybodaeth fanwl rhwng ysgolion,

ymgysylltu â rhieni a gofalwyr, cynnwys gweithwyr proffesiynol perthnasol, a threfniadau pontio wedi'u teilwra lle bo hynny'n briodol. Byddai ystyriaeth benodol yn cael ei rhoi i ddisgyblion ag ADY a'r rhai sydd angen cymorth llesiant ar lefel uwch i sicrhau proses drosglwyddo ddidrafferth a llwyddiannus.

Byddai'r cynnig yn rhoi mynediad i ddysgwyr at wasanaethau addysgol, llesiant a chymorth sydd o leiaf yn cyfateb i'r rhai sydd ar gael ar hyn o bryd ac sydd, mewn sawl ffordd, yn well trwy fwy o gapasiti staffio, arbenigedd ehangach a mynediad at ystod ehangach o adnoddau, rhaglenni ymyrraeth a chyfleoedd dysgu.

Mae tystiolaeth o'r arolygiad yn dangos bod Ysgol Llandybïe ac Ysgol Gymraeg Pen-y-groes yn darparu amgylcheddau dysgu cynhwysol lle mae llesiant disgyblion yn cael ei hyrwyddo'n effeithiol a lle mae cymorth priodol ar gael i ddiwallu ystod amrywiol o anghenion. Mae gan yr ysgolion drefniadau ar waith i sicrhau bod dysgwyr yn cael cefnogaeth i gymryd rhan lawn ym mywyd yr ysgol a gwneud cynnydd priodol o'u mannau cychwyn.

Yn gyffredinol mae'n annhebygol y bydd y cynnig yn cael effaith andwyol ar ddysgwyr sy'n agored i niwed. Trwy drefniadau pontio effeithiol, ymarfer cynhwysol a gwell capasiti yn yr ysgolion sy'n derbyn, disgwylir y bydd disgyblion agored i niwed yn dal i dderbyn cymorth ac arweiniad priodol. Gallai'r cynnig hefyd ddarparu cyfleoedd ar gyfer gwell mynediad at arbenigedd, rhwydweithiau cyfoedion ehangach ac ystod fwy o wasanaethau cymorth addysgol a llesiant.

Yn ôl CYBLD 2026 roedd 28.6% (8) o'r disgyblion sy'n mynychu Ysgol Blaenau yn gymwys i gael Prydau Ysgol Am Ddim. Yn ogystal, roedd gan 3.6% (1) o ddisgyblion ar y gofrestr Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y gallai fod angen cymorth ychwanegol ar rai dysgwyr yn ystod y cyfnod pontio, a darperir gwell cymorth bugeiliol a chymorth wedi'i dargedu i sicrhau llesiant disgyblion ac integreiddio llwyddiannus i amgylchedd ysgol newydd.

Roedd 18 (11.4%) o'r disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gymraeg Pen-y-groes yn gymwys i gael Prydau Ysgol Am Ddim. Yn ogystal, yn ôl CYBLD 2026 roedd gan 3 (1.9%) o'r disgyblion ar y gofrestr Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).

Roedd 38 (18.2%) o'r disgyblion sy'n mynychu Ysgol Llandybïe yn gymwys i gael Prydau Ysgol Am Ddim. Yn ogystal, yn ôl CYBLD 2026 roedd gan 4 (1.9%) o'r disgyblion ar y gofrestr Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).

(Mae cyflwyno Prydau Ysgol Am Ddim i Bob Disgybl Ysgol (UPFSM) wedi lleihau'r angen canfyddedig i rai teuluoedd cymwys wneud cais am Brydau Ysgol Am Ddim sy'n gysylltiedig â budd-daliadau (eFSM). Gan fod gan bob disgybl oedran cynradd bellach yr hawl i gael pryd ysgol am ddim beth bynnag yw incwm yr aelwyd, efallai na fydd rhai rhieni a gofalwyr yn cydnabod y manteision ychwanegol sy'n gysylltiedig â chofrestru ar gyfer prydau ysgol am ddim, megis bod yn gymwys ar gyfer y Grant Hanfodion Ysgol a dyrannu cyllid sy'n gysylltiedig ag amddifadedd i ysgolion. O ganlyniad, efallai na fydd y ffigurau ar gyfer cofrestru am brydau ysgol am ddim yn

adlewyrchu'n llawn nifer y disgyblion sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd sylfaenol.)

Bydd cynlluniau pontio unigol yn cael eu datblygu ar gyfer disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol a dysgwyr eraill sy'n agored i niwed. Bydd trefniadau cymorth presennol a Chynlluniau Datblygu Unigol yn trosglwyddo gyda disgyblion, a bydd yr ysgolion sy'n derbyn yn gweithio'n agos gyda theuluoedd i sicrhau parhad y cymorth. Darperir ymweliadau ychwanegol a threfniadau pontio wedi'u teilwra lle bo angen.

7.5Effaith y cynnig ar gyrhaeddiad addysgol ymhlith plant o gefndiroedd difreintiedig yn economaidd

Mae'r Awdurdod Lleol wedi ystyried effaith bosibl y cynnig ar ddysgwyr o gefndiroedd economaidd ddifreintiedig. Mae data PLASC 2026 yn dangos bod 28.6% (8 o 28) o'r disgyblion sy'n mynychu Ysgol Blaenau yn gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim (PYDd), sy'n dangos bod cyfran o'r dysgwyr yn profi anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae tystiolaeth o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) 2025 yn dangos bod proffiliau economaidd-gymdeithasol yr ardaloedd dalgylch a wasanaethir gan Ysgol Blaenau, Ysgol Gymraeg Pen-y-groes ac Ysgol Llandybïe yn gymharol debyg, gyda lefelau isel i gymedrol o amddifadedd yn gyffredinol.

Ni ddisgwylir i'r cynnig gael effaith negyddol ar gyrhaeddiad addysgol dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig. Byddai disgyblion sy'n trosglwyddo i'r naill ysgol dderbyn neu'r llall yn elwa ar grwpiau cyfoedion mwy, cyfleoedd cwricwlaidd ehangach, darpariaeth allgyrsiol well, mwy o gapasiti staffio a mynediad at ystod ehangach o wasanaethau cymorth. Mae gan y ffactorau hyn y potensial i gefnogi gwell deilliannau addysgol a llesiant dysgwyr.

Er bod yr Awdurdod yn cydnabod y gall pontio i Ysgol newydd gyflwyno heriau i rai dysgwyr, yn enwedig y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol, bydd mesurau lliniaru priodol yn cael eu gweithredu. Bydd y rhain yn cynnwys trefniadau pontio wedi'u teilwra, cymorth llesiant a mynediad parhaus at gludiant ysgol am ddim i ddysgwyr cymwys yn unol â Pholisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol y Cyngor.

Ar ôl ystyried dangosyddion amddifadedd ar lefel disgybl ac ardal, nid yw'r Awdurdod Lleol o'r farn y byddai'r cynnig yn arwain at effaith andwyol anghymesur ar gyrhaeddiad addysgol disgyblion o gefndiroedd economaidd ddifreintiedig. Ystyrir bod yr ysgolion derbyn mewn sefyllfa dda i barhau i gefnogi dysgwyr sy'n agored i niwed ac i ddarparu mynediad at ystod eang o gyfleoedd addysgol.

7.6 Materion o ran cydraddoldeb, gan gynnwys y rhai a nodir yn sgil asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb

Cynhaliwyd Asesiad Effaith Integredig i ystyried effeithiau posibl y cynnig ar unigolion sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r asesiad wedi'i gynnwys yn Atodiad C.

Daeth yr asesiad i'r casgliad, er y byddai'r cynnig yn effeithio ar holl ddisgyblion, staff a theuluoedd sy'n gysylltiedig ag Ysgol Blaenau, nad oes unrhyw wahaniaethu anghyfreithlon nac effaith andwyol anghymesur wedi'i nodi mewn perthynas ag unrhyw nodwedd warchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Byddai'r cynnig yn effeithio'n uniongyrchol ar ddisgyblion oedran cynradd drwy newid ysgol, a gallai effeithio ar staff drwy newidiadau posibl i drefniadau cyflogaeth. Fodd bynnag, byddai mesurau lliniaru, gan gynnwys cynllunio pontio cynhwysfawr, cymorth bugeiliol, ymgysylltu â rhanddeiliaid a chydymffurfio â pholisïau cyflogaeth y Cyngor, yn cael eu gweithredu.

Rhoddwyd ystyriaeth benodol i ddisgyblion ag anableddau ac Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Mae gan Ysgol Gymraeg Pen-y-groes ac Ysgol Llandybïe gynlluniau hygyrchedd ar waith ac ystyrir eu bod yn gallu diwallu anghenion dysgwyr drwy gymorth priodol, addasiadau rhesymol a mynediad at wasanaethau arbenigol. Mae'r asesiad yn dod i'r casgliad y gallai'r effaith fod yn gadarnhaol i lawer o ddysgwyr ag ADY oherwydd mynediad at dimau staffio mwy a rhwydweithiau cymorth ehangach.

Ystyriodd yr asesiad hefyd effeithiau mewn perthynas â hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, ailbennu rhywedd, a phriodas a phartneriaeth sifil. Ni nodwyd unrhyw effeithiau andwyol anghymesur mewn perthynas â'r nodweddion gwarchodedig hyn. Cydnabyddir yr ysgolion derbyn fel amgylcheddau cynhwysol a byddant yn parhau i ddarparu addysg a gwasanaethau cymorth yn unol â deddfwriaeth cydraddoldeb a pholisïau presennol yr ysgolion.

7.7 Gallu pennaeth/corff llywodraethu yr ysgol i fodloni eu gofynion cyfreithiol o dan Ddeddf 2021 ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru i ddysgwyr ym mhob rhan o'r continwwm addysg 3-16.

Mae'r cynnig yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar allu'r ysgolion sy'n derbyn i gyflawni eu cyfrifoldebau statudol o dan Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru. Mae Ysgol Llandybïe ac Ysgol Gymraeg Pen-y-groes ar eu hennill o gael penaethiaid profiadol sy'n cael eu cefnogi gan dimau arweinyddiaeth ehangach. Ar y llaw arall, caiff y cyfrifoldebau arwain yn Ysgol Blaenau eu cyflawni o fewn strwythur staffio llawer llai, sy'n cynnwys dau athro, ac mae un ohonynt yn cyflawni rolau'r pennaeth a'r Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol. Er bod yr ysgol wedi parhau i gyflawni ei chyfrifoldebau'n effeithiol, mae'r strwythur staffio cyfyng hwn yn golygu bod llai o gyfle ar gyfer arweinyddiaeth wasgaredig, datblygu'r cwricwlwm, cydweithio proffesiynol a chynllunio olyniaeth nag sydd mewn ysgolion mwy.

Gan fod Ysgol Llandybïe ac Ysgol Gymraeg Pen-y-groes yn fwy o faint a chan fod y strwythurau staffio ynddynt yn fwy, mae rhagor o gapasiti ar gyfer arwain y cwricwlwm, cynllunio, dysgu proffesiynol a sicrhau ansawdd. Mae hyn yn galluogi'r staff i weithio ar y cyd wrth ddylunio, gweithredu a gwerthuso'r cwricwlwm, gan sicrhau bod profiadau dysgu yn diwallu anghenion disgyblion ac yn adlewyrchu egwyddorion a disgwyliadau'r Cwricwlwm i Gymru.

Mae canfyddiadau arolygiad Estyn yn dangos bod Ysgol Llandybïe yn gwneud cynnydd cadarn o ran gweithredu cwricwlwm sy'n adlewyrchu gweledigaeth a dyheadau'r Cwricwlwm i Gymru fwyfwy. Mae disgyblion yn cyfrannu at eu dysgu drwy ddulliau sy'n seiliedig ar ymholiadau ac yn elwa ar ystod eang o brofiadau cyfoethogi, gan gynnwys ymweliadau addysgol, ymwelwyr a chyfleoedd i ymgysylltu ag arbenigwyr allanol. Caiff addysgu a dysgu eu cynllunio'n effeithiol i gefnogi cynnydd a datblygiad llythrennedd, rhifedd, a sgiliau digidol disgyblion ar draws y cwricwlwm.

Yn yr un modd, mae Estyn yn adrodd bod Ysgol Gymraeg Pen-y-groes yn darparu cwricwlwm cytbwys, cyfoethog a diddorol sy'n adlewyrchu ei chyd-destun lleol ac yn diwallu anghenion y rhan fwyaf o'r disgyblion yn effeithiol. Mae staff yn gweithio ar y cyd i gynllunio profiadau dysgu gwerth chweil a sicrhau cysondeb wrth gyflwyno'r cwricwlwm. Mae'r addysgu yn cael ei gynllunio'n ofalus i adeiladu'n raddol y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd gan ddisgyblion, gan gefnogi cynnydd cryf a datblygiad dysgwyr hyderus, annibynnol.

Mae'r timau staff mwy yn y ddwy ysgol hefyd yn golygu bod ystod ehangach o arbenigedd a phrofiad, gan gefnogi dylunio a chyflwyno'r cwricwlwm yn effeithiol ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad. Mae'r capasiti cynyddol hwn yn cryfhau datblygiad y cwricwlwm, yn cefnogi cydweithrediad proffesiynol ac yn cyfrannu at wydnwch yr arweinyddiaeth, gan helpu i sicrhau parhad a chynaliadwyedd wrth fodloni gofynion statudol.

Mae'r ddwy ysgol yn meddu ar drefniadau sydd wedi hen ennill eu plwyf ar gyfer cefnogi cynnydd dysgwyr a phontio rhwng cyfnodau addysg, gan adlewyrchu egwyddorion y continwwm 3-16 sy'n sail i'r Cwricwlwm i Gymru.

Ar y cyfan, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod Ysgol Llandybïe ac Ysgol Gymraeg Pen-y-groes mewn sefyllfa dda i gyflawni eu cyfrifoldebau cyfreithiol o dan Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru. Mae eu strwythurau arweinyddiaeth, eu timau staff mwy o faint a'u dulliau effeithiol o ddylunio a chyflwyno'r cwricwlwm yn cefnogi profiadau dysgu a chynnydd dysgwyr o safon uchel. O ganlyniad, mae'r cynnig yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar gapasiti'r pennaeth a'r corff llywodraethu i gyflawni eu cyfrifoldebau statudol ac i barhau i ddarparu cwricwlwm eang, cytbwys a blaengar o dan Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru.

8. Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP)

Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026) yn gofyn am ddadansoddiad o effaith debygol y cynigion ar y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Gan fod yr ysgolion sy'n ymwneud â'r cynnig hwn neu sy'n cael eu heffeithio ganddo yn darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg, mae Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg wedi'i gynnal ac mae wedi'i gynnwys yn Atodiad B. Bydd yr asesiad hwn yn cael ei ddiweddaru drwy gydol y broses i adlewyrchu unrhyw adborth penodol sy'n dod i law.

8.1 Sut mae'r cynnig yn ffurfio rhan o Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ac i ba raddau y byddai'r cynnig yn cefnogi'r targedau yn y Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg a gymeradwywyd

Mae Ysgol Llandybïe ac Ysgol Pen-y-groes yn darparu addysg cyfrwng Cymraeg. Nid yw'r cynnig wedi'i gysylltu'n uniongyrchol â thargedau Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) yr Awdurdod Lleol, er ei fod yn cyd-fynd â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) Cyngor Sir Caerfyrddin, sy'n nodi gweledigaeth deng mlynedd (2022-2032) ar gyfer cynyddu a gwella darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg a chyfrannu at darged Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, sef Cymraeg 2050. Byddai'r cynnig yn cynnal argaeledd darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Mae'r cynnig yn golygu trosglwyddo dysgwyr o un ysgol sy'n darparu addysg cyfrwng Cymraeg i ysgol cyfrwng Cymraeg Categori 3, neu i lwybrau cyfrwng Cymraeg o fewn ysgol drosiannol T3* sy'n gweithio tuag at ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg, a fyddai'n diogelu cyfleoedd addysgol cyfrwng Cymraeg ac, os caiff ei reoli'n effeithiol, gallai gryfhau cynaliadwyedd darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Drwy gyfuno disgyblion mewn ysgol cyfrwng Cymraeg fwy, mae'n cefnogi cynaliadwyedd hirdymor ysgolion cyfrwng Cymraeg drwy gynyddu nifer y disgyblion a gwella gwydnwch.

8.2 Sut y byddai'r cynnig yn ehangu neu'n lleihau'r ddarpariaeth Gymraeg. Os mai lleihau'r ddarpariaeth y bydd, nodwch pam y bydd y ddarpariaeth yn cael ei lleihau.

Byddai'r cynnig yn cynnal argaeledd darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae Ysgol Llandybïe ac Ysgol Pen-y-groes ill dwy yn darparu addysg cyfrwng Cymraeg. Byddai hyn yn sicrhau bod mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei gadw. Cynhaliwyd Asesiad Effaith ar y Gymraeg cychwynnol ac mae wedi'i atodi i'r ddogfen hon yn Atodiad B. Bydd yr asesiad hwn yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru ar adegau allweddol pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo.

Bydd disgyblion sy'n mynychu Ysgol Blaenau ar hyn o bryd yn parhau i gael y cyfle i fanteisio ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg drwy drosglwyddo i Ysgol Gymraeg Pen-y-groes, sy'n ysgol cyfrwng Cymraeg Categori 3. Yn ogystal, gall disgyblion drosglwyddo i ysgol drosiannol T3* sy'n gweithio tuag at ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg. Mae hyn yn sicrhau y gellir cynnal parhad addysg cyfrwng Cymraeg, ac y gall dysgwyr barhau i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg yn unol â disgwyliadau Cwricwlwm i Gymru a Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) yr Awdurdod Lleol.

Bydd y cynnig yn cyfuno darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion sydd â mwy o gapasiti, staffio ac adnoddau. Mae hyn yn debygol o gryfhau ansawdd a chynaliadwyedd addysg cyfrwng Cymraeg, gan roi mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg mewn ystod ehangach o gyd-destunau, o fewn yr ystafell ddosbarth ac drwy weithgareddau allgyrsiol.

I grynhoi, er y byddai'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Blaenau yn dod i ben, mae'r cynnig yn cynnal ac yn cefnogi addysg cyfrwng Cymraeg o fewn yr ardal

ehangach. Mae'n sicrhau mynediad parhaus, yn hyrwyddo dilyniant mewn dysgu Cymraeg, ac yn cyfrannu at gynaliadwyedd a thwf hirdymor darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn unol ag amcanion y CSCA.

* Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn cynnal proses statudol ar wahân mewn perthynas â chynnig i ddiwygio'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Llandybïe. Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai'r ysgol yn pontio blwyddyn ar ôl blwyddyn i ddod yn ysgol Prif Iaith-Cymraeg (Categori 3) drwyddi, gan gyrraedd ei gweithredu'n llawn erbyn mis Medi 2034.

9. Cyllid

Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026) yn nodi bod yn rhaid cynnal dadansoddiad o effaith ariannol debygol y cynigion os cânt eu gweithredu.

9.1 Costau rheolaidd cynigion dros gyfnod o 3 blynedd o leiaf, ac a yw'r cyllid rheolaidd angenrheidiol ar gael (gan gynnwys costau staffio, cynnal a chadw adeiladau a chludiant ychwanegol)

Y costau refeniw rheolaidd y dylid eu hystyried fel arfer dros gyfnod o dair blynedd o leiaf yw'r costau blynyddol parhaus sy'n parhau ar ôl gweithredu'r cynnig, yn hytrach na chostau ymgynghori, cyfreithiol neu gyfalaf untro.

Ar gyfer cynnig i gau ysgol gynradd a throsglwyddo'r disgyblion i ysgol dderbyn gyfagos, byddai'r prif gostau refeniw rheolaidd fel arfer yn cynnwys:

1. Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol

Hon fyddai'r gost barhaus fwyaf sylweddol fel arfer.

- Gwasanaethau cludiant dyddiol dan gontract.
- Costau hebrwng lle bo angen.
- Cludiant ychwanegol ar gyfer dysgwyr ADY os ydynt yn gymwys.
- Rhagdybiaethau o ran tanwydd, cerbydau newydd a chwyddiant contractau.

Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai'r costau cludiant sy'n gysylltiedig â gweithredu'r cynnig yn seiliedig ar brisiau cyfredol a lleoliad presennol y disgyblion ac wrth dybio y byddai'r disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Gymraeg Pen-y-groes neu Ysgol Llandybïe.

2. Costau Staffio Ychwanegol yn yr Ysgol sy'n Derbyn

Pan fo nifer y disgyblion yn cynyddu'n ddigonol fel bod angen:

- Staff addysgu ychwanegol.
- Cynorthwywyr Addysgu.

Byddai'r costau hyn yn cael eu cynnwys dim ond os bydd twf disgyblion yn sbarduno gofynion staffio ychwanegol yn uniongyrchol. Fodd bynnag, byddai'r costau hyn yn cael eu cydbwyso gan gyllid ychwanegol fesul disgybl y mae'r ysgol yn ei dderbyn ar gyfer y disgyblion sy'n trosglwyddo.

3. Cymorth ADY Ychwanegol

Pan fo angen y canlynol ar ddisgyblion sy'n trosglwyddo:

- Cymorth dysgu arbenigol.
- Cymorth ymddygiad.

Dim ond ar ôl cael gwybod pa ysgol(ion) y mae disgyblion unigol yn debygol o drosglwyddo iddi/iddynt y gellid cyfrifo'r costau hyn. Gallai'r rhain arwain at arbedion hefyd, os oes cymorth ychwanegol eisoes ar gael yn yr ysgol sy'n derbyn ac nad oes angen ei gynyddu.

4. Costau Cynnal Safle Cynyddol yn yr Ysgol sy'n Derbyn

Mae'n anodd meintioli'r rhain fel costau ychwanegol ac maent yn tueddu i fod yn weddol fach o gymharu â'r arbedion sy'n deillio o gau ysgol oherwydd bod yr ysgol sy'n derbyn eisoes yn wynebu'r costau sefydlog hyn, megis:

- Cyfleustodau (trydan, nwy, dŵr).
- Costau glanhau.
- Costau arlwyo.
- Trwyddedau a chymorth TGCh.

5. Parhau i gynnal a chadw adeiladau ar y safle sydd wedi cau (os caiff ei gadw)

Os nad yw'r hen adeilad ysgol yn cael ei waredu ar unwaith, gallai'r costau refeniw parhaus gynnwys:

- Diogelwch.
- Yswiriant.
- Gwaith cynnal a chadw sylfaenol.
- Cyfleustodau sydd eu hangen i gynnal a chadw'r adeilad.
- Cynnal a chadw tiroedd.

Mae'r costau hyn yn parhau nes bod yr adeilad yn cael ei waredu, ei drosglwyddo i'r gymuned, neu nes bod defnydd amgen yn cael ei wneud ohono.

6. Cymorth o ran Asedau Cymunedol neu Gyfleusterau a Rennir

Os bydd y Cyngor yn cadw rhan o'r safle at ddefnydd cymunedol:

- Rheoli'r adeilad.
- Cyfraniadau cyfleustodau.
- Cytundebau lefel gwasanaeth.
- Trefniadau cymorth prydlesu gymunedol.

7. Cynnydd o ran chwyddiant

Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn disgwyl i gynigion ystyried costau yn y dyfodol yn hytrach na gwerthoedd y flwyddyn bresennol yn unig. Felly, dylai rhagolygon fel arfer ganiatáu ar gyfer:

- Chwyddiant cludiant.
- Dyfarniadau cyflog.
- Chwyddiant ynni.
- Cynnydd o ran contractau.

Ar gyfer y cynnig hwn, gellir amcangyfrif costau rheolaidd a refeniw parhaus fel a ganlyn:

Cost Refeniw Rheolaidd	**Blwyddyn 1**	**Blwyddyn 2**	**Blwyddyn 3**	**Cyfanswm**
Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol	Ni ddisgwylir i weithredu'r cynnig gynyddu costau cludiant o'r cartref i'r ysgol (gweler rhagor o wybodaeth yn 11.6)			
Staffio Ychwanegol* -dau athro ychwanegol estimated@ £67567 yr un	£135,134	£139,188	£143,363	£417,685
Costau cynnal safle sydd wedi cau	£4,000	£4,120	£4,244	£12,364
Cyfanswm costau rheolaidd	£139,134	£143,308	£147,607	£430,049

* Yn dibynnu ar gyd-destun yr ysgol unigol a symudiadau posibl disgyblion / dewis rhieni

Yn achos cau ysgol gynradd fach, cludiant yw'r unig gost reolaidd newydd sylweddol yn aml, ac mae'r cynnig cyffredinol yn dal i greu arbediad refeniw blynyddol net.

9.2 A yw'r cynigion yn rhan o Raglen Fuddsoddi'r awdurdod lleol o dan y fenter Ysgolion ar gyfer yr 20fed Ganrif, ac felly'n cyfrannu at ddarpariaeth ysgolion cynaliadwy ar gyfer yr 21ain Ganrif, ac at well rheolaeth strategol ar ystad yr ysgolion.

Nid yw'r cynnig i gau Ysgol Blaenau a throsglwyddo disgyblion i Ysgol Gymraeg Pen-y-groes neu Ysgol Llandybïe yn rhan o raglen buddsoddi strategol yr Awdurdod Lleol ar gyfer yr 21ain ganrif. Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu byddai'n arwain at ostyngiad yn ystad yr ysgolion ac yn gwella ei rheolaeth strategol. Mae adolygu maint a hyfywedd ystad yr ysgolion wedi'i nodi fel blaenoriaeth gorfforaethol i'r Awdurdod Lleol fel rhan o Strategaeth y Rhaglen Moderneiddio Addysg fel y'i cymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Tachwedd 2024.

9.3 Costau cyfalaf cynigion ac a yw'r cyllid cyfalaf angenrheidiol ar gael

Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, ni ragwelir y bydd costau cyfalaf ar hyn o bryd. Byddai'r Awdurdod Lleol yn gweithio'n agos gyda'r ysgol sy'n derbyn a'i chorff llywodraethu i sicrhau ei fod yn gallu darparu ar gyfer pob disgybl sy'n dymuno trosglwyddo.

9.4 Maint unrhyw arbedion net arfaethedig pe bai'r cynigion yn cael eu gweithredu (gan ystyried costau refeniw, cludiant a chyfalaf ysgolion), ac a fydd unrhyw arbedion o ran costau rheolaidd yn cael eu cadw yng nghyllideb ysgolion lleol yr awdurdod lleol?

Bydd arbedion refeniw sy'n deillio o gau'r ysgol fel arfer yn cael eu hailddosbarthu yn ôl i'r gyllideb ysgolion gyffredinol ond gallant hefyd fod yn arbedion uniongyrchol i gyllideb gyffredinol y Cyngor.

Mae cyllidebau ysgolion yn seiliedig i raddau helaeth ar niferoedd disgyblion. Mewn ysgolion lle mae nifer y disgyblion yn isel, nid yw'r **cyllid fesul disgybl** yn ddigonol fel arfer i'r ysgol barhau i fod yn hyfyw o safbwynt gweithredol. Lle mae nifer y disgyblion yn isel, mae costau sefydlog, a chostau (megis staffio) nad ydynt yn cynyddu neu'n lleihau yn unol â nifer y disgyblion, yn ffurfio cyfran lawer uwch o gostau cynnal yr ysgol. Mae'r fformiwla gyllido felly yn cynnwys taliadau atodol megis taliadau ysgol fach a thaliadau atodol lleoedd gwag. Mae'r fformiwla felly yn cydnabod yr hyn sydd ei angen ar ysgol fach i weithredu gyda'r lleiafswm staffio sy'n briodol ac i dalu costau gweithredol. Mae'r taliadau atodol yn golygu bod y gost gyfartalog fesul disgybl wrth redeg ysgol lai yn fwy o gymharu ag ysgolion mwy.

Mae'r arbedion refeniw sy'n deillio o gau'r ysgol yn ymwneud â'r taliadau atodol sydd wedi'u cynnwys yng nghyllideb yr ysgol yn unig. Mae hyn oherwydd bod y cyllid fesul disgybl yn cael ei drosglwyddo gyda disgyblion i'w hysgol newydd. Mae hyn yn helpu'r ysgol sy'n derbyn i ddod yn fwy sefydlog a chynaliadwy yn ariannol.
Fodd bynnag, mae'r arbedion refeniw fel arfer yn cael eu dychwelyd i gyllideb gyffredinol yr ysgolion a'u hailddosbarthu ar draws y rhwydwaith ar ffurf cyllid i bob ysgol. Mae cyllideb ddirprwyedig yr ysgolion yn cynnwys cyllid fesul disgybl a thaliadau atodol i gefnogi lle na fyddai cyllid fesul disgybl yn ddigonol i ddiwallu anghenion sylfaenol yr ysgol. Felly mae taliadau atodol yn lleihau'r cyllid fesul disgybl sydd ar gael i bob ysgol arall, sy'n golygu bod y cyllid ychwanegol sydd ei angen ar gyfer ysgolion llai yn effeithio ar holl ysgolion yr Awdurdod.

Yn seiliedig ar y dyraniadau cyllid gwreiddiol ar gyfer blwyddyn ariannol 2026-27, mae'r arbedion refeniw blwyddyn lawn yn sgil cau Ysgol Blaenau fel a ganlyn:

Atodiad	**Swm**
Tâl Atodol Ysgol Fach	£10,000
Tâl Atodol Lleoedd Gwag	£20,000
Tâl Atodol Ffederasiwn	£0
Ardrethi Annomestig	£2,184
Cyfanswm	**£32,184**

Bydd y cyllid ar sail niferoedd disgyblion yn cael ei drosglwyddo gyda disgyblion i'w hysgol dderbyn.

Os nad yw ysgol yn cau ar 31 Mawrth, bydd dyraniad y flwyddyn gyntaf ar sail pro rata.

Mae enghraifft yn seiliedig ar gyllid blwyddyn lawn Ysgol Blaenau yn seiliedig ar niferoedd disgyblion ar gyfer blwyddyn ariannol 26/27 fel a ganlyn:

Cyllido	
Cyllid fesul disgybl ar gyfer 28 disgybl	£138,620
Cyllid Anghenion Dysgu Ychwanegol (Amddifadedd, Plant sy'n Derbyn Gofal a Chynlluniau Datblygu Unigol)	£11,266
Cyfanswm	**£149,886**

Os bydd y cynnig hwn yn mynd rhagddo, bydd y wybodaeth ariannol ddiweddaraf yn cael ei darparu pan fydd ar gael.

Mae'r cyllid hwn yn sicrhau bod modd talu unrhyw gostau refeniw ychwanegol a ddaw i ran yr ysgol sy'n derbyn, megis ar gyfer staff ychwanegol, a allai fod yn gysylltiedig â niferoedd disgyblion. Mae hefyd yn cefnogi sefydlogrwydd a chynaliadwyedd cyllideb yr ysgol sy'n derbyn os na fydd costau ychwanegol.

Os bydd Ysgol Blaenau yn cau, bydd y balans, boed yn warged neu'n ddiffyg, yn trosglwyddo'n ôl i'r Adran Addysg.

Mae arbedion eraill yn deillio o gau'r ysgol ar wahân i gyllideb yr ysgolion, ac maent yn cynnwys arbedion corfforaethol yn sgil gostyngiad mewn gwasanaethau cymorth canolog i ysgolion o achos ôl troed ysgolion llai. Er bod rhai o'r rhain, megis Cymorth Adnoddau Dynol, Addysg a Gwasanaethau Cymorth ADY, Gwasanaeth Cerdd, Glanhau a Chynnal a Chadw Tiroedd yn anodd eu meintioli, gellir cyfrifo eraill.

Roedd Arolwg Cyflwr Adeiladau 2023 ar gyfer Ysgol Blaenau yn rhagweld gwariant cynnal a chadw wedi'i gyfalafu o £310,802 dros gyfnod o bum mlynedd. Byddai hyn yn arwain at arbediad i'r Cyngor pe bai'r ysgol yn cau.

Mae'r Gwasanaeth Arlwyo yn darparu clwb brecwast £6,718 i ddisgyblion a gwasanaeth cinio £27,950 am gyfanswm cost flynyddol i'r Awdurdod Lleol o £34,668. Er bod hyn yn cael ei wrthbwyso gan y grant gan Lywodraeth Cymru o £9,885 i ddarparu prydau bwyd, mae arbediad net i'r gwasanaeth, ac felly i'r Cyngor o £24,783. Bydd grant Llywodraeth Cymru o £9,885 ar gyfer prydau bwyd yn symud gyda'r disgyblion i'w hysgol newydd. Mae'n annhebygol y bydd costau ychwanegol o ran darparu'r prydau bwyd yn yr ysgol hynny, felly bydd cost net darparu'r gwasanaeth yn lleihau yn yr ysgol sy'n derbyn. Unwaith eto, mae'r gyllideb hon ar wahân i gyllideb ddirprwyedig gyffredinol yr ysgolion.

9.5 A fyddai'r ysgolion yr effeithir arnynt yn wynebu diffyg cyllidebol heb y cynigion

Mae pob ysgol yn cael ei chyllido'n unol â fformiwla gyllido'r Cyngor Sir. O dan Reoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010, mae'n rhaid i Gyllideb Ysgolion Unigol gael ei dyrannu ymhlith ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod ar ffurf rhannu cyllideb, gan ddefnyddio fformiwla gyllido a bennir yn lleol. Mae'n ofynnol yn ôl y rheoliadau fod 70% o'r cyllid yn cael ei ddosbarthu ar sail niferoedd disgyblion.

Mae'r tablau isod yn dangos sefyllfa ariannol hanesyddol a phresennol yr ysgol a'r hyn a ragwelir.

Balans diwedd blwyddyn	**£**
2021/22	Diffyg o £126,662
2022/23	Diffyg o £152,696
2023/24	Diffyg o £190,479
2024/25	Diffyg o £241,335
2025/26	Diffyg o £287,857

2026/27

Swm cyllid yr ysgol	£182,070
Nifer y disgyblion (cyllid yn seiliedig ar CYBLD Ionawr 2026)	28
Cyllid fesul disgybl	£6,503
Cyllid prif ffrwd cyfartalog (ysgol gynradd) fesul disgybl	£5,969
Diffyg yn y gyllideb ym Mawrth 2027 fel y rhagwelwyd ym Mehefin 2026	Diffyg o £362,566

Mae'r wybodaeth uchod yn dangos bod diffyg wedi bod yng nghyllideb yr ysgol ers 2021/22. Mae'r diffyg wedi cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn ac roedd y diffyg terfynol ar ddiwedd blwyddyn 2025/26 yn £287,857. Mae amcanestyniadau cyfredol y gyllideb yn rhagweld diffyg o £362,566 ar gyfer diwedd y flwyddyn 2026/27. Byddai hyn yn awgrymu bod y diffyg yn anghynaladwy ac o ystyried nifer presennol y disgyblion a'r nifer a ragwelir mae'r ysgol yn annhebygol o fod mewn sefyllfa i adfer y diffyg o fewn amserlen resymol.

Mae gan Ysgol Gymraeg Pen-y-groes ddiffyg cyfredol yn y gyllideb o £53,260 ar gyfer diwedd blwyddyn 2025/26 ac mae ganddo gyllideb diffyg rhagamcanedig o £19,029 ar gyfer diwedd y flwyddyn 2026/27. Byddai hyn yn gwella gyda chyllid ychwanegol ar sail nifer y disgyblion sy'n trosglwyddo.

Ar hyn o bryd mae gan Ysgol Llandybïe warged yn y gyllideb o £135,103 ar gyfer diwedd blwyddyn 2025/26 ac mae ganddo gyllideb dros ben rhagamcanedig o £107,495 ar gyfer diwedd y flwyddyn 2026/27. Byddai hyn yn gwella gyda chyllid ychwanegol ar sail nifer y disgyblion sy'n trosglwyddo.

Dylid cydnabod bod taliadau atodol yn lleihau'r cyllid fesul disgybl, sy'n cael effaith niweidiol ar bob ysgol fwy, ac felly yn effeithio ar fwy o ddisgyblion. Mae taliadau atodol uwch i ysgolion bach yn eu galluogi i bennu cyllideb gytbwys, sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu balansau. Mae cyfaddawd amlwg rhwng balans yr ysgol h.y. gwarged/diffyg a lefel y tâl atodol a roddir.

9.6 A fyddai'r enillion (derbyniadau cyfalaf) o werthu safleoedd diangen ar gael i dalu costau'r cynnig neu'n cyfrannu at gostau cynigion yn y dyfodol a fydd yn hybu'r broses o reoli lleoedd ysgolion yn effeithiol

Fel rheol, o ganlyniad i Raglen Moderneiddio Addysg y Cyngor ac yn dilyn proses statudol ofynnol gan Lywodraeth Cymru (gan gynnwys yr holl asesiadau effaith priodol: cymunedol, cludiant, y Gymraeg ac ati), bydd safleoedd ysgolion y nodwyd nad oes eu hangen mwyach at ddibenion addysg yn cael eu gwerthu ar y farchnad agored, oni bai bod angen yr adeilad / safle segur a'i fod yn cael ei gadw at ddefnydd corfforaethol mewnol neu fel arall ei drosglwyddo i'r gymuned.

Os gwneir y penderfyniad i gau Ysgol Blaenau, gwneir asesiad i nodi unrhyw angen corfforaethol posibl am y safle. Os nodir angen o'r fath, yna bydd yr ysgol yn cael ei throsglwyddo i'r adran berthnasol trwy'r broses feddiannu. Pan nad yw'n ofynnol cadw'r safle yn gorfforaethol, mewn rhai amgylchiadau efallai y byddai'n briodol ystyried defnydd cymunedol parhaus i gynnwys grwpiau gwirfoddol, elusennol a mentrau cymdeithasol.

Byddai defnydd o'r fath yn cael ei gymeradwyo os oes angen clir am y defnydd arfaethedig yn yr ardal a lle bo hynny'n briodol dylid paratoi cynllun busnes i ddangos hyfywedd y defnydd amgen a fyddai'n cefnogi adferiad economaidd yr ardal.

Bydd unrhyw dderbyniadau cyfalaf yn sgil gwerthu safle diangen fel arfer yn cael eu clustnodi i'w defnyddio yn y dyfodol yn y Rhaglen Moderneiddio Addysg er mwyn gwella'r ddarpariaeth addysgol yn y sir.

10. Tir ac Adeiladau

10.1 Manylion am unrhyw waith trosglwyddo neu waredu tir neu adeiladau a allai fod ei angen o ganlyniad i'r cynigion.

Mae Ysgol Blaenau, Ysgol Gymraeg Pen-y-groes ac Ysgol Llandybïe yn eiddo i Gyngor Sir Caerfyrddin. Pe bai'r cynigion yn mynd rhagddynt, ni fyddai angen Ysgol Blaenau wedyn. Yn gyffredinol, bydd ysgolion y nodwyd nad oes eu hangen mwyach at ddibenion addysgol yn cael eu gwerthu ar y farchnad agored, oni bai bod angen yr adeilad / safle segur a'i fod yn cael ei gadw at ddefnydd corfforaethol mewnol neu fel arall ei drosglwyddo i'r gymuned os yn briodol.

10.2 A yw'r ysgol neu'r ysgolion dan sylw yn destun unrhyw ymddiriedolaeth neu fuddiannau elusennol y gallai'r cynigion effeithio arnynt

Mae Adran Gyfreithiol yr Awdurdod Lleol wedi adolygu dogfennau'r Gofrestrfa Tir a'r gweithredoedd swyddogol ac, o'r dogfennau sydd wedi'u hadolygu ar hyn o bryd, nid ydynt yn credu y bydd y cynnig i gau Ysgol Blaenau yn effeithio ar unrhyw ymddiriedolaethau neu fuddiannau elusennol.

10.3 Ansawdd adeilad yr ysgol y byddai disgyblion yn cael eu trosglwyddo ohoni

Mae ansawdd yr adeiladau a'r cyfleusterau yn Ysgol Gymraeg Pen-y-groes o leiaf gystal â'r rhai yn Ysgol Blaenau, gyda'r ddwy ysgol wedi'u hasesu fel rhai sydd ag adeiladau cadarn (Gradd B) ac addasrwydd boddhaol (Gradd B).

Mae gan Ysgol Llandybïe, er ei bod ar hyn o bryd wedi'i hasesu fel un lle mae angen gwella cyflwr yr adeilad (Gradd C), sgôr addasrwydd uwch (Gradd A), gan ddarparu cyfleusterau da ar gyfer addysgu, dysgu a llesiant disgyblion.

Mae Ysgol Gymraeg Pen-y-groes ac Ysgol Llandybïe yn ysgolion mwy o faint sydd â chyfleusterau da i gefnogi cyflwyno'r cwricwlwm, yn ogystal â chyfleoedd dysgu a chwarae yn yr awyr agored. At ei gilydd, maent yn cynnig darpariaeth sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael yn Ysgol Blaenau, ac mewn sawl agwedd maent yn rhagori ar y ddarpariaeth honno. Mae manylion y sgoriau cyflwr ac addasrwydd ar gyfer y tair ysgol yn cael eu dangos yn y tabl canlynol.

	Ysgol Blaenau	**Ysgol Llandybïe**	**Ysgol Gymraeg Pen-y-groes**
Cyflwr yr Adeilad	Gradd B. Yn weithredol ddiogel, ac yn	Gradd C. Gweithredol ond angen gwaith	Gradd B. Yn weithredol ddiogel, ac yn dangos mân

	dangos mân ddirywiad.	atgyweirio neu amnewid mawr yn y tymor byr i'r tymor canolig.	ddirywiad.
Addasrwydd Adeiladau'r Ysgol	Gradd B. Boddhaol, yn perfformio fel y bwriadwyd, ond nid yw'n cefnogi darparu'r cwricwlwm mewn rhai meysydd.	Gradd A. Cyfleusterau da ar gyfer addysgu, dysgu a llesiant yn yr ysgol.	Gradd B. Boddhaol, yn perfformio fel y bwriadwyd, ond nid yw'n cefnogi darparu'r cwricwlwm mewn rhai meysydd.

10.4 Gwybodaeth am unrhyw waith adeiladu sy'n angenrheidiol i sicrhau y gellir darparu lle i'r plant sy'n cael eu trosglwyddo yn y ddarpariaeth amgen;


Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai'r Awdurdod Lleol yn gweithio'n agos gyda'r ysgol sy'n derbyn a'i chorff llywodraethu i sicrhau ei bod yn gallu darparu ar gyfer pob disgybl sy'n dymuno trosglwyddo.

11. Teithio a Chludiant

Dengys CYBLD 2026 fod gan Ysgol Blaenau 28 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae gwybodaeth a ddarparwyd gan yr ysgol yn dangos bod tua 10% o'r dysgwyr yn cerdded i'r ysgol ar hyn o bryd, tua 7% yn teithio drwy gyfuniad o gar a cherdded, a thua 83% yn teithio i'r ysgol mewn car preifat.

Y cynnig yw cau Ysgol Blaenau a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Gymraeg Pen-y-groes neu Ysgol Llandybïe. Mae Ysgol Gymraeg Pen-y-groes tua 1.8 milltir o Ysgol Blaenau, tra bo Ysgol Llandybïe tua 1.7 milltir i ffwrdd. Mae'r amseroedd teithio arferol mewn cerbyd rhwng 5 a 10 munud, yn dibynnu ar y traffig.

Mae'r cynllun canlynol yn dangos lleoliad pob ysgol.



11.1 Newidiadau i Drefniadau Teithio Dysgwyr a Hygyrchedd y Ddarpariaeth

Os caiff y cynnig ei weithredu, byddai mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg yn parhau drwy Ysgol Gymraeg Pen-y-groes a thrwy'r llwybrau iaith Gymraeg sydd ar gael yn Ysgol Llandybïe. Fodd bynnag, byddai trefniadau teithio yn newid ar gyfer rhai dysgwyr ac efallai y bydd llai o gerdded a mwy o ddibyniaeth ar ddefnyddio ceir preifat a chludiant o'r cartref i'r ysgol.

Yn unol â Pholisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol y Cyngor, darperir cludiant am ddim i ddysgwyr sy'n byw ymhellach na'r pellter cerdded statudol (dwy filltir ar hyn o bryd) o'u hysgol gynradd ddalgylch ddynodedig. O ganlyniad, byddai cludiant am ddim ar gael i unrhyw ddysgwyr cymwys sy'n trosglwyddo i'w hysgol ddalgylch newydd ac sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer cludiant am ddim. Byddai disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) hefyd yn gymwys i gael cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol os yw hyn wedi'i nodi yn eu Cynllun Datblygu Unigol (CDU). Byddai rhieni disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol yn gyfrifol am ddarparu trafnidiaeth i'r ysgol ac o'r ysgol.

Dengys yr asesiad cychwynnol:

- Y gallai'r dysgwyr sy'n trosglwyddo i Ysgol Gymraeg Pen-y-groes neu Ysgol Llandybïe orfod teithio ymhellach o gymharu â'r trefniadau presennol.
- Efallai na fydd nifer fach o ddisgyblion sy'n cerdded i Ysgol Blaenau ar hyn o bryd yn gallu cerdded i'r ysgol mwyach.
- Bydd cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol i ddisgyblion cymwys yn unol â pholisi cludiant y Cyngor.
- Y gallai'r trefniadau cludiant ar gyfer rhai disgyblion amrywio yn dibynnu ar ddewis rhieni a'r ysgol a ddewisir yn y pen draw.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod y bydd trefniadau teithio terfynol yn cael eu dylanwadu gan ddewis rhieni a phenderfyniadau derbyn i ysgolion ac, o ganlyniad, mae rhywfaint o ansicrwydd yn parhau ynghylch yr union alw am gludiant a fydd yn deillio o'r cynnig.

11.2 Llwybrau Cerdded, Olwyno a Beicio

Mae asesiad cychwynnol o lwybrau teithio llesol rhwng Blaenau a'r ysgolion derbyn arfaethedig wedi cael ei gynnal.

Mae Ysgol Gymraeg Pen-y-groes wedi'i chysylltu â Blaenau yn bennaf drwy'r B4556 a Heol Cae'r-bryn. Er bod llwybr cerdded yn bodoli, nid oes troedffordd barhaus ar hyd rhannau o'r llwybr, a allai olygu ei fod yn llai addas i ddisgyblion iau a theuluoedd.

Mae Ysgol Llandybïe wedi'i chysylltu â Blaenau drwy'r B4556, Heol Blaenau a Heol Gwilym/A483. Mae troedffyrdd cyhoeddus ar gael ar hyd rhannau o'r llwybr. Fodd bynnag, mae maint y traffig, croesfannau, gweledegdd a pharhad y seilwaith i gerddwyr yn dylanwadu ar addasrwydd cyffredinol y llwybr.

Nododd yr asesiad nifer o gyfyngiadau gan gynnwys:

- Rhannau lle nad oes troedffordd neu droedffordd addas.
- Gofynion o ran croesfannau.
- Cyfyngiadau sy'n effeithio ar ddisgyblion iau a beicwyr llai hyderus.
- Cyfyngiadau seilwaith a allai leihau hygyrchedd i rai defnyddwyr.

Er bod cyfleoedd teithio llesol yn bodoli i rai teuluoedd, nid yw'r llwybrau hyn yn darparu cysylltiad teithio llesol parhaus, cwbl gynhwysol ar gyfer y boblogaeth ddisgyblion ehangach. Yn y cyd-destun hwn, efallai na fydd cerdded, olwyno a beicio yn opsiynau ymarferol neu resymol i bob dysgwr.

Er gwaethaf y cyfyngiadau hyn, bydd cyfleoedd ar gyfer teithio cynaliadwy yn parhau i gael eu hyrwyddo lle mae hyn yn ddiogel, yn ymarferol ac yn briodol.

11.3 Yr Effaith ar Deithiau ac Amseroedd Teithio

I lawer o'r dysgwyr, disgwylir i'r amseroedd teithio aros yn gymharol fyr o ystyried pa mor agos yw'r ddwy ysgol amgen i Ysgol Blaenau.

Serch hynny, byddai gweithredu'r cynnig yn arwain at newidiadau i drefniadau teithio rhai disgyblion a gallai arwain at:

- Mwy o ddibyniaeth ar deithio mewn car preifat neu ar gludiant ysgol.
- Llai o gyfleoedd i deithio'n annibynnol i'r ysgol.
- Newidiadau i arferion dyddiol.

Er na ddisgwylir y bydd y rhan fwyaf o'r disgyblion yn wynebu anawsterau sylweddol, efallai y bydd angen amser teithio ychwanegol ar rai a bydd angen iddynt addasu i drefniadau teithio newydd.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod y gall newidiadau i arferion teithio dyddiol ddylanwadu ar bresenoldeb, prydlondeb a chyfranogiad mewn bywyd ysgol. Disgwylir mai bychan fydd unrhyw effaith gan mai pellteroedd cymharol fyr sy'n berthnasol. Bydd cludiant a threfniadau pontio priodol yn cael eu rhoi ar waith fel bod y tarfu cyn lleied ag sy'n bosibl.

Bydd yr Awdurdod a'r ysgolion sy'n derbyn yn gweithio'n agos gyda theuluoedd drwy gydol y cyfnod pontio, ac yn monitro presenoldeb a phrydlondeb ar ôl gweithredu. Pan fydd materion sy'n gysylltiedig â chludiant yn codi, darperir cymorth ac ymyrraeth briodol.

11.4 Newidiadau mewn Trefniadau Teithio ar gyfer Dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Yn ôl data CYBLD 2026, mae Angen Dysgu Ychwanegol (ADY) a nodwyd gan oddeutu 3.6% o'r disgyblion sy'n mynychu Ysgol Blaenau.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod y gallai effaith y newidiadau i drefniadau teithio a'r pontio i ysgol newydd fod yn fwy yn achos rhai dysgwyr sydd ag ADY. Gallai newidiadau i arferion, trefniadau cludiant anghyfarwydd, ac addasu i amgylchedd ysgol mwy o faint arwain at ragor o orbryder neu'r angen am gymorth ychwanegol yn ystod y cyfnod pontio.

Bydd anghenion dysgwyr ag ADY yn cael eu hystyried yn ofalus trwy gydol y y broses weithredu. Caiff asesiadau unigol o ofynion cludiant eu cynnal lle bo angen a darperir cludiant arbenigol lle bo'n briodol.
Bydd rhaglen bontio strwythuredig yn cael ei gweithredu i gefnogi dysgwyr cyn iddynt drosglwyddo. Bydd hyn yn cynnwys cyfleoedd i ymweld â'r ysgolion sy'n derbyn, cyfarwyddo â threfniadau cludiant, a magu hyder yn yr amgylchedd ysgol newydd.

Bydd yr ysgolion sy'n derbyn yn darparu cymorth bugeiliol a llesiant priodol, ac yn monitro presenoldeb, ymgysylltiad a llesiant yn dilyn trosglwyddo. Er y gallai heriau ychwanegol ddod ar draws rhai dysgwyr ag ADY yn ystod y cyfnod pontio, mae'r Awdurdod o'r farn y gellir rheoli'r rhain yn effeithiol trwy gynllunio gofalus, trefniadau cymorth unigol, ac ymgysylltu parhaus â theuluoedd a gweithwyr proffesiynol perthnasol.

11.5 Ystyriaethau o ran Cydraddoldeb a Hygyrchedd

Mae'r cynnig wedi'i ystyried yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010, Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 a dyletswyddau cydraddoldeb y Cyngor.

Mae'r asesiad o drefniadau teithio yn dangos efallai na fydd llwybrau cerdded a beicio yn gwbl hygyrch i bob dysgwr, a gallent fod yn heriol i:

- Dysgwyr iau.
- Dysgwyr ag anableddau neu amhariadau symudedd.
- Dysgwyr nad ydynt yn gallu ymdopi'n ddiogel â seilwaith cerddwyr toredig.

Mae yna hefyd botensial ar gyfer effaith anghymesur ar aelwydydd ag incwm is a theuluoedd sydd heb drafnidiaeth breifat. Er mwyn lliniaru'r effeithiau hyn, darperir cludiant am ddim lle bodlonir meini prawf cymhwysedd, a bydd teuluoedd yn cael gwybodaeth glir ynghylch hawl i gael cludiant a threfniadau cymorth.

Ni ddisgwylir i'r cynnig effeithio'n andwyol ar fynediad at addysg, a bydd addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud lle bo angen i sicrhau bod pob dysgwr yn gallu parhau i gael mynediad at ddarpariaeth addysgol addas.

11.6 Costau Cludiant a Goblygiadau Teithio Ehangach

Nid oes disgwyl i weithredu'r cynnig gynyddu costau cludiant o'r cartref i'r ysgol. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ddysgwyr yn derbyn cludiant ysgol i Flaenau ac ni ymddengys y bydd unrhyw oblygiadau cost cludiant yn y dyfodol, gan fod y disgyblion o fewn dalgylch yr ysgol sy'n mynychu'r ysgol ar hyn o bryd yn byw o fewn 2 filltir i'w hysgol ddalgylch ddynodedig newydd.

Gallai'r cynnig hefyd effeithio ar drefniadau teithio ar gyfer staff, rhieni, gofalwyr ac ymwelwyr. Gallai'r staff weld newidiadau mewn patrymau cymudo yn dibynnu ar drefniadau cyflogaeth yn y dyfodol, a gallai fod yn ofynnol i rieni a gofalwyr deithio i ysgolion amgen ar gyfer cyfarfodydd, digwyddiadau ysgol a gweithgareddau eraill.

O ystyried y pellter cymharol fyr rhwng Ysgol Blaenau a'r ysgolion derbyn arfaethedig, ni ragwelir y bydd yr effeithiau hyn yn sylweddol ar gyfer y rhan fwyaf o ddefnyddwyr.
Mae'r Awdurdod yn cydnabod y byddai gweithredu'r cynnig yn arwain at newidiadau i drefniadau teithio rhai dysgwyr. Er bod Ysgol Gymraeg Pen-y-groes ac Ysgol Llandybïe wedi'u lleoli'n gymharol agos i Ysgol Blaenau, mae cyfyngiadau o ran y llwybr yn golygu bod teithio llesol yn annhebygol o fod yn opsiwn realistig i bob dysgwr. Felly'r disgwyl yw y bydd dibyniaeth gynyddol ar deithio mewn car preifat neu ar gludiant ysgol.

Yn gyffredinol, mae'r Awdurdod o'r farn y gellir rheoli'n briodol unrhyw effeithiau ar bresenoldeb, llesiant ac ymgysylltu drwy gynllunio pontio, darparu cludiant a monitro'n barhaus. Bydd ystyriaeth benodol yn cael ei rhoi i ddysgwyr iau, dysgwyr ag ADY a'r rheiny y mae eu hamgylchiadau unigol yn dangos y gallai fod angen cymorth ychwanegol yn ystod y cyfnod pontio.

12. Trefniadau Derbyn

Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo ac yn cael ei gymeradwyo, byddai Cyngor Sir Caerfyrddin yn gweinyddu'r broses dderbyn i Ysgol Gymraeg Pen-y-groes / Ysgol Llandybïe neu unrhyw ysgol amgen arall a gynhelir gan Sir Gaerfyrddin, a hynny'n unol â Pholisi Derbyn y Cyngor.

Yr Uned Derbyn Disgyblion i Ysgolion,
Awdurdod Lleol Sir Gaerfyrddin
Yr Adran Addysg a Phlant,
Adeilad 3,
Heol Spilman,
Caerfyrddin,
SA31 1LE
Rhif Ffôn: 01267 246449

E-bost: derbyniadau@sirgar.gov.uk

Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai'n ofynnol i rieni, gofalwyr a gwarcheidwaid gyflwyno cais am le ysgol yn Ysgol Gymraeg Pen-y-groes/Ysgol Llandybïe, neu mewn ysgol gynhelir arall o'u dewis o fewn Sir Gaerfyrddin, yn unol â threfniadau derbyn ysgolion presennol y Cyngor. Ni fyddai gweithredu'r cynnig yn dileu'r gofyniad i wneud cais drwy'r broses dderbyn arferol.

12.1 Trosglwyddo i'r Ysgol Uwchradd


Yn 11 oed, mae plant yn trosglwyddo i'r ysgol uwchradd. Rhaid cyflwyno cais ar gyfer yr ysgol uwchradd a ffefrir, gan nad oes trosglwyddiad awtomatig o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Yn ystod tymor yr hydref o flwyddyn olaf yr ysgol gynradd, bydd teuluoedd yn derbyn hysbysiad sy'n cynnwys gwybodaeth am bob ysgol uwchradd yn y sir a manylion ar sut i wneud cais.

Nid oes unrhyw gysylltiad rhwng ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd. Gellir cyflwyno ceisiadau ar gyfer unrhyw ysgol uwchradd yn y sir. Mae'r cais yn seiliedig ar gartref y plentyn ac nid yr ysgol gynradd a fynychwyd.

12.2 Y Dalgylch


Y Dalgylch Presennol

Mae'r cynllun isod yn dangos dalgylch presennol Ysgol Blaenau.




Y Dalgylch (yn dilyn newidiadau 2027)

Mae'r cynllun isod yn dangos sut y bydd y dalgylch yn cael ei ddiwygio ym mis Medi 2027 yn seiliedig ar adolygiad diweddar dalgylch eang yr Awdurdod Lleol



Y Dalgylch Arfaethedig

Os cymeradwyir y cynnig, bydd dalgylch Ysgol Blaenau yn cael ei ailddynodi rhwng dalgylchoedd Ysgol Gymraeg Pen-y-groes ac Ysgol Llandybïe fel y dangosir isod.



12.3. Trefniadau Pontio

Os bydd y cynnig yn cael ei weithredu, bydd yr Awdurdod Lleol yn gweithio'n agos gydag Ysgol Blaenau, Ysgol Gymraeg Pen-y-groes ac Ysgol Llandybïe i sicrhau cyfnod pontio hwylus a chefnogol i'r disgyblion i gyd. Llunnir rhaglen bontio gynhwysfawr a fydd yn cynnwys ymweliadau ysgol, sesiynau ymgyfarwyddo, a chyfleoedd i ddisgyblion gwrdd â staff a'u grwpiau cyfoedion newydd cyn trosglwyddo. Bydd rhieni a gofalwyr yn cael eu gwahodd i fynychu sesiynau gwybodaeth ac ymgysylltu i drafod trefniadau a chodi unrhyw gwestiynau neu bryderon. Rhoddir sylw arbennig i gefnogi disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a dysgwyr eraill sy'n agored i niwed drwy ddatblygu cynlluniau pontio unigol a pharhau â'r trefniadau cymorth presennol. Bydd cymorth llesiant a bugeiliol priodol yn cael ei ddarparu drwy gydol y cyfnod pontio i helpu disgyblion i addasu i'w hamgylchedd dysgu newydd. Bydd yr ysgolion hefyd yn gweithio ar y cyd i sicrhau bod gwybodaeth am addysg, llesiant a chymorth yn cael ei rhannu'n effeithiol er mwyn cynnal parhad dysgu a sicrhau bod anghenion pob disgybl yn parhau i gael eu diwallu o'r pwynt trosglwyddo ymlaen.

13. Y Broses Ymgynghori

Bydd yr ymgynghori ynghylch y cynnig hwn yn dilyn y canllawiau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru yn unol â'r hyn a nodwyd yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026).

Â phwy yr ymgynghorir?

Bydd dolen i'r Ddogfen Ymgynghori yn cael ei darparu i'r rhanddeiliaid canlynol (fel y pennir gan y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026)):

- rhieni (a lle bo'n bosibl darpar rieni), gofalwyr a gwarcheidwaid dysgwyr sy'n mynychu ysgolion sy'n destun y cynigion ar hyn o bryd, ac unrhyw ysgol arall y mae'r cynigydd o'r farn fod y cynigion yn debygol o effeithio arni;
- yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd, rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid dysgwyr sy'n mynychu ysgolion cynradd y mae dysgwyr fel arfer yn trosglwyddo ohonynt i'r ysgol uwchradd honno;
- aelodau staff ysgolion sy'n destun y cynigion ac unrhyw ysgol arall y mae'r cynigydd o'r farn y bydd y cynigion yn debygol o effeithio arni;
- yr awdurdod cynnal, neu'r awdurdod y bwriedir iddo gynnal, ar gyfer yr ysgolion sy'n destun y cynigion ac unrhyw ysgol arall y mae'r cynigydd o'r farn y bydd y cynigion yn debygol o effeithio arni (gan gynnwys y timau trafnidiaeth a phriffyrdd perthnasol);
- unrhyw awdurdod lleol arall (gan gynnwys, lle bo'n briodol, awdurdodau lleol yn Lloegr) y mae'r cynigydd o'r farn y bydd y cynigion yn debygol o effeithio arno, gan gynnwys, yn achos Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol ddynodedig, unrhyw awdurdod sy'n gosod neu sy'n debygol o osod dysgwyr ag ADY yn yr ysgol sy'n destun y cynigion;

- Awdurdod Esgobaethol yr Eglwys yng Nghymru a'r Eglwys Gatholig ar gyfer yr ardal lle mae unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion ac unrhyw ysgolion eraill y mae'r cynigydd o'r farn y bydd y cynigion yn debygol o effeithio arnynt;
- unrhyw gorff crefyddol priodol arall ar gyfer unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion ac unrhyw ysgol arall mae'r cynigydd o'r farn y bydd y cynigion yn debygol o effeithio arni;
- corff llywodraethu unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion ac unrhyw ysgol arall y mae'r cynigydd o'r farn y bydd y cynigion yn debygol o effeithio arni;
- Gweinidogion Cymru;
- Aelodau o'r Senedd ac Aelodau Seneddol sy'n cynrychioli'r ardal a wasanaethir neu y bwriedir iddi gael ei gwasanaethu gan unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion;
- Estyn;
- undebau'r athrawon ac undebau staff sy'n cynrychioli athrawon a staff eraill mewn unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion;
- y gwasanaethau gwella ysgolion perthnasol;
- Comisiynydd Heddlu a Throseddu yr ardal a wasanaethir, neu y bwriedir iddi gael ei gwasanaethu, gan unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion;
- unrhyw gyngor cymuned neu dref ar gyfer yr ardal a wasanaethir neu y bwriedir iddi gael ei gwasanaethu, gan unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion;
- yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth feithrin, y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc a/neu Bartneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, lle bo'r rhain yn bodoli;
- gwasanaeth gwybodaeth i deuluoedd yr awdurdod lleol, unrhyw ddarparwyr annibynnol neu wirfoddol y mae'n debygol yr effeithir arnynt a'r sefydliadau ymbarél cenedlaethol sy'n eu cefnogi, Mudiad Meithrin, NDNA Cymru, Clybiau Plant Cymru, Blynyddoedd Cynnar Cymru, PACEY Cymru a Chwarae Cymru;
- yn achos cynigion sy'n effeithio ar Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol, unrhyw gyrff iechyd neu gyrff trydydd sector perthnasol y mae'r cynigydd o'r farn bod ganddynt fuddiant;
- yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd, unrhyw sefydliadau addysg bellach sy'n gwasanaethu ardal yr ysgol sy'n destun y cynigion;
- 'Medr' yn achos cynigion sy'n effeithio ar chweched dosbarth ysgolion; a
- Comisiynydd y Gymraeg a'r Mentrau Iaith yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth Gymraeg.

Ymgynghori â Disgyblion

Bydd disgyblion yn cael copi o Ddogfen Ymgynghori i Blant a Phobl Ifanc.

Hefyd, bydd cyfle i ddisgyblion (y Cyngor Ysgol o leiaf) yr ysgolion sy'n destun y cynigion gymryd rhan yn y broses ymgynghori yn ystod sesiwn a gynhelir gan Swyddog Awdurdod Lleol neu drwy arolwg ar-lein pwrpasol.

Bydd y wybodaeth a gesglir o'r sesiynau ymgynghori â'r disgyblion yn rhan o'r Adroddiad Ymgynghori a gyflwynir i'r Cabinet i'w ystyried yn dilyn y cyfnod ymgynghori.

Beth fydd yn digwydd nesaf?

Cam 1. Cyfnod Ymgynghori

Mae'r cyfnod ymgynghori ar gyfer y cynigion yn dechrau ar 10 Tachwedd 2026 ac yn dod i ben ar 22 Rhagfyr 2026.

Gallwch gyflwyno'ch sylwadau o blaid neu yn erbyn cynnig neu ddarparu awgrymiadau eraill. Ni fydd yr ymatebion a geir yn ystod y cyfnod ymgynghori yn cael eu hystyried yn wrthwynebiadau statudol. Os dymunwch wrthwynebu, bydd angen i chi wneud hynny'n ysgrifenedig yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol. Ni fydd unrhyw ymatebion sy'n dod i law ar ôl y dyddiad cau yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses ymgynghori.

Ystyried eich sylwadau
Yn ystod y cyfnod ymgynghori gallwch ofyn cwestiynau, mynegi eich barn neu ddarparu opsiynau eraill i'w hystyried erbyn 22 Rhagfyr 2026 fan bellaf drwy un o'r dulliau canlynol:

- Llenwi arolwg ar-lein gan ddefnyddio'r ddolen ganlynol: Arolwg Snap
- Anfon neges e-bost i: RhMYYmgynghoriadau@sirgar.gov.uk
- Ysgrifennu llythyr i'r cyfeiriad canlynol: Mr Owain Lloyd, Cyfarwyddwr Addysg a Hamdden, Neuadd y Sir, Rhiw'r Castell, SA31 1JP
- Neu lenwi copi papur o'r ffurflen ymateb (Atodiad D) a'i dychwelyd at Mr Owain Lloyd, Cyfarwyddwr Addysg a Hamdden, Neuadd y Sir, Rhiw'r Castell, SA31 1JP neu RhMYYmgynghoriadau@sirgar.gov.uk

Nodwch mai dim ond drwy un dull cyfathrebu y mae angen i chi gyflwyno'ch ymateb.

Bydd sylwadau a gyflwynir yn ystod y cyfnod ymgynghori yn cael eu cofnodi a'u crynhoi mewn Adroddiad Ymgynghori.

Ar ôl y cyfnod ymgynghori, bydd Adroddiad Ymgynghori yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin o leiaf bythefnos cyn cyhoeddi Hysbysiad Statudol. Gall ymgyngoreion gofrestru eu bod yn dymuno cael gwybod pan gaiff yr adroddiad ymgynghori ei gyhoeddi trwy lenwi a chyflwyno'r ffurflen ymateb yn Atodiad D.

Bydd Cabinet Cyngor Sir Caerfyrddin yn ystyried yr Adroddiad Ymgynghori ac yn penderfynu a yw am fynd ymlaen â'r cynnig ai peidio.

Cam 2. Cyfnod Gwrthwynebu o ran yr Hysbysiad Statudol

Os bydd Cabinet y Cyngor Sir yn penderfynu parhau â'r cynnig, rhaid cyhoeddi "Hysbysiad Statudol".

Bydd yr Hysbysiad Statudol yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin a'i osod yn yr ysgolion sy'n destun cynigion. Bydd copïau o'r hysbysiad hefyd ar gael i'r ysgolion eu dosbarthu i ddisgyblion, rhieni, gwarcheidwaid ac aelodau staff (gall yr ysgolion hefyd ddosbarthu'r hysbysiad drwy e-bost).

Bydd yr Hysbysiad Statudol yn amlinellu manylion y cynnig ac yn gwahodd unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu neu gefnogi i wneud hynny'n ysgrifenedig cyn pen 28 o ddiwrnodau.

Os bydd gwrthwynebiadau yn dod i law cyhoeddir Adroddiad Gwrthwynebu ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin. Bydd copïau papur o'r adroddiad hefyd ar gael ar gais. Bydd yr adroddiad yn crynhoi'r materion neu'r sylwadau cefnogol a godwyd ac yn rhoi ymateb Cyngor Sir Caerfyrddin.

Os na fydd unrhyw wrthwynebiadau yn dod i law, mae'r cynnig yn symud yn syth i benderfyniad.

Cam 3. Penderfyniad

Cyngor Sir Caerfyrddin fydd yn penderfynu ar y cynnig. Mae hyn yn golygu y bydd yn gwneud penderfyniad terfynol ynghylch a fydd y newid arfaethedig yn mynd yn ei flaen. Gall y Cyngor Sir benderfynu cymeradwyo'r cynnig, gwrthod y cynnig neu gymeradwyo'r cynnig â newidiadau. Wrth wneud hynny, bydd y Cyngor Sir yn ystyried unrhyw wrthwynebiadau statudol a ddaeth i law.

Ar ôl penderfynu ynghylch y cynigion rhoddir gwybod i'r holl bartïon sydd â diddordeb bod y penderfyniad ar gael a fydd yn cael ei gyhoeddi'n electronig ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin.

Bydd yr holl randdeiliaid yn cael eu hysbysu am benderfyniad y Cyngor Sir a chyhoeddi'r Adroddiad Gwrthwynebu cyn pen 7 diwrnod ar ôl y penderfyniad.

Amserlen a ragwelir ar gyfer gweithdrefnau statudol

Pe bai Cabinet Cyngor Sir Caerfyrddin yn penderfynu cau Ysgol Blaenau a darparu ar gyfer y disgyblion yn Ysgol Llandybïe, nodir isod amserlen ddangosol ar gyfer y broses statudol:

Disgrifiad	**Hyd**
Ymgynghoriad Dosbarthu'r Ddogfen Ymgynghori hon i bartïon penodol a phartïon eraill sydd â diddordeb.	O leiaf 42 diwrnod (gan gynnwys o leiaf 20 diwrnod ysgol) **10 Tachwedd 2026 – 22 Rhagfyr 2026**
Adroddiad Ymgynghori Bydd Adroddiad Ymgynghori yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet er mwyn penderfynu a ddylid mynd ati i gyhoeddi hysbysiad statudol ai peidio. NEU fel arall, daw'r cynnig i ben.	**Mehefin 2027** Bydd yr Adroddiad Ymgynghori yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin o leiaf bythefnos cyn cyhoeddi hysbysiad statudol
Pe bai'r Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen:	
Hysbysiad Statudol Os gwneir y penderfyniad i fwrw ymlaen yna cyhoeddir hysbysiad statudol.	**Mehefin – Gorffennaf 2027** O leiaf 28 diwrnod (gan gynnwys o leiaf 15 diwrnod ysgol a heb gynnwys y diwrnod cyhoeddi)
Adroddiad Gwrthwynebu Os bydd gwrthwynebiadau yn dod i law cyhoeddir Adroddiad Gwrthwynebu ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin.	**Hydref 2027** Cyn pen 7 diwrnod gan ddechrau ar ddyddiad y penderfyniad.
Penderfyniad Y Cyngor Sir fydd yn penderfynu ar y cynnig.	**Hydref 2027** Bydd penderfyniad yn cael ei wneud cyn pen 16 wythnos ar ôl diwedd y cyfnod gwrthwynebu
Os bydd y Cyngor Sir yn cymeradwyo'r cynnig, bydd Ysgol Blaenau yn cau.	**31 Rhagfyr 2027**

Cynnig i gau Ysgol Blaenau

Atodiadau

Rhaid eu darllen ar y cyd â'r ddogfen ymgynghori



sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council

Asesiadau Effaith

Mae Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned wedi'i gynnal i asesu effeithiau'r cynigion ar gymuned Blaenau. Mae'r asesiad hwn i'w weld yn atodiad A. Bydd yr asesiad hwn yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu unrhyw adborth perthnasol a ddaw i law yn ystod y broses ymgynghori.

Mae Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg wedi'i gynnal i asesu effeithiau'r cynigion ar y Gymraeg. Mae'r asesiad hwn i'w weld yn atodiad B. Bydd yr asesiad hwn yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu unrhyw adborth perthnasol a ddaw i law yn ystod y broses ymgynghori.

Mae asesiad effaith integredig cychwynnol wedi'i gynnal i'n helpu i sicrhau ein bod wedi ystyried sut y gallai ein cynigion effeithio ar wahanol grwpiau a gwasanaethau, gan ein galluogi i gryfhau agweddau cadarnhaol a lliniaru unrhyw effeithiau negyddol posibl. Mae hwn i'w weld yn atodiad C.

Rhaid darllen yr holl asesiadau effaith sydd yn yr atodiadau ar y cyd â'r ddogfen ymgynghori.

Os bydd y cynnig yn mynd rhagddo, bydd yr asesiadau i gyd yn cael eu hadolygu a'u diweddaru ar adegau allweddol yn ôl yr angen.

Atodiad A – Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned

Mae asesiad cychwynnol o'r effaith ar y gymuned wedi'i gynnal. Bydd yr asesiad hwn yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru ar adegau allweddol pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo.

• Gwybodaeth am gyfran y disgyblion o'r dalgylch sy'n mynychu'r ysgol

O blith y 28 o ddisgyblion ar y gofrestr yn CYBLD 2026, roedd 4 o'r disgyblion yn dod o ddalgylch Ysgol Blaenau tra bod y 24 disgybl arall yn dod o'r tu allan i ddalgylch Ysgol Blaenau. Yn ogystal, roedd 41 o ddisgyblion a oedd yn byw yn nalgylch Ysgol Blaenau yn mynychu ysgolion eraill.

• Gwybodaeth am gyfran y disgyblion o'r tu allan i'r dalgylch sy'n mynychu'r ysgol

O'r 28 disgybl sydd ar gofrestr CYBLD 2026, mae 24 o ddisgyblion yn mynychu'r ysgol o'r tu allan i ddalgylch Ysgol Blaenau.

• Gwybodaeth am unrhyw gyfleusterau eraill yn yr ysgol e.e. clwb ieuenctid / grŵp chwarae a gwybodaeth am unrhyw wasanaethau eraill mae'r ysgol yn eu darparu e.e. clybiau ar ôl ysgol, llyfrgell gymunedol

Cyfleuster / Gwasanaeth	Ysgol Blaenau
Clwb Brecwast	Oes (bob dydd)
Clwb Ar Ôl Ysgol	Oes - mae clwb ar ôl ysgol fel arfer ar ddydd Mercher a dydd Iau, yn dibynnu ar nifer y disgyblion.
Cylch Meithrin	Nac oes
Cyfleusterau eraill a ddarperir	Darparwyd 12 diwrnod o ddarpariaeth gwyliau yn Haf 2025 ar ffurf 'Bwyd a Hwyl', gyda darpariaeth bellach wedi'i chynllunio ar gyfer Haf 2026. Bydd tri aelod o staff yn cael eu cyflogi i gynnal clwb gwyliau i bob disgybl yn Ysgol Blaenau.
	'Sesiwn Babi a Fi' bob bore Gwener (hyd at 12 teulu yn dod).
	Digwyddiadau amrywiol y Gymdeithas Rhieni, Athrawon a Ffrindiau e.e. gweithdai crochenwaith (tua 25 yn mynychu 6/8 gwaith y flwyddyn), ffeiriau'r hydref a'r Nadolig, noson lesiant, adloniant, discos, lluniaeth yn ystod digwyddiadau ysgol.
	'Paned gyda Ffrindiau' - yn cael ei gynnal yn yr ysgol bob mis, yn agored i rieni, ffrindiau a'r gymuned. 'Cerdded gyda Ffrindiau' - taith gerdded fisol, a'r ysgol ar gael i'w defnyddio pan fo angen, yn agored i rieni, ffrindiau a'r gymuned. **Mae'r ddau weithgaredd wedi'u sefydlu i hyrwyddo llesiant a gwell cyfleoedd iechyd meddwl.**
	Mae trafodaethau rhagarweiniol wedi digwydd mewn perthynas â busnes preifat nad yw'n cael ei gynnal yn gosod ystafell yn yr ysgol er mwyn darparu addysg 10 awr i blant tair oed yn ogystal â gofal plant cofleidiol. Mae'r trafodaethau ar waith.
Cysylltiadau â'r gymuned	Cyfleoedd i fynychu digwyddiadau ysgol fel y diwrnod agored, ffeiriau'r hydref a'r Nadolig, gwasanaethau (Diolchgarwch, Diwrnod y Cofio, gadael ysgol, cyngherddau ysgol) nid yn unig i rieni ond i deuluoedd estynedig a'r gymuned. Yr ysgol

	yw calon y gymuned.
	Cefnogi Eglwys Cwmcoch drwy fynychu nifer o wasanaethau a chynnal gwasanaeth cau'r eglwys yn y gymuned.
	Cefnogi Eglwys Llandybïe mewn gwahanol ffyrdd yn dilyn cau Eglwys Cwmcoch - Gwasanaeth Dydd y Cofio, Dydd Gŵyl Dewi, Diolchgarwch, addurno ffenestri yn ystod amryw ddigwyddiadau, cymryd rhan yn nathliad *Light up the Star*, gweithgareddau a gwasanaethau Nadolig.
	Cyfleoedd i'r gymuned rannu a dathlu llwyddiant e.e. daeth 150 o bobl i ddathliadau 115 mlynedd yr ysgol, gan gynnwys cyn-ddisgyblion, disgyblion presennol a darpar ddisgyblion, ynghyd â staff a phobl o'r gymuned leol a thu hwnt.
	Cyfarfodydd y Gymdeithas Rhieni, Athrawon a Ffrindiau bob hanner tymor, yn ogystal â nifer o ddigwyddiadau codi arian.
	Cysylltiadau ag Aelwyd Penrhyd (Jennifer Maloney) - mae'r cysylltiadau ysgol hyn wedi rhoi cyfleoedd i ddisgyblion ddawnsio ar lefel uchel yn ogystal â theithio i Batagonia. Heb y cysylltiadau ysgol cychwynnol, ni fyddai hyn wedi bod yn bosibl.
	Digwyddiadau'r Gymdeithas Rhieni, Athrawon a Ffrindiau y mae'r gymuned ehangach yn eu mynychu, gan hyrwyddo llawer o gysylltiadau pwysig i'r disgyblion a'r gymuned.
	Cysylltiadau â Chyngor Cymuned Llandybïe sy'n cynnwys cefnogi a chymryd rhan mewn nifer o fentrau e.e. dylunio posteri ar gyfer taclo baw cŵn, mynd i'r siambr ar gyfer dadl, dylunio ac adeiladu gwesty trychfilod, a chefnogi cynllun 'park and grow' lleol.
	Grwpiau crefyddol amrywiol e.e. gwahanol wasanaethau a storïau i'r plant gyda Miss Michelle Messy Church ac Anthony Stevenson.

• Os darperir adeiladau, ystafelloedd, cyfleusterau neu wasanaethau gan ysgol, ble y byddent yn cael eu darparu os caiff ysgol ei chau

Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo a bod Ysgol Blaenau yn cau, mae clwb ar ôl ysgol a chlwb brecwast yn yr ysgolion amgen, sef Ysgol Gymraeg Pen-y-groes ac Ysgol Llandybïe.

• P'un a gaiff neu p'un a ellid gwella'r cyfleusterau eraill sydd ar gael yn y gymuned leol neu'r gymuned ehangach pe cai'r ysgol ei chau (e.e. gwella neuaddau pentref, meysydd chwarae, y cynlluniau chwarae a ddarperir yn ystod y gwyliau)

- Cyfleusterau ar gael yn neuadd gymunedol Cae'r-bryn i'r gymuned leol
- Maes chwarae i blant yn Blaenau
- Caffi yn y Badgers

Mae gan Ysgol Gymraeg Pen-y-groes ac Ysgol Llandybïe gysylltiadau cymunedol cryf ac maent yn cynnig ystod ehangach o weithgareddau teuluol, cymunedol a llesiant, gan gynnwys cyfleoedd dysgu i oedolion, cymorth rhianta, a digwyddiadau cymunedol rheolaidd. Mae'r darpariaethau presennol hyn, ochr yn ochr â'r adnoddau sydd ar gael ar raddfa ehangach yn yr ysgolion sy'n derbyn, yn rhoi cyfleoedd i gynnal, a, lle bo hynny'n briodol, wella gwasanaethau fel gofal plant, darpariaeth gwyliau, a defnydd cymunedol o gyfleusterau pe bai Ysgol Blaenau yn cau.

• Gwybodaeth am y cyfleusterau a'r gwasanaethau a ddarperir mewn unrhyw ysgol amgen

Cyfleuster / Gwasanaeth	**Ysgol Gymraeg Pen-y-groes**	**Ysgol Llandybïe**
Clwb Brecwast	Oes (bob dydd o 8am)	Oes (bob dydd o 8:10am)
Clwb Ar Ôl Ysgol	Oes - mae'r ysgol yn rhedeg clwb ar ôl ysgol i ddisgyblion blynyddoedd 3-6 ar ddydd Llun a dydd Iau, (3-10pm - 4pm). Ceir darpariaeth ychwanegol gan Fenter Cwm Gwendraeth ar ddydd Mawrth a dydd Mercher ar ôl ysgol tan 5pm.	Oes, bob dydd rhwng 3pm a 5pm yn ystod y tymor ysgol.
Cylch Meithrin	Mae cysylltiad rhwng Cylch Meithrin Pen-y-groes a'r ysgol, ond nid yr ysgol sy'n rhedeg y cylch	Mae Cylch Meithrin Llandybïe a Chlwb ar ôl Ysgol yn gweithredu ar

	ac mae wedi'i leoli yn y neuadd gymunedol ym Mhen-y-groes.	safle'r ysgol.
Cyfleusterau eraill a ddarperir	Mae cyfleoedd dysgu i oedolion ar gael drwy gyswllt yr ysgol â 'Tîm Dysgu Teulu Sir Gâr', sy'n cynnig amrywiaeth o sesiynau hyfforddi i rieni. Mae'r rhain yn cefnogi dysgu gartref, gan gynnwys darllen, sillafu, tablau, Numicon, 'Tric a Chlic', a rheoli ymddygiad cadarnhaol.	Mae'r ysgol yn darparu sesiynau yn rheolaidd i gefnogi teuluoedd â rhianta, yn ogystal â chyfleoedd i rieni ddysgu Cymraeg. Y tu allan i oriau ysgol, mae'r adeilad yn cael ei ddefnyddio gan athro gitâr sy'n rhoi gwersi cerddoriaeth i rai disgyblion.
Cysylltiadau â'r gymuned	• Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gyda Menter Cwm Gwendraeth. • Mae eglwysi a chapeli lleol yn cynnal gwasanaethau / cyngherddau'n rheolaidd. • Neuadd Gymunedol - rhoi cyfleoedd i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 gymryd rhan mewn sesiynau bowlio mat. • Mae'r ysgol yn ymwneud ag elusennau lleol gan gynnwys 'Young at Heart' • Gweithio'n agos gydag Ysgol Maes y Gwendraeth fel ysgol glwstwr gyswllt	• Mae aelodau Eglwys Sant Tybie yn dod i'r ysgol yn aml. • Mae disgyblion yn cymryd rhan ym mentrau'r eglwys ac wedi datblygu cyfeillgarwch agos ag aelodau'r eglwys. • Mae'r ysgol yn ymwneud â grŵp eglwysi Betws a Rhydaman.

	• Mae'r cynghorydd lleol, y Cynghorydd Dai Thomas, yn flaenllaw wrth gefnogi gweledigaeth ac ethos yr ysgol.	

• A fyddai cau'r ysgol yn peri i deuluoedd â phlant o oedran ysgol adael y gymuned neu'n golygu bod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned:

Ar hyn o bryd, mae tuedd barhaus yn y gostyngiad o nifer y plant oedran cynradd yn Sir Gaerfyrddin.

Nid yw'r dystiolaeth ddemograffig sydd ar gael yn dangos y byddai cau Ysgol Blaenau yn arwain at nifer sylweddol o deuluoedd â phlant oedran ysgol yn gadael y gymuned. Mae penderfyniadau ynghylch adleoli yn cael eu dylanwadu gan ystod eang o ffactorau, gan gynnwys cyfleoedd cyflogaeth, argaeledd tai, cysylltiadau trafnidiaeth a mynediad at wasanaethau. Serch hynny, mae'r ysgol yn rhan bwysig o'r seilwaith cymunedol ac yn cyfrannu at atyniad y pentref i rai teuluoedd. Felly, gallai ei chau gael effaith andwyol gyfyngedig ar barodrwydd rhai darpar deuluoedd â phlant ifanc i symud i'r ardal. O ystyried argaeledd darpariaeth addysgol amgen yn yr ardal gyfagos, disgwylir i unrhyw effaith ar gadw a thwf poblogaeth yn y dyfodol fod yn gyfyngedig.

Er ei bod yn amlwg mai dim ond nifer fach o'r boblogaeth sy'n mynychu ysgol y pentref, derbynnir y gallai cau'r ysgol wneud yr ardal yn llai deniadol i deuluoedd sy'n dymuno symud i'r ardal.

• A fydd colli'r ysgol, a theuluoedd o bosibl, yn cael effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned

Gall cau Ysgol Blaenau gael effaith andwyol gyfyngedig ar yr economi leol trwy golli cyfleuster cymunedol sy'n cefnogi teuluoedd lleol ac yn cyfrannu at seilwaith cymdeithasol y pentref. Fel anheddiad gwledig bach, mae'r ysgol yn chwarae rhan bwysig mewn cydlyniant cymunedol a gall ddylanwadu ar atyniad yr ardal i rai darpar deuluoedd â phlant ifanc. Fodd bynnag, nid oes unrhyw dystiolaeth ddemograffig i awgrymu y byddai cau yn arwain at nifer sylweddol o deuluoedd yn gadael y gymuned neu'n arwain at ddirywiad economaidd sylweddol. O ganlyniad, er y gallai'r cau gael effaith ar fywiogrwydd cymunedol a'r canfyddiad o'r pentref fel cymuned gynaliadwy, ni ragwelir y byddai'r cynnig yn cael effaith niweidiol sylweddol ar economi ehangach y gymuned.

• Gwybodaeth am y pellter a'r amser teithio i ysgol amgen o'r un categori iaith

Mae sawl ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn ardal gyfagos Ysgol Blaenau gan gynnwys:

Ysgol Gymraeg Pen-y-groes sydd tua 1.8 milltir neu 5 munud o amser teithio* mewn car a 1.4 milltir neu 34 munud o amser teithio wrth gerdded.

Ysgol Saron sydd tua 1.8 milltir neu 4 munud o amser teithio* mewn car o Ysgol Blaenau a 1.8 milltir neu 39 munud o amser teithio wrth gerdded.

Ysgol Gymraeg Rhydaman sydd tua 3 milltir neu 9 munud o amser teithio* mewn car o Ysgol Blaenau a 2.7 milltir neu 59 munud o amser teithio wrth gerdded.

Lle bo'n bosibl, bydd yr Awdurdod Lleol yn parhau i hyrwyddo opsiynau teithio cynaliadwy, gan gynnwys cerdded, beicio a thrafnidiaeth a rennir.

**Pellter ac amseroedd teithio yn ôl google maps*

•Sut y gellid helpu rhieni a dysgwyr i ymgysylltu â'r ysgol amgen ac unrhyw gyfleusterau a gynigir ganddi (e.e. sut y cynorthwyir disgyblion (yn enwedig y rhai â llai o fantais) i gymryd rhan mewn gweithgareddau ar ôl ysgol)

Pe bai'r Cyngor yn bwrw ymlaen â'r broses statudol ac yn gweithredu'r opsiwn a ffefrir yn y pen draw drwy gau Ysgol Blaenau, bydd cymorth yn cael ei roi i ddisgyblion a'u teuluoedd drwy gydol y cyfnod pontio.

Pe bai rhieni'n dewis gwneud cais am le mewn ysgol heblaw Ysgol Gymraeg Pen-y-groes ac Ysgol Llandybïe, bydd angen iddynt ddilyn y polisi a'r broses Derbyn i Ysgolion, sydd ar gael ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin.

• Yr effaith ar iechyd a llesiant, e.e. pe bai disgyblion yn llai abl i gerdded neu feicio i'r ysgol

O ganlyniad i'r cynnig arfaethedig i gau'r ysgol, gallai disgyblion ei chael hi'n anoddach cerdded neu feicio i'r ysgol sy'n derbyn oherwydd mwy o bellter a phryderon cysylltiedig ynghylch diogelwch ar y ffyrdd. Gallai hyn arwain at lai o gyfleoedd ar gyfer gweithgarwch corfforol dyddiol, a allai effeithio ar iechyd a llesiant rhai disgyblion.Fodd bynnag, mae'r ysgol amgen yn darparu ystod eang o weithgareddau chwaraeon. Byddai hyn yn helpu i wrthbwyso rhai o'r effeithiau negyddol posibl trwy gynnig cyfleoedd rheolaidd ar gyfer gweithgarwch corfforol yn ystod y diwrnod ysgol ac ar ôl hynny.

• Unrhyw oblygiadau ehangach e.e. effaith ar ddarpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus, materion ehangach yn ymwneud â diogelwch cymunedol

Ni ragwelir unrhyw effeithiau sylweddol ar wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus. Yn unol â pholisi cludiant ysgol y Cyngor, darperir cludiant am ddim i ddisgyblion cymwys.

Gall cau adeilad yr ysgol fod â goblygiadau ehangach i'r gymuned leol, yn enwedig os yw'r adeilad wedi cael ei ddefnyddio'n anffurfiol neu ar sail ad hoc o'r blaen fel man lloches, man cyfarfod, neu leoliad cymorth cymunedol yn ystod argyfyngau. Fodd bynnag, gan nad yw'r ysgol wedi'i chynnwys ar restr llochesi dynodedig yr Awdurdod Lleol, ni ragwelir unrhyw effaith uniongyrchol ar drefniadau lloches brys sefydledig. Felly, os caiff ei gymeradwyo, ni ragwelir y bydd y cau yn cael effaith sylweddol ar drefniadau ymateb i argyfwng lleol neu ddiogelwch cymunedol ehangach yn hyn o beth.

Mesurau Lliniaru

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod pwysigrwydd Ysgol Blaenau o fewn y gymuned leol, ac, os bydd y cynnig yn mynd rhagddo, bydd yn ymchwilio i gyfleoedd ar gyfer defnyddio'r safle yn y dyfodol. Bydd ymgysylltu'n digwydd â grwpiau cymunedol a rhanddeiliaid perthnasol i ystyried a allai gweithgareddau cymunedol neu wasanaethau sy'n gysylltiedig â'r ysgol ar hyn o bryd barhau ar y safle, neu gael eu symud i rywle arall yn y gymuned, yn unol â gweithdrefnau rheoli asedau'r Cyngor.

• Casgliad – Effaith gyffredinol ar y gymuned

Mae'r Asesiad Effaith Gymunedol wedi nodi y byddai cau Ysgol Blaenau yn cael rhai effeithiau lleol ar y gymuned, o ystyried rôl bwysig yr ysgol fel canolbwynt ar gyfer gweithgareddau cymunedol, mentrau llesiant, ymgysylltu â theuluoedd a digwyddiadau lleol. Mae'r asesiad hefyd yn cydnabod y cysylltiadau cryf sydd wedi'u datblygu rhwng yr ysgol a'r gymuned a'r gwerth a roddir ar y cysylltiadau hynny gan ddisgyblion, teuluoedd ac aelodau'r gymuned.

Fodd bynnag, mae'r asesiad yn dangos bod mwyafrif y disgyblion sy'n mynychu Ysgol Blaenau ar hyn o bryd yn byw y tu allan i ddalgylch yr ysgol, a bod nifer sylweddol o blant sy'n byw o fewn y dalgylch eisoes yn mynychu ysgolion eraill. Mae darpariaeth Gymraeg addas ar gael yn lleol, gyda'r ysgolion derbyn, sef Ysgol Gymraeg Pen-y-groes ac Ysgol Llandybïe, yn cynnig ystod eang o wasanaethau addysgol, gofal plant, gweithgareddau allgyrsiol a chyfleoedd cymunedol, ynghyd â chysylltiadau cymunedol sefydledig.

Mae'r asesiad yn cydnabod y gallai colli ysgol yn y pentref gael effaith andwyol gyfyngedig ar atyniad yr ardal i rai teuluoedd â phlant ifanc ac y gallai hefyd effeithio i ryw raddau ar fywiogrwydd a chanfyddiadau o gynaliadwyedd y gymuned leol. Fodd bynnag, nid yw'r dystiolaeth a adolygwyd yn awgrymu y byddai'r cynnig yn arwain at nifer sylweddol o deuluoedd yn gadael yr ardal nac yn cael effaith niweidiol sylweddol ar yr economi leol ehangach.

Er y gallai rhai disgyblion wynebu pellteroedd teithio uwch a llai o gyfleoedd i gerdded neu feicio i'r ysgol, ystyrir bod modd rheoli'r effeithiau hyn drwy ddarparu cludiant ysgol lle bo disgyblion yn gymwys a thrwy fynediad at ystod eang o weithgareddau a gwasanaethau cymorth yn yr ysgolion derbyn. Mae'r Cyngor hefyd wedi ymrwymo i gefnogi disgyblion a theuluoedd drwy unrhyw gyfnod pontio ac i archwilio cyfleoedd ar gyfer defnydd cymunedol o safle Ysgol Blaenau yn y dyfodol, lle bo hynny'n ymarferol.

Ar sail y dystiolaeth a ystyriwyd, daw'r asesiad i'r casgliad, er y byddai'r cynnig yn arwain at golli ased cymunedol gwerthfawr ac y gallai gael rhywfaint o effaith gyfyngedig ar atyniad a bywiogrwydd y gymuned leol, bod argaeledd darpariaeth Gymraeg briodol yn lleol, ynghyd â mesurau lliniaru addas, yn golygu y gellir rheoli unrhyw effeithiau negyddol ar y gymuned yn briodol ac ni ystyrir eu bod yn gorbwyso manteision addysgol a strategol y cynnig.

Atodiad B – Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Asesiad Effaith ar y Gymraeg

Paratowyd gan: Cyngor Sir Caerfyrddin

1. Cyflwyniad a Phwrpas

Mae'r Asesiad Effaith ar y Gymraeg hwn yn ystyried effeithiau tebygol y cynnig canlynol:
I gau Ysgol Blaenau, ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg Categori 3, a galluogi disgyblion i drosglwyddo i Ysgol Gymraeg Penygroes, ysgol Categori 3, neu i Ysgol Llandybie, ysgol drosiannol T3 sy'n gweithio tuag at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.
Dylid nodi bod ymgynghoriad ar waith i newid y ddarpariaeth iaith Gymraeg yn Ysgol Llandybie (yn cau ar 20 Hydref 2026).
Mae'r Cyngor yn cynnig gwneud newid rheoledig i'r ddarpariaeth Gymraeg yn Ysgol Llandybie. Mae'r cynnig fel a ganlyn:
Diwygio darpariaeth iaith yr ysgol gyfan fel bod pob disgybl yn dilyn llwybr Prif Iaith Cymraeg (Categori 3).

- Byddai'r gweithrediad yn cael ei weithredu'n raddol flwyddyn i flwyddyn, gan ddechrau gyda'r oed Meithrin ym mis Medi 2027.
- Byddai disgyblion sydd ar y gofrestr ar hyn o bryd yn parhau â'u haddysg heb darfu, gan y byddai newidiadau yn berthnasol i grwpiau blwyddyn newydd yn unig wrth iddynt fynd i mewn i'r ysgol.

Mae'r Asesiad yn cael ei baratoi i edrych ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar yr egwyddor o beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Paratowyd yr asesiad yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion (Cymru) Llywodraeth Cymru 2026 (001/2026), Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015, Fframwaith Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg Cyngor Sir Caerfyrddin, a chanllawiau a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg.
Prif ddiben yr asesiad yw nodi, profi a rheoli'r effeithiau ar:

- gyfleoedd dysgwyr, teuluoedd, staff a'r gymuned i ddefnyddio'r Gymraeg;
- parhad, ansawdd a hygyrchedd addysg cyfrwng Cymraeg;
- defnydd cymdeithasol ac anffurfiol o'r Gymraeg;
- cynaliadwyedd rhwydweithiau cymunedol a diwylliannol Cymraeg lleol;

- yr egwyddor na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;
- targedau Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin 2022–2032.

Mae'r asesiad yn gwahaniaethu rhwng cynnal lle mewn ysgol sy'n cynnig addysg Gymraeg a chynnal yr ecosystem iaith lawn. Mae'r ecosystem honno'n cynnwys patrymau defnydd rhwng cyfoedion, perthynas yr ysgol â rhieni, gweithgareddau'r Urdd, cysylltiadau cymunedol, cyfleoedd teuluol, a hyder dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i wersi.

2. Methodoleg a Sylfaen Dystiolaeth

Mae'r asesiad yn cael ei lywio gan Adroddiad Arolygu Estyn; Data Cymraeg Cyfrifiad 2021 ar gyfer Sir Gaerfyrddin a'r ardal benodol; Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin (CSCA) 2022–2032; a pholisi perthnasol Llywodraeth Cymru gan gynnwys Cymraeg 2050 a Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025.

3. Cyd-destun:

Mae Ysgol Blaenau yn ysgol gynradd Gymraeg. Yn ôl adroddiad Estyn Ionawr 2024, roedd 38 o ddisgyblion ar y gofrestr, 34 o oed ysgol statudol, ac roedd 23.3% o ddisgyblion oed ysgol statudol yn siarad Cymraeg gartref. Nododd Estyn fod y mwyafrif yn dod yn siaradwyr hyderus yn y ddwy iaith erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol, ond bod lleiafrif yn troi at y Saesneg mewn gweithgareddau dosbarth neu amser egwyl. Argymhellodd Estyn gryfhau medrau llafar disgyblion.

Mae hyn yn golygu bod yr ysgol yn gweithredu nid yn unig fel darparwr addysg Gymraeg, ond hefyd fel amgylchedd trochi i nifer sylweddol o blant nad ydynt yn siarad Cymraeg gartref. Mae parhad iaith, ansawdd y modelu ieithyddol a defnydd anffurfiol y Gymraeg felly yn faterion allweddol wrth drosglwyddo.

Mae'r ysgol hefyd yn cynnal clwb brecwast dyddiol, clwb ar ôl ysgol cyfrwng Cymraeg ar ddydd Mercher a dydd Iau, Bwyd a Hwyl, Sesiwn Babi a Fi, Paned gyda Ffrindiau, Cerdded gyda Ffrindiau, digwyddiadau CRhA a chysylltiadau ag eglwysi, Aelwyd Penrhyd, y Cyngor Cymuned ac asiantaethau Cymraeg. Mae'r dystiolaeth hon yn dangos swyddogaeth gymunedol ac ieithyddol sy'n ymestyn y tu hwnt i'r diwrnod ysgol.

Mae Ysgol Gymraeg Penygroes yn cynnig llwybr Categori 3. Mae'r ysgol yn nodi clwb celfyddydau mynegiannol yr Urdd a chlwb côr, cystadlu blynyddol yn Eisteddfod yr Urdd, gweithdai Menter Cwm Gwendraeth, cysylltiadau â thîm pêl-rwyd Gwenyn Gwendraeth, eisteddfod ysgol, a chymorth neu gludiant i leihau rhwystrau i gyfranogi. Mae hefyd yn darparu gweithdai teulu gyda Menter Cwm Gwendraeth a Thîm Dysgu Teulu Sir Gâr.

Mae Ysgol Llandybie yn ysgol drosiannol T3 yn y cynnig. Mae'r ysgol yn nodi Cylch Meithrin a gofal ar ôl ysgol sy'n hyrwyddo'r Gymraeg, cyfranogiad mewn gweithgareddau'r Urdd, hyrwyddo sesiynau Cymraeg i rieni, a darpariaeth gofal estynedig. Mae effaith ieithyddol y dewis hwn yn dibynnu'n arbennig ar gyflymder a sicrwydd y newid i Gategori 3, y flwyddyn ysgol y bydd pob plentyn yn ymuno â hi, a'r ddarpariaeth Gymraeg wirioneddol sydd ar gael i'r cohort hwnnw ar adeg trosglwyddo.

4. Asesiad Effaith y Gymraeg (Tabl 1)

Mae'r adran hon yn asesu'r cynnig yn erbyn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1 2015), yn benodol y Safonau Llunio Polisïau (Safonau 88–93), Safonau Cyflenwi Gwasanaethau (Safonau 1–83), a Safonau Gweithredol (Safonau 127–135).

Dylid nodi y bydd yr Asesiad Effaith y Gymraeg yn cael ei ddiweddaru yn rheolaidd er mwyn sicrhau ystyriaeth gydwybodol. Bydd yr asesiad hwn yn cael ei adolygu ar gamau allweddol y broses statudol, gan gynnwys ar ôl ymgynghori a chyn penderfynu, i sicrhau bod unrhyw faterion neu adborth sy'n dod i'r amlwg yn cael eu hystyried yn llawn.

Byddwn yn cynnwys data, tystiolaeth, mewnwelediad ac adborth o ymchwil ac ymgynghoriadau mewnol a'r ymgynghoriad cyhoeddus wrth ddilyn y broses honno.

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws yr effaith	Mesurau i gynyddu'r effaith gadarnhaol	Mesurau i liniaru effaith negyddol bosibl	Effaith derfynol (ar ôl lliniaru)
Defnydd anffurfiol o'r Gymraeg yn yr ysgol (cyfarchiad, arwyddion, arferion, cyfathrebu cyffredinol)	Mae Ysgol Blaenau yn trochi disgyblion ac yn annog defnydd o'r Gymraeg yn y dosbarth ac o amgylch yr ysgol. Fodd bynnag, nododd Estyn fod lleiafrif yn troi at y Saesneg mewn gweithgareddau neu amser egwyl. Gall trosglwyddo i ysgol fwy gynyddu'r rhwydwaith cyfoedion Cymraeg, ond gall newid patrymau cyfeillgarwch a gwanhau defnydd naturiol dros dro.	Positif i niwtral	Cynllun pontio ieithyddol. Grwpiau cyfeillgarwch. Mentora gan gyfoedion. Targedau defnydd llafar. Monitro iaith buarth a chlybiau.	Sicrhau bod pob plentyn yn cael modelau iaith cryf a chyfleoedd anffurfiol dyddiol; ymyrraeth os gwelir symudiad tuag at fwy o Saesneg.	Positif i niwtral os gweithredir yn llawn
Safonau a darpariaeth gyfredol y Gymraeg	Mae Estyn yn nodi trochi medrus, cynnydd priodol mewn llythrennedd a mwyafrif yn siarad yn hyderus yn y ddwy iaith erbyn diwedd eu cyfnod. Mae cryfhau llafaredd yn flaenoriaeth. Mae Criw Cymraeg yn gweithio'n ddiflino i hyrwyddo'r Gymraeg drwy wobrwyo disgyblion ac ymwelwyr am siarad Cymraeg o	Cymysg / negyddol bach yn lleol	Trosglwyddo gwybodaeth asesu a chynlluniau iaith; rhaglen barhad llafaredd; rhannu dulliau effeithiol megis y carwsél iaith.	Gwarantu llwybr Categori 3 neu ddarpariaeth gyfwerth; adolygiad llinell sylfaen ar fynediad ac ar ôl dau dymor. Cefnogi Ysgolion Penygroes a Llandybie o ran cyfleoedd a	Cymysg / negyddol bach yn lleol

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws yr effaith	Mesurau i gynyddu'r effaith gadarnhaol	Mesurau i liniaru effaith negyddol bosibl	Effaith derfynol (ar ôl lliniaru)
	amgylch yr ysgol ac wrth chwarae gyda'u cyfoedion yn ystod amseroedd chwarae.			dulliau Trochi a chreu perthynas waith bositif gyda Chanolfan Gwên.	
Cyfleoedd ar ôl ysgol a chyfoethogi (cyfrwng Cymraeg/ dwyieithog)	Mae Blaenau yn cynnig Clwb Hwyl a Sbri cyfrwng Cymraeg, Urdd, dawnsio gwerin a chydweithio â phartneriaid. Mae Penygroes a Llandybie hefyd yn cynnig gweithgareddau Cymraeg, ond gall pellter, cost neu gludiant leihau mynediad.	Negyddol	Mapio pob gweithgaredd; cadw lleoedd i ddisgyblion Blaenau; cymorth ariannol; trefniadau cludiant hwyr; cysylltu â'r Urdd a Mentrau Iaith.	Sicrhau bod cynllun parhad clir mewn lle, wrth ystyried y cynnig ymhellach ac ymchwilio cyfleoedd am weithgareddau eraill gyda phartneriaid presennol a newydd.	Niwtral i gadarnhaol bach
Cyfleoedd cymunedol (cymorth i rieni/gwarcheidwaid a'r gymuned ehangach)	Gall colli Sesiwn Babi a Fi, Paned gyda Ffrindiau, Cerdded gyda Ffrindiau a gweithdai Tric a Chlic leihau defnydd cymunedol o'r Gymraeg a chyswllt rhieni â'r ysgol.	Negyddol	Cytuno ble a chan bwy y cynhelir pob gweithgaredd; sefydlu rhaglen Cymraeg yn y Cartref; sesiynau cynefino yn yr ysgolion amgen.	Cynnwys cyllideb, lleoliad hygyrch, trefniadau hyrwyddo a sefydliad arweiniol ar gyfer pob gweithgaredd.	Negyddol bach os cynhelir y ddarpariaeth
Cefnogaeth i gyfranogiad diwylliannol Cymru (Urdd, Mentrau Iaith,	Mae cysylltiadau â'r Urdd, Aelwyd Penrhyd, eisteddfodau, dawnsio gwerin ac eglwysi yn cryfhau hunaniaeth, treftadaeth a defnydd iaith. Gall y	Negyddol ganolig	Cytundeb parhad gyda'r Urdd, Aelwyd Penrhyd a phartneriaid; cynnal cyfleoedd i gyn-	Monitro cyfraddau cyfranogi a dileu rhwystrau cost a chludiant.	Niwtral

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws yr effaith	Mesurau i gynyddu'r effaith gadarnhaol	Mesurau i liniaru effaith negyddol bosibl	Effaith derfynol (ar ôl lliniaru)
eisteddfodau, treftadaeth)	rhwydweithiau hyn gael eu tarfu.		ddisgyblion gymryd rhan gyda'u grŵp newydd.		
Aliniad â CSCA a Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru	Mae'r cynnig yn cynnal dewis Categori 3 drwy Benygroes ac yn cysylltu ag uchelgais Llandybie i drosglwyddo i Gategori 3. Fodd bynnag, mae'n cau un safle Cymraeg ac mae angen dangos nad yw mynediad ymarferol nac ansawdd yn cael eu lleihau.	Niwtral	Gwarantu lleoedd a llwybrau; cyhoeddi data capasiti, staffio a dilyniant; monitro'r cohort yn flynyddol.	Cynllun wrth gefn os bydd amserlen Llandybie, capasiti neu fynediad yn newid.	Niwtral
Yr egwyddor o beidio â thrîn y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg Mae'r gofyniad hwn yn cyd-fynd yn uniongyrchol â'r Safonau Cyflenwi	Gallai teithiau hirach, llai o gludiant i glybiau neu fwlch mewn darpariaeth T3 greu anfantais ymarferol i'r dewis Cymraeg.	Risg negyddol ganolig	Cymharu cost, amser teithio, cludiant, gofal estynedig, ADY a gweithgareddau ar gyfer llwybrau Cymraeg a Saesneg.	Sicrhau darpariaeth gyfartal o ran ansawdd, amseroldeb, hygyrchedd a chost.	Niwtral os caiff cydraddoldeb ymarferol ei brofi

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws yr effaith	Mesurau i gynyddu'r effaith gadarnhaol	Mesurau i liniaru effaith negyddol bosibl	Effaith derfynol (ar ôl lliniaru)
Gwasanaethau (Safonau 1–83), sy'n ei gwneud yn ofynnol bod yr holl wasanaethau a chyfathrebiadau sy'n wynebu'r cyhoedd ar gael yn Gymraeg a Saesneg i safon gyfartal.					

5. Safonau'r Gymraeg (Tabl 2)

Mae'r asesiad hwn yn ystyried effaith y cynnig yn erbyn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1 2015), gan gynnwys y Safonau Llunio Polisi (88–93), y Safonau Cyflenwi Gwasanaethau (1–83), a'r Safonau Gweithredol (127–135).

Gofyniad	A yw'r cynnig yn effeithio ar y Safonau hyn?	Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i gefnogi'r farn hon?	Effeithiau cadarnhaol/negyddol
Cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg	**Risg negyddol posib ond hefyd cyfleoedd positif.**	**Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin (CSCA) 2022–2032**, Mae'r dystiolaeth a ddefnyddir i gefnogi'r farn hon yn cynnwys dogfennau polisi strategol cenedlaethol a lleol perthnasol, yn enwedig Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin (CSCA) 2022–2032, yn enwedig canlyniadau sy'n ymwneud â throchi cynnar, dilyniant, a	**Negyddol:** Mae yna risg o ran gefnogaeth Trochi sydd angen ei ystyried. Mae unrhyw heriau tymor byr posibl sy'n gysylltiedig â throsglwyddo yn cael eu lliniaru trwy weithredu fesul cam, cyfathrebu clir â theuluoedd a chefnogaeth barhaus i ddysgwyr a staff. **Positif:** Mae'r cynnig yn cynyddu cyfleoedd i ddysgwyr gaffael a defnyddio'r Gymraeg drwy drochi cynnar a llwybrau dilyniant clir, gan gefnogi defnydd mwy cyson o'r Gymraeg ar draws cyd-destunau dysgu, cymdeithasol a chymunedol. Bydd bod yn rhan o gymuned ehangach yn cynnig cyfleoedd ehangach o ran cyfleodd i ddefnydido'r Gymraeg e.e cyfleoedd chwaraeon.

Gofyniad	A yw'r cynnig yn effeithio ar y Safonau hyn?	Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i gefnogi'r farn hon?	Effeithiau cadarnhaol/negyddol
		mwy o ddefnydd o'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau.	
Yr egwyddor o beidio â thrîn y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg	**Ydy – effaith gadarnhaol.** Mae'r cynnig yn ymgysylltu'n uniongyrchol â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau drwy sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal ym mhob gwasanaeth, cyfathrebu ac ymgysylltu sy'n wynebu'r cyhoedd sy'n ymwneud â'r cynnig, a thrwy hynny atgyfnerthu cydraddoldeb ieithyddol a chydymffurfio â gofynion statudol.	Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015; dogfennaeth ymgynghori ddwyieithog; a sefydlu trefniadau cydymffurfio â Safonau Cymreig Awdurdod Lleol. *(Safonau Llunio Polisi 88–93)*	**Positif:** Mae'r cynnig yn atgyfnerthu'r egwyddor o gydraddoldeb ieithyddol drwy sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal ym mhob gwasanaeth, cyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd, yn unol â Safonau'r Gymraeg. **Negyddol:** Ni nodwyd unrhyw effaith andwyol sylweddol, yn amodol ar liniaru. Mae'r cynnig yn cynnal ac yn cryfhau'r trefniadau presennol ar gyfer darparu gwasanaethau dwyieithog, gan liniaru unrhyw risg o driniaeth anghyfartal rhwng y Gymraeg a'r Saesneg.
Safonau Llunio Polisïau – ystyriaeth	**Ydy – effaith gadarnhaol.**	Yr Asesiad Effaith ar y Gymraeg hwn, sydd wedi'i gwblhau wrth	**Positif:** Mae'r cynnig wedi'i ddatblygu gan roi sylw penodol i'r Gymraeg, gyda chefnogaeth Asesiad Effaith ar y

Gofyniad	A yw'r cynnig yn effeithio ar y Safonau hyn?	Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i gefnogi'r farn hon?	Effeithiau cadarnhaol/negyddol
gydwybodol i'r Gymraeg	Mae'r cynnig yn cael effaith uniongyrchol ar y Safonau Llunio Polisïau drwy ystyried yn benodol yr effaith ar y Gymraeg, asesu cyfleoedd i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, a nodi mesurau lliniaru i wella canlyniadau cadarnhaol. Mae'r Asesiad Effaith ar y Gymraeg hwn yn dangos bod ystyriaeth gydwybodol wedi'i roi i'r Gymraeg yn unol â **Safonau Llunio Polisi 88–93**, gan gynnwys ystyriaeth benodol o sut mae'r cynnig yn effeithio ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a'r egwyddor o drin y Gymraeg ddim yn llai ffafriol na'r Saesneg.	ddatblygu'r cynnig er mwyn nodi effeithiau, mesuraru lliniaru a chyfleoedd i wella'r defnydd o'r Gymraeg. Bydd yr asesiad effaith yn cael ei ddiweddaru wrth i dystiolaeth ychwanegol cael ei gyflwyno fel rhan o'r broses ymgynghori. Y **ddogfen ymgynghori statudol** sy'n ystyried effaith y cynnig ar y Gymraeg ac sy'n cynnwys trefniadau ymgysylltu dwyieithog. Aliniad â **Chod Trefniadaeth Ysgolion (Cymru) 2026**, sy'n gofyn am ystyriaeth benodol o'r Gymraeg wrth ddatblygu cynigion	Gymraeg sy'n nodi effeithiau, mesurau lliniaru a chyfleoedd i wella'r defnydd o'r Gymraeg, yn unol â gofynion statudol. **Negyddol:** Ni nodwyd unrhyw effaith andwyol sylweddol, yn amodol ar liniaru. Mae ystyried effeithiau'r Gymraeg yn gynnar yn lliniaru'r risg o effeithiau andwyol anfwriadol.

Gofyniad	A yw'r cynnig yn effeithio ar y Safonau hyn?	Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i gefnogi'r farn hon?	Effeithiau cadarnhaol/negyddol
		addysg. **Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSCA) Sir Gaerfyrddin 2022–2032**, sy'n darparu'r fframwaith strategol sy'n llywio'r cynnig. **Polisi Llywodraeth Cymru**, gan gynnwys *Cymraeg 2050* a Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025, sy'n sail i'r disgwyliadau ar gyfer cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg.	
Safonau Cyflenwi Gwasanaethau – gwasanaethau sy'n wynebu'r cyhoedd yn	**Ydy – effaith gadarnhaol.** Mae'r cynnig yn ymwneud yn uniongyrchol â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau drwy sicrhau bod yr holl wasanaethau, cyfathrebu ac	Rheoliadau **Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015**, yn enwedig y **Safonau Cyflenwi Gwasanaethau (Safonau 1–83),** sy'n gosod gofynion	**Positif:** Mae'r cynnig yn cynnal ac yn atgyfnerthu cydymffurfiaeth â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau drwy sicrhau bod yr holl wasanaethau, gweithgareddau cyfathrebu ac ymgysylltu sy'n wynebu'r cyhoedd yn cael eu darparu yn Gymraeg a Saesneg i safon gyfartal,

Gofyniad	A yw'r cynnig yn effeithio ar y Safonau hyn?	Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i gefnogi'r farn hon?	Effeithiau cadarnhaol/negyddol
Gymraeg	ymgysylltu sy'n wynebu'r cyhoedd sy'n gysylltiedig â'r cynnig yn cael eu darparu yn Gymraeg a Saesneg i safon gyfartal, gan atgyfnerthu cydymffurfiaeth a chynnal cydraddoldeb ieithyddol. Bydd yr holl drefniadau ymgynghori a chyfathrebu yn parhau i gydymffurfio â'r **Safonau Cyflenwi Gwasanaethau (Safonau 1–83),** gan sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg yn cael eu darparu i safon gyfartal ac nad ydynt yn cael eu lleihau o ganlyniad i'r cynnig.	statudol ar gyfer darparu gwasanaethau sy'n wynebu'r cyhoedd yn y Gymraeg a'r Saesneg i safon gyfartal. **Dogfen ymgynghori statudol** sy'n cadarnhau bod yr holl ddeunyddiau ymgynghori, gweithgareddau cyfathrebu ac ymgysylltu yn cael eu darparu yn ddwyieithog. **Trefniadau cydymffurfio Safonau'r Gymraeg sefydledig Cyngor Sir Caerfyrddin**, gan gynnwys gohebiaeth ddwyieithog,	gan gefnogi cydraddoldeb a hygyrchedd ieithyddol. **Negyddol:** Ni nodwyd unrhyw effaith andwyol sylweddol, yn amodol ar liniaru. Mae trefniadau darparu gwasanaethau dwyieithog yn cael eu gwella, ac ni ragwelir unrhyw ostyngiad yn y ddarpariaeth Gymraeg.

Gofyniad	A yw'r cynnig yn effeithio ar y Safonau hyn?	Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i gefnogi'r farn hon?	Effeithiau cadarnhaol/negyddol
		cyhoeddiadau ac arferion ymgysylltu â'r cyhoedd.	
Safonau Gweithredol – defnydd mewnol o'r Gymraeg gan staff	**Ydy – effaith gadarnhaol.** Mae'r cynnig yn cefnogi'r Safonau Gweithredol drwy gryfhau cyfleoedd i staff ddefnyddio'r Gymraeg yn eu rolau proffesiynol, yn enwedig drwy fwy o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, dysgu proffesiynol wedi'i dargedu a datblygu capasiti'r gweithlu yn raddol.	Trefniadau datblygu'r gweithlu Cyngor Sir Caerfyrddin, gan gynnwys mynediad at hyfforddiant Cymraeg a dysgu proffesiynol yn unol â'r Safonau Gweithredol (Safonau 127–135). Aliniad â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) Sir Gaerfyrddin 2022–2032, yn enwedig canlyniadau sy'n ymwneud â chryfhau'r gweithlu cyfrwng Cymraeg a defnydd mewnol o'r Gymraeg.	**Positif:** Mae'r cynnig yn cefnogi mwy o ddefnydd mewnol o'r Gymraeg gan staff drwy ehangu'r ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog, gyda chefnogaeth gweithredu fesul cam a dysgu proffesiynol wedi'i dargedu, a thrwy hynny gryfhau cydymffurfiaeth â'r Safonau Gweithredol. **Negyddol:** Ni nodwyd unrhyw effaith andwyol sylweddol, yn amodol ar liniaru. Mae unrhyw bwysau posibl sy'n gysylltiedig â mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn cael eu lliniaru drwy weithredu'n raddol, cynllunio'r gweithlu a mynediad at ddatblygiad proffesiynol.

6. Cyd-destun Ieithyddol Cymunedol

Mae data Cyfrifiad 2021 yn dangos gostyngiad yn y defnydd o'r Gymraeg ar draws Sir Gaerfyrddin, gyda phwysau nodedig mewn trefi trefol ac ôl-ddiwydiannol. Er bod Sir Gaerfyrddin yn cadw cyfran gymharol uchel o siaradwyr Cymraeg yn gyffredinol, mae'r gyfran ymhlith grwpiau oedran iau wedi gostwng, gan dynnu sylw at bwysigrwydd trochi cynnar a chryfhau llwybrau iaith Gymraeg mewn ysgolion sy'n gwasanaethu'r cymunedau hyn.

Proffil Ieithyddol yr ardal

Mae Blaenau, Penygroes a Llandybie yn rhan o ardal hanesyddol y Gwendraeth a Dyffryn Aman, lle mae'r Gymraeg wedi bod yn elfen ganolog o hunaniaeth gymunedol ers cenedlaethau. Er bod y Gymraeg yn parhau'n iaith fyw mewn sawl rhan o'r ardal, mae patrwm defnydd yr iaith wedi newid dros y degawdau diwethaf, gan adlewyrchu newidiadau demograffig, symudiadau poblogaeth a dylanwad cynyddol y Saesneg mewn rhai cyd-destunau cymdeithasol.

Mae ysgolion cyfrwng Cymraeg yn chwarae rôl hanfodol yn yr ardal wrth gynnal trosglwyddiad rhyng-genhedlaeth yr iaith a darparu cyfleoedd dyddiol i blant ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau ffurfiol ac anffurfiol.

Yn ôl Cyfrifiad 2011, roedd Sir Gaerfyrddin ymhlith yr awdurdodau lleol â'r cyfrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru, er bod gostyngiad wedi'i nodi rhwng 2001 a 2011. Yn genedlaethol, gostyngodd canran y bobl oedd yn gallu siarad Cymraeg o 20.8% yn 2001 i 19.0% yn 2011.

O fewn ardal Blaenau, Penygroes a Llandybie, roedd gwahaniaethau lleol amlwg:

- Mae cymunedau megis **Penygroes** yn gyffredinol yn dangos cyfrannau uwch o siaradwyr Cymraeg ac yn cynnal rhwydweithiau cymdeithasol Cymraeg cymharol gryf.
- Mae **Blaenau** yn elwa ar bresenoldeb ysgol Gymraeg a gweithgareddau cymunedol sydd yn cyfrannu at ddefnydd dyddiol o'r Gymraeg.
- Mae **Llandybie** yn cynnwys patrwm ieithyddol mwy cymysg, gyda lefelau uwch o ddwyieithrwydd a defnydd amrywiol o'r Gymraeg rhwng aelwydydd a grwpiau oedran.

Mae data Cyfrifiad 2011 yn dangos pwysigrwydd y sefydliadau lleol hynny sy'n galluogi pobl i ddefnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd, gan gynnwys ysgolion, cylchoedd meithrin, yr Urdd, mentrau iaith a digwyddiadau cymunedol.

7. Risgiau a Lliniaru

Risg	Lliniaru gofynnol	Perchennog arfaethedig	Amser
Colli canolbwynt cymunedol Cymraeg lleol	Cytuno cynllun etifeddiaeth gymunedol cyn cau: lleoliad amgen, arweinydd, cyllid a dyddiadau ar gyfer gweithgareddau presennol.	Pennaeth Gwasanaeth / ysgolion / partneriaid	Yn seiliedig ar y penderfyniad
Gwanhau defnydd llafar ac anffurfiol ymhlith disgyblion	Llinell sylfaen iaith; cynllun pontio; grwpiau cyfoedion; arsylwi iaith buarth; targedau llafaredd.	Ysgolion derbyn / Athrawon Gwella'r Gymraeg a Dwyieithrwydd	Tymor cyn ac am ddwy flynedd ar ôl
Bwlch rhwng hawl i addysg Gymraeg a mynediad ymarferol	Cadarnhau lleoedd, cludiant, amseroedd teithio, gofal estynedig a chostau; cyhoeddi cymhariaeth llwybrau.	Awdurdod Lleol	Cyn penderfyniad terfynol
Ymgynghoriad ynghylch llwybr T3 Llandybie	Nodi'r ddarpariaeth Gymraeg fesul cohort; gwarant ysgrifenedig o barhad; cynllun wrth gefn Categori 3.	Awdurdod Lleol / Ysgol Llandybie	Cyn trosglwyddo
Llai o gyfranogiad mewn Urdd, clybiau a gweithgareddau	Cronfa cymorth, cludiant hwyr, cadw lleoedd a monitro cyfranogiad yn ôl grŵp.	Ysgolion derbyn	Monitro yn dymhorol
Teuluoedd di-Gymraeg yn colli hyder neu gymorth	Pecyn croeso dwyieithog; Cymraeg yn y Cartref; Tric a Chlic; cyswllt teulu penodol.	Ysgolion derbyn / Dysgu Teulu	Cyn ac ar ôl y trosglwyddo
Effaith ar ddysgwyr ag ADY	Trosglwyddo cynlluniau person-ganolog; sicrhau darpariaeth ADY	Cydlynwyr ADY	Cyn trosglwyddo

Risg	Lliniaru gofynnol	Perchennog arfaethedig	Amser
	Gymraeg; cyfarfodydd unigol â theuluoedd.		
Colli capasiti staff cyfrwng Cymraeg	Archwiliad sgiliau; cadw a defnyddio arbenigedd; dysgu proffesiynol; cynllun recriwtio.	Awdurdod Lleol / ysgolion	Cyn gweithredu
Effaith economaidd ac ieithyddol ar wasanaethau lleol	Asesu defnydd presennol; ystyried cynnal gweithgareddau cymunedol yn lleol; gweithio gyda'r neuadd gymunedol a busnesau.	Awdurdod Lleol / Cyngor Cymuned	Yn ystod y cynllunio
Camddealltwriaeth ynghylch categorïau ysgol	Esboniad clir o Gategori 3 a T3, amserlen Llandybie a'r hyn a gynigir i bob cohort.	Awdurdod Lleol	Drwy gydol yr ymgynghori

8. Monitro a Gwerthuso

Bydd camau lliniaru a nodir yn yr asesiad hwn yn cael eu monitro drwy brosesau gwella Awdurdod Lleol ac ysgolion sefydledig ac adborth ymgynghori, gydag addasiadau yn cael eu gwneud lle bo angen i wneud y mwyaf o'r effaith gadarnhaol ar y Gymraeg.
Bydd monitro parhaus yn sicrhau cydymffurfiaeth barhaus â Safonau'r Gymraeg, gan gynnwys y Safonau Llunio Polisïau (88–93), y Safonau Cyflenwi Gwasanaethau (1–83) a'r Safonau Cyflenwi Gweithredol (127-135), gyda chamau cywiro wedi'u cymryd lle bo angen.

9. Mecanweithiau gwella parhaus:

Mae'r cynnig hwn yn dangos ystyriaeth gydwybodol glir i God Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru a Safonau'r Gymraeg, a bydd yr awdurdod lleol yn monitro canlyniadau'r Gymraeg drwy gydol dylunio, adeiladu a gweithredu, gan adolygu tystiolaeth yn flynyddol a mireinio camau gweithredu.

10. Casgliad a Chrynodeb

Mae'r cynnig yn cynnig llwybrau a all gynnal addysg cyfrwng Cymraeg: llwybr Categori 3 yn Ysgol Gymraeg Penygroes a llwybr drwy Ysgol Llandybie (ymgynghoriad categori ieithyddol ar y gweill). Mae'r ysgolion amgen yn nodi cyfleoedd Cymraeg, gweithgareddau'r Urdd,

partneriaethau cymunedol a chymorth i rieni. Gall ysgolion mwy hefyd gynnig rhwydwaith ehangach o gyfoedion, staff a gweithgareddau.
Fodd bynnag, gall cau Ysgol Blaenau gael effaith negyddol ar ddarpariaeth Gymraeg yn y safle hwnnw ac ar ganolbwynt cymunedol sydd â chysylltiadau cryf â theuluoedd, sefydliadau diwylliannol a'r gymuned. Mae angen profi bod y llwybr Cymraeg yn hygyrch yn ymarferol, bod defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg yn cael ei gynnal, bod gweithgareddau cymunedol a diwylliannol yn parhau, a bod anghenion pob cohort, gan gynnwys dysgwyr ag ADY a theuluoedd di-Gymraeg, yn cael eu diwallu.
Ar sail y dystiolaeth sydd ar gael, asesir yr effaith gyffredinol cyn lliniaru fel cymysg, gyda risg negyddol yn lleol. Gellir lleihau'r risg i effaith negyddol fach neu niwtral, a chreu rhai effeithiau cadarnhaol, dim ond os caiff y mesurau lliniaru eu gwarantu, eu hariannu, eu gweithredu cyn y trosglwyddo a'u monitro am gyfnod penodol wedi unrhyw newid. Dylid diweddaru'r asesiad ar ôl yr ymgynghoriad a chyn unrhyw benderfyniad terfynol.
Ystyrir bod y cynnig yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, gan gynnwys gofynion **Safonau Llunio Polisïau 88–93** a **Safonau Cyflenwi Gwasanaethau 1–83**, yn amodol ar y mesurau lliniaru a'r trefniadau monitro a amlinellir uchod.

Bydd yr asesiad hwn yn cael ei adolygu ar gamau allweddol y broses statudol, gan gynnwys ar ôl ymgynghori a chyn penderfynu, i sicrhau bod unrhyw faterion neu adborth sy'n dod i'r amlwg yn cael eu hystyried yn llawn.

.

Atodiad C – Asesiad Effaith Integredig

Adroddiad Asesiad Effaith Integredig

Asesiad Effaith Integredig Cyngor Sir Caerfyrddin

<table>
<tr><td colspan="4">MANYLION Y CYNNIG</td></tr>
<tr><td>Gwasanaeth ac Adran:</td><td>Cwblhawyd gan (swyddog arweiniol):</td><td>Dyddiad yr asesiad cychwynnol:</td><td>Hydref 2026</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Addysg a Gwasanaethau Plant</td><td rowspan="2">Tîm y Rhaglen Moderneiddio Addysg</td><td>Fersiwn rhif:</td><td>1</td></tr>
<tr><td>Dyddiad Adolygu:</td><td>Ar ôl y cyfnod ymgynghori</td></tr>
<tr><td>Beth yw'r cynnig sydd i'w asesu?</td><td colspan="3">Y cynnig yw cau Ysgol Blaenau o 31 Rhagfyr 2027, a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Gymraeg Pen-y-groes neu Ysgol Llandybïe o 1 Ionawr 2028.</td></tr>
<tr><td>Ar bwy fydd y cynnig hwn yn cael effaith uniongyrchol?</td><td colspan="3">Disgyblion sy'n mynychu Ysgol Blaenau ar hyn o bryd
Rhieni a gofalwyr disgyblion Ysgol Blaenau
Staff Ysgol Blaenau
Llywodraethwyr Ysgol Blaenau
Staff a disgyblion yr ysgolion sy'n derbyn
Cymuned leol Blaenau
Ysgolion lleol eraill.</td></tr>
</table>

Wrth i chi gwblhau'r asesiad, gofynnir i chi nodi'r holl ffynonellau tystiolaeth. Mae hyn yn cynnwys cyfeirio at ddata a dogfennau eraill ac ati a'u cwblhau trwy hyperddolenni

DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) PUM FFORDD O WEITHIO ***(gelwir hyn hefyd yn egwyddor datblygu cynaliadwy. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn mynnu fod y Cyngor yn ystyried sut mae unrhyw gynnig yn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru gan ddefnyddio'r pum ffordd o weithio yn sylfaen)*** **Yr egwyddor datblygu cynaliadwy yw: '... bod yn rhaid i'r corff weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.'**		
Ffyrdd o Weithio	**Sut mae'r cynnig yn dangos ei fod wedi ystyried hyn?**	**Pa dystiolaeth sydd wedi cael ei defnyddio i gefnogi'r farn hon?**
Tymor Hir **Cydbwyso anghenion tymor byr â rhai tymor hir a chynllunio ar gyfer y dyfodol**	Mae'r cynnig yn mynd i'r afael â materion cynaliadwyedd hirdymor yn Ysgol Blaenau. Mae CYBLD 2026 yn dangos mai dim ond 28 o ddisgyblion sydd ar y gofrestr sy'n golygu bod canran y lleoedd gwag yn 71%. Mae amcanestyniadau'n dangos y gallai nifer y disgyblion ostwng i oddeutu 20-21 o ddisgyblion erbyn 2030/31 gan arwain at ganran lleoedd gwag o 80%. Mae'r diffyg yng nghyllideb yr ysgol wedi cynyddu o £126,662 yn 2021/22 i £287,857 yn 2025/26 gyda rhagolygon yn rhagweld diffyg o £362,566 erbyn diwedd y flwyddyn 2026/27 ac y bernir bod hynny'n anghynaladwy. Ni fyddai cynnal yr ysgol yn cael ei ystyried yn hyfyw yn y tymor hir. Byddai trosglwyddo disgyblion i naill ai Ysgol Gymraeg Pen-y-groes neu Ysgol Llandybïe (mae Ysgol Gymraeg Pen-y-groes tua 1.8 milltir o Ysgol Blaenau ac mae Ysgol Llandybïe tua 1.7 milltir o Ysgol Blaenau) yn darparu mynediad i ddisgyblion i grwpiau cyfoedion mwy, cyfleoedd cwricwlwm ehangach, mwy o ddarpariaeth allgyrsiol, gwell capasiti staffio a threfniadau arweinyddiaeth mwy cynaliadwy yn yr ysgolion sy'n derbyn. Mae hefyd yn cefnogi amcanion y Rhaglen	**Data CYBLD (2026)** Mae'n dangos nifer isel o ddisgyblion yn gyson a nifer fawr o leoedd gwag (71% yn 2026, rhagwelir y bydd yn 80% erbyn 2030) **Amcanestyniadau** Mae amcanestyniadau disgyblion, ar sail data CYBLD 2026, yn dangos bod disgwyl i nifer y disgyblion yn Ysgol Blaenau barhau'n isel a gostwng ymhellach dros amser. Rhagwelir y bydd cyfanswm y disgyblion yn gostwng o 28 yn 2026 i oddeutu 20-21 erbyn 2030-2031. Bydd lleoedd gwag yn aros yn uchel iawn, gyda disgwyliad iddynt godi eto. Rhagwelir y bydd lleoedd

	Moderneiddio Addysg trwy leihau lleoedd gwag a gwella effeithlonrwydd a chynaliadwyedd hirdymor.	gwag yn codi o 70 lle (71%) yn 2026 i hyd at 78 lle (80%) yn 2030. **Data Genedigaethau** Mae data genedigaethau diweddar ar gyfer y dalgylch yn dangos cysondeb o ran nifer isel o enedigaethau byw. Awgryma'r duedd hon mai go brin y gwelir twf yn nifer y plant fydd yn dechrau addysg statudol yn yr ardal leol. **Adroddiadau Cyllideb** Mae rhagolygon y gyllideb yn rhagweld diffyg o £362,566 erbyn diwedd y flwyddyn 2026/27. **Strategaeth y Rhaglen Moderneiddio Addysg** Yn nodi amcanion ar gyfer cynaliadwyedd tymor hir a safonau addysgol gwell. **Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026)** Yn ei gwneud yn ofynnol i weithredu lle mae lleoedd gwag yn fwy na 25% a lle mae 30 o leoedd heb eu llenwi.
Atal **Atal problemau rhag digwydd neu waethygu**	Byddai'r cynnig, o'i weithredu, yn atal yr heriau presennol sy'n wynebu'r ysgol rhag gwaethygu. Pe bai'r opsiwn a ffefrir yn mynd rhagddo,	**Data CYBLD (2026)** Yn dangos dim ond 28 o ddisgyblion ar y gofrestr a 71% o leoedd gwag, gydag

	• byddai'n mynd i'r afael â'r nifer isel o ddisgyblion yn Ysgol Blaenau (28 o ddisgyblion yn CYBLD 2026 gyda lleoedd gwag yn 71%) gan y byddai'r ysgol yn cau a byddai disgyblion yn trosglwyddo i ysgolion amgen gan gefnogi cynnal niferoedd disgyblion cynaliadwy mewn ysgolion eraill. • byddai'n mynd i'r afael â'r her o addysgu dosbarthiadau oedran cymysg gan y byddai disgyblion yn trosglwyddo i ysgol lle mae disgyblion yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau sy'n agosach o ran oedran. Felly, bydd disgyblion yn gallu gweithio gyda mwy o gyfoedion o oedran / cyfnod dysgu tebyg, a all annog rhagor o ddysgu ar y cyd. • byddai'n mynd i'r afael â'r her o lefelau uchel o leoedd gwag yn Ysgol Blaenau gan y byddai'r ysgol yn cau gan arwain at gael gwared ar yr holl leoedd gwag yn nalgylch Ysgol Blaenau. • byddai'n mynd i'r afael â'r gostyngiad disgwyliedig yn nifer y disgyblion gan y byddai'r ysgol yn cau gan atal y broblem rhag gwaethygu • byddai'n mynd i'r afael â chynnal ysgol lle mae'r galw lleol am ddarpariaeth yn fach. • byddai'n mynd i'r afael â'r diffyg mawr yn y gyllideb, sy'n tyfu o flwyddyn i flwyddyn (£287,857 yn 2025/26 a diffyg rhagamcanedig o £362,566 ar gyfer diwedd y flwyddyn 2026/27). • Byddai'r disgyblion yn trosglwyddo i ysgol sydd â strwythur arweinyddiaeth parhaol yn unol ag uchelgais yr Awdurdod Lleol	amcanestyniadau'n dangos niferoedd isel parhaus a nifer uchel o leoedd gwag. **Amcanestyniadau** Mae amcanestyniadau disgyblion, ar sail data CYBLD 2026, yn dangos bod disgwyl i nifer y disgyblion yn Ysgol Blaenau barhau'n isel a gostwng ymhellach dros amser. Rhagwelir y bydd cyfanswm y disgyblion yn gostwng o 28 yn 2026 i oddeutu 20-21 erbyn 2030-2031. Bydd lleoedd gwag yn aros yn uchel iawn, gyda disgwyliad iddynt godi eto. Rhagwelir y bydd lleoedd gwag yn codi o 70 lle (71%) yn 2026 i hyd at 78 lle (80%) yn 2030. **Adroddiadau Cyllideb** Mae rhagolygon y gyllideb yn rhagweld diffyg o £362,566 erbyn diwedd y flwyddyn 2026/27. **Data Amcanestyniadau Disgyblion** Mae amcanestyniadau disgyblion, ar sail data CYBLD 2026, yn dangos bod disgwyl i nifer y

	Mae'r dull rhagweithiol hwn yn cyd-fynd â Strategaeth y Rhaglen Moderneiddio Addysg, sy'n ceisio creu rhwydwaith ysgolion cynaliadwy ac atal safonau addysgol a hyfywedd ariannol rhag dirywio ymhellach.	disgyblion yn Ysgol Blaenau barhau'n isel a gostwng ymhellach dros amser. **Strategaeth y Rhaglen Moderneiddio Addysg** Yn nodi amcanion ar gyfer creu rhwydwaith ysgolion cynaliadwy a gwella safonau addysgol. **Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026)** Yn ei gwneud yn ofynnol i weithredu lle mae lleoedd gwag yn fwy na 25% a lle mae 30 o leoedd heb eu llenwi, sy'n berthnasol i Ysgol Blaenau.
Integreiddio **Cydnabod perthnasoedd a rhyng-ddibyniaeth â nodau llesiant eraill ac amcanion meysydd gwasanaeth a phartneriaid eraill.**	Mae'r cynnig yn cyd-fynd yn llawn ag amcanion llesiant Cyngor Sir Caerfyrddin: **Amcan Llesiant 1:** Galluogi ein plant a'n pobl ifanc i gael y dechrau gorau posibl mewn bywyd (Dechrau'n Dda). Mae'r cynnig yn ceisio sicrhau bod dysgwyr presennol a dysgwyr y dyfodol yn cael mynediad at amgylchedd addysgol cynaliadwy, o safon uchel sy'n cefnogi eu cyflawniad academaidd, eu llesiant a'u datblygiad personol. Drwy drosglwyddo disgyblion o Ysgol Blaenau i ysgolion mwy, bydd dysgwyr yn elwa ar fynediad at gyfleoedd cwricwlwm ehangach, grwpiau cyfoedion mwy, gweithgareddau allgyrsiol gwell a mwy o gymorth arbenigol, gan gynnwys cymorth i ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae'r cynnig hefyd yn ceisio mynd i'r afael â'r risgiau hirdymor sy'n gysylltiedig â gostyngiad yn	**Strategaeth y Rhaglen Moderneiddio Addysg** Yn nodi amcanion ar gyfer rhwydweithiau ysgolion cynaliadwy a gwella safonau addysgol. **Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026)** Yn ei gwneud yn ofynnol i ystyried lleoedd gwag ac effaith gymunedol. **Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP)** Yn sicrhau parhad o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg ac yn cefnogi Cymraeg 2050.

	nifer y disgyblion, nifer fawr o leoedd gwag, pwysau ariannol cynyddol a chyfyngiadau ar gapasiti arweinyddiaeth, gan sicrhau bod plant yn cael eu haddysgu mewn lleoliadau sydd mewn sefyllfa well i gyflawni dyheadau'r Cwricwlwm i Gymru. Mae'r ysgolion sy'n derbyn yn cynnig rhagor o gyfleoedd ar gyfer dysgu ar y cyd, rhyngweithio cymdeithasol a chymryd rhan mewn ystod ehangach o brofiadau addysgol a diwylliannol, gan helpu disgyblion i ddatblygu'r sgiliau, yr hyder a'r gwydnwch sydd eu hangen i ffynnu. Yn ogystal, mae'r cynnig yn cynnal mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg ac yn cefnogi llesiant dysgwyr trwy drefniadau pontio wedi'u cynllunio, cymorth bugeiliol a chymorth wedi'i dargedu i ddysgwyr sy'n agored i niwed. Gyda'i gilydd, bwriad y mesurau hyn yw darparu'r sylfeini cryfaf posibl i blant a phobl ifanc ar gyfer dysgu, iechyd, llesiant a llwyddiant yn y dyfodol. Mae'r cynnig yn dangos integreiddio drwy gydnabod y rhyngddibyniaethau rhwng darpariaeth addysgol, cynaliadwyedd ariannol, llesiant cymunedol, cludiant, datblygiad yr iaith Gymraeg ac amcanion corfforaethol ehangach. Mae'r bwriad i gau Ysgol Blaenau a throsglwyddo disgyblion i Ysgol Gymraeg Pen-y-groes neu Ysgol Llandybïe yn cyd-fynd â Strategaeth Rhaglen Moderneiddio Addysg Cyngor Sir Caerfyrddin, sy'n ceisio creu rhwydwaith ysgolion cynaliadwy ac effeithlon sy'n effeithiol yn addysgol. Mae'r cynnig yn cefnogi cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru drwy alluogi disgyblion i gael mynediad at grwpiau cyfoedion mwy, profiadau dysgu ehangach, cyfleoedd allgyrsiol gwell a gwell mynediad at wasanaethau cymorth arbenigol. Mae hefyd yn cyfrannu at amcan y Cyngor o leihau lleoedd	**Data Ariannol** Yn dangos diffyg cynyddol. **Y Polisi Cludiant** Cludiant ysgol am ddim i ddisgyblion cymwys er mwyn cynnal hygyrchedd. **Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned** Yn tynnu sylw at y cysylltiadau â sefydliadau a gwasanaethau lleol. **Amcanion Llesiant Sir Gaerfyrddin** Ceir tystiolaeth o integreiddio drwy gyfraniad y cynnig at Amcanion Llesiant Cyngor Sir Caerfyrddin, gan sicrhau bod ystyriaethau addysgol, cymdeithasol, diwylliannol, ariannol a chymunedol wedi'u hystyried gyda'i gilydd i gefnogi deilliannau gwell ar gyfer cenedlaethau heddiw a chenedlaethau'r dyfodol. **MALIC 2025** Mae tystiolaeth wedi llywio'r asesiad o'r effeithiau economaidd-gymdeithasol sy'n gysylltiedig â'r cynnig, yn enwedig mewn perthynas â hygyrchedd, cludiant a mynediad at wasanaethau.

	ysgol gwag a sicrhau defnydd effeithlon o adnoddau cyhoeddus, gan fynd i'r afael â'r diffyg sylweddol a chynyddol yng nghyllideb yr ysgol. Mae'r cynnig yn cefnogi'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP) a Cymraeg 2050 drwy gynnal mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg drwy Ysgol Gymraeg Pen-y-groes a'r llwybrau Cymraeg yn Ysgol Llandybïe. Yn ogystal, mae'r cynnig wedi'i ddatblygu ochr yn ochr ag ystyriaethau sy'n ymwneud â chludiant o'r cartref i'r ysgol, llesiant dysgwyr, effeithiau cymunedol, dyletswyddau cydraddoldeb ac anfantais economaidd-gymdeithasol, gan sicrhau nad yw penderfyniadau addysgol yn cael eu gwneud yn ynysig ond yn cyfrannu at amcanion llesiant cymdeithasol, diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol ehangach Sir Gaerfyrddin a Chymru.	
Cydweithio **Wedi'i gyflawni trwy weithio gyda phartneriaid mewnol ac allanol eraill (sector cyhoeddus, preifat neu wirfoddol) i ddod o hyd i atebion cynaliadwy a rennir**	Mae'r cynnig wedi'i ddatblygu a'i gyflwyno drwy gydweithio â phartneriaid mewnol ac allanol i nodi atebion cynaliadwy a rennir. Yn fewnol, gweithiodd yr Awdurdod Lleol gyda thimau Gwasanaethau Addysg, Cyllid, Adnoddau Dynol a Chludiant i sicrhau bod y cynnig yn mynd i'r afael â safonau addysgol, cynaliadwyedd ariannol, a hygyrchedd. Yn allanol, ymgysylltwyd â chorff llywodraethu'r ysgol, y pennaeth a'r aelod etholedig lleol yn ystod y trafodaethau llunio cychwynnol. Bydd y broses ymgynghori yn cael ei chynnal yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026), sy'n sicrhau y gall rhanddeiliaid, gan gynnwys rhieni, staff, undebau llafur, Estyn, a Chomisiynydd y Gymraeg fynegi eu barn. Mae'r dull cydweithredol hwn yn cefnogi tryloywder, rhannu cyfrifoldeb, a'r broses o ddatblygu ateb	**Trafodaethau Llunio** Trafodaethau llunio cychwynnol â chorff llywodraethu Ysgol Blaenau a'r aelod lleol (16/09/25). Trafodaeth gyda'r Pennaeth, Cadeirydd y Llywodraethwyr a'r Dirprwy Gadeirydd (14/05/26) **Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026)** Yn gosod gofynion statudol ar gyfer ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. **Dogfen Ymgynghori**

	sy'n cydbwyso anghenion addysgol, ariannol a chymunedol.	Bydd yn amlinellu sut y gall rhanddeiliaid ymateb i'r cynnig a chyflwyno gwrthwynebiadau. **Strategaeth y Rhaglen Moderneiddio Addysg** Wedi'i datblygu'n gydweithredol ar draws meysydd gwasanaeth i sicrhau rhwydweithiau ysgolion cynaliadwy. **Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg** Yn asesu effaith y cynnig ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac yn cadarnhau y bydd dysgwyr yn parhau i gael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg drwy Ysgol Gymraeg Pen-y-groes a'r llwybrau Cymraeg yn Ysgol Llandybïe. **Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned** Yn cynnwys adborth gan yr ysgol.
Cynnwys **Cynnwys y rhai sydd â diddordeb a cheisio eu barn am benderfyniadau sy'n effeithio arnynt**	Mae'r cynnig wedi'i ddatblygu trwy ymrwymiad i gynnwys y rhai sydd â diddordeb yn y broses gwneud penderfyniadau, neu'r rhai y gallai'r broses honno effeithio arnynt. Yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026), bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn cynnal proses ymgynghori ffurfiol sy'n para o leiaf 42 diwrnod, gan gynnwys o leiaf 20 diwrnod ysgol, y disgwylir iddi gael ei chynnal ym mis Tachwedd a mis	**Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026)** Yn gosod gofynion statudol ar gyfer cynnwys rhanddeiliaid. **Dogfen Ymgynghori** Bydd yn amlinellu sut y gall rhanddeiliaid ymateb i'r cynnig a

	Rhagfyr 2026. Bydd yr ymgynghoriad yn rhoi gwybodaeth fanwl i randdeiliaid am y cynnig, y rhesymau dros newid, yr opsiynau amgen a ystyriwyd, a'r effeithiau addysgol, cymunedol ac ariannol posibl. Bydd yr ymgyngoreion yn cynnwys disgyblion, rhieni a gofalwyr, staff ysgol, llywodraethwyr, undebau llafur, Estyn, Comisiynydd y Gymraeg, aelodau etholedig lleol, ysgolion cyfagos, sefydliadau cymunedol a phartïon eraill sydd â diddordeb. Ymgysylltir â disgyblion drwy ddeunyddiau a gweithgareddau ymgynghori sy'n briodol i'w hoedran, ac sydd wedi'u dylunio i sicrhau bod eu sylwadau yn cael eu clywed a'u hystyried yn unol â'u hawliau o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Bydd rhanddeiliaid yn gallu darparu adborth trwy ystod o sianeli, gan gynnwys ffurflenni ymateb ar-lein, e-byst a gohebiaeth ysgrifenedig. Ar ôl y cyfnod ymgynghori, bydd yr holl ymatebion yn cael eu hystyried yn ofalus a'u crynhoi mewn Adroddiad Ymgynghori, a fydd yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet er mwyn llywio ei benderfyniad ynghylch a ddylid bwrw ymlaen â'r cynnig a chyhoeddi hysbysiad statudol. Mae'r dull hwn yn hyrwyddo bod yn agored ac yn dryloyw, a chyfraniad ystyrlon gan randdeiliaid trwy gydol y broses o drefnu ysgolion. Mae hyn yn sicrhau ein bod ni'n ceisio barn y rhai sydd â diddordeb yn y penderfyniadau allai effeithio arnynt.	chyflwyno gwrthwynebiadau. **Dogfen Ymgynghori i Ddisgyblion** Wedi'i datblygu i esbonio'r cynnig mewn ffordd hwylus a phriodol i oedran, gan alluogi plant a phobl ifanc i ddeall y newidiadau posibl, mynegi eu barn, a chymryd rhan yn ystyrlon yn y broses ymgynghori. **Ymgysylltu** Arolwg ar-lein, ymatebion drwy e-bost, ffurflenni papur, a sesiynau ymgysylltu â disgyblion. **Ymrwymiad i gyhoeddi'r Adroddiad Ymgynghori** Yn sicrhau bod adborth yn cael ei ystyried cyn gwneud penderfyniadau. **Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned** Yn cynnwys adborth gan yr ysgol.

Pa gamau gellir eu cymryd i leihau unrhyw effeithiau negyddol neu gefnogi unrhyw effeithiau positif?

1. Tymor Hir	I gefnogi cynaliadwyedd tymor hir, bydd yr Awdurdod Lleol yn gweithio gyda'r ysgol ar gynllun pontio i sicrhau bod y disgyblion yn symud yn hwylus i Ysgol Gymraeg Pen-y-groes neu Ysgol Llandybïe, gan gynnal parhad o ran addysg a llesiant. Bydd hyn yn cynnwys cyfleoedd ar gyfer ymweliadau ymgyfarwyddo, gweithgareddau pontio, rhannu gwybodaeth rhwng ysgolion, ymgysylltu â rhieni a gofalwyr, a threfniadau pontio wedi'u teilwra ar gyfer dysgwyr agored i niwed a'r rhai sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Bydd y Cyngor hefyd yn monitro'r effaith hirdymor ar gydlyniant cymunedol ac yn archwilio'r opsiynau ar gyfer rhoi wrpas newydd i safle Ysgol Blaenau er budd y gymuned, yn unol â pholisi'r Awdurdod Lleol ar gyfer adeiladau ysgol nad oes eu hangen at ddibenion addysg mwyach. Os nad oes angen y safle at ddibenion cymunedol ac os nad oes defnydd corfforaethol ar gyfer yr adeilad, bydd yr Awdurdod Lleol yn ceisio gwaredu'r adeilad cyn gynted â phosibl er mwyn lleihau costau a rhwymedigaethau.
2. Atal	Mae'r mesurau ataliol yn canolbwyntio ar leihau ansicrwydd ac atal y sefyllfa rhag gwaethygu ymhellach. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltu'n gynnar a chyfathrebu clir â rhieni a staff, cymorth wedi'i dargedu i ddysgwyr agored i niwed yn ystod pontio, ac o bosibl rheolaethau ariannol i atal y diffyg rhag tyfu rhagor yn Ysgol Blaenau, drwy fynd i'r afael â'r broblem sylfaenol o niferoedd isel o ddisgyblion a nifer fawr o leoedd gwag, sy'n rhoi pwysau cynyddol ar gynaliadwyedd ariannol yr ysgol. Cyn gweithredu'r cynnig, cedwir at drefniadau rheoli ariannol priodol i atal cynnydd pellach yn y diffyg lle bo hynny'n bosibl. Yn y tymor hwy, byddai'r cynnig yn helpu i atal rhagor o gronni o ran rhwymedigaethau ariannol ac yn lleihau'r risg o gyfeirio adnoddau cyhoeddus pellach tuag at gynnal darpariaeth ysgol sy'n gynyddol anghynaladwy.
3. Integreiddio	Mae'r cynnig yn integreiddio â strategaethau ac amcanion ehangach drwy gyd-fynd â Strategaeth y Rhaglen Moderneiddio Addysg, y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, Cymraeg 2025, y Cwricwlwm i Gymru, y Cynllun Trafnidiaeth ac Amcanion Llesiant y Cyngor. Mae'n sicrhau cysondeb â nodau addysgol a diwylliannol wrth gydlynu â gwasanaethau cludiant i ddarparu trefniadau teithio diogel ac effeithlon.
4. Cydweithio	Mae cydweithio yn ganolog i'r cynnig, gydag ymgysylltu parhaus rhwng timau mewnol megis Addysg, Cyllid, Adnoddau Dynol a Chludiant, a phartneriaid allanol fel Estyn, Comisiynydd y Gymraeg, ac undebau llafur. Bydd y Cyngor hefyd yn gweithio'n agos gyda'r holl randdeiliaid gan gynnwys yr ysgol sy'n derbyn i sicrhau bod pob parti yn cydweithio'n llawn yn y broses bontio.

5. Cynnwys	I sicrhau cyfranogiad ystyrlon, bydd y Cyngor yn cynnal prosesau ymgynghori tryloyw, gan roi cyfleoedd i rieni, disgyblion, staff a rhanddeiliaid cymunedol roi adborth. Bydd deunyddiau ymgynghori sy'n addas i ddisgyblion a sesiynau gyda'r cyngor ysgol yn cael eu defnyddio i gynnwys plant mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Bydd Adroddiad Ymgynghori ffurfiol yn cael ei gyhoeddi sy'n crynhoi'r adborth a sut y bydd yn dylanwadu ar y penderfyniad terfynol.

CYDRADDOLDEBAU ***(mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor roi "sylw priodol" i'r angen i wneud y canlynol: dileu gwahaniaethu, aflonyddu a fictimeiddio anghyfreithlon; hybu cyfle cyfartal rhwng gwahanol grwpiau; a meithrin perthynas dda rhwng gwahanol grwpiau)***

Nodweddion Gwarchodedig	A ydy'r cynnig yn effeithio ar unrhyw un o'r nodweddion gwarchodedig?	Pa dystiolaeth sydd wedi cael ei defnyddio i gefnogi'r farn hon?
Oedran	Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai'n effeithio ar ddisgyblion oedran cynradd rhwng 4 ac 11 oed sy'n mynychu Ysgol Blaenau, gan y byddai angen iddynt drosglwyddo i ysgol arall. Mae'r cynnig yn effeithio'n uniongyrchol ar yr holl staff a gyflogir yn Ysgol Blaenau. Bydd angen ystyried lliniaru unrhyw effaith ar staff, gan gynnwys y rhai sydd dros 55 oed. Mae hefyd yn effeithio ar rieni a gofalwyr a allai fod angen addasu i drefniadau teithio newydd. Mae hefyd yn effeithio ar ddisgyblion o oedran ysgol anstatudol nad oes ganddynt hawl i gludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol.	**Data CYBLD (2026)** 28 o ddisgyblion ar y gofrestr yn ôl data CYBLD ym mis Ionawr. **Data Amcanestyniadau Disgyblion** Mae amcanestyniadau disgyblion, ar sail data CYBLD 2026, yn dangos bod disgwyl i nifer y disgyblion yn Ysgol Blaenau barhau'n isel a gostwng ymhellach dros amser.

	Gallai fod tarfu ar ddysgu y disgyblion, fodd bynnag, bydd y pontio i ddarpariaeth amgen yn cael ei reoli'n ofalus i osgoi hyn i'r graddau mwyaf sy'n bosibl. Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, a bod disgyblion yn dewis trosglwyddo i Ysgol Llandybïe neu Ysgol Gymraeg Pen-y-groes, byddai gan ddisgyblion fynediad at adnoddau addysgol gwell, a fyddai o fudd iddynt yn y tymor hir. Yn ogystal, byddai disgyblion yn mynychu ysgol sydd â charfan fwy o ddisgyblion, sy'n darparu mwy o gyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol a chydweithio/dysgu gyda chyfoedion.	
Anabledd	Nid oes disgwyl y bydd unrhyw effaith negyddol i ddisgyblion ag anableddau. Y bwriad yw trosglwyddo disgyblion o Ysgol Blaenau naill ai i Ysgol Gymraeg Pen-y-groes neu Ysgol Llandybïe, ac mae gan y ddwy gynllun hygyrchedd. Fodd bynnag, os bydd angen gwneud unrhyw addasiadau i'r ysgol, bydd addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, yn unol â phrosesau sefydledig Trefniadaeth Ysgolion Cyngor Sir Caerfyrddin. Ni ragwelir y bydd yr effaith yn negyddol gan y byddai mwy o staff ac adnoddau i gefnogi dysgwyr yn yr ysgolion amgen mwy o faint. Os bydd y cynnig yn mynd rhagddo, bydd cyfarfodydd pontio a chyfathrebu cryf yn digwydd cyn unrhyw drosglwyddo. Bydd gan unrhyw ddysgwyr agored i niwed sydd angen cymorth ychwanegol fynediad at asiantaethau allanol a chyngor gan swyddog Awdurdod Lleol. Ystyrir y byddai effaith y cynnig ar ddysgwyr ADY yn	Mae gan Ysgol Gymraeg Pen-y-groes ac Ysgol Llandybïe gynlluniau hygyrchedd.

	gadarnhaol gan fod yr amgylchedd dysgu yn Ysgol Llandybïe ac Ysgol Gymraeg Pen-y-groes yn briodol ac yn ffafriol ar gyfer darparu cymorth i bob dysgwr ag anghenion. Mae gan yr ysgolion yr amgylchedd i ddarparu'r cwricwlwm gwahaniaethol priodol ac mae ganddynt ardal awyr agored a all gefnogi hygyrchedd, cwricwlwm gwahaniaethol a lle ffisegol i ddysgwyr ag anghenion.	
Ailbennu rhywedd	Ni nodwyd unrhyw effaith andwyol anghymesur. Nid yw'r cynnig yn ymwneud â hunaniaeth rhywedd nac yn cynnwys newidiadau a fyddai'n effeithio ar unigolion sy'n mynd neu wedi mynd drwy broses ailbennu rhywedd. Fodd bynnag, efallai y bydd rhai effeithiau negyddol yn gysylltiedig â'r cynnig o ran y nodwedd warchodedig hon mewn perthynas â straen posibl yn ymwneud ag addasu i amgylcheddau cymdeithasol newydd lle gallai arferion cynhwysiant fod yn wahanol. Efallai y bydd rhai effeithiau negyddol yn gysylltiedig â'r cynnig o ran y nodwedd warchodedig hon mewn perthynas â straen posibl yn ymwneud ag addasu i amgylcheddau cymdeithasol newydd lle gallai arferion cynhwysiant fod yn wahanol. Gellir lliniaru'r effeithiau negyddol posibl hyn i ryw raddau trwy sicrhau bod gan yr ysgolion sy'n derbyn bolisïau a rhwydweithiau cymorth sefydledig i feithrin cynhwysiant a diogelwch rhag gwahaniaethu.	Nid yw natur y cynnig (cau ysgol a throsglwyddo'r disgyblion) yn gysylltiedig â'r nodwedd hon.

	Nod y cynnig yw gwella cyfleoedd addysgol a deilliannau i'r holl ddisgyblion yr effeithir arnynt.	
Priodas a Phartneriaeth Sifil	Nid yw'r nodwedd warchodedig hon yn uniongyrchol berthnasol i ddisgyblion. Dim effaith benodol ar staff wedi'i nodi. Gallai'r cynnig arwain at newidiadau i drefniadau cyflogaeth ar gyfer staff, gan gynnwys y potensial ar gyfer prosesau adleoli neu ddileu swyddi. Fodd bynnag, byddai'r effeithiau hyn yn berthnasol waeth beth yw statws priodasol neu bartneriaeth sifil unigolyn ac nid oes unrhyw dystiolaeth wedi'i nodi i awgrymu y byddai'r cynnig yn cael effaith anghymesur ar bobl sy'n briod neu bobl mewn partneriaeth sifil. Byddai unrhyw oblygiadau staffio sy'n deillio o'r cynnig yn cael eu rheoli yn unol â pholisïau a gweithdrefnau cyflogaeth y Cyngor. Er nad yw'n uniongyrchol berthnasol i ddisgyblion, cynnal cydraddoldeb mewn arferion cyflogaeth.	Cwmpas y cynnig wedi'i gyfyngu i ddarpariaeth ysgol.
Hil	Gallai'r cynnig effeithio ar ddisgyblion a theuluoedd o gefndiroedd ethnig lleiafrifol gan y gallai eu hanghenion diwylliannol neu ieithyddol fod yn llai cyfarwydd i'r ysgol amgen. Bydd yr effaith hon yn cael ei lliniaru trwy sicrhau bod yr ysgol sy'n derbyn yn gwbl barod i gefnogi'r holl ddisgyblion a'u hanghenion unigol. I bob pwrpas mae proffil ethnigrwydd Ysgol Gynradd Blaenau yn debyg i Ysgol Gymraeg Pen-y-groes ac Ysgol Llandybïe, gan mai disgyblion Gwyn Prydeinig sydd gan y	Mae adroddiadau Estyn ar gyfer y ddwy ysgol amgen yn cadarnhau eu bod yn gymunedau cynhwysol a bod athrawon a staff yn trin disgyblion yn gyfartal.

	tair ysgol i raddau helaeth iawn. Yn Ysgol Gynradd Blaenau, Gwyn Prydeinig yw 26 o'r 28 o ddisgyblion (92.9%), gydag un disgybl o ethnigrwydd Teithiwr o Dras Wyddelig ac un arall yn gwrthod rhoi gwybodaeth am ethnigrwydd. Mewn cymhariaeth, yn Ysgol Gymraeg Pen-y-groes Gwyn Prydeinig yw 152 o'r 158 o ddisgyblion (96.2%), gyda'r disgyblion eraill yn cynrychioli nifer fach o gefndiroedd ethnig eraill, gan gynnwys Wcrainaidd, Gwyn ac Unrhyw Grŵp Ethnig Arall, Gwyn a Du Affricanaidd, Gwyn a Du Caribïaidd, a Gwyn Ewropeaidd Arall. Yn yr un modd, yn Ysgol Llandybïe Gwyn Prydeinig yw 197 o'r 209 o ddisgyblion (94.3%), gyda'r disgyblion eraill o amryw gefndiroedd ethnig, gan gynnwys Affricanaidd, Tsieineaidd Hong Kong, Cwrdaidd, Pwylaidd, Affricanaidd Du Arall, Cefndir Cymysg Arall, Gwyn a Du Affricanaidd, a Gwyn a Du Caribïaidd. Er bod ychydig yn fwy o amrywiaeth ethnig yn y ddwy ysgol sy'n derbyn nag Ysgol Blaenau, disgyblion Gwyn Prydeinig yw'r disgyblion i raddau helaeth iawn yn y tair ysgol, sy'n awgrymu y byddai disgyblion sy'n trosglwyddo o Ysgol Blaenau yn parhau i ddysgu mewn cymunedau â phroffiliau ethnig tebyg. Mae adroddiadau arolygiad diweddaraf Estyn ar gyfer Ysgol Llandybïe ac Ysgol Gymraeg Pen-y-groes yn dangos bod y ddwy ysgol yn hyrwyddo amgylcheddau dysgu cynhwysol, gofalgar a pharchus. Mae Estyn yn nodi bod Ysgol Llandybïe yn "gymuned cynhwysol a chroesawgar" sy'n sicrhau cyfleoedd cyfartal i bob disgybl,	

	tra bo Ysgol Pen-y-groes yn cael ei disgrifio fel un sydd â "natur gynhwysol ac ethos hynod ofalgar". Mae'r ddau adroddiad yn tynnu sylw at y pwyslais cryf a roddir ar degwch, parch at eraill, llesiant disgyblion a pherthnasoedd cadarnhaol rhwng staff a disgyblion. Awgryma'r canfyddiadau hyn fod y ddwy ysgol yn meithrin amgylcheddau lle mae disgyblion yn cael eu gwerthfawrogi, eu cefnogi a'u hannog i barchu amrywiaeth a gwahaniaeth, sy'n debygol o gael effaith gadarnhaol ar ddisgyblion o bob cefndir hiliol ac ethnig.	
Crefydd/Cred	Ni nodwyd unrhyw effaith andwyol anghymesur. Nid yw'r cynnig yn newid mynediad at addysg ar sail crefydd neu gred ac nid yw'n effeithio ar ddarpariaeth Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg o fewn y Cwricwlwm i Gymru. Byddai'r disgyblion sy'n trosglwyddo i'r ysgol sy'n derbyn yn parhau i gael mynediad at yr un cwricwlwm statudol a chyfleoedd addysgol. Nid yw'r cynnig yn cyfyngu ar allu disgyblion, rhieni, gofalwyr neu staff i ymarfer neu fynegi eu crefydd neu eu credoau. Nid oes unrhyw dystiolaeth wedi'i nodi i awgrymu y byddai'r cynnig yn cael effaith anghymesur ar unigolion o unrhyw grŵp ffydd neu grŵp cred penodol, na'r rheiny heb grefydd na chred. Gallai'r cynnig effeithio ar ddisgyblion a theuluoedd sydd â chredoau crefyddol penodol, gan y gallai eu crefydd a'u harferion fod yn llai cyfarwydd i'r ysgol amgen. Caiff yr	

	effaith hon ei lliniaru trwy sicrhau bod yr ysgol sy'n derbyn yn gwbl barod i gefnogi'r holl ddisgyblion a'u hanghenion unigol.	
Beichiogrwydd a mamolaeth	Effaith fechan bosibl ar rieni sy'n feichiog neu ar gyfnod mamolaeth oherwydd newidiadau i drefniadau teithio. Mae mesurau lliniaru yn cynnwys cyfathrebu clir a chymorth o ran cludiant. Bydd staff beichiog, y rhai ar gyfnod mamolaeth, neu'r rhai sy'n dychwelyd i'r gwaith yn cael mynediad at gyngor ac arweiniad Adnoddau Dynol parhaus drwy gydol y broses weithredu. Bydd enw person cyswllt Adnoddau Dynol yn cael ei nodi ar gyfer ymholiadau sy'n gysylltiedig â beichiogrwydd a mamolaeth.	Mae'r Ddogfen Ymgynghori yn amlinellu'r polisi cludiant a'r mesurau cymorth. Polisi Staffio.
Cyfeiriadedd Rhywiol	Ni nodwyd unrhyw effaith andwyol anghymesur. Nid yw'r cynnig yn effeithio ar fynediad at addysg, gwasanaethau cymorth neu gyfleoedd ar sail cyfeiriadedd rhywiol. Byddai disgyblion sy'n trosglwyddo o Ysgol Blaenau yn parhau i dderbyn addysg mewn amgylchedd dysgu cynhwysol a byddent yn cadw mynediad at yr un cwricwlwm a threfniadau cymorth statudol. Disgwylir i'r ysgol sy'n derbyn barhau i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn unol â deddfwriaeth berthnasol a pholisïau ysgol. Nid oes unrhyw dystiolaeth wedi'i nodi i awgrymu y byddai'r cynnig yn cael	Mae'r cynnig yn ymwneud â threfniadaeth ysgolion a throsglwyddo disgyblion yn unig.

	effaith anghymesur ar ddisgyblion, rhieni, gofalwyr neu staff o unrhyw gyfeiriadedd rhywiol.	
Rhyw	Ni nodwyd unrhyw effaith andwyol anghymesur**.** Nid yw'r cynnig yn newid mynediad at addysg, lleoedd ysgol, gwasanaethau cymorth na chyfleoedd addysgol ar sail rhyw. Byddai pob disgybl sy'n trosglwyddo o Ysgol Blaenau yn parhau i gael mynediad at yr un cwricwlwm, cymorth llesiant a darpariaeth addysgol waeth beth fo'i ryw. Gallai'r cynnig arwain at newidiadau i drefniadau cyflogaeth ar gyfer staff Ysgol Blaenau, gan gynnwys y potensial ar gyfer adleoli, lleihau oriau gwaith neu ddileu swyddi. Mae'r proffil staffio cyfredol yn dangos mai menywod yw'r holl staff a gyflogir yn yr ysgol heblaw'r glanhawr/gofalwr. O ganlyniad, byddai unrhyw effeithiau cyflogaeth sy'n deillio o'r cynnig yn disgyn yn anghymesur ar fenywod. Fodd bynnag, nid oes unrhyw dystiolaeth wedi'i nodi i awgrymu y byddai'r cynnig yn effeithio'n anghymesur ar staff o un rhyw. Nid yw'r cynnig wedi'i ddatblygu oherwydd rhyw y gweithwyr yr effeithir arnynt, ac nid yw'r Awdurdod Lleol o'r farn y byddai'r cynnig yn arwain at wahaniaethu anghyfreithlon. Byddai unrhyw oblygiadau staffio yn cael eu rheoli yn unol â pholisïau a gweithdrefnau cyflogaeth y Cyngor, gan gynnwys ystyried cyfleoedd ad-leoli, mesurau cymorth a gofynion ymgynghori.	Mae'r cynnig yn ymwneud â threfniadaeth ysgolion a throsglwyddo disgyblion yn unig. Proffil staffio.

Pa gamau gellir eu cymryd i leihau unrhyw effeithiau negyddol neu gefnogi unrhyw effeithiau positif?

1. Oedran	Darparu cymorth cyfathrebu a throsglwyddo clir i ddisgyblion a rhieni, gan gynnwys ymweliadau ymgyfarwyddo â'r ysgol sy'n derbyn. Cynnig gofal bugeiliol ychwanegol i ddisgyblion iau i leddfu pryder yn ystod y newid.
2. Anabledd	Sicrhau bod yr ysgol sy'n derbyn yn gallu diwallu anghenion disgyblion ag anableddau ac anghenion dysgu ychwanegol trwy addasiadau rhesymol priodol, trefniadau hygyrchedd a darpariaeth cludiant lle bo angen. Dylid datblygu cynlluniau pontio unigol ar gyfer disgyblion ag anghenion a nodwyd er mwyn cefnogi parhad dysgu, llesiant a mynediad at wasanaethau cymorth. Dylid ystyried addasrwydd cyfleusterau, adnoddau a darpariaeth arbenigol yr ysgol sy'n derbyn, i sicrhau bod disgyblion yn gallu parhau i gael mynediad at addysg ar sail deg.
3. Ailbennu rhywedd	Cadw cyfrinachedd a sicrhau bod polisïau cynhwysol yn cael eu cynnal. Darparu hyfforddiant i staff ynghylch cydraddoldeb ac amrywiaeth i atal gwahaniaethu a meithrin amgylchedd cynhwysol.
4. Priodas a Phartneriaeth Sifil	Cynnal sianeli cyfathrebu hyblyg ar gyfer rhieni a staff i ddarparu ar gyfer amgylchiadau teuluol.
5. Hil	Parhau i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn yr ysgol sy'n derbyn. Monitro am unrhyw broblemau posibl a darparu gweithgareddau ymwybyddiaeth ddiwylliannol i gynnal perthynas gadarnhaol.
6. Crefydd/Cred	Sicrhau bod unrhyw arferion crefyddol neu ofynion deietegol yn parhau i gael eu parchu yn yr ysgol sy'n derbyn. Cyfathrebu â rhieni i gadarnhau'r trefniadau.
7. Beichiogrwydd a mamolaeth	Cynnig opsiynau ymgysylltu hyblyg i rieni/staff sy'n feichiog neu ar gyfnod mamolaeth, megis cyfarfodydd rhithwir a dyddiadau cau estynedig ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad. Sicrhau bod polisïau staff yn cefnogi absenoldeb mamolaeth a hyblygrwydd o ran dychwelyd i'r gwaith.

8. Cyfeiriadedd Rhywiol	Darparu hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth i staff i gynnal amgylchedd cynhwysol ac atal gwahaniaethu. Sicrhau bod polisïau gwrth-fwlio yn cael eu gorfodi.
9. Rhyw	Darparu hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth i staff i gynnal amgylchedd cynhwysol ac atal gwahaniaethu. Sicrhau bod polisïau gwrth-fwlio yn cael eu gorfodi. Darparu cymorth adnoddau dynol i'r holl staff y mae'r cynnig yn effeithio arnynt. Gwneir pob ymdrech i gael gwaith arall iddynt. Sicrhau mynediad cyfartal i'r holl gyfleusterau heb ystyried rhyw. Monitro ar gyfer gwahaniaethau ar sail rhywedd o ran cyrhaeddiad a chyfranogiad.

Y GYMRAEG ***(mae Mesur y Gymraeg 2011 a Safonau'r Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor roi "sylw priodol" i'r effaith bositif neu negyddol y gall cynnig ei chael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg)***			
Gofyniad	**A ydy'r cynnig yn effeithio ar y Safonau canlynol?**	**Pa dystiolaeth sydd wedi cael ei defnyddio i gefnogi'r farn hon?**	**A ydy'r cynnig yn cael unrhyw effeithiau positif neu negyddol?**
Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg	Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg unigol a gellir ei ddarllen yn llawn yn Atodiad B. Os bydd y cynnig yn mynd rhagddo, bydd disgyblion yn cael eu trosglwyddo i naill ai ysgol cyfrwng Cymraeg categori 3 neu ysgol drosiannol T3 sy'n gweithio tuag at fod yn un cyfrwng Cymraeg, yn dibynnu ar ddewis rhieni.		Os bydd y cynnig yn mynd rhagddo, mae posibilrwydd y bydd effaith gadarnhaol ar gyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg. Caiff disgyblion eu trosglwyddo naill ai i ysgol cyfrwng Cymraeg categori 3 neu i ysgol T3 sy'n gweithio tuag at fod yn ysgol cyfrwng Cymraeg. Mae carfan y disgyblion yn y ddwy ysgol yn fwy, sy'n rhoi rhagor o gyfleoedd cymdeithasol i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg a datblygu eu sgiliau Cymraeg. Os bydd y cynnig yn mynd rhagddo, mae posibilrwydd y bydd effaith negyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yng

	Os bydd y cynnig yn mynd rhagddo, bydd yr ymgynghori'n ddwyieithog, sy'n golygu bydd cyfle i'r cyhoedd ddarllen y dogfennau sy'n ymwneud â'r cynnig yn Gymraeg, a darparu ymateb yn Gymraeg.		nghymuned Ysgol Blaenau, gan y byddai'r gymuned yn colli presenoldeb ysgol cyfrwng Cymraeg. * Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn cynnal proses statudol ar wahân mewn perthynas â chynnig i ddiwygio'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Llandybïe. Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai'r ysgol yn pontio blwyddyn ar ôl blwyddyn i ddod yn ysgol Prif Iaith-Cymraeg (Categori 3) drwyddi, gan gyrraedd ei gweithredu'n llawn erbyn mis Medi 2034.
Dim trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg	Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg unigol a gellir ei ddarllen yn llawn yn Atodiad B. Nid yw'r cynnig hwn yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Os bydd y cynnig yn mynd rhagddo, bydd dogfennau'r ymgynghoriad yn ddwyieithog sy'n golygu y bydd y cyhoedd yn cael cyfle i ddarllen dogfennau yn ymwneud â'r cynnig yn Gymraeg ac yn Saesneg a darparu ymateb yn eu		

	dewis iaith.		

DYLETSWYDD ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL (Mae'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol yn ei gwneud yn ofynnol i ni, wrth wneud penderfyniadau strategol, ystyried sut allai ein penderfyniadau helpu i leihau'r anghydraddoldebau sydd ynghlwm wrth anfanteision economaidd-gymdeithasol. Mae anghydraddoldeb o ran canlyniadau yn ymwneud ag unrhyw wahaniaethau mesuradwy mewn canlyniadau rhwng y rhai sydd wedi profi anfantais economaidd-gymdeithasol a gweddill y boblogaeth. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ni ddeall safbwyntiau ac anghenion y rhai yr effeithir arnynt gan y penderfyniad, yn enwedig y rhai sy'n wynebu anfantais economaidd)	
Gofyniad	
Pa dystiolaeth sydd gennych chi am anfantais economaidd-gymdeithasol ac anghydraddoldebau canlyniadau mewn perthynas â'r penderfyniad hwn?	Yn ôl CYBLD 2026, roedd canran y disgyblion yn Ysgol Blaenau oedd yn gymwys am brydau ysgol am ddim yn 28.6%, sy'n nodi bod cyfran sylweddol o ddisgyblion yn dod o gefndiroedd sydd dan anfantais yn economaidd-gymdeithasol. Gallai'r newidiadau mewn trefniadau teithio a lleoliad yr ysgol olygu y bydd y cynnig yn effeithio ar y teuluoedd hyn. Fodd bynnag, darperir cludiant ysgol am ddim i ddisgyblion cymwys, gan ysgafnhau'r baich ariannol. Mae data CYBLD 2026 yn dangos bod 28.6% (8 o 28) o ddisgyblion Ysgol Blaenau yn gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim, felly gallai cyfran o'r dysgwyr fod dan anfantais yn economaidd-gymdeithasol. Mae'r Awdurdod Lleol wedi ystyried proffil economaidd-gymdeithasol dalgylch Ysgol Blaenau gan ddefnyddio Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) 2025, ynghyd â phroffiliau'r ysgolion derbyn a nodwyd, sef Ysgol Llandybïe ac Ysgol Gymraeg Pen-y-groes. Mae data MALIC 2025 yn dangos bod dalgylch Ysgol Blaenau yn cael ei wasanaethu'n bennaf gan Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is Llandybïe 2, Llanfihangel Aberbythych, Saron 2, Pen-y-groes 2 a Llandybïe 1. Mae'r ardaloedd hyn mewn ystod o grwpiau amddifadedd, o'r 20-30% o gymunedau mwyaf amddifad yng Nghymru i'r 50% o gymunedau lleiaf amddifad. Er bod Llandybïe 2 o fewn y categori 20-30% mwyaf amddifad yn genedlaethol, mae'r rhan fwyaf o'r dalgylch yn perthyn i'r categorïau 30-50% mwyaf amddifad neu 50% lleiaf amddifad, sy'n awgrymu proffil economaidd-gymdeithasol cymysg gyda lefelau isel i gymedrol o amddifadedd yn gyffredinol, yn hytrach nag

	amddifadedd wedi'i grynhoi. Mae patrwm tebyg yn amlwg yn nalgylchoedd yr ysgolion derbyn arfaethedig. Mae dalgylch Ysgol Llandybïe yn cynnwys Llandybïe 2, Llanfihangel Aberbythych a Llandybïe 1, sy'n amrywio o'r 20-30% o gymunedau mwyaf amddifad i'r 50% o gymunedau lleiaf amddifad yng Nghymru. Yn yr un modd, mae dalgylch Ysgol Gymraeg Pen-y-groes yn cynnwys Saron 1, Llanfihangel Aberbythych, Pen-y-groes 1 a Phen-y-groes 2, gyda'r ardaloedd yn perthyn i'r 30-50% o gymunedau mwyaf amddifad a'r 50% o gymunedau lleiaf amddifad yn genedlaethol. Mae hyn yn dangos y byddai dysgwyr sy'n trosglwyddo o Ysgol Blaenau yn parhau i fynychu ysgolion sy'n gwasanaethu cymunedau â nodweddion economaidd-gymdeithasol go debyg. Ar y cyfan mae dangosyddion incwm a chyflogaeth ar draws dalgylchoedd Blaenau, Llandybïe a Phen-y-groes yn gyson, gyda phocedi o amddifadedd cymedrol ond dim tystiolaeth o anfantais ddifrifol neu wedi'i chrynhoi. Mae'r ffactor amddifadedd mwyaf arwyddocaol ar draws y tair dalgylch yn ymwneud â mynediad at wasanaethau, gan adlewyrchu natur lled-wledig a gwledig y cymunedau a wasanaethir. Mae sawl Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is sy'n gysylltiedig ag Ysgol Blaenau, Ysgol Llandybïe ac Ysgol Gymraeg Pen-y-groes yn wynebu cryn heriau o ran hygyrchedd gwasanaethau, gan ddangos bod teithio a mynediad at wasanaethau allweddol yn parhau i fod yn ystyriaethau cyffredin, waeth pa ysgol sy'n derbyn fydd disgyblion yn ei mynychu. Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y gallai dysgwyr o gefndiroedd sydd dan anfantais yn economaidd-gymdeithasol fod yn fwy sensitif i newidiadau mewn trefniadau teithio, pontio ysgolion, a hygyrchedd. Felly mae'r ffactorau hyn wedi'u hystyried fel rhan o'r asesiad. Bydd dangosyddion amddifadedd presennol, gan gynnwys cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim, patrymau presenoldeb, gwybodaeth am lesiant ac unrhyw fregusrwydd a nodwyd yn cael eu hystyried wrth gynllunio trefniadau pontio. Bydd cymorth priodol, gan gynnwys cymorth bugeiliol a chynllunio pontio, yn cael ei ddarparu lle bo'r angen. Bydd disgyblion cymwys yn parhau i dderbyn cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol yn unol â pholisi cludiant y Cyngor.

	Ar ôl ystyried dangosyddion amddifadedd ar lefel disgybl a lefel ardal, gan gynnwys data cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim a thystiolaeth MALIC 2025 ar gyfer dalgylchoedd Blaenau, Llandybïe a Phen-y-groes, nid yw'r Awdurdod Lleol o'r farn y byddai'r cynnig yn arwain at effaith andwyol anghymesur ar ddysgwyr o gefndiroedd sydd dan anfantais yn economaidd-gymdeithasol. Mae nodweddion economaidd-gymdeithasol dalgylchoedd yr ysgolion sy'n derbyn yn debyg yn fras i rai Ysgol Blaenau, tra bo'r ysgolion sy'n derbyn yn cynnig mynediad at dimau staff mwy, gwasanaethau cymorth ehangach, cyfleoedd addysgol gwell a rhwydweithiau cyfoedion ehangach. Disgwylir i'r cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol sydd ar gael i ddysgwyr cymwys, ynghyd â chymorth pontio a llesiant, liniaru unrhyw effeithiau andwyol posibl sy'n gysylltiedig â'r cynnig. Byddai Ysgol Llandybïe ac Ysgol Gymraeg Pen-y-groes yn cynnig mynediad at dîm ehangach o staff a mwy o strwythurau cymorth o bosibl, gan fod o fudd yn arbennig i'r rhai o gefndiroedd sy'n amddifad yn economaidd. Mae'r cynnig yn cyd-fynd â gweledigaeth ehangach yr awdurdod i roi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i bob plentyn a pherson ifanc, lleihau effeithiau tlodi ar ddeilliannau addysgol, a sicrhau cymunedau diogel a ffyniannus.
A ydych wedi ymgysylltu â'r rheiny y mae'r penderfyniad yn effeithio arnynt?	Ydyn. Cynhaliwyd trafodaethau llunio gyda'r Pennaeth a'r Corff Llywodraethu, fodd bynnag, bydd y cynnig yn cynnwys ymgynghoriad statudol yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026). Mae hyn yn cynnwys ymgysylltu â rhieni, gofalwyr, disgyblion, staff, a rhanddeiliaid cymunedol lle gellir cyflwyno arsylwadau trwy arolygon ar-lein, ymatebion e-bost a thrwy lythyr.
A ydych wedi ystyried cymunedau a lleoedd o ddiddordeb?	Ydyn, mae'r effaith bosibl ar y gymuned leol wedi cael ei hystyried yn ofalus drwy'r Asesiad Effaith Integredig yn Atodiad A. Cydnabyddir bod rôl bwysig gan Ysgol Blaenau ym mhentref Blaenau a'r gymuned gyfagos, sy'n ymestyn y tu hwnt i'w swyddogaeth addysgol.

	Mae'r wybodaeth a ddarparwyd gan yr ysgol yn dangos ei bod yn gweithio mewn partneriaeth ag ystod o sefydliadau, grwpiau ac unigolion cymunedol i wella cyfleoedd addysgol i ddisgyblion ac i gefnogi ymgysylltu cymunedol ehangach. O ganlyniad, pe bai'r cynnig i gau Ysgol Blaenau yn mynd rhagddo, mae'n bosibl y byddai effaith ar y partneriaethau sefydledig hyn ac ar rôl yr ysgol fel ased cymunedol gwerthfawr a chanolfan ar gyfer gweithgareddau lleol. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yn ystyried yr effeithiau posibl hyn, a bydd yn parhau i gael ei adolygu a'i ddiweddaru drwy gydol y broses ymgynghori, er mwyn adlewyrchu adborth rhanddeiliaid ac unrhyw dystiolaeth ychwanegol sy'n dod i law. Mae'r Awdurdod Lleol hefyd wedi ystyried patrymau lleol mewn perthynas â nifer y disgyblion sy'n mynychu'r ysgol o'r tu mewn a'r tu allan i'r dalgylch. Mae data CYBLD 2026 yn dangos mai dim ond 4 o'r 28 o ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Blaenau sy'n byw yn nalgylch yr ysgol, a bod 24 o ddisgyblion yn dod o'r tu allan i'r dalgylch. Yn ogystal, mae 41 o ddisgyblion sy'n byw yn nalgylch Ysgol Blaenau yn mynychu ysgolion eraill ar hyn o bryd. Mae hyn yn dangos bod y mwyafrif o ddisgyblion sy'n byw yn y dalgylch ar hyn o bryd yn cael eu haddysg mewn ysgolion amgen, a bod y rhan fwyaf o deuluoedd sy'n byw yn y dalgylch wedi dewis, fel rhieni, ddarpariaeth addysg amgen. Yn ogystal, mae'r Awdurdod Lleol wedi ystyried proffil economaidd-gymdeithasol yr ardal gan ddefnyddio data Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) 2025. Gwasanaethir y dalgylch yn bennaf gan Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is Llandybïe 2, Llanfihangel Aberbythych, Saron 2, Pen-y-groes 2 a Llandybïe 1. Mae'r ardaloedd hyn yn amrywio o'r 20-30% o gymunedau mwyaf amddifad yng Nghymru i'r 50% o gymunedau lleiaf amddifad, sy'n dangos proffil economaidd-gymdeithasol cymysg gyda lefelau isel i gymedrol o amddifadedd yn gyffredinol. Mae'r ffactor amddifadedd mwyaf arwyddocaol a nodwyd yn ymwneud â mynediad at wasanaethau, sy'n adlewyrchu natur lled-wledig yr ardal a'r pellteroedd sy'n gysylltiedig â mynediad at gyfleusterau a gwasanaethau allweddol. Mae'r ffactorau hyn wedi'u hystyried fel rhan o'r asesiad o effeithiau posibl y cynnig ar y gymuned, hygyrchedd a theithio. Bydd yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yn parhau i gael ei adolygu a'i ddiweddaru drwy gydol y broses ymgynghori, er mwyn adlewyrchu adborth rhanddeiliaid ac unrhyw dystiolaeth ychwanegol sy'n dod i law yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026).

Beth yw prif effeithiau'r cynnig?	Mae'r prif effeithiau yn cynnwys cau ysgol leol, a allai effeithio ar gydlyniant cymunedol a hygyrchedd i deuluoedd Blaenau. Efallai y bydd angen i ddisgyblion deithio ymhellach i fynychu'r ysgolion amgen, a allai gynyddu'r ddibyniaeth ar gludiant ysgol. Fodd bynnag, mae'r cynnig yn sicrhau addysg cyfrwng Cymraeg barhaus. Yn ariannol, mae'r cynnig yn lleihau aneffeithlonrwydd ac yn atal y diffyg rhag cynyddu ymhellach.
Sut gellid gwella'r cynnig fel ei fod yn lleihau anghydraddoldebau deilliannau o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol?	Gellid gwella'r cynnig drwy ddarparu cymorth ychwanegol i deuluoedd sy'n wynebu caledi economaidd, megis: Darparu cymorth ariannol ar gyfer gweithgareddau allgyrsiol yn yr ysgolion sy'n derbyn. Monitro'r effaith ar ddisgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim a chynnig cymorth llesiant wedi'i dargedu yn ystod y broses bontio. Mae'r fformiwla gyllido ar gyfer ysgolion yn cynnwys ffactor amddifadedd, sydd fel arfer yn defnyddio: Cymhwysedd i gael Prydau Ysgol Am Ddim fel procsi ar gyfer anfantais economaidd-gymdeithasol. Pwysolir fesul disgybl cymwys, felly rhoddir mwy o gyllid i ysgolion sydd â chanrannau uwch o ddisgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim. Mae hyn yn sicrhau bod adnoddau'n cael eu targedu i gefnogi disgyblion yn yr ardaloedd sydd â'r angen mwyaf. Er mwyn lleihau anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol, os bydd y cynnig yn mynd rhagddo, bydd yn cael ei reoli'n ofalus a bydd unrhyw effeithiau negyddol yn cael eu lliniaru cyn gynted ag y bydd cyfle. Bydd disgyblion a theuluoedd yn cael cymorth wedi'i deilwra yn ystod y cyfnod pontio er mwyn cadw'r heriau cyn lleied ag sy'n bosibl. Bydd cyfathrebu clir â rhanddeiliaid yn hanfodol i sicrhau bod y teuluoedd i gyd yn deall beth mae'r cynnig yn ei olygu iddynt. Mae cyfathrebu da yn meithrin ymddiriedaeth, yn lleihau dryswch a gorbryder, ac yn helpu i sicrhau na chaiff neb ei adael ar ôl yn ystod y pontio.
Beth yw'r effaith debygol ar y rhai sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig a beth	Mae'r cynnig yn annhebygol o effeithio'n negyddol ar y rhan fwyaf o nodweddion gwarchodedig, gan y bydd darpariaeth cyfrwng Cymraeg ac arferion cynhwysol yn parhau. Fodd bynnag, gallai fod effeithiau croestoriadol i ddisgyblion o deuluoedd incwm isel sydd hefyd ag anghenion dysgu ychwanegol neu rieni sy'n feichiog/mamolaeth. Gellir lliniaru'r effeithiau hyn trwy gynlluniau pontio

yw'r effeithiau pellach o ran croestoriadedd?	unigol, cymorth cludiant, a gofal bugeiliol wedi'i dargedu.

HAWLIAU'R PLENTYN ***(Yn yr adran hon, mae angen i ni ystyried a yw'r cynnig yn cael unrhyw effaith uniongyrchol neu anuniongyrchol ar blant a phobl ifanc).***			
Gofyniad		**Pa dystiolaeth sydd wedi cael ei defnyddio i gefnogi'r farn hon?**	**Pa gamau gellir eu cymryd i leihau unrhyw effeithiau negyddol neu gefnogi unrhyw effeithiau positif?**
A fydd y cynnig yn cael unrhyw effaith (uniongyrchol neu anuniongyrchol) ar blant a phobl ifanc?	Bydd, pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, bydd yn cael effaith uniongyrchol ar y plant sy'n mynychu Ysgol Blaenau gan y bydd yn ofynnol iddynt drosglwyddo i ysgol arall. Gallai'r newid hwn effeithio ar eu hymdeimlad o ddiogelwch, cyfeillgarwch, ac arferion dyddiol. Mae effeithiau anuniongyrchol yn cynnwys newidiadau i drefniadau teithio ac effeithiau posibl ar fywyd teuluol. Mae **Erthygl 28 (Hawl i Addysg)** wedi'i hystyried gan fod y cynnig yn effeithio'n uniongyrchol ar ble y bydd plant yn derbyn eu haddysg. Mae'r Awdurdod Lleol wedi asesu a fydd mynediad at addysg yn cael ei gynnal ac yn nodi y byddai dysgwyr yn parhau	Data CYBLD (2026) sy'n dangos bod 28 o ddisgyblion ar y gofrestr. Erthygl 12 (parch at farn y plentyn) Mae gan bob plentyn yr hawl i fynegi ei farn, ei deimladau a'i ddymuniadau ym mhob mater sy'n effeithio arno, ac i'w farn gael ei hystyried a'i chymryd o ddifrif. Mae'r hawl hon yn berthnasol bob amser, er enghraifft yn ystod achosion mewnfudo, penderfyniadau am dai neu fywyd cartref y plentyn o ddydd i ddydd. Erthygl 28 (hawl i addysg) Mae gan bob plentyn yr hawl i addysg. Rhaid i addysg gynradd fod am ddim a rhaid i wahanol ffurfiau ar addysg	Datblygu cynllun pontio cynhwysfawr, gan gynnwys ymweliadau ymgyfarwyddo ag Ysgol Gymraeg Pen-y-groes ac Ysgol Llandybïe. Darparu cymorth bugeiliol ychwanegol i ddisgyblion yn ystod y cyfnod pontio. Sicrhau cyfathrebu clir â rhieni a disgyblion ynghylch amserlenni a threfniadau. Cynnig cyfleoedd i ddisgyblion gynnal perthynas â chyfoedion drwy weithgareddau ar y cyd cyn symud ysgol. Bydd copi o'r ddogfen ymgynghori i Blant a Phobl Ifanc yn cael ei roi i'r holl ddisgyblion, lle bydd cyfle i ddisgyblion (y cyngor ysgol o leiaf) gymryd rhan yn y broses.

	i gael mynediad at addysg gynradd cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Gymraeg Pen-y-groes neu ysgol arall a ddewisir gan y rhieni drwy'r broses dderbyn. Mae **Erthygl 29 (Nodau Addysg)** wedi'i hystyried oherwydd bod y cynnig yn ceisio rhoi mynediad i ddysgwyr at amrywiaeth ehangach o gyfleoedd addysgol, grwpiau cyfoedion mwy, cyfleusterau gwell a phrofiadau cwricwlaidd ac allgyrsiol ehangach, gan gefnogi datblygiad galluoedd a photensial pob plentyn. Mae **Erthygl 12 (Parch at Farn y Plentyn)** yn berthnasol oherwydd bydd disgyblion y mae'r cynnig yn effeithio arnynt yn cael cyfleoedd i fynegi eu barn yn ystod y broses ymgynghori. Mae **Erthygl 30 (Plant o Grwpiau Lleiafrifol)** wedi'i hystyried oherwydd bod y cynnig yn ymwneud ag addysg cyfrwng Cymraeg. Byddai'r cynnig yn cynnal mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg a chyfleoedd i	uwchradd fod ar gael i bob plentyn. Rhaid i ddisgyblaeth mewn ysgolion barchu urddas plant a'u hawliau. Rhaid i wledydd cyfoethocach helpu gwledydd tlotach i gyflawni hyn. Erthygl 29 (nodau addysg) Rhaid i addysg ddatblygu personoliaeth, talentau a galluoedd pob plentyn i'r eithaf. Rhaid i addysg annog parch y plentyn at hawliau dynol, yn ogystal â pharch at ei rieni, ei ddiwylliant ei hun a diwylliannau eraill, a'r amgylchedd. Erthygl 30 (plant o grwpiau lleiafrifol neu frodorol) Mae gan bob plentyn yr hawl i ddysgu a defnyddio iaith, arferion a chrefydd ei deulu, boed y rhain yn cael eu rhannu gan y mwyafrif o'r bobl yn y wlad lle mae'n byw ai peidio.	Datblygu cynlluniau pontio unigol ar gyfer disgyblion sy'n agored i niwed neu'n bryderus, yn enwedig y rheiny ag ADY.

	ddefnyddio'r Gymraeg drwy'r ddarpariaeth yn Ysgol Gymraeg Pen-y-groes.		
A ydy'r fenter wedi'i dylunio / chynllunio er budd pennaf plant a phobl ifanc?	Ydy, mae'r fenter wedi'i dylunio i wella deilliannau addysgol drwy drosglwyddo disgyblion i ysgol â mwy o ddisgyblion, lle gall disgyblion ryngweithio â mwy o ddisgyblion yn eu grwpiau blwyddyn a rhannu profiadau. Mae hefyd yn sicrhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg barhaus. Teilwra i heriau allweddol ysgolion unigol. Mae **Erthygl 3 (Budd Pennaf y Plentyn)** wedi cael ei hystyried trwy gydol y broses o ddatblygu'r cynnig. Mae'r Awdurdod Lleol wedi asesu goblygiadau addysgol, llesiant, hygyrchedd a chymunedol y cynnig ac mae o'r farn, at ei gilydd, bod y cynnig wedi'i fwriadu i gefnogi budd pennaf dysgwyr yn y tymor hir drwy ddarparu mynediad at addysg Gymraeg gynaliadwy, cyfleoedd addysgol ehangach, cyfleusterau gwell a	Mae Strategaeth y Rhaglen Moderneiddio Addysg yn blaenoriaethu addysg gynaliadwy o safon. Asesiad Effaith ar y Gymraeg sy'n cadarnhau parhad y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Erthygl 3 (budd pennaf y plentyn) Rhaid i fudd pennaf y plentyn fod yn brif flaenoriaeth ym mhob penderfyniad a gweithred sy'n effeithio ar y plant. Erthygl 23 (plant ag anabledd) Mae gan blentyn ag anabledd yr hawl i fyw bywyd llawn a gweddus gydag urddas a, chyn belled ag y bo'n bosibl, annibyniaeth a rhan weithgar yn y gymuned. Rhaid i lywodraethau wneud popeth o fewn eu gallu i gefnogi plant anabl a'u teuluoedd.	Cynnwys disgyblion yn y broses ymgynghori gan ddefnyddio deunyddiau sy'n briodol i'w hoedran. Darparu cymorth emosiynol a llesiant yn ystod y pontio ac ar ôl hynny. Monitro cynnydd a llesiant y disgyblion sy'n trosglwyddo i sicrhau deilliannau cadarnhaol. Cynnal cyfathrebu â rhieni i fynd i'r afael â phryderon yn brydlon.

	gwasanaethau cymorth gwell. Mae **Erthygl 23 (Plant ag Anableddau)** wedi'i hystyried oherwydd gall y cynnig effeithio ar ddysgwyr ag anableddau ac anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r Awdurdod Lleol wedi ystyried hygyrchedd yr ysgol sy'n derbyn, parhad darpariaeth ddysgu ychwanegol, mynediad at wasanaethau arbenigol a'r angen am drefniadau pontio unigol. Os bydd y cynnig yn cael ei weithredu, darperir cymorth priodol ac addasiadau rhesymol i sicrhau bod dysgwyr ag anableddau yn parhau i gael mynediad at addysg a chymryd rhan lawn ym mywyd yr ysgol. Mae **Erthygl 31 (Hamdden, Chwarae a Chyfranogiad mewn Bywyd Diwylliannol)** wedi'i hystyried gan y gallai'r cynnig effeithio ar gyfranogiad disgyblion mewn gweithgareddau hamdden, chwaraeon a diwylliannol. Mae'r Awdurdod Lleol o'r farn y byddai gan ddisgyblion sy'n trosglwyddo i Ysgol Gymraeg Pen-y-groes ac Ysgol Llandybïe fynediad at ystod	Erthygl 31 (hamdden, chwarae, a diwylliant) Mae gan bob plentyn yr hawl i ymlacio, chwarae a chymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau diwylliannol a chelfyddydol.	

	ehangach o gyfleoedd allgyrsiol, chwaraeon a diwylliannol, gan gynnwys cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau a digwyddiadau Cymraeg, gan gefnogi eu hawliau o dan Erthygl 31.		

Mae DEDDF YR AMGYLCHEDD (CYMRU) A CHARBON SERO NET Adran 6 y ddyletswydd yn datgan bod rhaid i awdurdodau cyhoeddus "*geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth...ac wrth wneud hynny hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau, i'r graddau y bo hynny'n gyson ag arfer y swyddogaethau hynny'n briodol". Er mwyn cydymffurfio â'r ddyletswydd adran 6, dylai awdurdodau cyhoeddus ymgorffori'r angen i ystyried bioamrywiaeth ac ecosystemau yn eu syniadau a'u cynlluniau busnes cychwynnol, gan gynnwys unrhyw bolisïau, cynlluniau, rhaglenni a phrosiectau, yn ogystal â'u gweithgareddau beunyddiol."*

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd ac yn cydnabod bod gennym ran bwysig i'w chwarae er mwyn lleihau ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr ein hunain a rhoi arweiniad er mwyn annog trigolion, busnesau a sefydliadau eraill i weithredu i leihau eu hôl troed carbon hwythau.

Gofyniad	
A ydy'r cynnig yn effeithio ar Fioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau'r sir?	Mae'r cynnig yn annhebygol o gael effaith sylweddol uniongyrchol ar fioamrywiaeth a gwydnwch yr ecosystem. Byddai cau Ysgol Blaenau yn golygu rhoi pwrpas newydd i adeilad presennol neu ei werthu yn hytrach na chreu datblygiad newydd, felly ni ddisgwylir tarfu mawr ar gynefinoedd. Fodd bynnag, dylai unrhyw ddefnydd o'r safle yn y dyfodol gydymffurfio â dyletswyddau bioamrywiaeth. Cynhyrchodd **Ysgol Blaenau**, a adeiladwyd yn **1907** ac sy'n cael ei gwresogi gan **system olew, 10.96 tunnell o CO_2e** yn **2024/25.** Arwynebedd llawr yr ysgol

	yw **673m²** ac mae ganddi **28 o ddisgyblion** ar y gofrestr ar hyn o bryd. Er bod ôl troed carbon cyffredinol yr adeilad yn is na rhai ysgolion mwy, gall gweithredu adeilad hŷn sydd â phoblogaeth gymharol fach o ddisgyblion ddal arwain at ddefnydd ynni aneffeithlon ac allyriadau uwch fesul disgybl. O dan y cynigion, byddai'r disgyblion yn trosglwyddo naill ai i **Ysgol Pen-y-groes**, sy'n ysgol fwy a adeiladwyd yn **1982** ac sy'n cael ei gwresogi gan olew, neu **Ysgol Llandybïe**, a adeiladwyd yn **1935** ac sy'n cael ei gwresogi gan nwy. Disgwylir i'r effeithiau trafnidiaeth posibl sy'n gysylltiedig â'r trosglwyddo barhau i fod yn gymedrol, gyda bws yn teithio taith unffordd nodweddiadol **1.8 milltir** i Ben-y-groes yn allyrru oddeutu **0.86 tunnell o CO_2e** y flwyddyn, neu daith **1.7 milltir** i Landybïe yn allyrru oddeutu **0.81 tunnell o CO_2e** y flwyddyn, yn seiliedig ar ffactorau trosi Llywodraeth y DU a 190 diwrnod ysgol y flwyddyn. Hyd yn oed pan ystyrir allyriadau trafnidiaeth, amcangyfrifir y bydd yr effaith gyffredinol yn lleihau allyriadau blynyddol oddeutu **10.10 tunnell o CO_2e** a **10.15 tunnell o CO_2e**, gyda gostyngiadau pellach y gellir eu cyflawni drwy fesurau datgarboneiddio yn y dyfodol, gan gynnwys technoleg pwmp gwres a gwelliannau i ffabrig adeiladu yn yr ysgolion sy'n derbyn. Gallai mwy o draffig o drafnidiaeth ysgol amharu ar gynefinoedd cyfagos. Fodd bynnag, mae'r effaith yn debygol o fod yn fach iawn gan mai'r disgwyl yw na fydd angen ehangu unrhyw seilwaith na cholli mannau gwyrdd ar gyfer y cynnig. Gallai cynnydd yn nifer y disgyblion gynhyrchu mwy o wastraff yn Ysgol Gymraeg Pen-y-groes ac Ysgol Llandybïe, fodd bynnag, byddai'r camau rheoli gwastraff effeithiol yn yr ysgol yn lliniaru effeithiau negyddol. Fodd bynnag, ar y cyfan, byddai'r effaith debygol yn niwtral oherwydd mai'r un nifer o ddisgyblion fyddai'n symud o un ysgol i'r llall. Er mwyn lleihau'r effaith amgylcheddol, bydd yr awdurdod lleol yn darparu opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy i'r rhai sy'n gymwys.
A ydy'r cynnig yn cael effaith bositif neu negyddol ar ymrwymiad CSC i fod yn awdurdod lleol carbon sero net erbyn 2030?	Gallai'r cynnig gael effaith negyddol fach oherwydd pellteroedd teithio cynyddol i ddisgyblion, gan arwain at allyriadau trafnidiaeth uwch. Fodd bynnag, mae hefyd yn dileu'r angen i gynnal a chynhesu adeilad ysgol arall, a allai leihau'r ôl troed carbon yn gyffredinol.

A ydy'r cynnig yn cael effaith bositif neu negyddol ar sut gall y Cyngor wrthsefyll effeithiau newid hinsawdd nawr ac yn y dyfodol?	Mae'r cynnig yn debygol o gael effaith niwtral ar ei allu i wrthsefyll. Gallai crynhoi'r ddarpariaeth addysg mewn dau adeilad yn hytrach na thri, yn dibynnu ar ddewis rhieni, leihau'r ôl troed carbon yn gyffredinol. Fodd bynnag, gallai mwy o ddibyniaeth ar gludiant wrthbwyso rhai manteision.	
DIOGELU DATA ***(Mae deddfwriaeth Diogelu Data yn cynnwys gofyniad cyfreithiol i gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data er mwyn nodi a lleihau risgiau preifatrwydd prosiect yn gynnar. Yn yr adran hon, mae angen i ni weld a oes angen cwblhau'r asesiad hwn ar gyfer y cynnig. Mae gofynion penodol hefyd ynglŷn â defnyddio trydydd partïon i brosesu data personol ar ran y Cyngor, a rhaid yw cael Cytundeb Prosesu Data sy'n rhwymol yn gyfreithlon ar eu cyfer).***		
A ydy'r cynnig yn golygu casglu/defnyddio data personol (gwybodaeth yn ymwneud â pherson y mae modd ei adnabod)?	Ydy	**Os 'ydy', rhowch wybodaeth am y math o ddata** Gofynnir am gyfeiriad e-bost neu gyfeiriad post os yw ymgyngoreion am gael gwybodaeth am gyhoeddi'r adroddiad ymgynghori. Bydd ymatebion i'r ymgynghoriad yn aros yn gyfrinachol.
A ydy'r cynnig yn gofyn am ddefnyddio technolegau newydd ac yn debygol o arwain at berygl sylweddol i hawliau a rhyddid yr unigolion?	Nac ydy	**Os 'ydy', rhowch wybodaeth am y math o dechnolegau newydd** Bydd dogfennau ymgynghori ar gael ar-lein ac fel copi papur yn yr ysgol os oes angen. Bydd ffurflenni ymateb ar gael ar-lein ac fel copi papur yn yr ysgol os oes angen.
A ydy'r cynnig yn golygu bydd trydydd parti yn casglu, yn derbyn, neu fel arall, yn cael mynediad at ddata personol a reolir gan y Cyngor?	Nac ydy	**Os 'ydy', rhowch wybodaeth am beth fydd hyn yn ei olygu**
Os ydych wedi ateb 'ydy' i unrhyw un o'r ystyriaethau hyn, siaradwch â'r Swyddog Diogelu Data i gychwyn Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data a/neu drafod a oes angen Cytundeb Prosesu Data.		

GOBLYGIADAU ***(Rhowch ystyriaeth i unrhyw oblygiadau ychwanegol a gwnewch yn siŵr fod y Cyfarwyddwyr / Penaethiaid Gwasanaeth priodol wedi cytuno ar unrhyw oblygiadau sy'n codi, ac y cyfeirir atynt yn fanwl isod)***	
	A oes unrhyw oblygiadau uniongyrchol y mae angen eu hystyried fel rhan

	o'r cynnig hwn?
1. Cyfreithiol a Rheoli Risg	Os caiff ei gymeradwyo, cychwynnir ar yr ymgynghori'n unol â'r gweithdrefnau statudol perthnasol yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026). Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion 2026 yn nodi mai "prif bwrpas ysgolion yw darparu addysg a dylai unrhyw achos dros gau fod yn gadarn ac er budd y ddarpariaeth addysgol yn yr ardal."
2. Cyllid, Caffael, TGCh ac Asedau Ffisegol	**<u>Refeniw Cyllid</u>** Mae sefyllfa ariannol bresennol yr ysgol yn ogystal â'r cyllidebau a ragwelir wedi'u hystyried fel rhan o bapurau'r cynnig. Pe bai'r cynigion yn mynd rhagddynt, a phe chytunid iddynt gael eu rhoi ar waith, yr arbedion refeniw blynyddol disgwyliedig i Ysgol Blaenau fyddai £32,184. Yn ogystal, mae arbedion eraill i'r Cyngor o'r gostyngiad mewn gwasanaethau cymorth canolog a ddarperir i ysgolion fel Adnoddau Dynol, Addysg a Chymorth ADY, TG, Gwasanaeth Cerdd, glanhau, cynnal a chadw eiddo, cynnal a chadw tiroedd ac arlwyo. Roedd Arolwg Cyflwr Adeiladau 2023 ar gyfer Ysgol Blaenau yn rhagweld gwariant cynnal a chadw wedi'i gyfalafu o £310,802 dros gyfnod o bum mlynedd. Byddai hyn yn arwain at arbediad i'r Cyngor pe bai'r ysgol yn cau. Mae'r Gwasanaeth Arlwyo yn darparu clwb brecwast £6,718 i ddisgyblion a gwasanaeth cinio £27,950 am gyfanswm cost flynyddol i'r Awdurdod Lleol o £34,668. Er bod hyn yn cael ei wrthbwyso gan y grant gan Lywodraeth Cymru o £9,885 i ddarparu prydau bwyd, mae arbediad net i'r gwasanaeth, ac felly i'r Cyngor o £24,783. Bydd grant Llywodraeth Cymru o £9,885 ar gyfer prydau bwyd yn symud gyda'r disgyblion i'w hysgol newydd. Mae'n annhebygol y bydd costau

	ychwanegol o ran darparu'r prydau bwyd yn yr ysgol hynny, felly bydd cost net darparu'r gwasanaeth yn lleihau yn yr ysgol sy'n derbyn. Unwaith eto, mae'r gyllideb hon ar wahân i gyllideb ddirprwyedig gyffredinol yr ysgolion. Pe bai'n cael ei gymeradwyo, o ganlyniad, byddai cyfanswm o £149,886 yn cael ei drosglwyddo i'r ysgol sy'n derbyn yn unol â chyllid disgyblion. **<u>Cyfalaf Cyllid</u>** Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, a phe chytunid iddo gael ei roi ar waith, byddai gan yr Awdurdod Lleol adeilad ysgol diangen yn ei ystad. Os nad oes diddordeb corfforaethol neu gymunedol mewn cadw'r adeilad yn unol â'r polisi Defnyddio/Gwaredu Tir ac Adeiladau Diangen yn y Dyfodol, yna byddai'r adeilad yn cael ei roi ar y farchnad agored a gallai gynhyrchu derbyniad cyfalaf o oddeutu £175,000. **<u>Asedau Ffisegol</u>** Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, a phe chytunid iddo gael ei roi ar waith, byddai gan yr Awdurdod Lleol adeilad ysgol diangen yn ei ystad. Byddai'r eiddo yn cael ei drosglwyddo i'r Is-adran Eiddo Corfforaethol er mwyn gweithredu'r gweithdrefnau a amlinellwyd yn y polisi ynghylch Defnyddio/Gwaredu Tir ac Adeiladau Diangen yn y Dyfodol o ganlyniad i'r Rhaglen Moderneiddio Addysg. Datblygwyd y polisi hwn er mwyn gallu cynnig yr ased i'r gymuned yn gyntaf oll cyn gosod y safle ar y farchnad agored. Bydd unrhyw dderbyniad cyfalaf a geir o ganlyniad i werthu'r ysgol yn cael ei ailfuddsoddi yn y Rhaglen Moderneiddio Addysg.
3. Staffio	Nid yw'r penderfyniad i gynnig cau ysgol byth yn cael ei wneud ar chwarae bach, ac rydym yn cydnabod yn llawn yr effaith sylweddol y gall cynigion o'r fath

	ei chael ar y staff sy'n gweithio yno. Ein blaenoriaeth bob amser yw lleihau tarfu a chefnogi ein staff drwy unrhyw gyfnod o newid. Yn unol â'n Polisi Dileu Swyddi / Staff Gormodol Enghreifftiol ar gyfer Ysgolion, rydym wedi ymrwymo i wneud popeth o fewn ein gallu i osgoi dileu swyddi yn orfodol. Mae hyn yn cynnwys archwilio'r holl gyfleoedd adleoli posibl o fewn y rhwydwaith ysgolion ehangach a'r awdurdod lleol, cynnig dileu swyddi yn wirfoddol neu ymddeoliad cynnar lle bo hynny'n briodol, a gweithio'n agos gydag undebau llafur drwy gydol y broses. Fodd bynnag, er y byddwn yn gwneud pob ymdrech i adleoli staff yr effeithir arnynt, ni allwn ddiystyru'n llwyr y posibilrwydd o ddileu swyddi.Pan nad yw adleoli ym ymarferol, byddwn yn dilyn proses deg a thryloyw ac yn cefnogi'r rheiny yr effeithir arnynt. Rydym yn deall bod hyn yn creu ansicrwydd i staff a'u teuluoedd, ac rydym wedi ymrwymo i gyfathrebu'n glir, a darparu diweddariadau amserol a mynediad at wasanaethau cymorth drwy gydol y broses. Bydd ein tîm Adnoddau Dynol yn gweithio'n agos gyda Phenaethiaid a Chyrff Llywodraethu i sicrhau bod yr holl staff yn cael eu trin ag urddas a pharch drwy gydol y broses.
4. Marchnata a'r Cyfryngau	Os caiff ei gymeradwyo, bydd angen marchnata'r ymgynghoriad trwy wefan y Cyngor Sir a'r cyfrifon cyfryngau cymdeithasol. Rhoddir gwybod i'r holl randdeiliaid gofynnol.
5. Troseddau ac Anhrefn	Ni ddisgwylir unrhyw oblygiadau.

Atodiad D - Ffurflen Ymateb

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn ymgynghori ar y cynnig i:

- Cau Ysgol Blaenau o 31 Rhagfyr 2027 a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Gymraeg Pen-y-groes neu Ysgol Llandybïe.

Mae'r ffurflen ymateb hon yn rhoi cyfle i chi wneud sylwadau ar y cynnig a'r opsiynau amgen a gyflwynwyd, ac awgrymu opsiynau amgen ychwanegol. Gwahoddir ymgyngoreion i gyflwyno sylwadau ar y cynnig a'r opsiynau amgen a nodwyd yn lle cau'r ysgol, yn ogystal â chynnig opsiynau eraill a allai fynd i'r afael â'r rhesymau dros ei chau (sef yr heriau allweddol y mae'r ysgol yn eu hwynebu y mae'r cynigydd yn ceisio mynd i'r afael â nhw).

Gall ymgyngoreion gyflwyno'u sylwadau o blaid neu yn erbyn cynnig.

Ni fydd yr ymatebion a geir yn ystod y cyfnod ymgynghori yn cael eu hystyried yn wrthwynebiadau statudol. Os dymunwch wrthwynebu, bydd angen i chi wneud hynny'n ysgrifenedig yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol.

---

1. Ydych chi'n ymateb fel:

☐ Rhiant/gofalwr neu warcheidwad

☐ Darpar riant/gofalwr neu warcheidwad

☐ Llywodraethwr

☐ Staff

☐ Aelod o'r gymuned

☐ Cyngor Cymuned

☐ Arall: Nodwch _____

2. Ydych chi'n cefnogi'r cynnig?

☐ Ydw ☐ Na

3. Teimlwch yn rhydd i rannu unrhyw sylwadau neu resymau dros eich ateb gan gynnwys unrhyw effaith yr ydych yn credu y gallai'r cynnig ei chael (dewisol)

4. Oes unrhyw opsiynau eraill y dylai'r Awdurdod Lleol fod yn eu hystyried ar gyfer Ysgol Blaenau?

☐ Oes ☐ Nac oes

Os oes, esboniwch yr opsiwn arall/opsiynau eraill:

5. Yn ôl Safonau'r Gymraeg mae'n ofynnol i ni ystyried effeithiau unrhyw benderfyniadau polisi ar y Gymraeg.

a. Yn eich barn chi, pa effeithiau cadarnhaol neu niweidiol fyddai'r cynnig hwn yn eu cael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

b. Yn eich barn chi, sut allai'r cynnig gael ei lunio neu ei newid fel y byddai'n cael effeithiau cadarnhaol neu fwy cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

c. Yn eich barn chi, sut allai'r cynnig gael ei lunio neu ei newid fel na fyddai'n cael effaith niweidiol neu'n cael effaith lai niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

d. Yn eich barn chi, pa effaith, os o gwbl, fyddai'r cynnig yn ei chael ar gyfleoedd i ddefnyddio a datblygu'r Gymraeg?

6. Ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori, bydd Adroddiad Ymgynghori yn cael ei gyhoeddi a fydd yn crynhoi'r materion a nodwyd gan yr ymgyngoreion ac ymateb yr Awdurdod Lleol i'r materion hynny.

Hoffech chi gael gwybod am gyhoeddi'r Adroddiad Ymgynghori:

☐ Hoffwn ☐ Na hoffwn

Os hoffech chi gael gwybod, rhowch gyfeiriad e-bost neu gyfeiriad post a dewis iaith (Cymraeg/Saesneg):

Diolch am lenwi'r ffurflen ymateb.

Dylid anfon ffurflenni ymateb wedi'u llenwi i'r cyfeiriad canlynol:

Mr Owain Lloyd,
Cyfarwyddwr Addysg a Hamdden,
Neuadd y Sir,
Rhiw'r Castell,
Caerfyrddin

SA31 1JP

neu mewn e-bost at RhMYYmgynghoriadau@sirgar.gov.uk

Fel arall, gallwch lenwi'r ffurflen hon ar-lein Arolwg Snap

Dychwelwch eich ymateb erbyn 22 Rhagfyr 2026. Ni fydd ymatebion sy'n dod i law ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu hystyried.